

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 18/02/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)

[Motion to Elect Members to Committees](#)

[PISA 2012—Y Wybodaeth Ddiweddaraf](#)

[PISA 2012—Update](#)

[Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adolygiad o Ddarparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor](#)

[Update on the Review of Council Tax Support](#)

[Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Dileu TB mewn Gwartheg](#)

[Bovine TB Eradication Programme Update](#)

[Setliad yr Heddlu 2014-15](#)

[The Police Settlement 2014-15](#)

[Dyfodol Ein Gorffennol—Cyfeiriadau Newydd ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru](#)

[The Future of Our Past—New Directions for the Historic Environment In Wales](#)

[Cynnig i Gytuno ar Femorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol](#)

[Motion to Agree the Welsh Government Memorandum on the Legislative Consent Process](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)

[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

#### 13:30 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

#### **Questions to the First Minister**

**Y** [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

##### **Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

##### **Gwasanaethau Ambiwllans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed**

##### **Ambulance Services in Brecon and Radnorshire**

#### 13:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1507(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on ambulance services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1507(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

#### 13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I am encouraged to note that the latest available ambulance response time figures show that category A performance in Powys was better in December 2013 than for the same period in 2012.

Gwnaf. Mae'n galonogol nodi bod y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar amseroedd ymateb ambiwlansys yn dangos bod perfformiad categori A ym Mhowys yn well yn Rhagfyr 2013 nag ar gyfer yr un cyfnod yn 2012.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i></p> <p>First Minister, figures recently released by the Welsh Ambulance Services NHS Trust showed that ambulances in Powys are answering almost one fifth of their calls in other local health board areas. That means that many of my constituents are potentially being left without proper ambulance cover. When I raised this issue with you last June, you said that you would investigate the matter. What did those investigations reveal?</p>	<p>Brif Weinidog, dangosodd ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru bod ambiwlansys ym Mhowys yn ateb bron i un o bob pump o'u galwadau mewn ardaloedd byrddau iechyd lleol eraill. Mae hynny'n golygu ei bod yn bosibl bod llawer o'm hetholwyr yn cael eu gadael heb wasanaeth ambiwlans priodol. Pan godais y mater hwn gyda chi fis Mehefin diwethaf, dywedasoch y byddech yn ymchwilio i'r mater. Beth a ddatgelwyd gan yr ymchwiliadau hynny?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:31	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>There is no reason to suggest that there is a lack of cover in Powys and we see that because of the figures that I have just mentioned to the Member from December of last year. In terms of responses, including, of course, air ambulance responses, we know that people in Powys do get to hospital quickly when they need to, despite the rurality of the county. Of course, there will be some communities where ambulances do cross the LHB borders, if I can put it like that, or even the county boundaries, where that is necessary. However, that does not necessarily mean that there will be a lack of cover elsewhere in any other county.</p>	<p>Nid oes unrhyw reswm i awgrymu bod diffyg yn y gwasanaeth ym Mhowys ac rydym ni'n gweld hynny oherwydd y ffigurau yr wyf newydd eu crybwyll i'r Aelod o fis Rhagfyr y llynedd. O ran ymatebion, gan gynnwys, wrth gwrs, ymatebion ambiwlansys awyr, rydym yn gwybod bod pobl ym Mhowys yn cyrraedd yr ysbyty yn gyflym pan fo angen iddynt wneud hynny, er gwaethaf natur wledig y sir. Wrth gwrs, bydd rhai cymunedau lle mae ambiwlansys yn croesi ffiniau BILL, os gallaf ei roi felly, neu hyd yn oed y ffiniau sirol, pan fo hynny'n angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y bydd diffyg gwasanaeth mewn mannau eraill mewn unrhyw sir arall.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, the problems in the ambulance service are not confined to Brecon and Radnorshire. In fact, what we have found is that there are problems across Wales, including in Bodelwyddan, where 13 ambulances were stacked up outside the hospital—</p>	<p>Brif Weinidog, nid yw'r problemau yn y gwasanaeth ambiwlans wedi eu cyfyngu i Frycheiniog a Sir Faesyfed. Mewn gwirionedd, yr hyn yr ydym ni wedi ei ganfod yw bod problemau ledled Cymru, gan gynnwys ym Modelwyddan, lle'r oedd 13 o ambiwlansys wedi'u pentyrru y tu allan i'r ysbyty—</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Darren Millar, I have cut your microphone off, because we are talking about Brecon and Radnorshire and not doing examples of other geographical areas.</p>	<p>Darren Millar, rwyf wedi diffodd eich meicroffon, gan ein bod yn siarad am Frycheiniog a Sir Faesyfed ac nid enghreifftiau o ardaloedd daearyddol eraill.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am merely making the point that the ambulance service is under pressure.</p>	<p>Y cwbl rwy'n ei wneud yw gwneud y pwynt bod y gwasanaeth ambiwlans dan bwysau.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Please move on with the question.</p>	<p>Symudwch ymlaen â'r cwestiwn os gwelwch yn dda.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>That is as a result largely of the record-breaking cuts that your Government has imposed upon the Welsh national health service. What action are you taking to remedy that situation to ensure that our unscheduled care performance can improve and what lessons can you learn from looking across the border where the performance of the ambulance service is a darn sight better than here in Wales?</p>	<p>Mae hynny i raddau helaeth o ganlyniad i'r toriadau mwyaf erioed y mae eich Llywodraeth wedi eu gorfodi ar wasanaeth iechyd gwladol Cymru. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i ddatrys y sefyllfa honno er mwyn sicrhau y gall ein perfformiad o ran gofal heb ei drefnu wella a pha wersi y gallwch chi eu dysgu o edrych ar draws y ffin lle mae perfformiad y gwasanaeth ambiwlans gryn dipyn yn well nag yma yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:33	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I think it is important that, where somebody is on the front bench of any party, they understand that Bodelwyddan is not in Brecon and Radnorshire. That is clearly a requirement, I would say. He talks about record-breaking cuts forgetting, of course, the fact that his own party has imposed cuts of £20 billion on the NHS in England. Of course, in England, they are called 'efficiencies' but the effect is very much the same. Smoke and mirrors is what we see there. We know that the audit office has said that reliance should not be placed on the figures that are used in England, particularly for referral-to-treatment times. So, we take no lessons from the party opposite; we know that in their heart of hearts the NHS is simply not important to them.</p>	<p>Rwy'n credu ei bod yn bwysig, pan fo rhywun ar fainc flaen unrhyw blaid, eu bod yn deall nad yw Bodelwyddan ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Mae hynny'n amlwg yn ofyniad, yn fy meddwl i. Mae'n sôn am doriadau mwyaf erioed gan anghofio, wrth gwrs, y ffaith fod ei blaid ef ei hun wedi gwneud toriadau o £20 biliwn i'r GIG yn Lloegr. Wrth gwrs, yn Lloegr, fe'u gelwir yn 'arbedion effeithlonrwydd', ond tebyg iawn yw'r effaith. Castiau twyllodrus yw'r hyn a welwn yno. Rydym yn gwybod bod y swyddfa archwilio wedi dweud na ddylid dibynnu ar y ffigurau sy'n cael eu defnyddio yn Lloegr, yn enwedig ar gyfer amseroedd atgyfeirio-i-driniaeth. Felly, nid ydym yn derbyn unrhyw wersi gan y blaid gyferbyn; rydym yn gwybod, pe bydden nhw'n bod yn onest â'u hunain, nad yw'r GIG yn bwysig iddynt.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:33	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Nid oes ysbyty cyffredinol ychwaith y tu fewn i ffiniau Brycheiniog a Maesyfed na Phowys, ac felly mae cleifion yn gorfod cael eu cludo i ysbytai cyfagos. Mae'r ysbytai hynny o dan adolygiad ar hyn o bryd, o Ffronglais reit lawr i dde Cymru. O fewn y cyd-destun hwnnw, mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi cyfaddef y bydd yn rhaid i gleifion dreulio mwy o amser yn cael eu cludo ymhellach, ac mae'n benodol wedi cyfaddef y bydd hyn yn golygu mwy o hyfforddiant a mwy o sgiliau ar gyfer rhai o'r staff. Gan fod y gwasanaeth ambiwlans yn dioddef eisoes o salwch sy'n ddwywaith yn fwy na gwasanaethau brys eraill megis yr heddlu, ym mha ffordd yr ydych chi'n mynd i sicrhau, Brif Weinidog, fod y staff a'r sgiliau angenrheidiol yno ar gyfer y teithiau hirach hyn mewn ambiwlansys sy'n dod yn sgîl ad-drefnu ysbytai?</p>	<p>There is no general hospital either within the boundaries of Brecon and Radnorshire or Powys and therefore patients have to be taken to nearby hospitals. Those hospitals are currently under review, from Bronglais right the way down to south Wales. In that context, the ambulance service has admitted that patients will have to spend longer being transported over greater distances, and it has specifically admitted that this will require more training and enhanced skills for certain staff. As the ambulance service is already suffering because of levels of sickness that are twice that of other emergency services such as the police, how will you ensure, First Minister, that the staff and the necessary skills are in place for these longer journeys in ambulances that will come about as a result of the reorganisation of hospitals?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Dau beth: nid yw'n dilyn y bydd pobl yn gorfod trafaelio ymhellach mewn ambiwlans, gan fod ambiwlans awyr ar gael. Mae hynny wedi bod yn wir ym Mhowys am amser hir, ac rydym yn gwybod ei bod hi'n hollol naturiol ym Mhowys i argyfyngau o ran genedigaeth babis—</p>	<p>Two things: it does not follow that people will have to travel further in an ambulance, because the air ambulance is available. That has been true for Powys for a long time, and we know that it is entirely natural in Powys, where emergencies in terms of childbirth take place—</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call question 2, from Jenny Rathbone.</p>	<p>Galwaf am gwestiwn 2, gan Jenny Rathbone.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Sorry, I am just wondering why—</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf, rwy'n meddwl tybed pam—</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Sorry. I do beg your pardon, First Minister.</p>	<p>Mae'n ddrwg gen i. Maddeuwch i mi, Brif Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I do need to answer the question.</p>	<p>Mae angen i mi ateb y cwestiwn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

Mae argyfyngau o ran babis yn cael eu trin lle mae'r mamau yn mynd i ysbytai yn Lloegr, neu weithiau yng Nghymru, yn yr ambiwlans awyr. Felly, mae hynny'n bosibl i bobl. Credaf fod sgiliau da gan y 'paramedics' yn barod yng Nghymru, ond lle bydd yn rhaid ystyried neu ailystyried y sgiliau sydd ganddynt, byddwn i'n erfyn i'r ymddiriedolaeth wneud hynny.

There are emergencies in terms of childbirth where mothers are taken to hospitals in England, or sometimes in Wales, by air ambulance. So, that is a possibility for people. I do think that the paramedics already have good skills in Wales, but where we need to consider or reconsider that skillset, we would expect the trust to do that.

## Gwasanaethau Cyhoeddus

## Public Services

13:35

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwarchod gwasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol er mwyn darparu mwy gyda llai am y dyfodol y gellir ei ragweld? OAQ(4)1503(FM)*

*2. What can the Welsh Government do to ensure that local authorities are future proofing public services to deliver more with less for the foreseeable future? OAQ(4)1503(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:35

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Each local authority, of course, is responsible for ensuring the sustainability of the services that it delivers to individuals, families and communities. However, we are supporting local authorities to do this through legislation, policy and funding, aligned to the programme for government.

Mae pob awdurdod lleol, wrth gwrs, yn gyfrifol am sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau y mae'n eu darparu i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi awdurdodau lleol i wneud hyn trwy ddeddfwriaeth, polisi a chyllid, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rhaglen ar gyfer llywodraethu.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:35

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The recent Wales Audit Office report on the financial challenges facing local authorities indicates that only a quarter are looking beyond the immediate budget-setting process, when we know that this is not just a short-term challenge. So, what can we do to promote a much more strategic conversation with local communities as to what services communities want and how we can deliver them sustainably?

Mae adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ar yr heriau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn dynodi mai dim ond chwarter sy'n edrych y tu hwnt i'r broses o bennu cyllideb tymor byr, er ein bod yn gwybod nad her ar gyfer y tymor byr yn unig yw hon. Felly, beth y gallwn ni ei wneud i hybu sgwrs llawer mwy strategol gyda chymunedau lleol ynghylch pa wasanaethau mae cymunedau eu heisiau a sut y gallwn eu darparu'n gynaliadwy?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:36

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, it is for local authorities to deliver those services that are within their responsibilities. However, as the Member will know, the Government's view is that there needs to be a restructuring of local government in Wales. Once that process is done, I believe that it will be a situation where services are far more able to be delivered sustainably and safely in the future than is the case now.

Wel, wrth gwrs, mater i awdurdodau lleol yw darparu'r gwasanaethau hynny sydd o fewn eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, barn y Llywodraeth yw bod angen ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru. Ar ôl i'r broses honno gael ei chyflawni, rwy'n credu y bydd mewn sefyllfa lle y bydd yn llawer haws i ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy ac yn ddiogel yn y dyfodol na'r hyn sy'n wir ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:36

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Co-production Wales has said that the futureproofing of services requires a change in service delivery, breaking down barriers between people who provide services and those who use them. How, therefore, do you respond to its call for explicit links between service providers and citizens and communities, designing delivering services together, and sharing budgets?

Mae Cydgynhyrchu Cymru wedi dweud ei bod yn ofynnol i newid y modd o ddarparu gwasanaethau gan ddileu'r rhwystrau rhwng pobl sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio, er mwyn sicrhau gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Sut, felly, ydych chi'n ymateb i'w alwad am gysylltiadau clir rhwng darparwyr gwasanaeth a dinasyddion a chymunedau, gan gynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau gyda'i gilydd, a rhannu cyllidebau?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
It is important, of course, that there is collaboration and budget sharing, where that is appropriate. We would seek to ensure that, where services are made available to members of the public, either via local authorities or other public bodies, they work with the service recipients in order to ensure that the service is appropriate for the individual.
- Mae'n bwysig, wrth gwrs, y ceir cydweithio a rhannu cyllideb, pan fo hynny'n briodol. Byddem yn ceisio sicrhau, pan fo gwasanaethau yn cael eu rhoi ar gael i'r cyhoedd, naill ai drwy awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill, eu bod yn gweithio gyda'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i'r unigolyn.
- 13:37 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Gan gyfeirio at yr un adroddiad ag yr oedd Jenny Rathbone yn sôn amdano, mae'r swyddfa archwilio yn feirniadol iawn o fethiant awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r heriadau. Fodd bynnag, wrth ddisgrifio arfer da mewn un cyngor, mae'r adroddiad yn dweud bod y cyngor yn cael budd o arweinyddiaeth ariannol gadarn, a'i fod wedi profi cryn lwyddiant o ran cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. A fydddech yn ymuno â mi i longyfarch yr arweinyddiaeth a'r swyddogion yng Nghyngor Gwynedd ar eu gwledigaeth a'u llwyddiant?
- Referring to the report that Jenny Rathbone mentioned, the audit office is highly critical of the failure of local authorities to tackle these challenges. However, in describing good practice in one council, the report states that the council benefits from robust financial management and has had some success in terms of planning effectively for the future. Would you join me in congratulating the leadership and officials in Gwynedd Council on their vision and success?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Roeddwn yn gweld hynny'n dod o bell. Rhoddaf glod i unrhyw awdurdod lleol sy'n sicrhau ei fod yn deall beth yw'r heriau. Mae hynny'n wir, wrth gwrs, am Wunedd, ac mae'n wir am sawl awdurdod arall.
- I could see that coming from a long way off. I praise any local authority that ensures that it understands the challenges ahead. That is true, of course, of Gwynedd, and it is true of a number of other authorities.
- Cwestiynau heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau** **Questions without Notice from the Party Leaders**
- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.
- Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.
- 13:38 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*  
First Minister, last week, the south Wales programme revealed its proposals for the withdrawal of critical health services from some of our hospitals, and you have fully supported its plans. You have repeatedly claimed that medical professionals themselves support centralisation. Now that Cwm Taf Local Health Board has voiced unprecedented opposition to the proposals for the Royal Glamorgan Hospital, confirming that there is no universal consensus among medical professionals, will the final decision on the future of the Royal Glamorgan Hospital be made by the Minister for Health and Social Services?
- Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, datgelodd rhaglen de Cymru ei chynigion ar gyfer tynnu gwasanaethau iechyd hanfodol o rai o'n hysbytai, ac rydych chi wedi cefnogi ei chynlluniau'n llawn. Rydych chi wedi honni dro ar ôl tro bod gweithwyr meddygol proffesiynol eu hunain yn cefnogi canoli. Nawr bod Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf wedi lleisio gwrthwynebiad digyffelyb i'r cynigion ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan gadarnhau nad oes unrhyw gonsensws cyffredinol ymhlith gweithwyr meddygol proffesiynol, a fydd y penderfyniad terfynol ar ddyfodol Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei wneud gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Yes, the Minister for health, of course, has the responsibility to ensure that the health service is safe and sustainable in the future.
- Bydd. Y Gweinidog iechyd, wrth gwrs, sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

13:39

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, First Minister. It has become clear that the consensus that you claimed on this matter never did exist. There is no consensus, even in your own party. The current Member of Parliament for the Rhondda is saying that he is not happy, and that assumptions that were made in the reaching of the hospital downgrade proposals are a mistake. I have good reason to believe also that there are members of your own party sitting behind you who share those views. First Minister, will you show some leadership today, and assure us that we will not see any more Labour Party banners proclaiming your party's opposition to the south Wales programme? Will you give us an undertaking that your party will be straight with people on health from now on?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Mae wedi dod yn amlwg nad oedd y consensws i chi ei honni ar y mater hwn erioed yn bodoli. Nid oes consensws, hyd yn oed yn eich plaid eich hun. Mae'r Aelod Seneddol cyfredol dros y Rhondda yn dweud nad yw'n hapus, a bod y tybiaethau a wnaed wrth lunio'r cynigion israddio ysbytai yn gamgymeriad. Mae gen i reswm da i gredu hefyd bod aelodau o'ch plaid eich hun sy'n eistedd y tu ôl i chi yn rhannu'r safbwyntiau hynny. Brif Weinidog, a wnewch chi ddangos rhywfaint o arweinyddiaeth heddiw, a'n sicrhau na fyddwn yn gweld mwy o faneri'r Plaid Lafur yn cyhoeddi gwrthwynebiad eich plaid i raglen de Cymru? A wnewch chi roi ymrwymiad i ni y bydd eich plaid yn onest am iechyd gyda phobl o hyn ymlaen?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:40

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have been straight with people. The issue is that your party has not been on any number of occasions, I have to say. Of course, the Minister for health will take decisions with regard to the final structure if certain circumstances are met. We hope that there will be agreement. If there is not agreement that will have to be looked at, or, of course, if there is a referral by a community health council, that will have to be looked at. However, what we want, of course, is to ensure that there is a sustainable health service across the whole of that part of south Wales in the future. That means looking at every hospital, not just focusing on the Royal Glamorgan, as she does.

Rydym ni wedi bod yn onest â phobl. Y broblem yw nad yw eich plaid chi wedi bod yr un mor onest ar nifer fawr o achlysuron, mae'n rhaid i mi ddweud. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog iechyd yn gwneud penderfyniadau o ran y strwythur terfynol os bydd amgylchiadau penodol yn cael eu bodloni. Rydym yn gobeithio y bydd cytundeb. Os nad oes cytundeb, yna bydd yn rhaid edrych ar hynny, neu, wrth gwrs, os oes atgyfeiriad gan gyngor iechyd cymuned, bydd yn rhaid edrych ar hynny. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym ni ei eisiau, wrth gwrs, yw sicrhau bod gwasanaeth iechyd cynaliadwy ar draws y rhan gyfan honno o dde Cymru yn y dyfodol. Mae hynny'n golygu edrych ar bob ysbyty, nid canolbwyntio ar Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn unig, fel y mae hi'n ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:40

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will know, First Minister, that most attempts at reconfiguration are now ending up with costly judicial reviews. It is likely that the south Wales proposals will end up in the courts too. First Minister, your party is split, your plans have been rejected by the public, and senior health managers are in disagreement, as are medics. First Minister, this situation is a mess that you could end right now. Instead of pushing your deeply unpopular hospital centralisation plans, do you not think that now is the time to focus instead on boosting NHS recruitment, sorting out our ambulance service, and merging health and social care as proposed by Plaid Cymru?

Byddwch yn gwybod, Brif Weinidog, fod y rhan fwyaf o ymdrechion i ad-drefnu yn arwain at adolygiadau barnwrol costus bellach. Mae'n debygol y bydd y cynigion yn ne Cymru yn mynd i'r llysoedd hefyd yn y pen draw. Brif Weinidog, mae eich plaid wedi'i hollti, mae eich cynlluniau wedi eu gwrthod gan y cyhoedd, ac mae uwch reolwyr iechyd yn anghytuno, fel y mae meddygon. Brif Weinidog, mae'r sefyllfa hon yn llanast y gallech chi roi terfyn arno yn syth. Yn hytrach na gwrthio eich cynlluniau canoli ysbytai hynod amhoblogaidd, onid ydych chi'n credu mai nawr yw'r amser i ganolbwyntio yn hytrach ar hybu'r broses recriwtio i'r GIG, cael trefn ar ein gwasanaeth ambiwlans, ac uno iechyd a gofal cymdeithasol fel y cynigiwyd gan Plaid Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



13:41

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The problem that she has, of course, is that we are trying to create a health service in Wales that will be attractive for people to work in. What she wants is no change and she will see a complete collapse of services in time. All the time they claim that consultants do not support what the Government is doing. The majority of consultants do: that is a fact. You should talk to more consultants, as I do, in the whole of south Wales, and they would tell you that it is important that we have hospitals that are able to offer the right level of training, that there is enough throughput of cases, which you cannot increase artificially, and that doctors can find a hospital that is able to offer them an opportunity to practise. What she wants is a second-class health service. She wants hospitals that are staffed with doctors that are not properly trained or hospitals that are understaffed; that is more important than having doctors with the right level of expertise. I will give her one example. What was her party's view on the centralisation of stomach and oesophageal cancer operations? It was against it. What happened? A 20% increase in survival rates. However, they would prefer to keep services local—even if those services are worse than when you can create services in centres of excellence—rather than say to the people of Wales that there are some services that have to be centralised in order that more people should live. That is the important aspect here. For her party, what is more important is that it is able to play political games rather than deliver services— [Interruption.]

Y broblem sydd ganddi, wrth gwrs, yw ein bod yn ceisio creu gwasanaeth iechyd yng Nghymru a fydd yn ddeniadol i bobl weithio ynddo. Yr hyn y mae hi ei eisiau yw dim newid a bydd yn gweld gwasanaethau'n chwalu'n gyfan gwbl yn y pen draw. Maen nhw'n honni drwy'r amser nad yw ymgynghorwyr yn cefnogi'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o ymgynghorwyr yn ei gefnogi: mae hynny'n ffaith. Dylech chi siarad â mwy o ymgynghorwyr, fel rwyf i'n ei wneud, yn ne Cymru gyfan, a byddent yn dweud wrthyfch ei bod yn bwysig bod gennym ysbytai sy'n gallu cynnig y lefel gywir o hyfforddiant, bod digon o achosion yn mynd drwy'r ysbytai, na allwch chi ei gynyddu'n artifisial, ac y gall meddygon ddod o hyd i ysbyty sy'n gallu cynnig cyfle iddyn nhw ymarfer. Yr hyn y mae hi ei eisiau yw gwasanaeth iechyd ail ddosbarth. Mae hi eisiau ysbytai sydd wedi eu staffio gan feddygon nad ydynt wedi eu hyfforddi'n briodol neu ysbytai nad oes ganddynt ddigon o aelodau staff; mae hynny'n bwysicach na chael meddygon â'r lefel gywir o arbenigedd. Rhoddaf un enghraifft iddi. Beth oedd barn ei phlaid hi ar ganoli llawdriniaethau canser ystumog a'r oesoffagws? Roedd hi'n ei wrthwynebu. Beth ddigwyddodd? Cynnydd o 20% i'r cyfraddau goroesi. Fodd bynnag, byddai'n well ganddyn nhw gadw gwasanaethau yn lleol—hyd yn oed os yw'r gwasanaethau hynny yn waeth na phan allwch chi greu gwasanaethau mewn canolfannau rhagoriaeth—yn hytrach na dweud wrth bobl Cymru bod rhai gwasanaethau y mae'n rhaid eu canoli fel y gall mwy o bobl fyw. Dyna'r agwedd bwysig yma. I'w phlaid hi, yr hyn sy'n bwysicach yw ei bod yn gallu chwarae gemau gwleidyddol yn hytrach na darparu gwasanaethau- [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order.

Trefn, trefn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—that will ensure more people have a better outcome. That is secondary to their own considerations.

[Parhau.]—a fydd yn sicrhau canlyniadau gwell i fwy o bobl. Mae hynny'n eilaidd i'w dymuniadau hwy eu hunain.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, last April I asked you about the number of ambulances waiting hours outside A&E departments. Ten months ago, you told me that you were seeing what could be done to alleviate the situation. I have figures that show that, in December, there were more than 2,000 occasions when it took more than an hour to turn around an ambulance. Are you still looking for the solution?

Brif Weinidog, gofynnais i chi fis Ebrill diwethaf ynglŷn â nifer oriau aros ambiwlansys y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys. Ddeng mis yn ôl, dywedasoch wrthyf eich bod am weld beth y gellid ei wneud i liniaru'r sefyllfa. Mae gennyf ffigurau sy'n dangos, ym mis Rhagfyr, bod mwy na 2,000 o achlysuron pan fu ambiwlansys yn sefyll am fwy nag awr. A ydych chi'n dal i chwilio am yr ateb?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Eighty-five per cent of people at the last count particularly get to hospital within an hour. There will be occasions when people have to wait longer, but we are certainly not in the situation that has existed in some hospitals in England, for example, where there are serial occasions when ambulances are waiting.

Mae wyth deg pump y cant o bobl ar y cyfrif diwethaf yn benodol yn cyrraedd yr ysbyty o fewn awr. Bydd achlysuron pan fydd yn rhaid i bobl aros yn hwy, ond yn sicr nid ydym yn y sefyllfa sydd wedi bodoli mewn rhai ysbytai yn Lloegr, er enghraifft, lle ceir achlysuron niferus pan fo ambiwlansys yn aros.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I do not know what your definition of 'serial' is, but we had over 2,000 incidents in one month alone. That sounds pretty serial to me. Today, we hear that the number of ambulance service staff who are off sick with stress has increased 16% on last year. Serious concerns have been raised about the frustration at waiting outside hospitals watching patients deteriorate in the back of their ambulances. Last May, the Minister for health acknowledged this problem and said that tackling stress for ambulance staff was his priority. What have you done to reduce the pressure on hard-working paramedics and ambulance service staff?

Brif Weinidog, nid wyf yn gwybod beth yw eich diffiniad o 'niferus', ond cawsom dros 2,000 o ddigwyddiadau mewn un mis yn unig. Mae hynny'n swnio'n weddol niferus i mi. Heddiw, rydym yn clywed bod nifer aelodau staff y gwasanaeth ambiwlans sydd i ffwrdd o'u gwaith yn sâl oherwydd straen wedi cynyddu 16% ers y llynedd. Codwyd pryderon difrifol ynghylch y rhwystredigaeth o aros y tu allan i ysbytai yn gwylio cleifion yn dirywio yng nghefn eu hambiwlsys. Fis Mai diwethaf, cydnabuwyd y broblem hon gan y Gweinidog iechyd a dywedodd mai mynd i'r afael â straen ymhlith aelodau staff ambiwlans oedd ei flaenoriaeth. Beth ydych chi wedi ei wneud i leihau'r pwysau ar barafeddygon ac aelodau staff y gwasanaeth ambiwlans sy'n gweithio'n galed?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

For the last month, 40% fewer patients were waiting over an hour for handover than in March 2013. We have, of course, continued to monitor the situation. Between March and December of last year there was a 4.7% improvement in the percentage of patients being admitted, discharged or transferred within four hours from arrival at A&E. Twelve-hour waits have reduced by over 60% since March and December 2013. She talks about people having to wait and she mentions figures in the thousands: 940,000 people attend emergency departments in Wales every year. The vast majority of those people get good treatment at the right time. Where that does not happen, it is important that the Government looks to see how things can be improved. However, let us put this in context.

Ar gyfer y mis diwethaf, roedd 40% yn llai o gleifion yn aros dros awr i gael eu trosglwyddo nag ym mis Mawrth 2013. Rydym ni wedi, wrth gwrs, parhau i fonitro'r sefyllfa. Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr y llynedd, roedd gwelliant o 4.7% i ganran y cleifion sy'n cael eu derbyn, eu rhyddhau neu eu trosglwyddo o fewn pedair awr o gyrraedd yr adran damweiniau ac achosion brys. Mae arosiadau deuddeng awr wedi gostwng o fwy na 60% ers mis Mawrth a mis Rhagfyr 2013. Mae hi'n sôn am bobl yn gorfod aros ac mae'n crybwyll ffigurau yn y miloedd: mae 940,000 o bobl yn mynd i adrannau achosion brys yng Nghymru bob blwyddyn. Mae mwyafrif llethol y bobl hynny yn cael triniaeth dda ar yr amser iawn. Pan nad yw hynny'n digwydd, mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn edrych i weld sut y gellir gwella pethau. Fodd bynnag, gadewch i ni roi hyn yn ei gyd-destun.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That was—[Inaudible.]—First Minister, but it did not answer the question about what you have done since last May to reduce the stress on paramedic and ambulance staff. Despite what you said earlier, you do not seem to understand that senior ambulance trust managers have admitted that in order to adequately cope with NHS reorganisation, more paramedics will be needed because services are moving. Will you commit on behalf of your Government today to making sure that the Welsh ambulance service has all the resources that it needs to make sure that patients are not put at risk, and are delivered to hospitals in a timely manner, following the centralisation of services that your Government is presiding over?

Roedd hynna'n—[Anghlywadwy.]—Brif Weinidog, ond nid oedd yn ateb y cwestiwn am yr hyn yr ydych chi wedi ei wneud ers mis Mai diwethaf i leihau'r straen ar barafeddygon ac aelodau staff ambiwlans. Er gwaethaf yr hyn a ddywedasoch yn gynharach, nid yw'n ymddangos eich bod yn deall bod uwch reolwyr yr ymddiriedolaeth ambiwlans wedi cyfaddef y bydd angen mwy o barafeddygon er mwyn ymdopi'n ddigonol ag ad-drefnu'r GIG, oherwydd bod gwasanaethau yn symud. A wnewch chi ymrwymo ar ran eich Llywodraeth heddiw i sicrhau bod gan wasanaeth ambiwlans Cymru yr holl adnoddau sydd eu hangen arno i wneud yn siŵr nad yw cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl, a'u bod yn cael eu danfon i ysbytai mewn modd prydlon, yn dilyn y broses o ganoli gwasanaethau y mae eich Llywodraeth yn ei llywyddu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Let me see if I can patronise her back. [Laughter.] She will understand, no doubt, that we are training more paramedics. We understand the point that she makes. What she does not seem to grasp is that the vast majority of patients are seen within an hour of being transferred. There will be and there have been occasions where 2,000 patients out of the 940,000 people attending emergency departments in Wales will fall into that category. I am not saying that we find that acceptable moving forward—of course not—but it shows that the vast majority of people are treated in good time and receive good treatment. Yes, we are training more paramedics, but let us make sure that we understand that when it comes to the NHS in Wales, the vast majority of people receive a good service. It is not just us saying that—patients in the service tell us that as well.
- Gadewch i mi weld a allaf i fod yn nawddoglyd yn ôl wrthi hi. [Chwerthin.] Bydd yn deall, heb os, ein bod yn hyfforddi mwy o barafeddygon. Rydym yn deall y pwynt y mae'n ei wneud. Yr hyn y mae'n ymddangos nad yw'n ei deall yw bod y mwyafrif llethol o gleifion yn cael eu gweld o fewn awr o gael eu trosglwyddo. Bydd a bu achlysuron lle bydd 2,000 o gleifion o'r 940,000 o bobl sy'n mynd i adrannau brys yng Nghymru yn y categori hwnnw. Nid wyf yn dweud ein bod yn credu bod hynny'n dderbyniol wrth symud ymlaen—wrth gwrs, nad yw—ond mae'n dangos bod y mwyafrif llethol o bobl yn cael eu trin mewn da bryd ac yn cael triniaeth dda. Ydym, rydym ni'n hyfforddi mwy o barafeddygon, ond gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod yn deall, pan ddaw i'r GIG yng Nghymru, bod y mwyafrif llethol o bobl yn derbyn gwasanaeth da. Nid dim ond ni sy'n dweud hynny—mae cleifion yn y gwasanaeth yn dweud hynny wrthym hefyd.
- 13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies. [Interruption.]  
Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies. [Torri ar draws.]
- 13:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*  
It is good to hear so much cheering from the benches opposite. [Interruption.]  
Mae'n dda clywed cymaint o floeddio o'r meinciau gyferbyn. [Torri ar draws.]
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order. I am very interested to know what the leader of the opposition is going to say this afternoon.  
Trefn. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn gwybod beth y mae arweinydd yr wrthblaid yn mynd i'w ddweud y prynhawn yma.
- 13:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
On the levity point—. I would like to ask the First Minister about the reports today on the Ian Watkins case, namely the failure of children's services in Rhondda Cynon Taf County Borough Council and other services protecting children and young people and their lack of response in terms of such allegations when concerns were raised at a very early stage, as I am led to believe. Does the First Minister believe that the services as configured did all they could to assist in addressing the concerns raised on this particular issue?  
Ar y pwynt gwamalrwydd—. Hoffwn ofyn i'r Prif Weinidog am yr adroddiadau heddiw ar achos Ian Watkins, sef methiant gwasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gwasanaethau eraill sy'n amddiffyn plant a phobl ifanc a'u diffyg ymateb o ran honiadau o'r fath pan fynegwyd pryderon yn gynnar iawn, fel rwy'n ei deall hi. A yw'r Prif Weinidog yn credu bod y gwasanaethau fel y'u trefnwyd wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd o ran y mater penodol hwn?
- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
These concerns have been raised today. It is right that those concerns are given the fullest consideration, and I am sure that the Minister will do that.  
Mae'r pryderon hyn wedi eu codi heddiw. Mae'n iawn bod y pryderon hynny'n cael yr ystyriaeth lwyraf, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gwneud hynny.
- 13:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I am grateful for the First Minister's answer on that. If the concerns are substantiated, and I see no reason from what I have seen that they will not be, will the Welsh Government instigate an inquiry into the failure to address these concerns and make sure that safeguards are there so that these horrendous crimes are not perpetrated on other children across Wales, let alone in the Rhondda Cynon Taf area?  
Rwy'n ddiolchgar am ateb y Prif Weinidog ar hynny. Os yw'r pryderon yn cael eu cadarnhau, ac ni welaf unrhyw reswm, o'r hyn yr wyf wedi ei weld, na fyddant, a wnaiff Llywodraeth Cymru gychwyn ymchwiliad i'r methiant i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a gwneud yn siŵr bod mesurau diogelwch ar waith fel nad yw'r troseddau erchyll hyn yn cael eu cyflawni ar blant eraill ledled Cymru, heb sôn am yn ardal Rhondda Cynon Taf?

- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It is difficult to make that prediction, bearing in mind that the police are allegedly involved and policing is not devolved. We have no power to call the police to account when it comes to any kind of inquiry. That was a problem that we have met before in looking at other situations. This needs to be looked at very carefully, and consideration will be given to ensuring that the public can have confidence in the system that exists in RCT and in other public authorities in the future.
- Mae'n anodd gwneud y rhagfynegiad hwnnw, o gofio yr honnir bod yr heddlu yn ymwneud â'r mater ac nad yw plismona wedi ei ddatganoli. Nid oes gennym unrhyw bŵer i ddwyn yr heddlu i gyfrif pan ddaw'n fater o unrhyw fath o ymchwiliad. Roedd honno'n broblem yr ydym ni wedi ei gweld o'r blaen wrth edrych ar sefyllfaoedd eraill. Mae angen edrych ar hyn yn ofalus iawn, a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau y gall y cyhoedd fod â hyder yn y system sy'n bodoli yn Rhondda Cynon Taf ac mewn awdurdodau cyhoeddus eraill yn y dyfodol.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Thank you for that answer, First Minister. Do you not think that a serious case review would be a way of pulling all the agencies together to look at the allegations, irrespective of whether policing is devolved or non-devolved? In fairness, I think that many people outside of this institution will not be that concerned about where the responsibility lies; they just want to make sure that the safeguards are in place and that action is taken to address some of the very real concerns that have been raised today. I take your word, First Minister, that the Minister will look at this, but I believe that the Welsh Government has a key role in instigating such a review and taking the lead on it as the main executive body in Wales.
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Onid ydych chi'n credu y byddai adolygiad achos difrifol yn ffordd o dynnu'r holl asiantaethau at ei gilydd i ystyried yr honiadau, pa un a yw plismona wedi ei ddatganoli neu heb ei ddatganoli? A bod yn deg, rwy'n credu na fydd llawer o bobl y tu allan i'r sefydliad hwn yn poeni fawr am bwy sy'n gyfrifol; y cwbl maen nhw ei eisiau yw gwneud yn siŵr bod y mesurau diogel ar waith a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon gwirioneddol iawn a godwyd heddiw. Rwy'n cymryd eich gair, Brif Weinidog, y bydd y Gweinidog yn edrych ar hyn, ond rwy'n credu bod gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth allweddol i'w chyflawni o ran sefydlu adolygiad o'r fath ac arwain ar y mater fel y prif gorff gweithredol yng Nghymru.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- As I said to the leader of the opposition earlier, this is something that I know that the Minister will be looking at, with a view to determining the best way forward. Where such allegations are raised, it is important that they are investigated fully. I am with him in that regard.
- Fel y dywedais wrth arweinydd yr wrthblaid yn gynharach, mae hyn yn rhywbeth y gwn y bydd y Gweinidog yn edrych arno, gyda'r bwriad o benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Pan godir honiadau o'r fath, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hymchwilio'n llawn. Rwy'n cytuno ag ef yn hynny o beth.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Gofal heb ei Drefnu**
- Unscheduled Care**
- 13:49 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gofal heb ei drefnu? OAQ(4)1505(FM)
3. Will the First Minister make a statement on the provision of unscheduled care? OAQ(4)1505(FM)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The increased focus placed on winter planning over the past 10 years means that resilience in the system is better than ever—we can see that in the course of what has happened over the past few months—and significant improvements have been achieved by NHS Wales when compared with the relevant performance indicators.
- Mae'r canolbwynt cynyddol ar gynllunio gaeaf dros y 10 mlynedd diwethaf yn golygu bod cryfder y system yn well nag erioed—gallwn weld hynny yn ystod yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf—a gwnaed gwelliannau sylweddol gan GIG Cymru o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad perthnasol.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:50 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Hywel Dda Local Health Board is currently discussing the future provision of accident and emergency services at Withybush hospital. Will you confirm that the health board is looking only at 24/7 provision and that there are no plans to reduce A&E to a 12-hour service?
- Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wrthi'n trafod y ddarpariaeth o wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn ysbty Llwynhelyg yn y dyfodol. A wneuch chi gadarnhau bod y bwrdd iechyd yn ystyried darpariaeth 24/7 yn unig ac nad oes unrhyw gynlluniau i leihau'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys i wasanaeth 12 awr?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I can say that the local health board has confirmed that it wishes to see 24/7 emergency cover continue at Withybush General Hospital.
- Gallaf ddweud bod y bwrdd iechyd lleol wedi cadarnhau ei fod yn dymuno gweld gwasanaeth brys 24/7 yn parhau yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.
- 13:50 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you for that. Following on from Rebecca Evans's nicely thought through question and answer, Minister, perhaps you would care to tell us what effect there will be on A&E as paediatrics is now being sucked to Glangwili hospital and there will be less and less paediatric cover in Withybush hospital. Paediatrics, as you know, takes up 25% of most A&Es, and, without paediatrics going through that hospital, A&E at Withybush will have no option but to have a reconfiguration of hours. Some honesty in this discussion from the health board to a public that is already very upset by the changes going on in Hywel Dda in the Pembrokeshire area would be much appreciated. The Minister promised us clarity and transparency, a lesson the health board has yet to learn.
- Diolch i chi am hynny. Yn dilyn ymlaen o gwestiwn Rebecca Evans, a oedd a llawer o feddwl y tu ôl iddo, a'r ateb, Weinidog, efallai yr hoffech chi ein hysbysu pa effaith fydd ar yr adran damweiniau ac achosion brys gan fod paediatreg yn cael ei symud i ysbty Glangwili bellach a bydd llai a llai o wasanaeth pediatrig yn ysbty Llwynhelyg. Pediatreg, fel y gwyddoch, yw 25% o'r rhan fwyaf o adrannau damweiniau ac achosion brys, a, heb bediatreg yn mynd drwy'r ysbty hwnnw, ni fydd gan yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Llwynhelyg unrhyw ddewis ond ad-drefnu oriau. Byddai rhywfaint o onestrwydd yn y drafodaeth hon gan y bwrdd iechyd i gyhoedd sydd eisoes yn flin am y newidiadau sy'n digwydd yn Hywel Dda yn ardal Sir Benfro yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Addawodd y Gweinidog eglurder a thryloywder i ni, gwers nad yw'r bwrdd iechyd wedi ei dysgu hyd yn hyn.
- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, I can only repeat what I said in answer to the Member previously, and that is that 24/7 emergency care is the wish of Hywel Dda when it comes to future services at Withybush hospital.
- Wel, ni allaf ond ailadrodd yr hyn a ddywedais wrth ateb yr Aelod o'r blaen, a hynny yw mai gofal brys 24/7 yw dymuniad Hywel Dda pan ddaw i wasanaethau yn ysbty Llwynhelyg yn y dyfodol.
- 13:51 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Minister, I learned recently that some patients wander into A&E with complaints such as hiccups and that some patients go to A&E as many as 40 times a year. What efforts is the Welsh Government making to persuade people to visit their GPs rather than wander into A&E or phone 999 for this unscheduled care? It is not necessary. People need to be educated.
- Weinidog, canfûm yn ddiweddar bod rhai cleifion yn crwydro i mewn i adrannau damweiniau ac achosion brys â chwynion fel yr igian a bod rhai cleifion yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys cymaint â 40 gwaith y flwyddyn. Pa ymdrechion mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i berswadio pobl i ymweld â'u meddygon teulu yn hytrach na chrwydro i mewn i adrannau damweiniau ac achosion brys neu ffonio 999 ar gyfer y gofal heb ei drefnu hwn? Nid yw'n angenrheidiol. Mae angen addysgu pobl.

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member is quite right. The difficulty is, of course, that A&E is the only area of the health service that cannot turn people away. I have spoken at length to A&E consultants in my own hospital. They have often told me stories of people who come to them when there is nothing wrong with them but also of people who have been to their GP four or five times and who go to A&E and say, 'I've been to see my GP; my GP hasn't done anything so I'm coming to see you now instead', and there is nothing wrong with them, of course. The estimate they place on the number of people in that category is between 30% and 40% of the people who come to A&E. That is why the Minister for Health and Social Services has been absolutely clear in terms of what he has said, which is that people should not attend A&E unless they absolutely have to. It is important, of course, that people are able to access GP services at a time that is convenient to them. That is why we have continued to roll out access to GPs in the evenings and at weekends. I have seen this happening. GPs are now available in the evenings. In particular, those GP practices that offer nurses as part of the practice are able to deal with a lot of minor injuries as well to take pressure off A&E. So, yes, people need to ensure that they do not go to A&E unless it is absolutely necessary, but it is also important, of course, that we continue to roll out services with GPs so that appointments are available at a time that is convenient to the public.

**Rhaglen Recriwtiaid Newydd****Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Rhaglen Recriwtiaid Newydd? OAQ(4)1513(FM)*

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it has been a great success. Demand has been extremely high and we have already exceeded the target for this financial year.

Mae'r Aelod yn llygad ei le. Yr anhawster, wrth gwrs, yw mai adrannau damweiniau ac achosion brys yw'r unig ran o'r gwasanaeth iechyd na chaiff droi pobl i ffwrdd. Rwyf wedi siarad yn helaeth ag ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys yn fy ysbyty fy hun. Maen nhw'n aml wedi dweud straeon wrthyf am bobl sy'n dod atynt pan nad oes unrhyw beth yn bod arnyn nhw, ond hefyd am bobl sydd wedi bod at eu meddyg teulu bedair neu bum gwaith ac sy'n mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys ac yn dweud, 'Rwyf wedi bod i weld fy meddyg teulu; nid yw fy meddyg teulu wedi gwneud unrhyw beth felly rwy'n dod i'ch gweld chi nawr', ac nid oes unrhyw beth yn bod arnyn nhw, wrth gwrs. Mae'r amcangyfrif maen nhw'n ei wneud o nifer y bobl sydd yn y categori hwnnw rhwng 30% a 40% o'r bobl sy'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys. Dyna pam mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn gwbl eglur o ran yr hyn y mae wedi ei ddweud, sef na ddylai pobl fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys oni bai fod wir raid iddyn nhw wneud hynny. Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau meddyg teulu ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Dyna pam rydym ni wedi parhau i gyflwyno mynediad at feddygon teulu fin nos ac ar benwythnosau. Rwyf wedi gweld hyn yn digwydd. Mae meddygon teulu ar gael fin nos bellach. Yn benodol, mae'r meddygfeydd teulu hynny sy'n cynnig nyrsys yn rhan o'r feddygfa yn gallu ymdrin â llawer o fân-anafiadau yn ogystal â chymryd pwysau oddi ar adrannau damweiniau ac achosion brys. Felly, oes, mae angen i bobl sicrhau nad ydynt yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol, ond mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, ein bod yn parhau i gyflwyno gwasanaethau gyda meddygon teulu fel bod apwyntiadau ar gael ar adeg sy'n gyfleus i'r cyhoedd.

**Young Recruits Programme**

*4. Will the First Minister make a statement on the Young Recruits Programme? OAQ(4)1513(FM)*

Gwnaf, mae wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae'r galw wedi bod yn eithriadol o uchel ac rydym ni eisoes wedi rhagori ar y targed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

13:53	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you, First Minister. I, too, would endorse that it has been an excellent initiative for jobseekers and small employers alike. However, in recent months, I have received a number of concerns in relation to some of the lengthy delays in the payment processes, in particular to our sole traders and very small businesses. In the July 2013 evaluation process, the following weaknesses were identified: inaccurate information being sent to employers regarding funding criteria and the under-resourcing of programme administration, which was leaving small businesses working with very tight margins and low disposable revenues really struggling to participate. First Minister, will you work with your Deputy Minister to speed up these processes so that our employers and all our jobseekers who want to take advantage of this initiative can do so?</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Byddwn innau hefyd yn ategu iddi fod yn fenter ardderchog i geiswyr gwaith a chyflogwyr bach. Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf, rwyf wedi derbyn nifer o bryderon o ran rhai o'r oediadau hirfaith yn y prosesau talu, yn enwedig i'n masnachwyr unigol a busnesau bach iawn. Ym mhroses werthuso mis Gorffennaf 2013, nodwyd y gwendidau canlynol: gwybodaeth anghywir yn cael ei hanfon at gyflogwyr ynghylch meini prawf ariannu a diffyg adnoddau i weinyddu'r rhaglen, a oedd yn gadael busnesau bach ia oedd yn gweithio gydag arian tynn iawn a referniw gwario isel yn ei chael hi'n anodd iawn cymryd rhan. Brif Weinidog, a wneuch chi weithio gyda'ch Dirprwy Weinidog i gyflymu'r prosesau hyn fel y gall ein cyflogwyr a'n holl geiswyr gwaith sy'n dymuno manteisio ar y fenter hon wneud hynny?</p>
13:54	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. The programme is an exceptionally successful Welsh Government programme, of course, and we very much welcome the fact that so many people have benefited from it. Working with the Minister, we will, of course, continue to ensure that the programme moves from success to success.</p>	<p>Gwnaf. Mae'r rhaglen hon yn rhaglen Llywodraeth Cymru hynod lwyddiannus, wrth gwrs, ac rydym yn croesawu'n fawr y ffaith fod cymaint o bobl wedi elwa arni. Gan weithio gyda'r Gweinidog, byddwn, wrth gwrs, yn parhau i sicrhau bod y rhaglen yn mynd o nerth i nerth.</p>
13:54	<b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>We in Plaid Cymru are very pleased to have been a real driving force working with your Government to greatly increase the number of apprenticeships. Do you, First Minister, agree that oversubscription of the young recruits programme shows that the Government needs to take urgent action now to further extend the programme, including increasing the number of higher level apprenticeships?</p>	<p>Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn falch iawn i ni fod yn sbardun gwirioneddol gan weithio gyda'ch Llywodraeth i gynyddu nifer y prentisiaethau yn sylweddol. A ydych chi, Brif Weinidog, yn cytuno bod gordanysgrifiad y rhaglen recriwtiaid ifanc yn dangos bod angen i'r Llywodraeth gymryd camau brys nawr i ehangu'r rhaglen ymhellach, gan gynnwys cynyddu nifer y prentisiaethau lefel uwch?</p>
13:55	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>That is a bid for the next budget, I suspect. However, we are very pleased, of course, that the programme has been working very well. We acknowledge the agreement that was made at the time of the last budget, and we acknowledge the supreme success of Jobs Growth Wales, which has a success rate of over 80% in attracting young people into apprenticeships and permanent employment.</p>	<p>Mae hwnnw'n gynnig ar gyfer y gyllideb nesaf, rwy'n amau. Fodd bynnag, rydym yn falch iawn, wrth gwrs, bod y rhaglen wedi bod yn gweithio'n dda iawn. Rydym yn cydnabod y cytundeb a wnaed ar adeg y gyllideb ddiwethaf, ac rydym yn cydnabod llwyddiant ardderchog Twf Swyddi Cymru, sydd â chyfradd llwyddiant o fwy na 80% o ran denu pobl ifanc i mewn i brentisiaethau a chyflogaeth barhaol.</p>
13:55	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>First Minister, how many of the young people who successfully complete a Jobs Growth Wales placement transfer directly into the young recruits programme?</p>	<p>Brif Weinidog, faint o'r bobl ifanc sy'n cwblhau lleoliad Twf Swyddi Cymru yn llwyddiannus sy'n trosglwyddo'n uniongyrchol i'r rhaglen recriwtiaid ifanc?</p>
13:55	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I do not have that figure, but I can tell you that the vast majority of them get a permanent job and many of those who do not go into education or go on to another apprenticeship. It shows the great success of the scheme, particularly compared with schemes that have existed elsewhere in Britain.</p>	<p>Nid yw'r ffigur hwnnw gennyf, ond gallaf ddweud wrthyhych bod y mwyafrif llethol ohonynt yn cael swydd barhaol ac mae llawer o'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny, yn mewn i addysg neu'n mynd ymlaen i brentisiaeth arall. Mae'n dangos llwyddiant mawr y cynllun, yn enwedig o'i gymharu â chynlluniau sydd wedi bodoli mewn mannau eraill ym Mhrydain.</p>

## Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

## Withybush General Hospital

13:56 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg? OAQ(4)1500(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on services at Withybush hospital? OAQ(4)1500(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Bydd ysbyty Llwynhelyg yn parhau i chwarae rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau iechyd i bobl sir Benfro.

Withybush hospital will continue to play a vital role in providing health services for people in Pembrokeshire.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:56 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Brif Weinidog, bythefnos yn ôl, gofynnais i chi ynglŷn ag israddio gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg yn dilyn penderfyniad eich Llywodraeth chi i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn yr ysbyty. Yn eich ymateb, awgrymoch chi fod penderfyniad y Gweinidog iechyd yn cael ei gefnogi gan holl feddygon yr ardal. Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn copiâu o lythyrau oddi wrth feddygon teulu o sir Benfro at y Gweinidog a'r bwrdd iechyd yn dweud fel arall. A wnewch chi achub ar y cyfle hwn i egluro, er mwyn y cofnod, nad oedd penderfyniad y Gweinidog yn cael cefnogaeth holl feddygon yr ardal?

First Minister, a fortnight ago, I asked you about the downgrading of services at Withybush hospital following the decision of your Government to close the special care baby unit at the hospital. In your response, you suggested that the Minister for health's decision was supported by all doctors in the area. However, I have received copies of correspondence from GPs from Pembrokeshire to the Minister and the health board stating otherwise. Will you take this opportunity to explain, for the record, that the Minister's decision was not supported by all doctors in the area?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Ni ddywedais y fath beth. Mae gen i'r cofnod fan hyn ac fe allaf ddweud beth mae'n ei ddweud, sef bod penderfyniad wedi cael ei wneud ar argymhelliad doctoriaid, y rheini a oedd ar y panel, ac mae'n mynd ymlaen i ddweud mai barn doctoriaid ydyw bod yn rhaid newid y system. Mae hynny'n wir o ran colegau a rhan fwyaf o ddoctoriaid. Hefyd, wrth gwrs, mae argymhelliad cryf gan y doctoriaid ar y panel bod newid yn gorfod digwydd. Nid oes unrhyw un call yn dadlau y dylid cael dwy uned lefel 2—yng Nghaerfyrddin ac yn Llwynhelyg. Y ddadl yw hyn: ym mhle y dylai'r uned fod? Dadl yr Aelod yw y dylai'r uned fod yn Llwynhelyg ac nid yng Nglangwili. A yw wedi dweud hynny wrth ei gymydog sydd yn eistedd y drws nesaf iddo? Mae'r penderfyniad hwnnw wedi cael ei wneud ar sail argymhellion ar yr hyn sydd orau er mwyn sicrhau gwasanaeth sydd yn saff ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

I did not say such a thing. I have the record here and I can tell you now what it says, that a decision has been taken on the recommendation of doctors—those who were on the panel—and it goes on to say that it is the view of doctors that the system has to be changed. That is true in terms of the colleges and most of the doctors. Also, of course, there is a strong recommendation from doctors on the panel that change must happen. No-one sensible is arguing that there should be two level 2 units—one in Carmarthen and one in Withybush. The argument is about where that unit should be. The Member's argument is that the unit should be in Withybush and not in Glangwili. Has he said that to his colleague who is sitting next to him? That decision has been taken on the grounds of what is best in order to secure a safe and sustainable service for the future.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Nid yw'n onest nac yn wir i ddweud bod hwn wedi bod yn benderfyniad hollol wleidyddol. Mae'n benderfyniad sydd wedi cael ei wneud ar sail tystiolaeth gan feddygon, ar sail beth mae'r colegau wedi dweud ac ar sail argymhellion sydd wedi dod gan banel sy'n edrych ar hyn mewn ffordd hollol niwtral a hollol 'objective'. Nid wyf yn gwybod sut y gallai'r Gweinidog fod wedi gwneud penderfyniad gwahanol a chadw system sy'n saff ac yn gynaliadwy.

It is not honest or true to say that this has been a decision that is completely political. It is a decision that has been taken on the grounds of evidence from doctors, on the basis of what the colleges say, and on the basis of recommendations emanating from a panel that looked at this in a totally neutral and objective manner. I do not know how the Minister could have made another decision, if you want to keep a system that is safe and sustainable.



13:58 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, wrth drafod yr unedau gofal brys yn ardal Hywel Dda, fe ddyfynnodd y bwrdd iechyd ddogfen gan y Coleg Meddygaeth Frys—'The Way Ahead'. I gael uned frys 24 awr y dydd, dywedodd yn glir iawn y byddai'n rhaid iddi gael ei chefnogi gan saith arbenigedd, ac ymysg y saith arbenigedd hynny mae 'paediatrics'. Mae 'paediatrics' eisoes wedi cael ei dorri—neu mae bwriad i'w dorri—o 24 awr y dydd i 12 awr y dydd yn ysbyty Llwynhelyg. A ydych chi wir yn credu ac yn wir o'r farn y bydd uned frys 24 awr y dydd yn parhau yn Llwynhelyg?

First Minister, in discussing the emergency care units in the Hywel Dda area, the health board quoted a document by the College of Emergency Medicine—'The Way Ahead'. To have a 24-hour emergency unit, it said clearly that it would have to be supported by seven specialties, and among those seven specialties is paediatrics. Paediatrics has already been cut—or it is intended that it will be cut—from 24 hours a day to 12 hours a day at Withybush hospital. Do you truly believe and are you truly of the opinion that a 24-hour emergency unit will continue in Withybush?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ni allaf fynd ymhellach na'r ateb a roddais yn gynharach. Dyna beth yw barn y bwrdd iechyd lleol, a dyna beth y mae wedi dweud wrthym ni, sef ei fod yn mo'yn sicrhau bod gwasanaeth ar gael yn yr ysbyty bob dydd, trwy'r dydd, a bod y gwasanaeth hwnnw'n wasanaeth argyfwng.

I cannot go any further than the answer that I gave earlier. That is the view of the local health board, and that is what it has told us, which is that it wants to ensure that there is a 24/7 service available in the hospital, and that that service is an emergency service.

## Cyflyrau Niwrolegol

## Neurological Conditions

13:59 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*6. Pa drafodaethau a gafodd y Prif Weinidog gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol? OAQ(4)1514(FM)*

*6. What discussions has the First Minister had with the Minister for Health and Social Services in relation to the Neurological Conditions Delivery Plan? OAQ(4)1514(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister has advised me that his consultation on a neurological conditions delivery plan has now closed. His intention is to publish the final plan in April.

Mae'r Gweinidog wedi dweud wrthyf bod ei ymgynghoriad ar gynllun cyflawni ar gyflyrau niwrolegol wedi dod i ben bellach. Ei fwriad yw cyhoeddi'r cynllun terfynol ym mis Ebrill.

13:59 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, while I welcome the delivery plan, I am deeply concerned about the lack of community-based rehab services for brain-injured patients in Gwent, despite their availability in other parts of Wales. I have several constituents affected by this alarming lack of provision. While I am pleased that the health board is planning to establish a local service, detailed plans have been in place for a while, and progress does appear to be painfully slow. First Minister, I am sure that you can understand what a difference this tailored multi-agency support can make to patients with brain injuries. Will you look at this issue with the Minister for health with a view to urgently ending this serious inequity in provision affecting my constituents?

Brif Weinidog, er fy mod yn croesawu'r cynllun cyflawni, rwy'n bryderus iawn am y diffyg gwasanaethau adsefydlu cymunedol ar gyfer cleifion ag anafiadau i'r ymennydd yng Ngwent, er eu bod ar gael mewn rhannau eraill o Gymru. Mae gen i nifer o etholwyr sydd wedi eu heffeithio gan y diffyg darpariaeth hynod bryderus hwn. Er fy mod yn falch bod y bwrdd iechyd yn bwriadu sefydlu gwasanaeth lleol, mae cynlluniau manwl wedi eu sefydlu ers peth amser, ac mae'n ymddangos bod cynnydd yn boenus o araf. Brif Weinidog, rwy'n siŵr y gallwch chi ddeall faint o wahaniaeth y gall y gefnogaeth aml-asiantaeth wedi ei theilwra hon ei wneud i gleifion sydd ag anafiadau i'r ymennydd. A wnewch chi edrych ar y mater hwn gyda'r Gweinidog iechyd gyda'r nod o roi terfyn ar unwaith ar yr annhegwch difrifol hwn mewn darpariaeth sy'n effeithio ar fy etholwyr?

14:00	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Clearly, that is unacceptable and that is one of the reasons why the Minister has decided to develop the delivery plan to help to drive improvements across Wales. I understand that you have corresponded with Andrew Goodall, the chief executive of Aneurin Bevan, on this matter and that he has set out the health board's plans to improve the provision of services.</p>	<p>Yn amlwg, mae hynny'n annerbyniol a dyna un o'r rhesymau pam mae'r Gweinidog wedi penderfynu datblygu'r cynllun cyflawni i helpu i sbarduno gwelliannau ledled Cymru. Rwy'n deall eich bod wedi gohebu ag Andrew Goodall, prif weithredwr Aneurin Bevan, ar y mater hwn a'i fod wedi cyflwyno cynlluniau'r bwrdd iechyd i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:00	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call on Nick Ramsay. [ASSEMBLY MEMBERS: Hear, hear.]</p>	<p>Galwaf ar Nick Ramsay. [AELODAU'R CYNULLIAD: Clywch, clywch.]</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:00	<p><b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Presiding Officer. I will have to practise throwing my voice from my new position. [Laughter.]</p> <p>First Minister, the neurological conditions delivery plan was launched last year to help people living with a range of neurological conditions, as you have just mentioned. The chief executive of the NHS in Wales has said that it is not going to work unless local government and the third sector work together to make sure that it works on the ground. What are you doing to make sure that all of these different factors are coming together to progress this very important plan?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Bydd yn rhaid i mi ymarfer taflu fy llais o'm safle newydd. [Chwerthin.]</p> <p>Brif Weinidog, lanswyd y cynllun cyflawni ar gyflyrau niwrolegol y llynedd i helpu pobl sy'n byw gydag amrywiaeth o gyflyrau niwrolegol, fel rydych chi newydd ei grybwyll. Mae prif weithredwr y GIG yng Nghymru wedi dweud nad yw'n mynd i weithio oni bai fod llywodraeth leol a'r trydydd sector yn cydweithio i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio ar lawr gwlad. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod pob un o'r gwahanol ffactorau hyn yn dod at ei gilydd i ddatblygu'r cynllun pwysig iawn hwn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:01	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am tempted to say that I will text the answer to the Member. [ASSEMBLY MEMBERS: Oh.] However, I will afford him greater courtesy than that and say that the plan is designed to ensure that all the relevant bodies work together in order to ensure that the plan is delivered properly, and that is why, of course, the plan is in place.</p>	<p>Caf fy nhemtio i ddweud y byddaf yn anfon yr ateb mewn neges destun i'r Aelod. [AELODAU'R CYNULLIAD: O.] Fodd bynnag, byddaf yn dangos mwy o gwrteisi iddo na hynny a dweud bod y cynllun wedi ei gynllunio i sicrhau bod yr holl gyrff perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddarparu'n briodol, a dyna pam, wrth gwrs, y mae'r cynllun ar waith.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:01	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Brif Weinidog, mewn rhai ardaloedd nid oes gwasanaeth nyrs arbenigol epilepsi ac mae Hywel Dda yn un o'r ardaloedd hynny. Mae cais ariannol ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu am nyrs epilepsi yn ardal y gorllewin. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig ar gyfer cyflyrau arbenigol o'r math hwn bod cefnogaeth ymarferol, arbenigol gan nyrsys arbenigol ar gael lle bynnag y mae rhywun yn byw yng Nghymru?</p>	<p>First Minister, in some areas there is no epilepsy specialist nurse service available and Hywel Dda is one of those areas. There is currently a funding bid being developed for an epilepsy nurse in the west Wales area. Do you agree that, for special conditions such as this, it is important that there is practical, specialist support from specialist nurses available for people wherever they may live in Wales?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:02	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Ynglŷn â sut y byddai hyn yn ymarferol, byddwn i'n mo'yn sicrhau bod digon o nyrsys â'r arbenigedd hwnnw ar gael ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael y driniaeth sydd ei heisiau arnynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ystyried faint ohonynt sydd ar gael a faint ohonynt fydd eu hangen yn y dyfodol, ac ystyried y sefyllfa ariannol. Wedi dweud hynny, ni all neb ddadlau yn erbyn unrhyw un sy'n dweud bod yn rhaid i ni sicrhau bod digon ohonynt ar gael.</p>	<p>In terms of how that is practical, I would want to ensure that there are adequate numbers of nurses with that specialism available across Wales so that people can access the treatment they need. However, we have to consider how many are available and how many will be needed for the future, and consider the financial situation. Having said that, no-one could argue against a case that states that we must ensure that there are adequate numbers of them available.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>

14:02	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Brif Weinidog, bu cryn ddathlu pan lansiwyd cyfarwyddwyd cenedlaethol ar epilepsi yng Nghymru yn 2009. Mae canllawiau newydd gan NICE ers 2012, ond, er hynny, nid oes diweddiariad wedi bod ac mae cryn dipyn o feirniadaeth ynglŷn â pha mor effeithiol mae'r byrddau iechyd wedi bod yn gweithredu'r canllawiau cenedlaethol. A fydd epilepsi yn cael ei gynnwys o fewn y cynllun niwrolegol neu a fyddwch chi fel Llywodraeth yn diweddarar'r canllawiau ar epilepsi?	First Minister, there was a great deal of celebration when the national directive on epilepsy was launched in 2009. NICE has issued new guidelines since 2012, but, nonetheless, there has been no update and there is quite a bit of criticism about how effectively the health boards have been implementing the national guidelines. Will epilepsy be included within the neurological plan and will you as a Government be updating the epilepsy guidelines?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:02	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> A gaf i ddweud wrth yr Aelod fod hwn yn gwestiwn hollbwysig, yn yr un modd ag yr oedd cwestiwn yr Aelod dros Geredigion? A gaf i ofyn felly i'r Gweinidog iechyd i ysgrifennu at yr Aelodau er mwyn sicrhau bod y manylion ar gael iddynt?	May I tell the Member that this is crucially important question, as was the question asked by the Member for Ceredigion? May I ask the Minister for health, therefore, to write to the Members to ensure that the details are made available to them?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Tywydd Garw</b>	<b>Severe Weather</b>	
14:03	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiau'r tywydd garw diweddar ar gymunedau yng Nghymru? OAQ(4)1509(FM)</i>	<i>7. Will the First Minister make a statement on the effects that recent severe weather conditions have had on communities in Wales? OAQ(4)1509(FM)</i>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:03	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Our responder agencies have worked hard to put their plans into action to reduce the impact of the recent severe weather. I would like, as I am sure that all Members would, to express sympathy to the communities and individuals who have experienced the full force of the recent storms. Nevertheless, given the difficulty surrounding the weather and the sheer force of the weather, I believe that we managed to deal with it as efficiently as possible.	Mae ein hasiantaethau ymateb wedi gweithio'n galed i roi eu cynlluniau ar waith i leihau effaith y tywydd garw diweddar. Hoffwn, fel rwy'n siŵr yr hoffai pob Aelod, fynegi cydymdeimlad â'r cymunedau a'r unigolion sydd wedi dioddef grym llawn y stormydd diweddar. Serch hynny, o ystyried yr anhawster yn ymwneud â'r tywydd a grym llwyr y tywydd, rwy'n credu ein bod wedi llwyddo i ymdrin ag ef mor effeithlon â phosibl.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:04	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, First Minister; I appreciate your answer. Those communities in Wales who have been affected, particularly by the loss of power to thousands of homes and businesses, rightfully want to know what support they will be getting. May I ask what your Government is doing to help to secure that support? What discussions have you had with energy companies about potential bill reductions to properties that have been affected, and have you examined a package of business rate reductions for those businesses that have been significantly affected by the impact of the severe weather?	Diolch i chi, Brif Weinidog; rwy'n gwerthfawrogi eich ateb. Mae'r cymunedau hynny yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio, yn enwedig oherwydd colli pŵer i filoedd o gartrefi a busnesau, eisiau gwybod, yn gwbl gywir, pa gymorth y byddant yn ei gael. A gaf i ofyn beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i helpu i sicrhau'r cymorth hwnnw? Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda chwmnïau ynni am y gostyngiadau posibl i filiau cartrefi sydd wedi cael eu heffeithio, ac a ydych chi wedi archwilio pecyn o ostyngiad trethi busnes ar gyfer y busnesau hynny sydd wedi eu heffeithio'n sylweddol gan effaith y tywydd garw?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:04

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Local authorities are able to put bids to the Welsh Government in order to receive extra funding with regard to the weather. Of course, we were in the fortunate position that we invested in our flood defences, whereas we saw a 28% cut in flood defences in England, and we have seen what the result of that was. I am sure that the people of Wales appreciate the fact that we have not seen the level of flooding that, unfortunately, some in England have had despite the fact that the weather has been exactly the same. It is right to say that, at one point on Wednesday last week, 100,000 homes were without power, but the situation was rectified very quickly. I pay tribute to the power companies for making sure that people were not left without power for many many days, and to Natural Resources Wales for ensuring that people were not left in flood water for many, many weeks.

Caiff awdurdodau lleol wneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru i dderbyn cyllid ychwanegol oherwydd y tywydd. Wrth gwrs, roeddem ni yn y sefyllfa ffodus ein bod wedi buddsoddi yn ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd, tra ein bod wedi gweld toriad o 28% i amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Lloegr, ac rydym ni wedi gweld beth oedd canlyniad hynny. Rwy'n siŵr bod pobl Cymru yn gwerthfawrogi'r ffaith nad ydym wedi gweld y lefel o lifogydd y mae rhai, yn anffodus, wedi ei ddioddef yn Lloegr er gwaethaf y ffaith bod y tywydd wedi bod yn union yr un fath. Mae'n iawn i ddweud bod 100,000 o gartrefi heb bŵer ar un adeg ddydd Mercher yr wythnos diwethaf, ond cafodd y sefyllfa ei datrys yn gyflym iawn. Rwy'n talu teyrnged i'r cwmnïau ynni am wneud yn siŵr na chafodd pobl eu gadael heb bŵer am lawer iawn o ddiwrnodau, ac i Gyfoeth Naturiol Cymru am sicrhau na chafodd pobl eu gadael mewn dŵr llifogydd am lawer iawn o wythnosau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr wythnos diwethaf, fe wnes i ymweld â ffarmwr yn Nyffryn Clwyd sydd wedi clirio miloedd o dunelli o foncyffion coed, brigau, canghennau ac yn y blaen o orlifdir afonydd Elwy a Chlwyd. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar bont Rhuddlan ar hyn o bryd oherwydd difrod a achoswyd gan y deunyddiau hyn yn cael eu dal o dan y bont, gan greu difrod. Mae'r un peth yn wir yn Llanelwy. Rwyf wedi codi gyda'r Gweinidog perthnasol yr angen i wneud mwy o ganiatáu i ffermwyr fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn sy'n achosi difrod i'n hisadeiledd. A wnewch chi roi ymrwymiad y bydd y Llywodraeth yn symud mor fuan â phosibl i ddatblygu cynlluniau o'r fath er mwyn osgoi y math hwn o ddifrod yn y dyfodol?

Last week, I visited a farmer in the Vale of Clwyd who has cleared thousands of tonnes of tree trunks, branches, twigs and so on from the Elwy and Clwyd floodplains. I am sure that you will be aware that there are restrictions on the Rhuddlan bridge at present due to damage being caused by these materials being caught up under the bridge. The same is also true at St Asaph. I have raised with the relevant Minister the need to do more to allow farmers to tackle some of these problems that do cause damage to our infrastructure. Will you give a commitment that the Government will move as swiftly as possible to develop such plans to avoid this kind of damage in the future?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae gan ffermwyr rôl allweddol o ran sicrhau nad yw llifogydd yn digwydd. Rydych chi wedi sôn am y ffaith bod trafodaeth wedi'i chynnal gyda'r Gweinidog, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog, os oes modd rhoi rhagor o help i ffermwyr, yn sicrhau bod y help hwnnw ar gael cyn gynted â phosibl.

Farmers have a key role in ensuring that floods do not happen. You mentioned the fact that a discussion has taken place with the Minister. I am sure that the Minister will ensure, if any more help can be given to farmers, that it will be available as soon as possible.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

**Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board**

14:06

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. A wnaiff Llywodraeth Cymru sefydlu ymchwiliad cyhoeddus llawn i safonau gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'i ragflaenwyr dros y 25 mlynedd diwethaf? OAQ(4)1502(FM)*

*8. Will the Welsh Government establish a full public inquiry into care standards at Abertawe Bro Morgannwg University Health Board and its predecessors over the past 25 years? OAQ(4)1502(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Twenty-five years is a very long time in terms of any potential inquiry. However, I can tell the Member that a number of steps have been taken to meet the concerns that have been expressed. An external team is reviewing the quality and safety of the Princess of Wales Hospital. The chief executive personally chairs a Princess of Wales Hospital quality and safety steering group. On 7 February, the board announced a series of concerns clinics to enable patients and relatives to discuss issues with members of staff; nurse staffing levels on medical wards have been increased to enable compliance with the expectations set by the chief nursing officer; new clinical and executive managerial arrangements are now in place at the Princess of Wales Hospital; and, of course, there has been put in place a review into two hospitals in the local health board area, which were announced, of course, by the Minister for health last year. So, a number of actions have been put in place in order to deal with people's concerns, and it is important that what has been put in place has an opportunity to report back to the Minister and to identify any problems that might yet remain.

Mae pum mlynedd ar hugain yn amser hir iawn o ran unrhyw ymchwiliad posibl. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrth yr Aelod bod nifer o gamau wedi eu cymryd i ymateb i'r pryderon a fynegwyd. Mae tîm allanol yn adolygu ansawdd a diogelwch Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'r prif weithredwr yn cadeirio grŵp llywio ansawdd a diogelwch Ysbyty Tywysoges Cymru yn bersonol. Ar 7 Chwefror, cyhoeddodd y bwrdd gyfres o glinigau pryderon i alluogi cleifion a pherthnasau i drafod materion gydag aelodau staff; cynyddwyd lefelau staffio nyrsys ar wardiau meddygol i alluogi cydymffurfiaid â'r disgwyliadau a bennwyd gan y prif swyddog nyrsio; mae trefniadau clinigol a rheoli gweithredol newydd ar waith yn Ysbyty Tywysoges Cymru bellach; ac, wrth gwrs, rhoddwyd adolygiad o ddaud ysbyty yn ardal y bwrdd iechyd lleol ar waith, a gyhoeddwyd, wrth gwrs, gan y Gweinidog Iechyd y Llywodraeth. Felly, cymerwyd nifer o gamau i ymdrin â phryderon pobl, ac mae'n bwysig bod yr hyn a roddwyd ar waith yn cael cyfle i adrodd yn ôl i'r Gweinidog ac i nodi unrhyw broblemau a allai fodoli o hyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, but it is still plain that neither those families who have recently come forward nor those who continue to fight for answers, such as the parents of Robbie Powell, are happy with the solutions offered so far. If a health service is about caring for patients, I believe that ensuring that their families are happy about their care is a paramount issue. You said last week during First Minister's questions that Assembly Members who call for a public inquiry do so at the drop of a hat. I believe that this is insulting to the parents and families of those who have lost people in the ABMU health board area. Many of the reviews that you have commissioned may add up to be more costly than a public inquiry could be, First Minister. Therefore, do you not believe that the cry from the parents and families of patients is not worthy enough for you, as a Government, to enact upon their demand and have a full public inquiry?

Diolch i chi am yr ateb yna, ond mae'n dal i fod yn amlwg nad yw'r teuluoedd hynny sydd newydd ddod yn eu blaenau na'r rhai sy'n parhau i ymladd am atebion, fel rhieni Robbie Powell, yn hapus gyda'r atebion a gynigwyd hyd yn hyn. Os mai diben gwasanaeth iechyd yw gofalu am gleifion, rwy'n credu bod sicrhau bod eu teuluoedd yn hapus ynglŷn â'u gofalu yn fater hollbwysig. Dywedasochoch yr wythnos diwethaf yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog bod Aelodau'r Cynulliad sy'n galw am ymchwiliad cyhoeddus yn gwneud hynny heb feddwl ddwywaith. Rwy'n credu bod hyn yn sarhaus i rieni a theuluoedd y rhai sydd wedi colli pobl yn ardal bwrdd iechyd PABM. Gallai llawer o'r adolygiadau yr ydych chi wedi eu comisiynu fod yn fwy costus nag ymchwiliad cyhoeddus yn y pen draw, Brif Weinidog. Felly, onid ydych chi'n credu nad yw'r gri gan rieni a theuluoedd cleifion yn ddigon teilwng i chi, fel Llywodraeth, i weithredu ar eu galwad a chynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I did not say that those calling for a public inquiry do so at the drop of a hat; I said that you were calling for a public inquiry at the drop of a hat, and I explained what I mean by that. The Member mentions the case of Robbie Powell. It is a case that has been well aired in this Chamber. The case of Robbie Powell is tragic, and Mr Powell and his family were treated appallingly, as we all understand. An investigation took place, and a number of events occurred, which made it very difficult for Mr Powell and his family. I spoke to the General Medical Council, the police, the Crown Prosecution Service, and I initiated the investigation. There was an apology—and rightly so—from the Welsh Government. It is very difficult to know what else can be done, although Mr Powell, quite rightly, is angry and upset about the loss of his son, even after all of these years, and I understand that. However, I have to say to the Member that many of the people who were at the meeting that took place in Bridgend are people that I have been dealing with for some years. I have done the hard work in terms of dealing with them, listening to their concerns, and taking their concerns forward as a constituency Assembly Member. She only became interested a fortnight ago when she went to the meeting. There are some Members who do the hard work, and there are some who jump on a bandwagon, and that is exactly what she has done.

Ni ddywedais fod y rhai sy'n galw am ymchwiliad cyhoeddus yn gwneud hynny heb feddwl ddwywaith; dywedais eich bod chi'n galw am ymchwiliad cyhoeddus heb feddwl ddwywaith, ac eglurais yr hyn yr wyf yn ei olygu wrth ddweud hynny. Mae'r Aelod yn sôn am achos Robbie Powell. Mae'n achos sydd wedi cael llawer o sylw yn y Siambr hon. Mae achos Robbie Powell yn drasig, a chafodd Mr Powell a'i deulu eu trin mewn modd echrydus, fel yr ydym ni i gyd yn ei ddeall. Cynhaliwyd ymchwiliad, a digwyddodd nifer o bethau, a'i gwnaeth yn anodd iawn i Mr Powell a'i deulu. Siaradais â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, yr heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron, a fi ddechreuodd yr ymchwiliad. Cafwyd ymddiheuriad—a hynny'n gwbl briodol—gan Lywodraeth Cymru. Mae'n anodd iawn gwybod beth arall y gellir ei wneud, er bod Mr Powell, yn gwbl briodol, yn flin ac yn anhapus ar ôl colli ei fab, hyd yn oed ar ôl yr holl flynyddoedd, ac rwy'n deall hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod bod llawer o'r bobl a oedd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn bobl yr wyf wedi bod yn ymdrin â nhw ers rhai blynyddoedd. Rwyf wedi gwneud y gwaith caled o ran ymdrin â nhw, gwranddo ar eu pryderon, a bwrw ymlaen â'u pryderon fel Aelod Cynulliad dros etholaeth. Dim ond ers pythefnos y mae ganddi hi ddiddordeb, ar ôl mynd i'r cyfarfod. Mae rhai Aelodau sy'n gwneud y gwaith caled, ac mae rhai sy'n canlyn y llif, a dyna'n union yr hyn y mae hi wedi ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find myself agreeing with Bethan Jenkins's request for a full public inquiry into care standards at Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. Following on from that, I want to unashamedly reiterate our request for a full Keogh-style NHS inquiry in Wales, which would of course pick up the specific concerns that constituents have about care standards within our local health board. We have called for it, First Minister, again and again, but, more importantly, it will save lives and improve our NHS. Why will you not agree to it and clear the air once and for all?

Rwy'n canfod fy mod yn cytuno â chais Bethan Jenkins am ymchwiliad cyhoeddus llawn i safonau gofal ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn dilyn ymlaen o hynny, hoffwn ailadrodd yn ddiedifar ein cais am ymchwiliad o fath Keogh i'r GIG yng Nghymru, a fyddai wrth gwrs yn mynd i'r afael â'r pryderon penodol sydd gan etholwyr am safonau gofal yn ein bwrdd iechyd lleol. Rydym wedi galw amdano, Brif Weinidog, dro ar ôl tro, ond, yn fwy pwysig, bydd yn achub bywydau ac yn gwella ein GIG. Pam na wneuch chi gytuno iddo a chiriw'r aer unwaith ac am byth?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Sorry, I thought that was a resignation speech; I thought we were going to have it now rather than this afternoon, when we all expected it, but there we are.

I say to the Member: there is no need for a Keogh-style inquiry. That is a politically driven matter, as he knows. It is a great shame that he and other Members did not take an interest in many of the people in Bridgend who had their concerns, and that they had not taken an interest before the meeting took place, as many of us did. [Interruption.]

Mae'n ddrwg gennyf, roeddwn i'n meddwl mai araith ymddiswyddo oedd honna; roeddwn i'n meddwl ein bod yn mynd i'w chael hi nawr yn hytrach na'r prynhawn yma, pan roeddem ni i gyd yn ei disgwyl, ond dyna ni.

Dywedaf wrth yr Aelod: nid oes angen ymchwiliad o fath Keogh. Mae hwnnw'n fater â chymhellion gwleidyddol, fel y mae'n ei wybod. Mae'n drueni mawr na chymerodd ef ac Aelodau eraill ddiddordeb mewn llawer o'r bobl a oedd â phryderon ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac nad oedd diddordeb ganddynt cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal, fel yr oedd gan lawer ohonom. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order.

Trefn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:11	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>My concern, as somebody in whose constituency the Princess of Wales Hospital is, and as somebody who lives in Bridgend, is to make sure that what has happened at the hospital is thoroughly investigated in order to ensure that public confidence is there in the future. From that we will not shy away. It is important that what has been put in place is able to report back, and then, of course, it will be possible for the Government to decide what happens next. Restoring public confidence will be important for many of us who live in that town, even when other Members have moved on to other issues.</p>	<p>Fy mhryder i, fel rhywun y mae Ysbyty Tywysoges Cymru yn ei etholaeth, ac fel rhywun sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yw gwneud yn siŵr bod yr hyn sydd wedi digwydd yn yr ysbyty yn cael ei ymchwilio'n drwyadl er mwyn sicrhau bod hyder cyhoeddus yno yn y dyfodol. Ni fyddwn yn cilio rhag hynny. Mae'n bwysig bod yr hyn a roddwyd ar waith yn gallu adrodd yn ôl, ac yna, wrth gwrs, bydd yn bosibl i'r Llywodraeth benderfynu beth sy'n digwydd nesaf. Bydd adfer hyder y cyhoedd yn bwysig i lawer ohonom sy'n byw yn y dref honno, hyd yn oed pan fydd Aelodau eraill wedi symud ymlaen i faterion eraill.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:11	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, we have all heard your refusal to hold a public inquiry, and we are aware that you have dealt with many of the cases raised at that public meeting in Bridgend on 30 January. Can you give an assurance, then, that the current inquiry into the hospital in Bridgend, which you have initiated, will be able to take evidence and talk to all those people who spoke at that public meeting and those who were not able to speak at that public meeting but have those concerns? Will you be able to take into account their views and their problems as part of that inquiry?</p>	<p>Brif Weinidog, mae pob un ohonom wedi clywed eich gwrthodiad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus, ac rydym yn ymwybodol eich bod wedi ymdrin â llawer o'r achosion a godwyd yn y cyfarfod cyhoeddus hwnnw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 30 Ionawr. A allwch chi roi sicrwydd, felly, bod yr ymchwiliad cyfredol i'r ysbyty ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr ydych chi wedi ei gychwyn, yn gallu derbyn tystiolaeth a siarad â'r holl bobl hynny a siaradodd yn y cyfarfod cyhoeddus a'r rhai nad oeddent yn gallu siarad yn y cyfarfod cyhoeddus hwnnw ond sydd â'r pryderon hynny? A fyddwch chi'n gallu cymryd eu safbwyntiau a'u problemau nhw i ystyriaeth yn rhan o'r ymchwiliad hwnnw?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:12	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is important that the inquiries are as broad as possible. The Member will know about the inquiry being taken forward by June Andrews. It is important that that inquiry commands the support of the families involved and is able to listen to the family's concerns as broadly and as thoroughly as possible. That is very important. It is clearly in the interests of all that what has been put in place investigates thoroughly what has happened at the hospitals. It is important that there are lessons learned in terms of the future, and it is absolutely crucial that there is public confidence, in terms of not just the families directly involved, but indeed all those who live in the area. I know the Member shares my view in terms of that—to ensure that what seems to have happened in years gone by in some parts of the hospital is certainly not repeated in the future.</p>	<p>Mae'n bwysig bod yr ymholiadau mor eang â phosibl. Bydd yr Aelod yn gwybod am yr ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan June Andrews. Mae'n bwysig bod yr ymchwiliad yn cael cefnogaeth y teuluoedd dan sylw ac yn gallu gwrandao ar bryderon y teulu mor eang ac mor drylwyr â phosibl. Mae hynny'n bwysig iawn. Mae'n amlwg ei bod er lles pawb bod yr hyn a roddwyd ar waith yn ymchwilio yn drylwyr yr hyn sydd wedi digwydd yn yr ysbytai. Mae'n bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu o ran y dyfodol, ac mae'n gwbl hanfodol bod hyder yn bodoli ymhlith y cyhoedd, nid yn unig o ran y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol, ond pawb sy'n byw yn yr ardal mewn gwirionedd. Rwy'n gwybod bod yr Aelod yn cydfynd â mi yn hynny o beth—er mwyn sicrhau nad yw'r hyn y mae'n ymddangos sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd a fu mewn rhai rhannau o'r ysbyty yn cael ei ailadrodd yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Y Diwydiant Adeiladu</b></p>		<p><b>Construction Industry</b></p>	
14:13	<p><b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)1501(FM)</i></p>	<p><i>9. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is supporting the construction industry in Wales? OAQ(4)1501(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are committed to supporting the construction sector in Wales, and, working with the construction sector panel, we want to continue to ensure that we develop the appropriate packages to grow the sector in the future.</p>	<p>Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r sector adeiladu yng Nghymru, a, chan weithio gyda phanel y sector adeiladu, rydym eisiau parhau i sicrhau ein bod yn datblygu'r pecynnau priodol i dyfu'r sector yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:13 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you for that answer. First Minister, recent construction data in Wales has been very encouraging. Do you agree that the recently announced shared equity scheme can only further encourage housebuilding in Wales?
- Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, mae data adeiladu diweddar yng Nghymru wedi bod yn galonogol iawn. A ydych chi'n cytuno y gall y cynllun ecwiti a rennir a gyhoeddwyd yn ddiweddar wneud dim ond annog ymhellach adeiladu tai yng Nghymru?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The index of production in Wales shows a 3.1% increase when comparing the last four quarters with the previous four quarters, while the UK dropped by 1.6%. So, it shows that the Welsh Government is delivering in terms of the economy, in terms of housebuilding, and, indeed, the 2,000 jobs that were announced yesterday with Pinewood Studios—one of the largest inward-investment projects Wales has seen for many years, and done without the WDA may I say to the party opposite? I am sure that all Members will welcome the work that was done by Edwina Hart and her department in bringing to Wales, despite fierce competition from other countries, a significant investment project. So, I say to the Member that, yes, Help to Buy-Wales is an exceptionally important scheme, and there are close to 250 expressions of interest, but it shows, when it comes to housing, construction and attracting investment, Wales is at the top of the league.
- Mae'r mynegai cynhyrchu yng Nghymru yn dangos cynnydd o 3.1% wrth gymharu'r pedwar chwarter diwethaf â'r pedwar chwarter blaenorol, tra bod y DU wedi gostwng 1.6%. Felly, mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni o ran yr economi, o ran adeiladu tai, ac, yn wir, y 2,000 o swyddi a gyhoeddwyd ddoe gyda Pinewood Studios—un o'r prosiectau mewnfuddsoddi mwyaf yng Nghymru ers blyneddau lawer, ac a wnaed heb y WDA a gaf i ddweud wrth y blaid gyferbyn? Rwy'n siŵr y bydd yr holl Aelodau yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Edwina Hart a'i hadran i ddod â phrosiect buddsoddi sylweddol i Gymru, er gwaethaf cystadleuaeth ffyrnig gan wledydd eraill. Felly, dywedaf wrth yr Aelod, ydy, mae Cymorth i Brynu Cymru yn gynllun eithriadol o bwysig, a chafwyd yn agos i 250 o ddatganiadau o ddiddordeb, ond mae'n dangos, pan ddaw i dai, adeiladu a denu buddsoddiad, bod Cymru ar y brig.
- 14:14 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Clearly, First Minister, with the expansion in construction, there should be a large number of firms of tradesmen right across Wales who wish to take part in that. At one time, your Government used to employ a rather curious—how shall I put it?—'restriction' on such firms, where if the contract they applied for was worth more than 50% of their turnover, they would be denied further progress in the tender process. Does that still occur?
- Yn amlwg, Brif Weinidog, gyda'r ehangu ym maes adeiladu, dylai fod nifer fawr o gwmnïau crefftwyr ledled Cymru sydd eisiau cymryd rhan yn hynny. Ar un adeg, roedd eich Llywodraeth yn arfer defnyddio—sut y gallaf i ei roi?—'cyfyngiad' rhyfedd braidd ar gwmnïau o'r fath, pan oedd y contract yr oedden nhw'n ceisio amdano werth mwy na 50% o'u trosiant, na fyddent yn cael mynd ymhellach yn y broses dendro. A yw hynny'n dal i ddigwydd?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I would need to investigate that thoroughly for the Member. It may be that there are other factors that we have to take into account as a Government, particularly with regard to procurement rules, but I will ensure that the Minister writes to the Member with a full answer.
- Byddai angen i mi ymchwilio i hynny'n drylwyr ar ran yr aelod. Mae'n bosibl bod yna ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu cymryd i ystyriaeth fel Llywodraeth, yn enwedig o ran rheolau caffael, ond byddaf yn sicrhau bod y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Aelod gydag ateb llawn.
- 14:15 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- The construction industry is, as you mentioned, highly reliant on house building. A recent survey by the Money Advice Service found that three quarters of new first-time buyers had stretched themselves to buy their home, with nearly 40% losing sleep due to their current money worries. That is because they had underestimated the true costs. What safeguards do you have within the help-to-buy Wales scheme to ensure that first-time buyers cannot just afford to buy, but also afford to live in, the homes that they have chosen?
- Mae'r diwydiant adeiladu, fel y soniasoch, yn ddibynnol iawn ar adeiladu tai. Canfu arolwg diweddar gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol bod tri chwarter o'r prynwyr tro cyntaf wedi gorymestyn eu hunain i brynu eu cartref, a bod bron i 40% yn colli cwsig oherwydd eu pryderon ariannol presennol. Mae hynny oherwydd eu bod wedi tanamcangyfrif y gwir gostau. Pa fesurau diogelu sydd gennych chi yng nghynllun cymorth i brynu Cymru i sicrhau bod prynwyr tro cyntaf nid yn unig yn gallu fforddio prynu'r cartrefi maen nhw wedi eu wedi dewis, ond y gallant fforddio byw ynndynt hefyd?

- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
What we want to ensure is that those who buy under the help-to-buy Wales scheme are able to service the debts that they will get under their mortgage. We would expect them to receive advice from the financial institutions and we expect those institutions to provide advice that is sound. Nevertheless, it is important that people have the ability to buy houses. That is a dream for many people, although I take the Member's point that it is important that people do not stretch themselves, particularly at a time when interest rates are historically low. They may not remain that way in the future, and then the squeeze will come on many families. It is important that, as people take out mortgages, they understand what might happen. It is exceptionally important that the financial institutions provide that advice, as I am sure that most of them do.
- Yr hyn yr ydym ni eisiau ei sicrhau yw bod y rhai sy'n prynu dan gynllun cymorth i brynu Cymru'n gallu talu'n ôl y dyledion y byddant yn eu cael dan eu morgais. Byddem yn disgwyl iddyn nhw dderbyn cyngor gan y sefydliadau ariannol ac rydym ni'n disgwyl i'r sefydliadau hynny ddarparu cyngor sy'n gadarn. Serch hynny, mae'n bwysig bod gan bobl y gallu i brynu tai. Mae hwnnw'n freuddwyd i lawer o bobl, er fy mod yn derbyn pwynt yr Aelod ei bod yn bwysig nad yw pobl yn gorymestyn eu hunain, yn enwedig ar adeg pan fo cyfraddau llog yn hanesyddol isel. Efallai na fyddant yn parhau felly yn y dyfodol, ac yna bydd y wasgfa'n dod i lawer o deuluoedd. Mae'n bwysig, wrth i bobl drefnu morgais, eu bod yn deall yr hyn a allai ddigwydd. Mae'n eithriadol o bwysig bod y sefydliadau ariannol yn darparu'r cyngor hwnnw, fel rwy'n siŵr y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei wneud.
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
Thank you, First Minister. Diolch yn fawr, Brif Weinidog.
- 14:16 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** Senedd.tv  
[Fideo Video](#) **Business Statement and Announcement**  
**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
There are no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.  
Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 14:17 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
In your role as Minister for local government, is it possible to have a statement as to what role the Government plays in working with local authorities to repair roads? With the terrible winter that we have had so far, with all the water and everything, the pothole situation is deteriorating rapidly, I would suggest. I appreciate that budgets are under pressure and that there is less money to go around, but, come spring, these roads will be in an appalling condition, especially many country lanes. Do you, as a Government, issue any guidance to local government as to how they should maintain the roads under their responsibility? Do you specifically allocate money to those local authorities? Could you contain that within a statement, if you are minded to give a statement?  
Yn eich swyddogaeth fel y Gweinidog Llywodraeth leol, a yw'n bosibl cael datganiad ynghylch pa swyddogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei chyflawni wrth weithio gydag awdurdodau lleol i atgyweirio ffyrdd? Yn sgil y gaeaf erchyll yr ydym ni wedi ei gael hyd yn hyn, â'r holl ddŵr a phopeth, mae'r sefyllfa o ran tyllau yn y ffordd yn dirywio'n gyflym, byddwn yn awgrymu. Rwy'n sylweddoli bod cyllidebau dan bwysau a bod llai o arian i'w rannu, ond, erbyn y gwanwyn, bydd y ffyrdd hyn mewn cyflwr ofnadwy, yn enwedig llawer o lonydd gwledig. A ydych chi, fel Llywodraeth, yn cyflwyno unrhyw ganllawiau i lywodraeth leol o ran sut y dylent gynnal y ffyrdd y maent yn gyfrifol amdanynt? A ydych chi'n dyrannu arian i'r awdurdodau lleol hynny yn benodol? A allech chi gynnwys hynny mewn datganiad, os byddwch yn penderfynu gwneud datganiad?
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
That would not be a statement for me as Minister for local government; it would be for the Minister for Economy, Science and Transport. It is for local authorities to determine how much funding they spend on their highways.  
Ni fyddai hwnnw'n ddatganiad i mi ei wneud fel Gweinidog Llywodraeth leol; mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fyddai hynny. Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu faint o arian maen nhw'n ei wario ar eu priffyrdd.

- 14:17 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Following a series of tragic deaths linked to the 'neknominate' game, I would welcome a statement from the Minister for Health and Social Services, updating Members on efforts to prevent underage drinking and efforts to promote responsible drinking among adults.
- Yn dilyn cyfres o farwolaethau trasig yn gysylltiedig â'r gêm 'neknominate', byddwn yn croesawu datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn diweddarau'r Aelodau ar ymdrechion i atal yfed dan oed ac ymdrechion i hybu yfed cyfrifol ymhlith oedolion.
- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that question. The Minister for Health and Social Services does a great deal to encourage people to drink sensibly. Guidance is given to members of the public in relation to that. The Minister's officials work with Alcohol Concern Cymru all year round to promote healthy drinking messages and tackle underage drinking in Wales. This is a very rapidly moving situation. I am sure that the Minister would consider bringing a statement forward in future.
- Diolch i chi am y cwestiwn yna. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud llawer iawn i annog pobl i yfed yn gall. Rhoddir canllawiau i'r cyhoedd ar hynny. Mae swyddogion y Gweinidog yn gweithio gydag Alcohol Concern Cymru drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo negeseuon yfed yn iach a mynd i'r afael ag yfed dan oed yng Nghymru. Mae hon yn sefyllfa sy'n symud yn gyflym iawn. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn ystyried cyflwyno datganiad yn y dyfodol.
- 14:18 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, pan wnaethpwyd y cyhoeddiad ychydig yn ôl ynglŷn â'r cynlluniau i symud gwasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig allan o ogledd Cymru i Ysbyty Arrowe Park, gwnaethpwyd hynny ar sail ymgynghoriad a oedd yn ei gwneud yn glir mai rhyw 36 o fabanod fyddai angen eu trosglwyddo allan o ogledd Cymru, a'r rheini yn iau na 27 wythnos oed.
- Minister, when the announcement was made a while ago on plans to move intensive care services for newborn babies out of north Wales to Arrowe Park Hospital, that was done on the basis of a consultation that made it clear that some 36 babies would need to be transferred out of north Wales, and that they would be younger than 27 weeks old.
- Erbyn hyn, mae wedi dod yn glir bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn edrych ar y posibilirwydd—ac yn wir, wedi gwneud y penderfyniad, mae'n debyg—y bydd plant o dan 32 wythnos oed yn cael eu trosglwyddo i Arrowe Park. Yn fwy na hynny, 'principally' i Arrowe Park mae'r datganiad yn ei ddweud, sy'n golygu y gallent fod yn mynd i Crewe, Warrington neu hyd yn oed Ormskirk. Mae hynny, yn fy meddwl i, yn codi cwestiynau mawr ynglŷn â'r broses ymgynghorol. Byddwch yn ymwybodol bod y Prif Weinidog wedi cymryd gofal personol o'r mater hwn a bod grŵp o bobl yn edrych ar y mater ar hyn o bryd. Ond, rwy'n gofyn yn garedig ichi ystyried creu lle i'r Prif Weinidog roi datganiad ar lafar, neu, yn sicr fan lleiaf, ddatganiad ysgrifenedig, yn esbonio faint o ymgynghori sydd wedi bod ar y newid hwn yn yr hyn a fydd yn digwydd i fabanod newyddanedig, pam nad oedd yr hyn sydd wedi digwydd yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ac a yw'n teimlo bod hyn, mewn unrhyw ffordd, yn tanseilio'r gwaith i edrych am leoliad fwy tymor hir i'r gwasanaethau.
- It has now become apparent that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board is looking at the possibility—and, indeed, has taken the decision, in all likelihood—that children under 32 weeks will now find themselves transferred to Arrowe Park. More than that, they will be going 'principally' to Arrowe Park—that is what the statement says—which means that they could be going to Crewe, Warrington or even Ormskirk. To my mind, that raises serious questions about the consultation process. You will be aware that the First Minister took personal charge of this issue, and that a group of people is looking at the issue at present. However, I would ask you kindly to consider making time for the First Minister to give an oral statement or, at the very least, to present a written statement, explaining how much consultation has actually taken place on this change in what will happen to newborn babies, why what has happened was not part of the formal consultation and whether he feels that this, in any way, undermines the work of looking at a more long-term location for the services.
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that question. I do not think that this is a new revelation. It is part of ongoing and sensible demand management and the information has been in the public domain. Approved contingency plans must be in place for babies to be able to go to other centres should Arrowe Park be full. It has always been the case that babies have been born in a range of hospitals in the north of England, based on the need to access appropriate specialties.
- Diolch i chi am y cwestiwn yna. Nid wyf yn meddwl bod hwn yn ddatguddiad newydd. Mae'n rhan o reoli galw parhaus a synhwyrol ac mae'r wybodaeth wedi bod eiddo i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i gynlluniau wrth gefn a gymeradwywyd fod ar waith i fabanod allu mynd i ganolfannau eraill pe byddai Arrowe Park yn llawn. Bu'n wir erioed fod babanod wedi cael eu geni mewn amrywiaeth o ysbytai yng ngogledd Lloegr, yn seiliedig ar yr angen i gael mynediad at arbenigeddau priodol.

14:20

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Government has recently been out to consultation on safe routes to schools policy. I wonder whether you could arrange for an update to be given to the Chamber, especially with regard to safe routes to schools that find themselves on the trunk road network. Yesterday, I visited the pupils at Llanelwedd Church in Wales Primary School on the A483. They are campaigning for a crossing in that area that would encourage more children to have the confidence to walk to and from school. It would also assist the children in accessing facilities in the town of Builth Wells. They are determined to address this issue and I would be grateful if we could have a statement and any assistance that your Government could offer. I know that the Minister for Economy, Science and Transport takes children's road safety issues very seriously.

Weinidog, mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgynghori ar bolisi llwybrau diogel i ysgolion yn ddiweddar. Tybed a allech chi drefnu i'r Siambr gael y wybodaeth ddiweddaraf, yn enwedig o ran llwybrau diogel i ysgolion sy'n canfod eu hunain ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Ddoe, ymwelais â disgyblion yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Llanelwedd ar yr A483. Mae nhw'n ymgyrchu ar gyfer cael croesfan yn yr ardal honno a fyddai'n annog mwy o blant i fagu'r hyder i gerdded i'r ysgol ac oddi yno. Byddai hefyd yn helpu plant i gael mynediad at gyfleusterau yn nhref Llanfair-ym-Muallt. Mae nhw'n benderfynol o fynd i'r afael â'r mater hwn a byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael datganiad ac unrhyw gymorth y gallai eich Llywodraeth ei gynnal. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystyried materion diogelwch ar y ffyrdd i blant yn ddifrifol iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, she certainly does, and the Minister will be happy to bring forward a statement.

Ydy'n wir, a bydd y Gweinidog yn hapus i gyflwyno datganiad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I want to support the calls from Llyr Huws Gruffydd for a statement on neonatal care in north Wales. I think that the reports in the media today are very alarming and will cause a great deal of distress to mums-to-be across the region. I would encourage you, as the Welsh Government, to clarify the current situation in terms of the support that you are giving to the Betsi Cadwaladr health board to develop a sub-regional neonatal unit in north Wales as well as to confirm and reaffirm your commitment to that. Clearly, we do not want people travelling unnecessary distances in order to access services. We want to keep services within north Wales wherever possible. It does appear that the story that we have been given by the First Minister is at odds with some of the information being made available to the 'Daily Post' newspaper in particular. Some clarity on that would be useful.

Weinidog, hoffwn gefnogi'r galwadau gan Llyr Huws Gruffydd am ddatganiad ar ofal newyddenedigol yn y gogledd. Rwy'n credu bod yr adroddiadau yn y cyfryngau heddiw yn frawychus iawn ac y byddant yn achosi llawer iawn o bryder i ddarpar famau ledled y rhanbarth. Hoffwn eich annog chi, fel Llywodraeth Cymru, i egluro'r sefyllfa bresennol o ran y gefnogaeth yr ydych chi'n ei rhoi i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ddatblygu uned newyddenedigol isranbarthol yng ngogledd Cymru ac i gadarnhau ac ail-bwysleisio eich ymrwymiad i hynny. Yn amlwg, nid ydym ni eisïau i bobl deithio pellteroedd diangen er mwyn cael mynediad at wasanaethau. Rydym ni eisïau cadw gwasanaethau yng ngogledd Cymru pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'n ymddangos bod y stori yr ydym ni wedi ei chael gan y Prif Weinidog yn wahanol i rywfaint o'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi ar gael i bapur newydd y 'Daily Post' yn arbennig. Byddai rhywfaint o eglurder ar hynny yn ddefnyddiol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

May I also ask for an updated statement from the Minister for Natural Resources and Food further to the report that was published last week into the flooding incidents over the past couple of months? I think that it is incredibly important that we understand the precise action that is now being taken by the Minister, working with local authorities, to redress and remedy some of the coastal damage in parts of north, west and south Wales in particular. My own constituency, of course, had its coastal defences heavily undermined as a result of the poor weather. I am particularly interested to find out what is going on in the Conwy area.

A gaf i ofyn hefyd am ddatganiad diweddarau gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn dilyn yr adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf ar y llifogydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf? Rwy'n meddwl ei bod yn eithriadol o bwysig ein bod yn deall yr union gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd bellach, gan weithio gydag awdurdodau lleol, i drwsio a datrys rhywfaint o'r difrod arfordirol mewn rhannau o ogledd, gorllewin a de Cymru yn enwedig. Tanseiliwyd amddiffynfeydd arfordirol fy etholaeth i yn helaeth, wrth gwrs, o ganlyniad i'r tywydd garw. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn darganfod beth sy'n digwydd yn ardal Conwy.

14:23

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Natural Resources and Food did issue a written statement last Friday. I am not sure whether you have seen that.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ddatganiad ysgrifenedig ddydd Gwener diwethaf. Nid wyf yn siŵr a ydych chi wedi gweld hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to neonatal care in north Wales, you will have heard my answer to Llyr Huws Gruffydd. The First Minister will receive the panel's recommendations on 31 March, so I do not think that it is appropriate to comment further at the moment.

O ran gofal newyddenedigol yng ngogledd Cymru, byddwch wedi clywed fy ateb i Llyr Huws Gruffydd. Bydd y Prif Weinidog yn derbyn argymhellion y panel ar 31 Mawrth, felly nid wyf yn credu ei bod yn briodol i wneud sylwadau pellach ar hyn o bryd.

14:23 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, following on from the questions from the leader of the opposition to the First Minister, and his answers, I was wondering whether time could be made available by the Government for a statement on the Ian Watkins issue. The reason for this request is that, already, the police have indicated that they are taking action in order to tighten up their own procedures in respect of what has happened. Allegations have been made in respect of Rhondda Cynon Taf's social services department. This is a matter of public concern and it seems to me that it is appropriate that the Government should make a statement at some stage with regard to the allegations, in order to ensure public confidence in the procedures that do exist.

Weinidog, yn dilyn ymlaen o'r cwestiynau gan arweinydd yr wrthblaid i'r Prif Weinidog, a'i atebion, ys gwn i a allai'r Llywodraeth roi amser ar gael ar gyfer datganiad ar fater Ian Watkins. Y rheswm am y cais hwn yw bod yr heddlu wedi nodi eisoes eu bod yn cymryd camau i dynhau eu gweithdrefnau eu hunain o ran yr hyn sydd wedi digwydd. Gwnaed honiadau o ran adran gwasanaethau cymdeithasol Rhondda Cynon Taf. Mae hwn yn fater o bryder cyhoeddus ac mae'n ymddangos i mi ei bod yn briodol y dylai'r Llywodraeth wneud datganiad ar yr honiadau ar ryw adeg, er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd yn y gweithdrefnau sydd yn bodoli.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will have heard the First Minister's answer to the question during his question session. We are all deeply concerned by the allegation that there has been a failure by RCT social services, but I do not really think that it would be appropriate for Ministers to comment further in advance of a proper inquiry into the allegations that have been reported.

Byddwch wedi clywed ateb y Prif Weinidog i'r cwestiwn yn ystod ei sesiwn cwestiynau. Mae pob un ohonom yn pryderu'n fawr am yr honiad y bu methiant gan wasanaethau cymdeithasol Rhondda Cynon Taf, ond nid wyf wir yn credu y byddai'n briodol i Weinidogion wneud sylwadau pellach cyn y bydd ymchwiliad priodol wedi'i gynnal i'r honiadau yr adroddwyd amdanynt.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:24 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will know that last week Her Majesty's Revenue and Customs issued a statement about closing its network of inquiry centres in Wales, which will lead to many job losses. Not only that, it will also take away the face-to-face advice that many people need on complicated tax issues. If we look at the wider Welsh economy, it will substantially affect how we can operate in Wales. Could we have a statement from you, because I hope that you would have responded to the consultation, as did I, in terms of how these closures will affect Wales?

Weinidog, byddwch yn gwybod bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi datganiad yr wythnos diwethaf ynglŷn â chau ei rwydwaith o ganolfannau ymholiadau yng Nghymru, a fydd yn arwain at golli llawer o swyddi. Nid yn unig hynny, bydd hefyd yn cael gwared ar y cyngor wyneb yn wyneb y mae llawer o bobl ei angen ar faterion treth cymhleth. Os edrychwn ar economi ehangach Cymru, bydd yn effeithio'n sylweddol ar sut y gallwn weithredu yng Nghymru. A allem ni gael datganiad gennych chi, oherwydd rwy'n gobeithio eich bod wedi ymateb i'r ymgynghoriad, fel y gwnes i, o ran sut y bydd yr achosion hyn o gau yn effeithio ar Gymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the First Minister has been in contact with the Secretary of State for Wales on the issue. It is not a devolved matter, but there is activity and there are discussions at official level.

Gwn fod y Prif Weinidog wedi bod mewn cysylltiad ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y mater. Nid yw'n fater sydd wedi ei ddatganoli, ond mae gweithgarwch yn digwydd ac mae trafodaethau yn cael eu cynnal ar lefel swyddogol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



- 14:25 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, yesterday saw news that passenger satisfaction levels have fallen below 50% for Arriva Trains Wales and First Great Western. A key factor identified in that survey demonstrated that passengers are worried about things like overcrowding and the inability to get a seat on those services, which shows how much of a challenge there is in terms of rolling stock in Wales. Could the Minister for Economy, Science and Transport bring forward a Welsh rolling stock strategy as a priority to not only identify the current needs and shortcomings, but also to set out how we are going to deal with challenges in advance of electrification, the new accessibility requirements that are coming for rolling stock and the new Wales rail franchise?
- Weinidog, cafwyd y newyddion ddoe bod lefelau bodlonrwydd teithwyr wedi gostwng yn is na 50% ar gyfer Trenau Arriva Cymru a First Great Western. Dangosodd un o'r ffactorau allweddol a nodwyd yn yr arolwg hwnnw bod teithwyr yn poeni am bethau fel gorlenwi a'r anallu i gael sedd ar y gwasanaethau hynny, sy'n dangos faint o her sy'n bodoli o ran cerbydau yng Nghymru. A allai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyflwyno strategaeth cerbydau i Gymru fel blaenoriaeth i nodi anghenion a diffygion presennol yn ogystal â nodi sut yr ydym ni'n mynd i ymdrin â heriau cyn trydaneiddio, y gofynion hygyrchedd newydd sy'n dod ar gyfer cerbydau a'r fasnachfaint rheilffyrdd newydd yng Nghymru?
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister deals with many issues in relation to rail—in fact, we have a debate on it tomorrow afternoon. However, I do not think that that is the appropriate time to bring forward that strategy.
- Mae'r Gweinidog yn ymdrin â llawer o faterion yn ymwneud â'r rheilffyrdd—rydym ni'n cael dadl arnynt brynawn yfory a dweud y gwir. Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai dyna'r adeg briodol i gyflwyno'r strategaeth honno.
- 14:26 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Serious concerns have been raised with me about how the Britannia bridge was able to stay open in the high winds last week. Serious questions were raised about the resilience of the crossings of the Menai straits, because of the fact that that road was closed for many hours in the high winds. Could we have a statement on the accuracy of the information that was being gathered at the time about the strength of the winds, and therefore the accuracy of the advice that was given on keeping that bridge open?
- Codwyd pryderon difrifol gyda mi ynghylch sut y llwyddodd pont Britannia i aros ar agor yn ystod y gwyntoedd cryfion yr wythnos diwethaf. Codwyd cwestiynau difrifol ynghylch cadernid croesfannau'r Fenai, oherwydd y ffaith fod y ffordd ar gau am oriau lawer yn y gwyntoedd cryfion. A allem ni gael datganiad ar gywirdeb y wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu ar y pryd am gryfder y gwynt, ac felly cywirdeb y cyngor a roddwyd ar gyfer cadw'r bont honno ar agor?
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Economy, Science and Transport will make a statement in due course.
- Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad maes o law.
- 14:27 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rwyf am ofyn ichi ailystyried eich ymateb i Llyr Huws Gruffydd. Rwy'n meddwl ei bod yn ofynnol i'r Llywodraeth wneud datganiad ar wasanaethau newyddanedig yn y gogledd. Roedd yr ymgynghoriad swyddogol ar sail babanod llai na 27 wythnos yn cael eu trosglwyddo i Loegr, ond, yn fwy arbennig, rhoddyd atebion yn y fan hon mai'r unig ysbyty a oedd o dan ystyriaeth oedd Arrowe Park. Ond, mae'r sefyllfa honno wedi newid. Mae ymgynghoriad cyfreithiol wedi'i gynnal, felly gofynnaf i'r Llywodraeth wneud datganiad clir ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen, yn hytrach na'n bod yn darllen am beth sy'n mynd ymlaen mewn papurau newydd yn y gogledd.
- Minister, I would ask you to reconsider your answer to Llyr Huws Gruffydd. I think that the Government is duty-bound to make a statement on neonatal services in north Wales. The official consultation was on the basis of babies younger than 27 weeks being transferred to England but, more particularly, there were answers given here that the only hospital under consideration was Arrowe Park. Once again, that situation has changed. A legal consultation has been undertaken on this, so I ask the Government to make a clear statement on what is going on, rather than us having to read what is going in north Wales newspapers.
- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have answered this question twice. The only thing that I will say again is that the First Minister will receive the report on 31 March and will then make a statement.
- Rwyf wedi ateb y cwestiwn hwn ddwywaith. Yr unig beth a ddywedaf eto yw y bydd y Prif Weinidog yn derbyn yr adroddiad ar 31 Mawrth ac yn gwneud datganiad ar ôl hynny.
- 14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch i chi, Weinidog.

## Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

Cynnig NDM5440 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle William Graham (Ceidwadwyr Cymreig);

(ii) Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle William Graham (Ceidwadwyr Cymreig); a

(iii) William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o, ac yn Gadeirydd i, y Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig).

## Motion to Elect Members to Committees

Motion NDM5440 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Paul Davies (Welsh Conservatives) as a member of the Business Committee in place of William Graham (Welsh Conservatives);

(ii) Janet Finch-Saunders (Welsh Conservatives) as a member of the Health and Social Care Committee in place of William Graham (Welsh Conservatives); and

(iii) William Graham (Welsh Conservatives) as a member, and Chair, of the Enterprise & Business Committee in place of Nick Ramsay (Welsh Conservatives).

14:28 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:29 **PISA 2012—Y Wybodaeth Ddiweddaraf**

*Skills*

I begin with three important questions. Why is PISA important? Why have we as a Welsh Government chosen to take part in it since 2006? Why do we make such a big deal about it? Andreas Schleicher of the Organisation for Economic Co-operation and Development sums it up for me when he said

'your education today is your economy tomorrow'.

PISA is an established, robust and internationally respected assessment. It benchmarks educational systems from diverse countries and cultures, and shows how individual countries are performing in a globalised economy. It is particularly important because PISA assesses whether students can use their knowledge and apply it to real life situations. It emphasises the mastery of processes, the understanding of concepts, and the ability to function in various types of situations. In a nutshell, PISA tests the skills acquired in the classroom to real life problems.

**PISA 2012—Update**

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and*

Dechreuaf gyda thri chwestiwn pwysig. Pam mae PISA yn bwysig? Pam ydym ni fel Llywodraeth Cymru wedi dewis cymryd rhan ynddo ers 2006? Pam yr ydym yn rhoi cymaint o sylw i'r peth? Mae Andreas Schleicher o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei grynhai i mi pan ddywedodd

eich addysg heddiw yw eich economi yfory.

Mae PISA yn asesiad cadarn sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei barchu'n rhyngwladol. Mae'n meincnodi systemau addysg o wledydd a diwylliannau amrywiol, ac yn dangos sut mae gwledydd unigol yn perfformio mewn economi fyd-eang. Mae'n arbennig o bwysig oherwydd bod PISA yn asesu a all myfyrwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'i chymhwyso i sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae'n pwysleisio meistrolaeth dros brosesau, dealltwriaeth o gysyniadau, a'r gallu i weithredu mewn gwahanol fathau o sefyllfaoedd. Yn gryno, mae PISA yn profi'r sgiliau a ddysgwyd yn yr ystafell ddsbarth o safbwynt problemau bywyd go iawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

There is a clear link between the skills base of the population and the economic health of a nation. The cost of a low skills base is significant, and so it is imperative that we equip our young people in the classroom with skills that translate to the workplace and life. Everyone needs to understand how important it is for our young people to have these skills. Our new skills policy clearly demonstrates how important skills are to the Welsh economy. This policy is to support Wales to evolve into a highly skilled nation and to deliver on the jobs and growth agenda. This policy has been designed to specifically look at skills for jobs and growth, skills that respond to local needs, skills that employers value and skills for employment. These are the skills tested in PISA, and for our young people to do well in the next PISA round and in the future, we know that they need to have a better grasp and understanding of literacy, numeracy and reasoning. Education is the only way we can achieve this and that is why it must improve.

PISA is not the only measure of how our education system delivers, but I must emphasise its importance. Schools should prepare students for their working lives. We already have a number of reforms in process, but I have taken a long hard look at what PISA has told us and how we can improve. I want all learners to develop the cognitive and meta-cognitive skills that PISA demands. I want our students to develop those problem-solving and reasoning skills that are demanded in the workplace and in life. That is why we are moving to new-style GCSEs, which will test these skills more thoroughly, and it is against this backdrop that we will take this work forward.

In the academic year 2015-16, we will begin to see some of our education reforms bearing fruit. The current 'Improving Schools' plan will have run its course and, specifically, the literacy and numeracy framework will have been statutory for a full two years. Both the national support programme and the national model for regional working will have been implemented, building capacity for school improvement and bringing high-quality intervention and support. Added to these, there will be changes both in qualifications and assessment that will be aligned to the reforms and this will provide a coherent and cohesive system delivering sustained improvement.

Nevertheless, we are challenged by the short timescale in which to effect improvements for the learners currently in the school system. Therefore, we are putting in place some measures designed to have an immediate impact. The first step is to conduct further analysis and planning. This is a broader analysis than the current PISA 2012 dataset. We know from other evidence that our learners struggle with taking tests, and very often, lack the resilience to complete tests, particularly as in the case of PISA, where their relevance and impact are often not clearly understood. This is an issue that needs to be addressed.

Mae cysylltiad clir rhwng sylfaen sgiliau'r boblogaeth ac iechyd economaidd cenedl. Mae cost sylfaen sgiliau isel yn sylweddol, ac felly mae'n hanfodol ein bod yn arfogi ein pobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth gyda sgiliau sy'n trosi i'r gweithle ac i fywyd. Mae angen i bawb ddeall pa mor bwysig yw hi i'n pobl ifanc gael y sgiliau hyn. Mae ein polisi sgiliau newydd yn dangos yn glir pa mor bwysig yw sgiliau i economi Cymru. Nod y polisi hwn yw cefnogi Cymru i esblygu i fod yn genedl fedrus iawn ac i gyflawni ar yr agenda swyddi a thwf. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gynllunio i edrych yn benodol ar sgiliau ar gyfer swyddi a thwf, sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol, sgiliau sy'n bwysig i gyflogwyr a sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Dyma'r sgiliau a brofir yn PISA, ac er mwyn i'n pobl ifanc wneud yn dda yn y rownd PISA nesaf ac yn y dyfodol, rydym yn gwybod bod angen iddynt gael gwell gafael a dealltwriaeth ar lythrennedd, rhifedd a rhesymu. Addysg yw'r unig ffordd y gallwn gyflawni hyn a dyna pam y mae'n rhaid iddi wella.

Nid PISA yw'r unig fesur o sut y mae ein system addysg yn cyflawni, ond rhaid i mi bwysleisio ei phwysigrwydd. Dylai ysgolion baratoi myfyrwyr ar gyfer eu hoes waith. Mae nifer o ddiwygiadau ar waith eisoes, ond rwyf wedi edrych yn ofalus ar yr hyn y mae PISA wedi ei ddweud wrthym a sut y gallwn wella. Rwyf am i bob dysgwyr ddatblygu'r sgiliau gwybyddol a meta-wybyddol y mae PISA yn eu mynnu. Rwyf am i'n myfyrwyr ddatblygu'r sgiliau datrys problemau a rhesymu hynny y mae galw amdanynt yn y gweithle ac mewn bywyd. Dyna pam yr ydym yn symud i gyrsgiau TGAU arddull newydd, a fydd yn profi'r sgiliau hyn yn fwy trylwyr, a byddwn yn symud y gwaith hwn yn ei flaen yn erbyn y cefndir hwnnw.

Yn y flwyddyn academaidd 2015-16, byddwn yn dechrau gweld rhai o'n diwygiadau ym maes addysg yn dwyn ffrwyth. Bydd y cynllun 'Gwella Ysgolion' presennol wedi dod i ben ac, yn benodol, bydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi bod yn statudol am ddwy flynedd lawn. Bydd y rhaglen gymorth genedlaethol a'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol wedi cael eu gweithredu, gan feithrin gallu ar gyfer gwella ysgolion a dod ag ymyrraeth a chymorth o ansawdd uchel. Yn ychwanegol at hyn, cyflwynir newidiadau mewn cymwysterau ac asesiadau a fydd yn gydnaws â'r diwygiadau a bydd hyn yn darparu system gydllynus a chydlynol gan sicrhau gwelliant parhaus.

Serch hynny, mae'r amserlen fer er mwyn sicrhau gwelliannau ar gyfer y dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn y system ysgol yn her inni. Felly, rydym yn sefydlu rhai mesurau a gynlluniwyd i gael effaith ar unwaith. Y cam cyntaf yw cynnal rhagor o waith dadansoddi a chynllunio. Mae hwn yn ddadansoddiad ehangach na'r gyfres ddata bresennol ar gyfer PISA 2012. Rydym yn gwybod o dystiolaeth arall bod ein dysgwyr yn cael trafferth wrth wneud profion, ac yn aml iawn, heb y gwydnwch i gwblhau profion, yn enwedig fel ag yn achos PISA, lle nad yw eu perthnasedd a'u heffaith yn aml yn cael eu deall yn glir. Mae hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo.

I am keen that we also communicate more clearly how much we value the adaptive skills that PISA tests. We will be developing a narrative that reinforces the link to a strong economy and the importance both to Wales and to the individual of high skills. This will involve working with partners to ensure that, as we move to a new GCSE model, particularly for mathematics, the importance of the changes are emphasised to schools, within schools, and to pupils and parents. Fundamental to learners being able to demonstrate their skills acquisition is a high level of literacy and numeracy competence. It is absolutely right that our focus is on cross-curriculum literacy and numeracy going forward. We know that this is of critical importance to enable young people to answer PISA-style questions or to do well in the new-style GCSEs.

To underpin this revised approach will require us to build further capacity within the system. This will include working with the consortia and the unions to ensure effective continuing professional development for teachers for the new GCSEs. The recently announced Schools Challenge Cymru aims to raise attainment and improve outcomes at key stage 3 and key stage 4 for young people, especially those from deprived backgrounds. Today's announcement will ensure that all children in Wales will benefit from a stronger suite of adaptive skills, which will prepare them better for work, for further learning, and for their future lives.

I can also announce today that the Welsh Government has agreed that PISA-based tests for schools will be made available in Wales. Individual schools, or clusters of schools, will be able to take part in individual school-based PISA-type assessments, to benchmark themselves against the highest performing nations in the world. Schools will receive detailed feedback, which will provide a powerful source of information and analysis to effect school improvement. Together with confidential feedback from students on questions such as how much they enjoy school and the classroom environment, and from school leaders about the educational practices in the schools, schools will be able to see how well they are doing compared with other, similar schools. This is a voluntary option, and individual schools can decide whether they want to participate or not. However, I would encourage them to do so, as this will lead, for the first time, to schools being able to have a school improvement plan that benchmarks them against the best-performing schools in the world.

Rwy'n awyddus ein bod hefyd yn cyfathrebu'n fwy clir pa mor bwysig inni yw'r sgiliau addasol y mae PISA yn eu profi. Byddwn yn datblygu naratif sy'n atgyfnerthu'r cyswllt ag economi gref a phwysigrwydd sgiliau lefel uchel i Gymru ac i'r unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i sicrhau, wrth inni symud tuag at fodel TGAU newydd, yn enwedig ar gyfer mathemateg, bod pwysigrwydd y newidiadau yn cael eu pwysleisio i ysgolion, mewn ysgolion, ac i ddisgyblion a rhieni. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn hynod gymwys o ran llythrennedd a rhifedd er mwyn gallu dangos y sgiliau y maent wedi'u caffael. Mae'n hollol iawn ein bod yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd traws-gwricwlaidd wrth symud ymlaen. Rydym yn gwybod bod hyn yn hollbwysig i alluogi pobl ifanc i ateb cwestiynau o'r math sydd yn PISA neu i wneud yn dda yn y TGAU ar ei newydd wedd.

Bydd yn rhaid inni feithrin rhagor o allu o fewn y system er mwyn ategu'r ymddiriedolaeth ddiwygiedig hon. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r consortia a'r undebau i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus effeithiol i athrawon ar gyfer y cyrsiau TGAU newydd. Nod Her Ysgolion Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw codi cyrhaeddiad a gwella canlyniadau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Bydd y cyhoeddiad heddiw yn sicrhau y bydd pob plentyn yng Nghymru yn elwa o gyfres gryfach o sgiliau addasol, a fydd yn eu paratoi yn well ar gyfer gwaith, ar gyfer dysgu pellach, ac ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Gallaf hefyd gyhoeddi heddiw bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno y trefnir y bydd y profion seiliedig ar PISA ar gael ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Bydd ysgolion unigol, neu glystyrau o ysgolion, yn gallu cymryd rhan mewn asesiadau tebyg i rai PISA seiliedig mewn ysgolion unigol, i'w meincodi eu hunain yn erbyn y gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd. Bydd ysgolion yn derbyn adborth manwl, a fydd yn ffynhonnell bwerus o wybodaeth a dadansoddiad er mwyn cyflwyno gwelliannau yn yr ysgol. Ynghyd ag adborth cyfrinachol gan fyfyrwyr ar gwestiynau megis faint y maent yn mwynhau'r ysgol ac amgylchedd yr ystafell ddosbarth, a chan arweinwyr ysgolion ynghylch yr arferion addysgol yn yr ysgolion, bydd ysgolion yn gallu gweld pa mor dda y maent yn gwneud o'i gymharu ag ysgolion eraill tebyg. Opsiwn gwirfoddol yw hwn, a gall ysgolion unigol benderfynu a ydynt am gymryd rhan neu beidio. Fodd bynnag, byddwn yn eu hannog i wneud hynny, gan y bydd hyn yn galluogi ysgolion, am y tro cyntaf, i sefydlu cynllun gwella sy'n eu meincodi yn erbyn yr ysgolion sy'n perfformio orau yn y byd.

14:36

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you very much for your statement today. Like you, I would certainly agree on the importance of PISA in terms of ensuring that we have the portability and the recognition of skills, because PISA has, for whatever reasons, become the de facto international standard by which countries are measured. I have read your statement with interest, and just have a couple of observations that I would like to make on it.

Weinidog, diolch yn fawr iawn am eich datganiad heddiw. Fel chi, byddwn yn sicr yn cytuno pa mor bwysig yw PISA o ran sicrhau bod gennym sgiliau a gydnabyddir ac y gellir eu trosglwyddo, oherwydd bod PISA, am ba bynnag reswm, wedi datblygu i fod y safon ryngwladol de facto ar gyfer mesur gwledydd. Rwyf wedi darllen eich datganiad â diddordeb, a byddwn yn hoffi gwneud dim ond un neu ddau o sylwadau yn ei glych.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The first thing is that I found the statement to be a bit of a puzzle. The reason for that is that, on Monday 10 December 2012, the former Minister for education made a much-publicised visit to the Organisation for Economic Co-operation and Development and asked it to put together a report—an analysis on the Welsh education system. That is due to be published, or to be presented—perhaps to yourself, Minister, and you may already have it, I do not know—in March 2014, which is just a few days away. I just wondered why you brought forward this PISA announcement today, when we are going to have that report that will be able to influence and impact on our thought processes.

The second comment that I would like to make about the statement is that I would like to just raise that never-ending plea to ensure that we do not teach to the test, but that we do really drill down and teach the skills of understanding and application.

I am concerned about some elements, because the statement does not seem to really talk a huge amount about actions. It seems to say that you are going to try to improve your delivery, and it talks about more analysis, and more planning. However, does that mean no action, and what effect will there be on current learners? In the Record of Proceedings for 3 December 2013, the former Minister for education made this comment about PISA:

‘What matters is the programme of reform that has been drawn up and introduced over recent years; the embedding of that; the support that has been given to schools in terms of how the PISA assessment works; and, the work that has been done within the qualifications review to look at the lessons of PISA.’

Therefore, I have to ask you why we need yet more analysis and yet more planning, because, surely, we know what we need to know about PISA, and we should be able to move forward.

What I would also be interested to know, Minister, is what analysis you have done about what makes successful PISA schools. In Europe, for example, the key benefit that a great many countries that have done well in PISA have managed to bring forward is that they have stopped children from dropping out of the education system; that has been what has made the transformational change. What plans do you have in place to ensure that, rather than just constantly talking about trying to make more out of what we already have, we can stop those who are currently escaping us in droves and bring them back in?

I would also like to make comment that, in some ways, the PISA measure is flawed—it is not as transparent and as well-balanced across all the countries of the globe. Many different countries have different ways of putting education together. For example, the far eastern countries like to do an awful lot of out-of-hours school work. So, what analysis have you done with regard to that and how we might be more balanced in where we stand?

Y peth cyntaf yw i mi ystyried y datganiad yn dipyn o benbleth. Y rheswm am hynny yw bod y cyn Weinidog addysg, ddydd Llun Rhagfyr 10, 2012, wedi bod ar ymweliad a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd gan ofyn iddynt lunio adroddiad—dadansoddiad o system addysg Cymru. Mae hwnnw i fod i gael ei gyhoeddi, neu ei gyflwyno—efallai i chi eich hun, Weinidog, ac efallai ei fod eisoes gennych chi, nid wyf yn gwybod—ym mis Mawrth 2014, sydd ond ychydig yn ychydig ddyddiau i fwrdd. Meddwl oeddwn i, tybed pam yr oeddech yn gwneud y cyhoeddiad hwn ynglŷn â PISA heddiw, pan mae'r adroddiad hwnnw, a fydd yn gallu dylanwadu ac effeithio ar ein prosesau meddwl, ar y ffordd.

Yr ail sylw yr hoffwn ei wneud am y datganiad yw yr hoffwn wneud y ple diddiwedd i sicrhau nad ydym yn addysgu sut i basio'r prawf, ond ein bod wir yn drilio'i lawr ac yn addysgu disgyblion i ddeall ac i roi'r sgiliau ar waith.

Rwy'n pryderu am rai elfennau, gan nad yw'n ymddangos bod y datganiad yn siarad llawer iawn mewn gwirionedd am weithredoedd. Mae'n ymddangos fel pe bai'n dweud eich bod yn mynd i geisio gwella eich dulliau cyflwyno, ac mae'n sôn am fwy o ddadansoddi, a mwy o gynllunio. Fodd bynnag, a yw hynny'n golygu dim gweithredu, a pha effaith fydd ar ddysgwyr cyfredol? Yng Nghofnod y Trafodion ar gyfer 3 Rhagfyr, 2013, gwnaeth y cyn Weinidog addysg y sylw hwn am PISA:

‘Yr hyn sy'n bwysig yw'r rhaglen o ddiwygio a luniwyd ac a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; sefydlu hynny; y cymorth a roddwyd i ysgolion o ran sut mae'r asesiad PISA yn gweithio; ac, y gwaith sydd wedi ei wneud yn yr adolygiad cymwysterau i edrych ar wersi PISA.’

Felly, rhaid i mi ofyn i chi pam mae angen hyd yn oed mwy o ddadansoddi a mwy o gynllunio, oherwydd, yn sicr, rydym yn gwybod beth y mae angen inni ei wybod am PISA, a dylem fod yn gallu symud ymlaen.

Rhywbeth arall y byddai gennyf ddiddordeb ei wybod, Weinidog, yw pa ddadansoddiad yr ydych wedi ei gynnal i'r hyn sy'n gwneud ysgolion PISA llwyddiannus. Yn Ewrop, er enghraifft, y budd allweddol y mae nifer fawr o wledydd sydd wedi gwneud yn dda yn PISA wedi llwyddo i'w gyflwyno, yw wedi atal plant rhag gadael y system addysg; dyna beth sydd wedi gwneud y newid trawsffurfiol. Pa gynlluniau sydd gennych ar waith i sicrhau ein bod yn atal y rhai sydd ar hyn o bryd yn dianc oddi wrthym yn llu a dod â nhw'n ôl i mewn, yn hytrach na dim ond sôn yn gyson am geisio gwneud mwy o'r hyn sydd gennym yn barod?

Hoffwn hefyd wneud y sylw bod y mesur PISA, mewn rhai ffyrdd, yn ddiffygiol—nid yw mor dryloyw ac mor gytbwys ar draws holl wledydd y byd. Mae gan lawer o wahanol wledydd wahanol ffyrdd o roi addysg at ei gilydd. Er enghraifft, mae'r gwledydd dwyreiniol yn hoffi gwneud llawer iawn o waith ysgol y tu allan i'r oriau arferol. Felly, pa ddadansoddiad ydych chi wedi'i wneud o ran hynny a sut y gallwn fod yn fwy cytbwys o ran ble yr ydym yn sefyll?

Finally, will the recommendations that you talk about lead to an assessment of future changes to the PISA assessment? For example, a measure of financial education will be included in the future. Will our future pupils be equipped with the skills and knowledge to deal with this as well as existing PISA measures? In your last statement on PISA, you said that you wanted to shoot it through with grit and resolve. Minister, I am not entirely clear that we have the grit and resolve in this statement today.

Yn olaf, a fydd yr argymhellion yr ydych yn siarad amdanynt yn arwain at asesiad o newidiadau i'r asesiad PISA yn y dyfodol? Er enghraifft, bydd mesur o addysg ariannol yn cael ei gynnwys yn y dyfodol. A fydd ein disgyblion yn y dyfodol yn cael y sgiliau a'r wybodaeth i ddelio â hyn yn ogystal â'r mesurau PISA presennol? Yn eich datganiad diwethaf ar PISA, fe wnaethoch ddweud eich bod am i her a phenderfyniad dreiddio trwyddo. Weinidog, nid wyf yn hollol glir bod y dycnwch a'r penderfyniad yn y datganiad hwn heddiw.

14:40

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am puzzled as to why the Member is puzzled about the compatibility or otherwise between today's statement and the coming OECD report. She is quite right; that report will be with us in March. That OECD report, of course, will be an all-encompassing look at the current state of Welsh education with recommendations for the future, in the short, medium and long term. As I said in my statement, these PISA tests—these voluntary tests for schools—are being made available through joint approaches between Wales, England and Northern Ireland, through the OECD, in order to make sure that we begin quickly, as I promised, to respond to the various shocks that were presented to us during the PISA tests of 2012. I promised Members that I would not linger. This, in part, is a fulfilment of that promise.

We will not be teaching to the test. That would not be good enough. The report back, in terms of involvement in these voluntary PISA tests, to schools is the most valuable reason for taking on board this challenge. This is why I am encouraging schools to take this challenge on board. That feedback, which is individual to that school, will give it a wealth of information about where it stands in relation to other Welsh schools, in relation to other schools across the UK, and, indeed, where it stands in a global context, and will enable it to self-evaluate with a very rich database of information.

It is just not true to say that there is no action going along with this statement, of course, because I have mentioned already the Schools Challenge, which is a considerable intervention in terms of our lowest performing 40 or so schools. I have mentioned the qualifications changes that are coming; the overhaul, of which there is more to follow, of continuous professional development and support for our workforce; as well as the literacy and numeracy framework and the support packages that go along with that.

The Member is quite right to point out that a good school in PISA's eyes may have various aspects. One of them, certainly, is this: every child's achievement is of importance. One of the defining features, I fear, of the Welsh educational set-up as we currently have it is that we have too many lower achieving young people. That is not a feature of those countries that perform well in PISA. Another feature, incidentally, of the top-12 PISA countries is that they are community comprehensive-based systems—only one of them is not. Of course, Wales has that in common and we will stick to that philosophy. The Member is quite right: PISA is flawed, but PISA does matter.

Rwy'n ddryslyd pam fod yr Aelod yn ddryslyd pa un a yw'r datganiad heddiw a'r adroddiad a ddisgwylir gan yr OECD yn gydnaws â'i gilydd ai peidio. Mae hi yn llygad ei le; bydd yr adroddiad hwnnw gyda ni ym mis Mawrth. Bydd yr adroddiad hwnnw gan yr OECD, wrth gwrs, yn edrych ar sefyllfa bresennol addysg Cymru yn ei chyfanrwydd, ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer y dyfodol, yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Fel y dywedais yn fy natganiad, mae'r profion PISA hyn—y profion gwirfoddol hyn ar gyfer ysgolion—yn cael eu darparu trwy ymdriniaeth ar y cyd rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, drwy'r OECD, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn dechrau'n gyflym, fel yr addewais, i ymateb i'r ysgytwadau amrywiol a gyflwynwyd i ni yn ystod profion PISA 2012. Addewais i'r Aelodau na fyddwn yn oedi. Mae hwn, yn rhannol, yn cyflawni'r addewid hwnnw.

Ni fyddwn yn addysgu sut i basio'r prawf. Ni fyddai hynny'n ddigon da. Yr adroddiad i ysgolion, o ran cymryd rhan yn y profion PISA gwirfoddol, yw'r rheswm mwyaf gwerthfawr dros dderbyn yr her hon. Dyna pam rwy'n annog ysgolion i dderbyn yr her hon. Bydd yr adborth hwnnw, sy'n unigol i'r ysgol honno, yn rhoi cyfoeth o wybodaeth am ei sefyllfa o'i chymaru ag ysgolion eraill yng Nghymru, o'i chymaru ag ysgolion eraill ar draws y DU, ac, yn wir, ei sefyllfa mewn cyd-destun byd-eang, a bydd yn ei galluogi i hunanwerthuso gyda chronfa ddata gyfoethog iawn o wybodaeth.

Nid yw'n wir o gwbl i ddweud nad oes unrhyw gamau gweithredu'n cyd-fynd â'r datganiad hwn, wrth gwrs, oherwydd fy mod wedi crybwyll yr Her Ysgolion eisoes. Mae hwn yn ymyriad sylweddol o ran oddeutu 40 o'n hysgolion â'r perfformiad gwaelaf. Rwyf wedi sôn am y newidiadau sydd ar ddod i'r cymwysterau; yr ailwampio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a chefnogaeth ar gyfer ein gweithlu, ac mae mwy i ddilyn; yn ogystal â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r pecynnau cymorth sy'n cyd-fynd â hynny.

Mae'r Aelod yn hollol iawn i nodi y gall ysgol dda yng ngolwg PISA fod â gwahanol agweddau. Un ohonynt, yn sicr, yw hyn: mae cyflawniad pob plentyn yn bwysig. Un o'r nodweddion sy'n diffinio'r drefn addysgol yng Nghymru ar hyn o bryd, mae arnaf ofn, yw bod gennym ormod o bobl ifanc nad ydynt yn cyflawni'n ddigon da. Nid yw hynny'n un o nodweddion y gwledydd hynny sy'n gwneud yn dda yn PISA. Nodwedd arall o'r 12 gwlad PISA uchaf, gyda llaw, yw mai systemau cyfun cymunedol sydd ganddynt—dim ond un ohonynt sy'n wahanol. Wrth gwrs, mae hynny'n wir am Gymru hefyd a byddwn yn cadw at yr athroniaeth honno. Mae'r Aelod yn llygad ei lle: mae PISA yn ddiffygiol, ond mae PISA yn cyfrif.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I start by welcoming the Minister's statement and suggesting that, perhaps, he should take the opposition spokesperson through the PISA assessments, as she would realise how difficult it would be to teach to the test in PISA? May I say to the Minister that his statement demonstrates that we are now in a position to integrate the literacy and numeracy framework, the new GCSEs in mathematics and numeracy, and the PISA tests? With the further development of the numeracy tests this year, I think that we will be giving our young people very good preparation for PISA in the future. I am delighted that he is opening up the opportunity for Welsh schools to take part in the schools comparison globally, which I discussed with Andreas Schleicher in the OECD in December 2012. Finally, I welcome the announcement that he made last week, which he refers to in his statement, on Schools Challenge Cymru in respect of the 40 poorest performing schools in Wales. Does he agree with me on this: if we are to improve our performance in PISA and other international comparisons in future, the question of leadership in our schools remains critical? Will he continue to support the initiatives that were developed in the Hill review in respect of leadership in schools?

A gaf fi ddechrau trwy groesawu datganiad y Gweinidog ac awgrymu, efallai, y dylai fynd â llefarydd yr wrthblaid drwy'r asesiadau PISA, gan y byddai hi'n sylweddoli pa mor anodd fyddai hi i addysgu sut i basio'r prawf, yn achos PISA? A gaf fi ddweud wrth y Gweinidog bod ei ddatganiad yn dangos ein bod yn awr mewn sefyllfa i integreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, y TGAU newydd mewn mathemateg a rhifedd, a'r profion PISA? Gyda datblygiad pellach y profion rhifedd eleni, rwy'n meddwl y byddwn yn paratoi ein pobl ifanc yn dda iawn ar gyfer PISA yn y dyfodol. Rwyf wrth fy modd ei fod yn agor y cyfle i ysgolion Cymru gymharu eu hunain ag ysgolion yn fyd-eang—rhywbeth a drafodais gydag Andreas Schleicher yn yr OECD ym mis Rhagfyr 2012. Yn olaf, croesawaf y cyhoeddiad a wnaeth yr wythnos diwethaf, ac y mae'n cyfeirio ato yn ei ddatganiad, am Her Ysgolion Cymru ar gyfer y 40 o ysgolion â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru. A yw'n cytuno â mi ar hyn: os ydym am wella ein perfformiad yn PISA a chymariaethau rhyngwladol eraill yn y dyfodol, mae'r cwestiwn o arweinyddiaeth yn ein hysgolion yn parhau i fod yn hollbwysig? A fydd yn parhau i gefnogi'r mentrau a ddatblygwyd yn adolygiad Hill o ran arweinyddiaeth mewn ysgolion?

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for those positive and insightful comments. He is quite right, of course, to point to the need we have to integrate initiatives such as the literacy and numeracy framework. In fact, the LNF is a measure to build integration into the system as regards the importance of literacy and numeracy across the curriculum. That feeds through then into the need to get ready for the new-style GCSEs, which have greater rigour when it comes to literacy and numeracy and also have those cognitive and metacognitive aspects—those problem-solving, applying-knowledge-to-the-real-world aspects, if you like—that are so much a feature of PISA. Schools Challenge Cymru, of course, is also intended as a jump-start measure for some of our schools that are finding it most challenging to come to terms with the situation they find themselves in. The Member need not fear with regard to the Hill review's emphasis on leadership and capacity. Those go hand-in-hand with these measures around curriculum and assessment changes. I will be making further announcements very shortly that echo the calls that Hill made upon us.

Diolch i'r Aelod am y sylwadau cadarnhaol a chraff hynny. Mae'n hollol iawn, wrth gwrs, i dynnu sylw at yr angen sydd gennym i integreiddio mentrau fel y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Yn wir, mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn fesur i ymwreiddio'r syniad o integreiddio yn y system, o ran pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hynny'n treiddio wedyn i'r angen i baratoi ar gyfer y cyrsiau TGAU ar eu newydd wedd, sy'n fwy trylwyr o safbwynt llythrennedd a rhifedd ac sydd hefyd yn cynnwys yr agweddau gwybyddol a metawybyddol hynny—yr agweddau datrys problemau, cymhwysio gwybodaeth i'r byd go iawn, os mynnwch chi—sydd gymaint o nodwedd o PISA. Mae Her Ysgolion Cymru, wrth gwrs, hefyd wedi'i bwriadu i roi hwb ychwanegol i rai o'n hysgolion sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd i ddod i delerau â'r sefyllfa y maent ynddi. Nid oes rhaid i'r Aelod ofni o ran pwyslais adolygiad Hill ar arweinyddiaeth a gallu. Mae'r rhain yn mynd law yn llaw â'r mesurau hyn o ran newidiadau i'r cwricwlwm a'r dulliau asesu. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau eraill yn fuan iawn gan adleisio'r galwadau a wnaeth Hill arnom.

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. A gaf ddechrau drwy ddweud ein bod yn falch iawn bod dadl Plaid Cymru bod addysg wael yn dal perfformiad y genedl oll yn ôl bellach yn cael ei derbyn yn fwy eang? Gall neb fod yn fodlon gyda sefyllfa bresennol ein heconomi, beth bynnag yw ein hamcanion tymor hir ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru. Yn y cyd-destun hwnnw, croesawaf eto, a manteisiaf ar y cyfle i ddweud ein bod yn croesawu, Her Ysgolion Cymru. Fodd bynnag, rydym yn aros am fanylion ynglŷn â'r union raglen honno. Rwyf hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru heddiw wedi gosod yn glir ac yn blaen ei chred ym mhwrpas a hygredd PISA. Nid oes un system sydd yn berffaith, rwy'n derbyn hynny, ond bu nifer yn ceisio cymylu'r darlun wrth gyhoeddi canlyniadau PISA, gan gynnwys, yn anffodus, nifer yn rhai o'r undebau athrawon. Rwy'n meddwl bod datganiad y Llywodraeth heddiw o werth yn y ddadl honno. Rwy'n derbyn hynny ac yn ddiolchgar amdano.

I bob pwrpas, yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei ddatgan heddiw yw y bydd disgyblion Cymru yn ymarfer ar gyfer profion PISA yn y dyfodol. Nid yw hynny'n annerbyniol; rwyf eisiau gwneud hynny'n glir. Fodd bynnag, uwchben pob peth, mae'n rhaid sicrhau bod disgyblion yn dysgu'r sgiliau a'r cadernid i sefyll y profion hyn yn hytrach na dysgu fel parot. Rwy'n derbyn nad yw'r Gweinidog yn dweud hyn, ond rwyf eisiau ei gwneud yn glir bydd rhai yn dehongli'r hyn sydd wedi cael ei ddweud heddiw fel rhyw fath o ddysgu ar gyfer profion. Rwyf eisiau bod yn glir mai dysgu sgiliau y dylid ei wneud. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n cytuno â'r hyn sydd wedi cael ei ddweud eisoes na fyddwn yn gwella oni bai ein bod yn ymdrin â dysgu, arweinyddiaeth yn yr ysgol ac yn y dosbarth, cefnogaeth i ddysgu, a'r bwch cyrhaeddiad. Yn y bôn, dyna'r brif her i'r system addysg yng Nghymru. Mae'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei ddatgan heddiw yn help ar un lefel o ran ymdrin â hynny. Fodd bynnag, i fod yn deg, nid yw'n mynd i'r afael â'r pethau sylfaenol hynny.

Felly, hoffwn ofyn dau gwestiwn i'r Gweinidog heddiw ynglŷn â rhai o'r pethau sylfaenol hynny. Yn gyntaf oll, cyhoeddech chi ddoe, Weinidog, ddatganiad ysgrifenedig am y model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol. Yn y datganiad hwnnw, roeddech yn sôn am ei roi ar waith yn raddol o fis Ebrill ymlaen. Hoffwn ofyn i chi heddiw pam yr ydych yn meddwl rhoi hynny ar waith yn raddol. Flwyddyn yn ôl, roedd y cyn Weinidog yn anhapus gyda'r cynnydd bryd hynny. Mae gweld hyn yn cael ei roi ar waith yn raddol yn awr yn rhyfedd iawn i mi. A oes rhywun yn llaesu dwylo ar lefel awdurdodau lleol fan hyn, Weinidog? Beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod y broses yn cyflymu? Rydych wedi dweud bod y broses hon yn hollbwysig i sicrhau canlyniadau yn eich datganiad am PISA heddiw.

Yn olaf, beth rydych yn mynd i wneud i flaenoriaethu datblygu profesiynol a hyfforddiant athrawon, yn enwedig yn y cyfnod ymarfer dysgu, fel bod yr athrawon eu hunain yn dysgu'r sgiliau hyn o ran trosglwyddo sgiliau o bwnc i bwnc ac o sefyllfa i sefyllfa? Rwy'n ofni, yn ogystal ag ein disgyblion, bod rhai o'n hathrawon hefyd yn ymgiprys â'r broblem, oherwydd eu bod hwythau wedi mynd trwy system gyfundrefn addysg nad yw'n eu cynorthwyo i feddu ar y sgiliau hyn.

I thank the Minister for his statement this afternoon. May I start by saying that we are very pleased that Plaid Cymru's argument that poor education is holding back the performance of the whole nation is now more broadly accepted? Nobody can be content with the current situation with our economy, whatever our long-term objectives for the constitutional future of Wales may be. In that context, I welcome once again and take advantage of this opportunity to say that we welcome Schools Challenge Cymru. However, we are awaiting the details of precisely what that programme will entail. I am also pleased that the Welsh Government has set out today clearly and plainly its belief in the purpose and credibility of PISA. There is no system that is perfect, I accept that, but many have tried to cloud the picture in terms of PISA results, including, unfortunately, many within the teaching unions. I think that the Government's statement today is of value in that context. I accept that and I am grateful for it.

To all intents and purposes, what the Minister has stated today is that Welsh pupils will practice for PISA tests in future. That in itself is not unacceptable; I want to make that clear. However, over and above everything, we must ensure that pupils learn the necessary skills in a robust way so that they can take these tests rather than learning by rote. I accept that the Minister is not saying this, but I want to make it clear that there are some who may interpret what has been said today as some sort of attempt to teach for tests. I want to be clear that we should be teaching skills. In that context, I agree with what has been said already about the fact that we will not improve unless our teaching, leadership in the school and in the classroom, support for teaching, and the attainment gap, have been dealt with. They, essentially, remain as the main challenges facing the education system in Wales. What the Government has said today is of assistance at one level in dealing with that. However, to be fair, it does not tackle those fundamental issues.

So, I would like to ask two questions of the Minister today on some of those basic issues. First of all, you published yesterday, Minister, a written statement on the national model for regional working. In that statement, you mention implementing it gradually from April onwards. I want to ask you today why you think that should be implemented gradually. A year ago, the former Minister was unhappy with progress at that point. Seeing it being implemented gradually now is very strange to my mind. Is someone slacking at a local authority level here, Minister? What are you doing to ensure that the process is hastened? You said that this process is crucial in securing results in your statement on PISA today.

Finally, what are you going to do to prioritise professional development and teacher training, particularly in the teacher practice phase so that the teachers themselves learn these skills in terms of transferring skills from one subject to another and from one situation to another? I fear that, as well as our pupils, some of our teachers also struggle with the problem, because they themselves have gone through an education system that has not assisted them to acquire these skills.

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome Simon Thomas's comments, particularly his focus on the importance of PISA, and the need not to cloud the picture—I think that was the phrase that he used. Accepting the limitations of PISA, as of any testing regime, those who would aim to put PISA aside do our young people a great disservice. It is something that we cannot afford to allow to happen. We are not so much going to practise for the tests in future—as Simon said, there is nothing inherently wrong with that—this really is about the data and information that the schools will be able to mine in order to inform the continuing professional development of their workforce and their self-evaluation as a school. It is what school leaders will need in order to be able to lead more effectively, and, of course, all of this is about delivering the skills in the classroom. So, it adds strength to the elbow of our workforce out there. I will have a great deal more to say about the support and the challenge that we need to set out for the teaching workforce as the spring unfolds.

In terms of the national model specifically, I expect to see every consortium with an operational model by 1 April. However, as I have said repeatedly—I do not wish Members to misunderstand this—working through a model of school improvement into each and every school and each and every classroom will not happen when you wake up on the morning of 1 April and you have a consortium that is operational. That flow through into the experience of young people takes time. A great deal of that will be about the parallel developments in professional development and training, on which I will be making more announcements as the spring progresses.

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i hefyd, fel y gwnaeth Simon Thomas ac Angela Burns, groesawu'r ffaith bod gennym ddatganiad clir gan y Llywodraeth bod profion PISA yn mynd i fod yn elfen i ni fesur llwyddiant neu beidio ein cyfundrefn addysg? Credaf fod Simon yn gywir: mae nifer o bobl, ar ôl gweld y canlyniadau siomedig y llynedd, wedi ceisio cwestiynu pa mor ddifrifol oedd y profion hynny. Felly, mae'r datganiad gan y Llywodraeth ei bod yn ystyried profion PISA fel llinyn mesur, i ryw raddau, o'r newidiadau yn bwysig.

Fodd bynnag, wrth ddweud hynny, rwy'n meddwl hefyd bod angen inni fynd ar ôl yr hyn a ddywedodd Leighton Andrews ynglŷn ag integreiddio'r gwahanol newidiadau sydd wedi digwydd. Mae cwestiwn yn codi o ran a yw'r un sgiliau yn cael eu profi yn y profion llythrennedd a rhifedd ag sydd yn cael eu profi o fewn PISA, ac a yw'r elfennau sydd angen eu dysgu i blant, a'r ffordd mae athrawon yn mynd ati i wneud y dysgu hwnnw, yn wahanol yn y profion hynny sydd wedi cael eu cynnal ar lefel genedlaethol yng Nghymru nag yn y profion rhyngwladol fel PISA.

Felly, a ydych chi wedi ystyried pa mor gyson yw'r sgiliau hynny rhwng y ddwy gyfundrefn? Hefyd, a ydych chi wedi ystyried, wrth inni symud ymlaen i'r profion PISA nesaf, y ffaith y bydd y rheini'n edrych yn llawer mwy elfennol ar sgiliau gwyddoniaeth? Mae rhai o'r newidiadau mae'r Llywodraeth bresennol wedi'u gwneud o ran llythrennedd a rhifedd yn golygu bod llai o ganolbwyntio ar rai o'r sgiliau gwyddonol hynny.

Rwy'n croesawu sylwadau Simon Thomas, yn enwedig ei bwyslais ar bwysigrwydd PISA, a'r angen i beidio â chymylu'r darlun—credaf mai dyna oedd yr ymadrodd a ddefnyddiodd. A derbyn cyfyngiadau PISA, fel unrhyw gyfundrefn brofi, byddai'r rhai a fyddai'n dymuno rhoi PISA o'r neilltu yn gwneud cam mawr â'n pobl ifanc. Ni allwn fforddio gadael i hynny ddigwydd. Y peth pwysig yw, nid yn gymaint ein bod yn mynd i ymarfer ar gyfer y profion yn y dyfodol—fel y dywedodd Simon, nid oes dim o'i le ar hynny—mae hyn yn wir yn ymwneud â'r data a'r wybodaeth y bydd yr ysgolion yn gallu eu defnyddio er mwyn llywio datblygiad proffesiynol parhaus eu gweithlu a'u hunanwerthusiad fel ysgol. Dyma beth fydd ei angen ar arweinwyr ysgol er mwyn gallu arwain yn fwy effeithiol, ac, wrth gwrs, mae hyn oll yn ymwneud â chyflwyno'r sgiliau yn yr ystafell ddosbarth. Felly, mae'n ychwanegu mwy o rym i'n gweithlu. Bydd gennyf lawer mwy i'w ddweud am y gefnogaeth ar gyfer y gweithlu addysgu a'r her y mae angen inni ei chyflwyno iddynt, wrth i'r gwanwyn fynd yn ei flaen.

O ran y model cenedlaethol yn benodol, rwy'n disgwyl y bydd gan bob consortium fodel gweithredol erbyn 1 Ebrill. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi'i ddweud dro ar ôl tro—nid wyf am i Aelodau gamddeall hyn—ni fydd gennych fodel a fydd yn gwella pob ysgol a phob dosbarth pan fyddwch yn deffro ar fore 1 Ebrill a bod gennych gonsortium sy'n weithredol. Mae'n cymryd amser iddo lifo trwodd i brofiad pobl ifanc. Bydd llawer o hynny'n ymwneud â datblygiadau cyfochrog mewn datblygiad proffesiynol a hyfforddiant, a byddaf yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau wrth i'r gwanwyn fynd yn ei flaen.

May I also, like Simon Thomas and Angela Burns, welcome the fact that we have a clear statement from the Government that PISA tests are going to be an element for us to measure the success or otherwise of our education system? I think that Simon is right: having seen last year's disappointing results, a number of people have tried to question how robust those tests were. Therefore, the Government statement that it considers PISA tests to be a yardstick, to some extent, of the changes is important.

However, in saying that, I think that we also need to pursue what Leighton Andrews said about integrating the various changes that have taken place. A question does arise of whether the same skills are tested in the literacy and numeracy tests and in PISA, and whether the elements that need to be taught to children, and the way in which teachers approach that teaching, are different in the tests that have been held on a national level in Wales compared to international tests such as PISA.

Therefore, have you considered how consistent those skills are between the two systems? Also, have you considered, as we move to the next PISA tests, the fact that they will look in a much more elementary way at science skills? Some of the changes that the current Government has brought in on literacy and numeracy mean that there is less of a focus on some of those science skills.

Mae'ch datganiad hefyd yn sôn am y ffaith eich bod eisiau edrych ar y data. Rydych yn dweud:

'The first step is to conduct further analysis and planning'.

Faint o amser ydych chi'n mynd i gymryd i edrych ar y manylion hynny? Rwy'n meddwl fy mod yn rhannu rhai o bryderon Simon ynghylch capasiti o fewn y consortia. Mae rhai ohonynt wedi methu â phenodi penaethiaid. Mae nifer o swyddi o fewn y consortia dal yn wag rhyw 18 mis ar ôl i'r consortia ddechrau. Felly, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau bod y consortia mewn sefyllfa i weithredu ar y mesurau hyn? Faint o drafod sydd wedi bod efo'r consortia, yr awdurdodau addysg lleol a'r arweinyddion ysgol ynglŷn â rhai o'r newidiadau sydd wedi cael eu cyflwyno yn y datganiad hwn heddiw?

Yn olaf, o ystyried bod y cyfle ar gael i ysgolion gael profion mewnol PISA a bod rhyw fath o adrodd yn ôl ar berfformiad yr ysgol, a fydd yr adrodd yn ôl hwnnw ddim ond i arweinyddion mewnol yr ysgol, ynteu a fydd y wybodaeth ar gael i lywodraethwyr a rhieni? Mae'r patrwm yn newid o gonsortium i gonsortium ynglŷn ag aelodau staff y consortia yn adrodd yn ôl i ddim ond y penaethiaid neu i'r lywodraethwyr hefyd. Ar hyn o bryd, mae tuedd, os nad yw arweinyddion ysgol yn barod i gyfaddef bod problemau, nad ydynt yn barod i gyfaddef hynny i lywodraethwyr, mewn rhai achosion.

Your statement also talks about the fact that you wish to look at the data. You say:

'Y cam cyntaf yw cynnal rhagor o waith dadansoddi a chynllunio.'

How long are you going to take to look at those details? I think that I do share some of Simon's concerns about capacity within the consortia. Some have failed to appoint consortium heads. A number of posts within the consortia are still vacant some 18 months after they were established. So, what steps will you take as a Government to ensure that the consortia are in a position to act on these measures? How much discussion has there been with the consortia, local education authorities and school leaders about some of the changes that have been introduced in this statement today?

Finally, bearing in mind that there is an opportunity for schools to conduct internal PISA tests and that there is some reporting back on their performance, will that reporting back just be for internal school leaders, or will the information be made available to governors and parents? The pattern varies from consortium to consortium as to consortia staff reporting back to headteachers only or to governors too. At present, there is a tendency that, if school leaders are unwilling to admit that there are problems, they are unwilling to admit that to governors, in some cases.

14:56

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My thanks to Aled Roberts for those comments. He is quite right, and I welcome that he also, on behalf of the Welsh Liberal Democrats, recognises the importance of PISA. As I said, it is very important that we do not set it aside or seek to obscure the lessons that PISA presents us with. If we do that, we essentially engage in risky behaviour as regards the reputation of the Welsh educational system as a whole. It is a reputational risk, and that risk is then transferred to the life chances of young people, so there would be a very direct effect from those who would seek to obscure the lessons from PISA on the life chances of young people, and we cannot afford for that to happen.

The next PISA tests are concentrating upon science, but the first point that I would make is that literacy and numeracy will continue to be the prerequisites for success in terms of PISA and, indeed, any other qualifications testing such as GCSEs, science included. To access some of those PISA-style science questions, what we have found from the data analysis of what has gone before is that the hurdle that many of our young people are failing to clamber over is not the science aspect of the question, but the level of literacy or numeracy required to understand the question in the first place. So, there will be a continuing focus on support for the workforce in terms of training around literacy and numeracy, although we are aware, of course, that science will be the lead element of the next PISA tests.

Hoffwn ddiolch i Aled Roberts am y sylwadau hynny. Mae'n hollol iawn, ac rwy'n croesawu'r ffaith ei fod ef hefyd, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn cydnabod pwysigrwydd PISA. Fel y dywedais, mae'n bwysig iawn peidio â gosod PISA o'r neilltu na cheisio cuddio'r gwersi y mae'n eu cyflwyno i ni. Os gwnawn hynny, rydym yn y bôn yn ymddwyn mewn ffordd beryglus o ran enw da'r system addysg yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Mae'n risg i enw da, ac yna mae'r risg yn cael ei throsglwyddo i gyfleoedd bywyd pobl ifanc, felly byddai effaith uniongyrchol iawn ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc yn sgil ceisio cuddio gwersi PISA, ac ni allwn fforddio gadael i hynny ddigwydd.

Mae'r profion PISA nesaf yn canolbwyntio ar wyddoniaeth, ond y pwynt cyntaf yr hoffwn ei wneud yw y bydd yn rhaid wrth sgiliau llythrennedd a rhifedd o hyd er mwyn llwyddo o safbwynt PISA ac, yn wir, o safbwynt unrhyw brofion cymwysterau eraill fel TGAU, gan gynnwys gwyddoniaeth. Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod, trwy ddadansoddi data o'r hyn sydd wedi mynd o'r blaen, yw mai'r rhwystr y mae llawer o'n pobl ifanc yn methu â'i oresgyn, wrth ateb rhai o'r cwestiynau gwyddoniaeth fel rhai PISA, yw lefel y llythrennedd neu rifedd sydd ei hangen i ddeall y cwestiwn yn y lle cyntaf, yn hytrach na'r agwedd ar y cwestiwn sy'n ymwneud â gwyddoniaeth. Felly, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi'r gweithlu o ran hyfforddiant ym maes llythrennedd a rhifedd, er ein bod yn ymwybodol, wrth gwrs, mai gwyddoniaeth fydd prif elfen y profion PISA nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am confident, to answer Aled's question about consortia, that we will have consortia with sufficient capacity and that they will be operational in every part of Wales by the end of March. I make that pledge to the Assembly here this afternoon.

In terms of the reporting back to schools, the school does receive a confidential and very detailed report back if it undertakes these voluntary PISA tests. It is then, really, for the school to make best use of the data within that report. I would expect, obviously, that, first of all, if a school has volunteered for this, it has an understanding of the need to self-evaluate and that it should then use those data for proper, meaningful self-evaluation, and you cannot exclude the governorship of the school from that.

14:59

**Christine Chapman** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, for the statement. In it, you relate the importance of PISA results to a strong economy, but I am also very pleased that you have related it equally to life in general, because I think that we forget sometimes that many of the young people who are involved in PISA will become the parents of the next generation. Like other things that we do here in this Assembly, it is about the building blocks for a good society and for the future generations of Wales.

Going back to the questions, Minister, some commentators have noted that the countries that have achieved the most success in PISA have been those that concentrate on boosting teachers' knowledge and morale.

I would be grateful for your comments on this and on whether our strategies for improving educational success relate to those. It has also been suggested that, while Finland's success in PISA is an exemplar—and I know that there are other countries—little work has been done to determine which characteristics of the Finnish education system lead to that. What work has the Welsh Government done to explore the best-practice examples from other countries?

Thirdly, I understand that the majority of countries involved in PISA do not track pupil data to the snapshot that the study provides. I would welcome your views on this, and on whether mapping this data to provide a clear overview of pupils' success would be useful in supporting Welsh learners.

Finally—this is just as a comment, really—as you and many others have noted, equity in comprehensive education is more successful than selection. Do you agree that this is a powerful argument against the course taken by Michael Gove in England?

Rwy'n hyderus, i ateb y cwestiwn Aled am gonsortia, y bydd gennym gonsortia â chapasiti digonol ac y byddant yn weithredol ym mhob rhan o Gymru erbyn diwedd mis Mawrth. Rwy'n gwneud yr addewid hwnnw i'r Cynulliad yma brynawn heddiw.

O ran rhoi adroddiad i ysgolion, mae'r ysgol yn derbyn adroddiad cyfrinachol a manwl iawn os yw'n ymgymryd â'r profion PISA gwirfoddol hyn. Yna, mewn gwirionedd, mater i'r ysgol yw gwneud y defnydd gorau o'r data yn yr adroddiad hwnnw. Yn amlwg, byddwn yn disgwyl, yn gyntaf oll, bod ysgol, os yw wedi gwirfoddoli ar gyfer hyn, yn deall yr angen i hunanwerthuso ac y dylai wedyn ddefnyddio'r data hwnnw ar gyfer hunanwerthusiad priodol, ystyrlon. Ni allwch wahardd llywodraethwyr yr ysgol o hynny.

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad. Ynndo, rydych yn cysylltu pwysigrwydd canlyniadau PISA ac economi gref, ond rwy'n falch iawn eich bod wedi eu cysylltu â bywyd yn gyffredinol hefyd, oherwydd ein bod, yn fy marn i, yn anghofio weithiau y bydd llawer o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn PISA yn rhieni i'r genhedlaeth nesaf. Megis pethau eraill yr ydym yn ei wneud yma yn y Cynulliad hwn, mae'n ymwneud â'r blociau adeiladu ar gyfer cymdeithas dda ac ar gyfer cenedlaethau Cymru yn y dyfodol.

I fynd yn ôl at y cwestiynau, Weinidog, mae rhai sylwebyddion wedi nodi bod y gwledydd sydd wedi cael y llwyddiant mwyaf yn PISA, yn rhai sy'n canolbwyntio ar hybu gwybodaeth ac ysbryd athrawon.

Byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar hyn a pha un a yw ein strategaethau ar gyfer gwella llwyddiant addysgol yn ymwneud â hynny. Awgrymwyd hefyd bod llwyddiant y Ffindir yn PISA yn enghraifft i'w dilyn—ac rwy'n gwybod y ceir gwledydd eraill—ond mai ychydig iawn o waith sydd wedi cael ei wneud i benderfynu pa nodweddion o system addysg y Ffindir sy'n arwain at hynny. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i edrych ar yr enghreifftiau arfer gorau o wledydd eraill?

Yn drydydd, rwy'n deall nad yw'r rhan fwyaf o wledydd sy'n rhan o PISA yn olrhain data disgyblion i'r cipolwg y mae'r astudiaeth yn ei roi. Byddwn yn croesawu eich barn ar hyn, a ph'un a fyddai'n ddefnyddiol mapio'r data hwn i ddarparu darlun cyffredinol, eglur o lwyddiant disgyblion er mwyn cefnogi dysgwyr Cymru.

Yn olaf—dim ond sylw yw hwn mewn gwirionedd—fel yr ydych chi a llawer o rai eraill wedi nodi, mae system gydradd mewn addysg gyfun yn fwy llwyddiannus na system sy'n cynnwys dethol. A ydych yn cytuno bod hon yn ddadl bwerau yn erbyn y llwybr a gymerwyd gan Michael Gove yn Lloegr?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the Cynon Valley for those points. She is quite right, of course, to point out, that success in tests like PISA—. While I would not say that PISA is directly related to our economy, I would certainly say that the skills level required to succeed in tests like PISA do have an economic impact. However, what is an even more important issue than that we are talking here about the life chances and the quality of life of our young people, which is, of course, directly related to their success or otherwise in the educational system. Those countries that do best do work very hard with the workforce, in terms of teacher capacity and teacher knowledge and morale. As I say, I will be making some major announcements later this spring about a new relationship, essentially, between the Welsh Government and the Welsh teaching workforce, which will be a twin-track approach with enhanced support on the one hand from the Welsh Government towards our workforce, and enhanced challenge on the other regarding standards.

Of course, my officials and I do take a look across the UK and across the world, learning what we can from best practice, and including the engagement of experts who have international experience in this regard. I do not dismiss any of the lessons that Finland has to give us. However, I can inform Chris Chapman that, recently, senior officials of mine have been taking a look at certain aspects of the Canadian educational system, which, in some respects, has gone through the kind of school improvement journey that we would like to see happening in Wales over the next five to 10 years. There are some interesting lessons there about which I will be able to say more later.

She is quite right to point out, of course, that I believe that I am correct in saying that, of the top 20 countries in the PISA results, over and over again I believe that only one of those countries runs a selective system. It is Singapore, I believe. Every single one of the others has a comprehensive educational system. I draw the obvious lesson from that. I leave Michael Gove to draw his own conclusions.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am y pwyntiau hynny. Mae hi yn llygad ei lle, wrth gwrs, i nodi, bod llwyddiant mewn profion fel PISA—. Er na fyddwn yn dweud bod cysylltiad uniongyrchol rhwng PISA â'n heconomi, byddwn yn sicr yn dweud bod lefel y sgiliau sydd ei hangen i lwyddo mewn profion fel PISA yn cael effaith economaidd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysicach fyth, rydym yn sôn yma am gyfleoedd bywyd ac ansawdd bywyd ein pobl ifanc, sydd, wrth gwrs, yn uniongyrchol gysylltiedig â'u llwyddiant neu fel arall yn y system addysg. Mae'r gwledydd hynny sy'n gwneud orau yn gweithio'n galed iawn gyda'r gweithlu, o ran gallu athrawon a gwybodaeth ac ysbryd athrawon. Fel y dywedais, byddaf yn gwneud rhai cyhoeddiadau pwysig yn ddiweddarach yn y gwanwyn am berthynas newydd, yn ei hanfod, rhwng Llywodraeth Cymru a gweithlu addysgu Cymru. Bydd yn ymdriniaeth ddeublyg gyda gwell cymorth i'n gweithlu gan Lywodraeth Cymru ar y naill law, a mwy o her o ran safonau, ar y llaw arall.

Wrth gwrs, mae fy swyddogion a minnau yn edrych ar draws y DU ac ar draws y byd, gan ddysgu'r hyn a allwn o arfer gorau. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag arbenigwyr sydd â phrofiad rhyngwladol yn hyn o beth. Nid wyf yn diystyru unrhyw un o'r gwersi sydd gan y Ffindir ar ein cyfer. Fodd bynnag, gallaf hysbysu Chris Chapman bod uwch swyddogion i mi wedi bod yn edrych, yn ddiweddar, ar rai agweddau ar y system addysg yng Nghanada, sydd, mewn rhai ffyrdd, wedi mynd trwy'r math o daith i wella ysgolion y byddem yn hoffi ei gweld yn digwydd yng Nghymru yn ystod y pum i 10 mlynedd nesaf. Mae rhai gwersi diddorol yno, a byddaf yn gallu dweud mwy amdanynt yn nes ymlaen.

Mae hi'n hollol iawn, wrth gwrs, i dynnu sylw at y ffaith, rwy'n credu fy mod yn gywir i ddweud, o'r 20 gwlad uchaf yn y canlyniadau PISA, dro ar ôl tro rwy'n credu mai dim ond gan un o'r gwledydd hynny y mae system o ddethol. Singapore yw honno, rwy'n credu. Mae gan bob un o'r lleill system addysg gyfun. Cymeraf y wers amlwg o hynny. Byddaf yn gadael i Michael Gove lunio ei gasgliadau ei hun.

## Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adolygiad o Ddarparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor

*Minister for Local Government and Government Business*

Tackling poverty is a core priority for the Welsh Labour Government. This means prioritising the needs of the poorest and protecting those most at risk of poverty and exclusion. However, the relentless pressures on our budgets from the UK Government demand difficult choices about how best to achieve this. There are few areas where these choices are thrown into sharper focus than council tax support. I know that Members are familiar with the background to this, however it is worth reminding ourselves of how we got to the current position.

## Update on the Review of Council Tax Support

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The*

Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth graidd i Lywodraeth Lafur Cymru. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu anghenion y tlotaf ac amddiffyn y rhai sydd yn y perygl mwyaf o dlodi ac o gael eu hallgáu. Fodd bynnag, mae'r pwysau di-baid ar ein cyllidebau gan Lywodraeth y DU yn mynnu dewisiadau anodd ynglŷn â'r ffordd orau i gyflawni hyn. Ni cheir fawr o feysydd lle mae'r dewisiadau hyn yn gliriach, nag ym maes cymorth ar gyfer y dreth gyngor. Gwn fod Aelodau yn gyfarwydd â'r cefndir i hyn, fodd bynnag, mae'n werth atgoffa ein hunain o sut yr ydym wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol.



In October 2010, the UK Government abruptly and callously announced the abolition of council tax benefit, while simultaneously cutting funding for replacement schemes. On 31 March 2013, the Welsh Government was left to pick up the pieces and took responsibility for developing a replacement scheme for Wales. The cornerstone of the approach that we adopted to our council tax reduction scheme for 2013-14 was in recognition of the need to protect entitlements for low-income households. In November 2013, the Assembly approved regulations for a scheme to protect entitlements for 2014-15. An additional £22 million was allocated to the local government settlement. Our scheme defines which households may pay a reduced or zero council tax bill. The funding does not go directly to those households, but to each local authority to replace the council tax income it would otherwise raise. Our regulations protect eligible households regardless.

Our single national framework scheme provides consistent support to households across Wales and, as a result, entitlements have been protected for over 320,000 Welsh households. Compare this with England, where responsibility to design support schemes locally was passed to local authorities, resulting in a postcode lottery of support based on hundreds of individual schemes. According to the Institute for Fiscal Studies, this approach has left 2.5 million households in England worse off by an average of £160 per year, along with an average 30% to 40% increase in council tax debt queries recorded by citizens advice bureaux in those English authorities that introduced minimum payments. Furthermore, early indications suggest that many English authorities that protected entitlements in 2013-14 have found they cannot afford to do so in 2014-15. This risks reduced support for many more households in England.

Our scheme, and the additional investment that we have made, protects low-income and vulnerable households. This was vital given that these groups are already struggling to cope with the impacts of welfare reform, which are hitting the poorest hardest. However, the shortfall in the funding transferred to the Welsh Government from the UK Government creates an additional budgetary pressure that further diminishes the resources available for local services. These are likely to be services that low-income and vulnerable families rely on for support. This is set against an unprecedentedly difficult local government settlement as a direct result of the UK Government's persistent reductions in the Welsh block grant in successive spending reviews. Despite these relentless cuts to our budget, this year, once again, council tax in Wales is, on average, £230 lower than in England, and the Welsh Government has once again delivered a revenue settlement that is overall significantly better than in England.

Ym mis Hydref 2010, yn sydyn ac yn ddidostur cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn diddymu budd-dal treth gyngor, ac ar yr un pryd yn torri cyllid ar gyfer cynlluniau a fyddai'n cymryd ei le. Ar 31 Mawrth 2013, gadawyd i Lywodraeth Cymru gael trefn ar y llanastr, ac ysgwyddodd y cyfrifoldeb am ddatblygu cynllun newydd ar gyfer Cymru. Conglfaen y dull a fabwysiadwyd gennym o ran cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer 2013-14 oedd cydnabod yr angen i ddiogelu hawliau aelwydydd incwm isel. Ym mis Tachwedd 2013, cymeradwyodd y Cynulliad reoliadau ar gyfer cynllun i ddiogelu hawliau ar gyfer 2014-15. Dyrannwyd £22 miliwn ychwanegol i'r setliad ar gyfer llywodraeth leol. Mae ein cynllun yn diffinio pa gartrefi all dalu bil llai neu fil o ddim ar gyfer y dreth gyngor. Nid yw'r arian yn mynd yn uniongyrchol i'r aelwydydd hynny, ond i bob awdurdod lleol i gymryd lle'r incwm y byddai'n ei godi fel arall trwy'r dreth gyngor. Mae ein rheoliadau yn gwarchod aelwydydd cymwys beth bynnag.

Mae ein cynllun fframwaith cenedlaethol sengl yn darparu cefnogaeth gyson i aelwydydd ledled Cymru ac, o ganlyniad, mae hawliau dros 320,000 o aelwydydd yng Nghymru wedi cael eu diogelu. Cymharwch hyn â Lloegr, lle y cafodd y cyfrifoldeb i gynllunio cynlluniau cymorth yn lleol ei drosglwyddo i awdurdodau lleol, gan arwain at loteri cod post o gefnogaeth yn seiliedig ar gannoedd o gynlluniau unigol. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, mae'r dull hwn wedi gadael 2.5 miliwn o aelwydydd yn Lloegr £160 y flwyddyn yn waeth eu byd ar gyfartaledd, a chofnododd canolfannau cyngor ar bopeth gynnydd o 30% i 40% ar gyfartaledd mewn ymholiadau ynglŷn â dyledion y dreth gyngor, yn yr awdurdodau hynny yn Lloegr sydd wedi cyflwyno isafswm taliadau. Ar ben hynny, mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod llawer o awdurdodau yn Lloegr a benderfynodd ddiogelu hawliau yn 2013-14, wedi gweld nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny yn 2014-15. Golyga hyn bod perygl y rhoddir llai o gefnogaeth i lawer mwy o aelwydydd yn Lloegr.

Mae ein cynllun ni, a'r buddsoddiad ychwanegol yr ydym wedi'i wneud, yn diogelu aelwydydd incwm isel a rhai sy'n agored i niwed. Roedd hyn yn hanfodol, o ystyried bod y grwpiau hyn eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag effeithiau'r diwygiadau i'r gyfundrefn les, sydd yn taro'r tlotaf galetaf. Fodd bynnag, mae'r diffyg yn y cyllid a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn creu pwysau cyllidebol ychwanegol sy'n lleihau ymhellach yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae'r rhain yn debygol o fod yn wasanaethau y mae teuluoedd incwm isel a rhai sy'n agored i niwed yn dibynnu arnynt i'w cynorthwyo. Rhaid ystyried hyn yng ngoleuni setliad llywodraeth leol anoddach nag erioed o'r blaen o ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn parhau i ostwng grant bloc Cymru mewn adolygiadau gwariant dilynol. Er gwaethaf y toriadau didostur i'n cyllideb, y flwyddyn hon, unwaith eto, mae'r dreth gyngor yng Nghymru, ar gyfartaledd, £230 yn is nag yn Lloegr, ac unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno setliad referniw sydd, yn gyffredinol, yn sylweddol well nag yn Lloegr.

However, the funding pressure on council tax support is expected to increase. While the UK Government's transfer to us remains flat in cash terms, the cost of maintaining entitlements will increase as council tax levels rise. So, our options are stark. Reducing entitlements exposes low-income and vulnerable households to increases in their council tax bills at a time when many are struggling to cope with other changes to the welfare system. However, maintaining entitlements may reduce the funding available for local services on which many of these households depend. Therefore, we are reviewing our options for the medium and long-term future of council tax support. Our aim is to develop an equitable and sustainable system that delivers the maximum protection for low-income and vulnerable households within the funding constraints imposed on us by the UK Government.

We have established a task and finish group to help with this work. Its membership includes representatives of local government, the Welsh Local Government Association and citizens advice bureaux. We have examined information on the impact of changes in England and we are modelling the impact of the various options that we might take in Wales, particularly in order to understand the implications on equality. We have factored in wider welfare reform, in particular the roll-out of universal credit and the resulting changes to housing benefit. We are consulting widely, and the consultation is due to end on 5 March. The consultation responses will be a key factor in determining the way forward.

We face hard choices. The fundamental question is, of course, whether entitlement is maintained, meaning resources will need to be identified to bridge the growing gap between funding provided by the UK Government and the cash needed to maintain local services. As part of the review, I will be taking every opportunity to make representations in the strongest terms to the UK Government that funding for replacement schemes should reflect the actual cost of providing adequate support for those in need. Anything else puts us in a position of changing entitlement, and potentially reducing the income of 320,000 of our poorest households in the process.

No decision has been taken about the key question of whether entitlement is maintained. However, the consultation also sets out the options if we have to reduce entitlements. These include whether we reduce entitlement for all households, or continue to protect some; what is the fairest and most equitable way of implementing any reduction; and whether we should pass responsibility for designing local schemes to local authorities.

Finally, we must consider the recommendations in the report of the Commission on Public Service Governance and Delivery regarding the future shape of local government. A smaller number of authorities will alter the landscape of council tax support. However, decisions need to be taken now about support for 2015-16 and beyond. Therefore, we cannot be constrained by the report's recommendations.

Fodd bynnag, disgwylir i'r pwysau ar gymorth y dreth gyngor gynyddu. Er bod trosglwyddiad Llywodraeth y DU i ni yn parhau i aros yr un fath mewn termau arian parod, bydd y gost o gynnal hawliau yn cynyddu wrth i lefelau'r dreth gyngor godi. Felly, mae ein dewisiadau'n syml. Pe byddwn yn lleihau hawliau, byddai aelwydydd incwm isel a rhai sy'n agored niwed yn debygol o ddiodef cynnydd yn eu biliau treth gyngor ar adeg pan mae llawer yn ei chael hi'n anodd ymdopi â newidiadau eraill i'r system les. Fodd bynnag, trwy gynnal hawliau, gallem fod yn lleihau'r arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol y mae llawer o'r aelwydydd hyn yn dibynnu arnynt. Felly, rydym yn adolygu ein hopsiynau ar gyfer dyfodol cymorth y dreth gyngor yn y tymor canolig a'r hir-dymor. Ein nod yw datblygu system deg a chynaliadwy sy'n darparu'r amddiffyniad mwyaf posibl ar gyfer aelwydydd incwm isel ac agored i niwed o fewn y cyfyngiadau ariannol a osodwyd arnom gan Lywodraeth y DU.

Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i helpu gyda'r gwaith hwn. Mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chanolfannau cyngor ar bopeth. Rydym wedi archwilio gwybodaeth am effaith y newidiadau yn Lloegr ac rydym yn modelu effaith y gwahanol opsiynau y gallem eu dewis yng Nghymru, yn enwedig er mwyn deall y goblygiadau ar gydraddoldeb. Rydym wedi ystyried diwygiadau ehangach i'r gyfundrefn les, yn enwedig y broses o gyflwyno credyd cynhwysol a'r newidiadau i fudd-dal tai sy'n deillio o hynny. Rydym yn ymgynghori'n eang, ac mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 5 Mawrth. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Rydym yn wynebu dewisiadau anodd. Y cwestiwn sylfaenol, wrth gwrs, yw a ddylid cynnal hawliau, sy'n golygu y bydd angen dod o hyd i adnoddau i bontio'r bwllch cynyddol rhwng y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU a'r arian parod sydd ei angen i gynnal gwasanaethau lleol. Fel rhan o'r adolygiad, byddaf yn manteisio ar bob cyfle i gyflwyno sylwadau yn y termau cryfaf i Lywodraeth y DU y dylai cyllid ar gyfer cynlluniau newydd adlewyrchu gwir gost darparu cymorth digonol ar gyfer y rhai sydd mewn angen. Mae unrhyw beth arall yn ein rhoi mewn sefyllfa o newid hawliau, a lleihau incwm 320,000 o'n cartrefi tlotaf yn y broses, o bosibl.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r cwestiwn allweddol a ddylid cynnal hawliau. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi'r opsiynau os oes rhaid inni lleihau hawliau. Mae'r rhain yn cynnwys p'un a ydym yn lleihau'r hawl i bob aelwyd, neu'n parhau i ddiogelu rhai; beth yw'r ffordd decaf a mwyaf cyfiawn o weithredu unrhyw ostyngiad; ac a ddylem basio cyfrifoldeb dros gynllunio cynlluniau lleol i awdurdodau lleol.

Yn olaf, rhaid inni ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus o ran ffurf llywodraeth leol yn y dyfodol. Bydd nifer llai o awdurdodau yn newid tirwedd cymorth y dreth gyngor. Fodd bynnag, mae angen gwneud penderfyniadau yn awr ynghylch cymorth ar gyfer 2015-16 a thu hwnt. Felly, ni allwn gael ein cyfyngu gan argymhellion yr adroddiad.

This is a genuine review and I assure Members that this is a full and meaningful consultation. We have made no decisions. I want to hear honest and frank opinions on all these difficult questions, so that our deliberations are informed by the views of stakeholders, key groups our decisions will impact on, and Members from across the Chamber.

Mae hwn yn adolygiad gwirioneddol ac rwy'n sicrhau'r Aelodau bod hwn yn ymgynghoriad llawn ac ystyrllon. Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau. Rwy'n awyddus i glywed barn yn onest ac agored ar yr holl gwestiynau anodd hyn, fel bod ein trafodaethau'n cael eu llywio gan farn rhanddeiliaid, grwpiau allweddol y bydd ein penderfyniadau yn effeithio arnynt, ac Aelodau ar draws y Siambr.

15:10

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We welcome the establishment of the task and finish group to review council tax support and the consultation launched over two months ago, but we regret that this statement seems to be more about party-political point scoring against a place somewhere else, rather than information already well in hand.

You say that the Welsh Government faced hard choices because of the callousness of the UK Government, but the UK Government faced hard choices and had to pick up the pieces after the previous UK Government callously rang up historic deficit levels, which if not tackled would have had lenders closing the door to the UK and therefore Wales. It would have been bust, bail-out and far greater cuts than anything that we have thus far envisaged.

You say that council tax in Wales is an average £230 lower than in England, but constituents have highlighted that this is only logical given that wages in Wales are far lower than in England. Given that council tax is increasing faster in Wales than in England, what does the Minister propose to do to stop Welsh council tax outstripping that in England?

In your statement, you refer—surprise, surprise—to universal credit and housing benefit. It seems to slip into every statement that every Minister makes in the Chamber or to the media. Given that you have factored that in, have you also factored in the 200,000 households in Wales that will be better off by £163 per month when the changes have gone through by the end of 2017? How are you working with the Department for Work and Pensions to roll out universal credit, given that it advises that officials in the Welsh Government and DWP have been working together since March 2012 on the roll-out of universal credit in Wales? Could we please, at last—I have asked many times—be told where we are up to with this?

Rydym yn croesawu'r ffaith y sefydlwyd y grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu cymorth y dreth gyngor, a'r ymgynghoriad a lanswyd dros ddau fis yn ôl, ond rydym yn gresynu bod y datganiad hwn i'w weld yn ymwneud mwy â sgorio pwyntiau pleidiol yn erbyn lle yn rhywle arall, yn hytrach na gwybodaeth sydd gennym eisoes.

Rydych yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn wynebu dewisiadau anodd oherwydd diffyg tosturi Llywodraeth y DU, ond roedd Llywodraeth y DU yn wynebu dewisiadau anodd a bu'n rhaid iddi ymdrin â'r llanestr ar ôl i Lywodraeth flaenorol y DU, yn ddiostur, ddatblygu lefelau diffyg hanesyddol, a fyddai wedi achosi i fenthycwyr gau'r drws ar y DU, ac felly ar Gymru, pe na byddid wedi mynd i'r afael â nhw. Byddai'r economi wedi methu, a byddem wedi gweld llawer mwy o doriadau na dim yr ydym wedi'i weld hyd yn hyn.

Rydych yn dweud bod y dreth gyngor yng Nghymru yn ar gyfartaledd £230 yn is nag yn Lloegr, ond mae etholwyr wedi amlygu nad yw hyn ond yn rhesymegol o gofio bod cyflogau yng Nghymru yn llawer is nag yn Lloegr. O gofio bod y dreth gyngor yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag yn Lloegr, beth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i atal y dreth gyngor yng Nghymru rhag codi y tu hwnt i'r dreth yn Lloegr?

Yn eich datganiad, rydych yn cyfeirio—dyna syndod—at gredyd cynhwysol a budd-dal tai. Mae i'w weld yn llithro i mewn i bob datganiad y mae pob Gweinidog yn ei wneud yn y Siambr neu i'r cyfryngau. Gan eich bod wedi ystyried hynny, a ydych hefyd wedi ystyried y 200,000 o aelwydydd yng Nghymru a fydd £163 y mis yn well eu byd pan fydd y newidiadau wedi mynd trwodd erbyn diwedd 2017? Sut yr ydych yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno credyd cynhwysol, o ystyried ei bod yn dweud bod swyddogion yn Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers Mawrth 2012 ar y broses o gyflwyno credyd cynhwysol yng Nghymru? A oes modd cael gwybod ymhle'r rydym gyda hyn, o'r diwedd, os gwelwch yn dda —rwyf wedi gofyn sawl gwaith?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of housing benefit, the direct payment of housing benefit to private sector tenants was introduced by Labour in 2008—with safeguards in place, to the former Government's credit. Similar safeguards are proposed in the universal credit local support services framework—agreed with, among others, the Welsh Local Government Association. Those safeguards will mean that housing costs can be paid directly to landlords more than monthly or can even be split between different people. How is your Government, as you have mentioned this in the statement, working with local authorities to ensure that people who need the support are identified before the changes take effect, rather than afterwards, as happened too often with previous housing benefit changes?

Your links on the order paper refer to the Institute for Fiscal Studies' work on this. Its senior research economist stated that low-income working-age families are now likely to receive more help with council tax if they live in a better-off area without too many low-income pensioners among their neighbours; but, conversely, working-age people living in poorer areas and in areas containing more low-income pensioners receive less help. It was looking at England primarily, but that was on your link. How are you proposing to ensure that, by tackling this beyond single local authority boundaries, we can help ameliorate the impact that is identified?

In England, local authorities are limited to a council tax increase of 2%, above which they have to hold a referendum detailing plans for what the council will spend the increased revenue on. Why is the Welsh Government still denying this part of the Localism Act 2011 to people in Wales, so that they can decide on how their council tax is spent and what it is spent on?

Finally, you referred to the report of the Commission on Public Service Governance and Delivery; we seem to have everything in this statement today. A small number of authorities will alter the landscape of council tax support. How will you respond, therefore, where the proposed mergers to which you refer are likely to involve unlawful expenditure or unbalanced budgets under the Local Government Finance Act? [Interruption.]

O ran budd-dal tai, dechreuwyd talu'r budd-dal tai yn uniongyrchol i denantiaid y sector preifat o dan y Blaid Lafur yn 2008—gyda mesurau diogelwch ar waith, er clod i'r Llywodraeth flaenorol. Cynigir mesurau diogelu tebyg yn y fframwaith gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer y credyd cynhwysol a gytunwyd, ymhlith eraill, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y mesurau diogelu hynny'n golygu y gall costau tai gael eu talu'n uniongyrchol i landlordiaid yn amlach nag unwaith y mis neu gellid hyd yn oed eu rhannu rhwng gwahanol bobl. Sut y mae eich Llywodraeth, gan eich bod wedi sôn am hyn yn y datganiad, yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl sydd ag angen cymorth yn cael eu nodi cyn i'r newidiadau ddod i rym, yn hytrach nag ar ôl hynny, fel a ddigwyddodd yn rhy aml gyda newidiadau blaenorol i'r budd-dal tai?

Mae eich dolenni ar bapur trefn y cyfarfod yn cyfeirio at waith y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar hyn. Dywedodd ei uwch economegydd ymchwil fod teuluoedd o oedran gweithio ar incwm isel yn awr yn debygol o gael mwy o help gyda'r dreth gyngor os ydynt yn byw mewn ardal sy'n well ei byd heb ormod o bensiynwyr ar incwm isel ymhlith eu cymdogion; ond, i'r gwrthwyneb, gall pobl o oedran gweithio sy'n byw mewn ardaloedd tlotach ac mewn ardaloedd lle y ceir mwy o bensiynwyr ar incwm isel gael llai o help. Roedd yn edrych ar Loegr yn bennaf, ond roedd ar eich dolen. Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y gallwn helpu i liniaru'r effaith a nodir, drwy fynd i'r afael â'r mater y tu hwnt i ffiniau awdurdod lleol unigol?

Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol yn cael eu cyfyngu i gynnydd o 2% yn y dreth gyngor, ac mae'n rhaid iddynt gynnal refferendwm ynglŷn â chynnydd mwy na hynny, yn disgrifio'u cynlluniau ar gyfer yr hyn y bydd y cyngor yn gwario'r refeniw cynyddol arno. Pam y mae Llywodraeth Cymru yn dal i wrthod cyflwyno'r rhan hon o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i bobl yng Nghymru, fel y gallant benderfynu ar sut ac ar beth y mae eu treth gyngor yn cael ei gwario?

Yn olaf, fe wnaethoch gyfeirio at adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus; mae'n ymddangos bod popeth yn y datganiad hwn heddiw. Bydd nifer fach o awdurdodau yn newid tirwedd cymorth y dreth gyngor. Sut y byddwch chi'n ymateb, felly, lle mae'r achosion arfaethedig o uno y cyfeiriwch atynt yn debygol o olygu gwariant anghyfreithlon neu gyllidebau heb eu mantoli o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol? [Torri ar draws.]

15:15

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I apologise for the mobile phone that went off at the end; we will find out whose it was. I call on the Minister.

Rwy'n ymddiheuro am y ffôn symudol a ganodd ar y diwedd; byddwn yn canfod un pwy oedd o. Galwaf ar y Gweinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:15

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer, and I thank Mark Isherwood, I think, for welcoming the task and finish group and this consultation. I am sure that he will agree that it is important that we find a sustainable way forward. It is certainly not about political point scoring; it is about the hard choices that we have to face. I am very interested in Members' views on this. The consultation is open until 5 March and I hope that a many Members as possible will put forward a response.

Diolch i chi, Lywydd, a diolch i Mark Isherwood, rwy'n credu, am groesawu'r grŵp gorchwyl a gorffen a'r ymgynghoriad hwn. Rwy'n siŵr y bydd yn cytuno ei bod yn bwysig inni ddod o hyd i ffordd gynaliadwy ymlaen. Yn sicr nid yw'n ymwneud â sgorio pwynt gwleidyddol; mae'n ymwneud â'r dewisiadau anodd y mae'n rhaid inni eu hwynebu. Mae gennyf ddi-ddordeb mawr mewn clywed barn yr Aelodau am hyn. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 5 Mawrth ac rwy'n gobeithio y bydd cymaint o Aelodau ag y bo modd yn cyflwyno ymateb.

You say 'surprise, surprise' that welfare reform was in this statement, but it is having a massive impact on a huge number of our constituents. It is all part of the jigsaw of why so many people in Wales are struggling at this time.

Rydych yn dweud 'dyna syndod' bod y datganiad hwn yn cyfeirio at y diwygiadau i'r gyfundrefn les, ond mae'n cael effaith enfawr ar nifer fawr o'n hetholwyr. Mae'n rhan o'r jig-so sy'n egluro pam mae cynifer o bobl yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd.

You asked a number of specific questions, one of them was around welfare reform and what we, as a Welsh Government, are doing to ensure that people get support and advice on benefits. You also referred to housing benefit. I think that it is more important than ever that people get the information and advice that they need, so that they are able to access these services. We work with the Department for Work and Pensions. I certainly work very closely with the Welsh Local Government Association and local authorities, and we are preparing for the roll-out of universal credit. You may be aware, in your own area, that Shotton is included in the roll-out from 7 April.

Rydych yn gofyn nifer o gwestiynau penodol, un ohonynt ynghylch y diwygiadau i'r gyfundrefn les a'r hyn yr ydym ni, fel Llywodraeth Cymru, yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn cael cymorth a chyngor ar fudd-daliadau. Cyfeiriwyd hefyd at fudd-dal tai. Rwy'n credu ei bod yn bwysicach nag erioed bod pobl yn cael y wybodaeth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen, er mwyn iddynt allu cael gafael ar y gwasanaethau hyn. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Rwy'n sicr yn gweithio'n agos iawn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol, ac rydym yn paratoi ar gyfer y broses o gyflwyno credyd cynhwysol. Efallai eich bod yn ymwybodol bod Shotton, yn eich ardal eich hun, yn cael ei gynnwys yn y broses o 7 Ebrill.

15:16

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is not in his constituency.

Nid yw yn ei etholaeth.

15:16

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

No; it is in his area.

Na; y mae yn ei ardal.

We are providing assistance to help people manage the change through a network of support for welfare and debt advice, and through support for financial and digital inclusion, as well as targeted support to prevent homelessness.

Rydym yn darparu cymorth i helpu pobl i reoli'r newid trwy rwydwaith o gymorth ar gyfer lles a chyngor ar ddyledion, a thrwy gefnogaeth i gynhwysiant ariannol a digidol, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu i atal digartrefedd.

You referred to Eric Pickles and the Localism Act 2011. Well, they say that there is a 2% cap, but you may be aware that there are dozens of Conservative councils that will defy pleas from the said Eric Pickles and other Ministers. They are going to impose council tax rises on their residents in April. Almost a third of councils in England are planning to increase charges—many to the maximum level that is allowed without triggering a local referendum—despite a demand from Conservative Ministers that they cut or freeze their bills.

Roeddech yn cyfeirio at Eric Pickles a Deddf Lleoliaeth 2011. Wel, maent yn dweud bod cap o 2%, ond efallai y byddwch yn ymwybodol bod dwsinau o gynghorau Ceidwadol a fydd yn herio pledion gan Eric Pickles a Gweinidogion eraill. Maent yn mynd i godi'r dreth gyngor i'w preswylwyr ym mis Ebrill. Mae bron i draean o'r cynghorau yn Lloegr yn bwriadu codi mwy—llawer at y ohonynt hyd at y lefel uchaf a ganiateir heb sbarduno referendum lleol—er gwaethaf y galw gan Weiniogion Ceidwadol eu bod yn torri neu'n rhewi eu biliau.

I have told local authorities that it is absolutely right that they set their council tax levels. They are under no illusions that I will use the powers available to me to cap if I think that they are excessive. I think that it is absolutely right that local authorities are currently planning their budgets for next year.

Rwyf wedi dweud wrth awdurdodau lleol ei bod yn gwbl gywir iddynt osod lefelau eu treth gyngor. Maent yn gwbl sicr y byddaf yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael i mi i gapio os wyf yn credu eu bod yn ormodol. Rwy'n meddwl ei bod yn hollol iawn bod awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn cynllunio eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

15:18

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement, the setting up of the task and finish group and the consultation. The abolition of council tax benefit by the Westminster Government, while simultaneously cutting funding for the replacement schemes, has caused concern for a large number of people. I congratulate the Welsh Government on producing a single national framework that protects entitlement for over 320,000 households and avoiding a postcode lottery such as they have in England. Will the Minister confirm that while having a smaller number of authorities might alter the future shape of council tax support, it would not materially alter the global sum needed?

Rwy'n croesawu'r datganiad, y grŵp gorchwyl a gorffen a'r ymgynghoriad. Mae'r ffaith fod Llywodraeth San Steffan wedi diddymu budd-dal treth gyngor, a thorri cyllid ar gyfer y cynlluniau a gymerodd ei le ar yr un pryd, wedi achosi pryder i nifer fawr o bobl. Rwy'n llongyfarch Llywodraeth Cymru am baratoi un fframwaith cenedlaethol sy'n diogelu hawl i dros 320,000 o aelwydydd ac yn osgoi loteri cod post o'r math sy'n bodoli yn Lloegr. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y gallai ffurf y cymorth ar gyfer y dreth gyngor newid yn y dyfodol os bydd gennym lai o awdurdodau, ond na fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y swm cyffredinol sydd ei hangen?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that it would not. My expectation is that any new authorities would set their council tax in much the same way as authorities do now. They will have to determine their budget requirement and compare this with the revenue that they receive from the Welsh Government.

Rwy'n siŵr na fyddai. Rwy'n disgwyl y byddai unrhyw awdurdodau newydd yn gosod eu treth gyngor yn yr un modd ag y mae awdurdodau yn ei wneud nawr. Bydd yn rhaid iddynt benderfynu ar eu gofynion o ran y gyllideb a chymharu'r rhain â'r refeniw a gânt gan Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:19

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Minister will know, we in Plaid Cymru strongly advocated fulfilling the cost of council tax support in Wales after the UK Government cut it by 10%.

Fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, roeddem ni ym Mhlaid Cymru yn argymhell yn gryf y dylid talu cost cymorth y dreth gyngor yng Nghymru ar ôl i Lywodraeth y DU dorri 10% oddi arno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We are facing understandable council tax rises across Wales. Council tax increases are not popular, of course, but neither are cuts to services. Plaid Cymru has accepted that there should not be restrictions on the setting of council tax up to the 5% guideline and that local authorities should use council tax to save services and jobs if there is local demand. This will obviously have a knock-on effect on the levels of council tax support, costing the Welsh Government much more. I am prepared to acknowledge that these costs are worth paying, but I would welcome the Minister setting out a full statistical analysis—I am sorry that those two words are there; they are very difficult to say—of which people benefit from council tax support, such as how many of them are carers, how many are pensioners and what other households are entitled to this help. This would help us to establish the value-for-money side of the debate, as we look to scrutinise how we spend public money in Wales.

Rydym yn wynebu cynnydd dealladwy yn y dreth gyngor ledled Cymru. Nid yw cynnydd yn y dreth gyngor yn boblogaidd, wrth gwrs, ond nid yw toriadau i wasanaethau chwaith. Mae Plaid Cymru wedi derbyn na ddylai fod cyfyngiadau ar y dreth gyngor hyd at y canllaw o 5% ac y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r dreth gyngor i achub gwasanaethau a swyddi os oes galw lleol. Bydd hyn yn amlwg yn cael effaith yn ei dro ar lefelau cymorth y dreth gyngor, gan gostio llawer mwy i Lywodraeth Cymru. Rwy'n barod i gydnabod bod y costau hyn yn werth eu talu, ond byddwn yn croesawu dadansoddiad ystadegol llawn gan y Gweinidog—mae'n ddrwg gennyf fod y ddau air yno; maent yn anodd iawn i'w dweud—o bwy sy'n elwa o gymorth y dreth gyngor, er enghraifft sawl un ohonynt sy'n ofalwr, sawl un sy'n bensynwr a pha aelwydydd eraill sydd â hawl i gael y cymorth hwn. Byddai hyn yn ein helpu i sefydlu ochr gwerth am arian y ddadl, wrth inni graffu ar y ffordd yr ydym yn gwario arian cyhoeddus yng Nghymru.

Secondly and finally, council tax benefit—the previous name for this benefit,—was historically very much an under-claimed benefit. Previous Welsh Governments put resources into encouraging more people to take up that benefit before it was devolved, along with the 10% cut. Minister, is low take-up still an issue that you are concerned about, or are there now cost implications of take-up being far more frequent?

Yn ail ac yn olaf, roedd budd-dal y dreth gyngor—enw blaenorol y budd-dal hwn—yn hanesyddol yn fudd-dal nad oedd pawb yn ei hawlio. Rhoddodd Llywodraethau blaenorol Cymru adnoddau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y budd-dal cyn iddo gael ei ddatganoli, ynghyd â'r toriad o 10%. Weinidog, a ydych yn pryderu o hyd ynglŷn â nifer y bobl sy'n hawlio, neu a oes goblygiadau o ran cost erbyn hyn, oherwydd bod llawer mwy o bobl yn manteisio ar y budd-dal?



## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to that last point, we have seen a slight decrease in the number of people taking it up. It is something that I have discussed with local authorities, because we want to ensure that everybody who is entitled to it gets it. As I said in reply to Mark Isherwood, it is more important than ever that people get the right advice and support to make sure that they receive everything that they should.

O safbwynt y pwynt olaf, rydym wedi gweld gostyngiad bychan yn nifer y bobl sy'n hawlio. Mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i drafod gydag awdurdodau lleol, gan ein bod yn awyddus i sicrhau bod pawb sydd â hawl iddo yn ei gael. Fel y dywedais wrth ateb Mark Isherwood, mae'n bwysicach nag erioed bod pobl yn cael y cyngor a'r cymorth cywir i wneud yn siŵr eu bod yn cael popeth y dylent ei gael.

The point you make about council tax rises to support local services is really pertinent, because that is a way in which local authorities get funding in, alongside the revenue support grant. We want them to save as many services as possible, even though they are in this very difficult financial situation. Again, it is really important that these decisions are taken locally.

Mae'r pwynt a wnewch ynglŷn â chynnydd yn y dreth gyngor i gefnogi gwasanaethau lleol yn wirioneddol berthnasol, gan fod honno'n ffordd sydd gan awdurdodau lleol o dderbyn cyllid, ochr yn ochr â'r grant cynnal reffeniw. Rydym am iddynt achub cymaint o wasanaethau ag y bo modd, er eu bod yn y sefyllfa ariannol anodd iawn hon. Unwaith eto, mae'n bwysig iawn bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn lleol.

You asked for a statistical analysis of the groups who benefit. You will be aware that several groups of people benefit, mainly vulnerable households. It is really important as we go through this consultation—as I said, it is a genuine consultation—that we have a look at all these different groups, and to see whether we can continue to maintain entitlements for these people.

Roeddech yn gofyn am ddadansoddiad ystadegol o'r grwpiau sy'n elwa. Byddwch yn ymwybodol bod nifer o grwpiau o bobl yn elwa, aelwydydd agored i niwed yn bennaf. Mae'n wirioneddol bwysig wrth inni fynd drwy'r ymgynghoriad hwn—mae'n ymgynghoriad gwirioneddol, fel y dywedais—ein bod yn cael golwg ar yr holl grwpiau gwahanol hyn, ac yn ystyried a allwn barhau i gynnal hawliau i'r bobl hyn.

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome the statement. As a group, we will be taking the opportunity to respond in full to the consultation. To reiterate the comments made by Peter Black, in no way do we seek to justify the failure of the UK Government to transfer the whole of the cost of the scheme in the first instance. You mention in the statement that the council tax support transfer is flat in cash terms. What analysis has the Welsh Government undertaken of the increased costs, and is it confident that there will be no problem this year?

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r datganiad. Fel grŵp, byddwn yn manteisio ar y cyfle i ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad. I ailadrodd y sylwadau a wnaed gan Peter Black, nid ydym mewn unrhyw ffordd yn ceisio cyfiawnhau methiant Llywodraeth y DU i drosglwyddo'r cost gyfan y cynllun yn y lle cyntaf. Rydych yn sôn yn y datganiad nad yw trosglwyddiad cymorth y dreth gyngor wedi newid mewn termau arian parod. Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o'r costau cynyddol, ac a yw'n hyderus na fydd unrhyw broblem eleni?

In view of the fact that many councils will probably start their budget discussions in June or July, when will the task and finish group be able to indicate which of the options on the table might find favour? Will the consultation with local authorities be sufficient to ensure that they do not face any particular difficulties looking forward to next year's budget? I agree that the whole situation is difficult. I do not think it is as easy as suggesting that localism merely leads to a situation where a cap should be put on local government. The very nature of local government means that it should be up to locally elected representatives to decide whether or not they increase council tax, or whether they face more drastic reductions in services. So, we share the view that these are difficult decisions, but we need a sustainable methodology going forward.

Yn wyneb y ffaith y bydd llawer o gynghorau yn ôl pob tebyg yn dechrau ar eu trafodaethau ar y gyllideb ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf, pryd y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn gallu nodi pa un o'r opsiynau ar y bwrdd a allai ennill ffafr? A fydd yr ymgynghoriad gydag awdurdodau lleol yn ddigonol i sicrhau nad ydynt yn wynebu unrhyw anawsterau penodol wrth edrych ymlaen at gyllideb y flwyddyn nesaf? Rwy'n cytuno bod y sefyllfa gyfan yn anodd. Nid wyf yn credu ei bod mor hawdd ag awgrymu bod lleoliaeth yn arwain at sefyllfa lle y dylid rhoi cap ar lywodraeth leol. Mae holl natur llywodraeth leol yn golygu mai cynrychiolwyr a etholwyd yn lleol a ddylai benderfynu a ydynt yn cynyddu'r dreth gyngor, ynteu a ydynt yn torri'n fwy llym ar wasanaethau. Felly, rydym yn rhannu'r farn bod y rhain yn benderfyniadau anodd, ond mae angen methodoleg gynaliadwy yn y dyfodol.

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Aled Roberts for those comments, and I am very pleased that the Welsh Liberal Democrats share our view regarding the failure of the UK Government to transfer the whole funding. As I said, taking 10% off was callous. On the issue of localism, it is absolutely right that locally elected members who are responsible to their electorate take these decisions.

I have been in discussions with local authorities regarding the funding. The decision that we came to over the summer regarding next year's scheme was taken with the view that it was a shared responsibility between Welsh Government and local government. I know that some aspects of local government felt that we should take the full burden of the cost, but I do not agree with that at all. So, I think that local authorities are satisfied at the current time that the funding is correct, but they are looking at their numbers because the amount of money they have increases with their council tax rises. So, again, that is a decision that should be taken locally.

Once the consultation ends, on 5 March, we will need to look at the responses—and I am very pleased that your group is submitting to that—to see what the consultation says because I am really interested in that. Then, the task and finish group, I would hope, would finish very quickly and come forward with recommendations. The most important thing is that, for next year, for 2015-16, we have a sustainable scheme in place.

Diolch i Aled Roberts am y sylwadau hynny, ac rwy'n falch iawn bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn rhannu ein barn ynghylch methiant Llywodraeth y DU i drosglwyddo'r cyllid cyfan. Fel y dywedais, roedd tynnu 10% i ffwrdd yn ddideimlad. O ran lleoliaeth, mae'n hollol iawn i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud gan aelodau a etholwyd yn lleol ac sy'n atebol i'w hetholwyr.

Rwyf wedi bod mewn trafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch y cyllid. Gwnaed y penderfyniad dros yr haf ynghylch cynllun y flwyddyn nesaf gan ystyried ei fod yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Gwn fod rhai elfennau ar lywodraeth leol yn teimlo y dylem ni ysgwyddo baich llawn y gost, ond nid wyf yn cytuno â hynny o gwbl. Felly, rwy'n meddwl bod awdurdodau lleol yn fodlon ar hyn o bryd bod yr arian yn gywir, ond maent yn edrych ar eu rhifau gan fod y swm o arian sydd ganddynt yn cynyddu wrth i'w treth gyngor godi. Felly, unwaith eto, mae hwnnw'n benderfyniad y dylid ei wneud yn lleol.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ar 5 Mawrth, bydd angen inni edrych ar yr ymatebion—ac rwy'n falch iawn bod eich grŵp yn cyflwyno ar gyfer hynny—i weld beth mae'r ymgynghoriad yn ei ddweud am fod gennyf wir ddiddordeb yn hynny. Yna, byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen, byddwn yn gobeithio, yn gorffen yn gyflym iawn ac yn cyflwyno argymhellion. Y peth pwysicaf yw bod gennym gynllun cynaliadwy ar waith, ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar gyfer 2015-16.

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I know of your long-standing commitment to and support for the armed forces in Wales. As you know, as Chair of the cross-party group on the armed forces, I have been contacted by people who want to express their concerns that the opportunities for disallowing war disablement pensions, war widows' pensions and the armed forces compensation scheme income may be lost as a result of any changes that may come as a result of this review. I wonder whether you might be prepared to include within the scope of the work of the task and finish group some consideration of whether the current discretion that local authorities have exercised, to be fair to them, in all parts of Wales to exclude those from any sort of entitlement checks will be able to continue in any way through some national approach to the scheme. As you know, it is a discretionary function at the moment with local authorities. I think it is just the first £10 that they are obliged to exclude and disregard when means-testing for council tax benefit. However, I wonder whether we might want to approach this in a nationwide manner.

Minister, you have done some work on veterans' cards schemes in the past. I wonder whether this could be included in the scope of that scheme. Obviously, if someone was able to present a veterans' card, that would, hopefully, automatically ensure that they were properly means-tested and that these sorts of streams of income would be discounted. It would be great if I could just get some indication as to whether you might be prepared to consider that as part of the work of the task and finish group.

Weinidog, rwy'n gwybod am eich ymrwymiad hir-sefydlog a'ch cefnogaeth i'r lluoedd arfog yng Nghymru. Fel y gwyddoch, fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog, mae pobl wedi cysylltu â mi i fynegi eu pryderon y gellid colli'r cyfleoedd i eithrio pensïynau anabledd rhyfel, pensïynau gweddwon rhyfel ac incwm cynllun iawndal y lluoedd arfog o ganlyniad i unrhyw newidiadau a allai ddod o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Tybed efallai a fydddech yn barod i gynnwys o fewn cwrpas gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen rywfaint o ystyriaeth p'un a ellid parhau mewn unrhyw ffordd â'r disgresiwn presennol y mae awdurdodau lleol wedi ei arfer, a bod yn deg iddynt, ym mhob rhan o Gymru i eithrio'r rhain o unrhyw fath o archwiliadau hawl, trwy ryw ymdriniaeth genedlaethol o'r cynllun. Fel y gwyddoch, mae'n swyddogaeth ddewisol sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Rwy'n credu mai dim ond y £10 cyntaf y mae'n rhaid iddynt ei eithrio a'i ddiystyru wrth roi prawf modd ar gyfer budd-dal y dreth gyngor. Fodd bynnag, tybed a fyddem yn dymuno ymdrin â hyn mewn modd cyffredin ledled y wlad?

Weinidog, rydych wedi gwneud rhywfaint o waith ar gynlluniau cardiau cyn-filwyr yn y gorffennol. Tybed a allai hyn gael ei gynnwys yng nghwmpas y cynllun hwnnw? Yn amlwg, os bydd rhywun yn gallu cyflwyno cerdyn cyn-filwyr, byddai hynny, gobeithio, yn sicrhau yn awtomatig ei fod yn cael prawf modd priodol ac y byddai'r mathau hyn o ffrydiau o incwm yn cael eu diystyru. Byddai'n wych pe bawn i ond yn cael rhyw syniad a fydddech efallai'n barod i ystyried cynnwys hynny fel rhan o waith y grŵp gorchwyl a gorffen.

15:27

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay, thank you, Darren Millar, for that point regarding armed forces individuals. Whether any specific group should be protected from a reduction in support is a key decision coming out of the consultation and as we go forward in looking at a new scheme. It is certainly something we could look at. I do not think it would necessarily fit into the veterans' card scheme, which I am looking at. I am hoping to have a pilot scheme in due course. However, certainly, certain veterans would be classed as vulnerable and may be covered by another aspect. However, it is certainly something I am happy to look at.

lawn, diolch, Darren Millar, am y pwynt ynghylch unigolion y lluoedd arfog. Mae pa un a ddylai unrhyw grŵp penodol gael ei ddiogelu rhag gostyngiad mewn cymorth yn benderfyniad allweddol sy'n deillio o'r ymgyngoriad ac wrth inni symud ymlaen i edrych ar gynllun newydd. Mae'n sicr yn rhywbeth y gallem edrych arno. Nid wyf yn credu y byddai o reidrwydd yn cyd-fynd â chynllun cerdyn y cyn-filwyr, yr wyf yn edrych arno. Rwy'n gobeithio cael cynllun peilot maes o law. Fodd bynnag, yn sicr, byddai rhai cyn-filwyr yn cael eu hystyried yn agored i niwedd a gallent gael eu cynnwys gan agwedd arall. Fodd bynnag, mae'n sicr yn rhywbeth rwy'n hapus i edrych arno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:28

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:28

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Dileu TB mewn Gwartheg**

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

The programme for government contains a clear commitment to take a science-led approach to eradicating bovine TB. Members will be aware that I have made a strong personal commitment to bovine TB eradication since first being elected in 2007. I have regarded this as a priority, both as Chair of the last Assembly's Rural Development Sub-committee and previously as a Deputy Minister in the current Assembly.

Bovine TB remains a significant challenge facing Welsh cattle keepers. It has social and financial impacts on the industry and the wider community. I am determined that this Government will do all in its power to control and eradicate bovine TB and to support farmers through the process. Despite what we are sometimes told, it is clear that there is no quick fix to eradicating bovine TB from Wales. It will take many years and requires the whole community to work together. However, Presiding Officer, I am pleased to publish the latest statistics today, which show some improvement in the bovine TB situation in Wales. The first stage of an eradication programme must be to stop the increase of bovine TB and to begin to reduce the incidence. The latest figures suggest that we may have reached that point. Between December 2012 and November 2013, there were 880 new herd incidents compared with 1,145 new herd incidents in the previous year. This represents a 23% reduction. In the same period, the number of cattle slaughtered for bovine TB control also reduced from 9,364 to 6,275, which is a reduction of 33%. While I welcome this reduction, I recognise that we must not become complacent and there remains more to do.

**Bovine TB Eradication Programme Update**

Mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad clir i ddilyn arweiniad gwyddoniaeth er mwyn dileu TB mewn gwartheg. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi gwneud ymrwymiad personol cryf i ddileu TB mewn gwartheg ers cael fy ethol gyntaf yn 2007. Rwyf wedi ystyried hynny'n flaenoriaeth, fel Cadeirydd Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad diwethaf, ac yn flaenorol fel Dirprwy Weinidog yn y Cynulliad presennol.

Mae TB mewn gwartheg yn parhau i fod yn her sylweddol sy'n wynebu ceidwaid gwartheg yng Nghymru. Mae ganddo effeithiau cymdeithasol ac ariannol ar y diwydiant a'r gymuned ehangach. Rwy'n benderfynol y bydd y Llywodraeth hon yn gwneud popeth yn ei gallu i reoli a dileu TB mewn gwartheg ac i gefnogi ffermwyr drwy'r broses. Er gwaethaf yr hyn a ddywedir wrthym weithiau, mae'n amlwg nad oes ateb cyflym i ddileu TB o wartheg Cymru. Bydd yn cymryd blynyddoedd lawer a bydd gofyn i'r gymuned gyfan weithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, Lywydd, rwy'n falch o gyhoeddi'r ystadegau diweddaraf heddiw, sy'n dangos rhywfaint o welliant yn y sefyllfa o ran TB gwartheg yng Nghymru. Cam cyntaf rhaglen ddileu, o reidrwydd, fydd atal cynnydd mewn TB gwartheg a dechrau lleihau nifer yr achosion. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu y gallem fod wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013, roedd 880 o achosion mewn buchesi newydd o'i gymharu â 1,145 o achosion mewn buchesi newydd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn ostyngiad o 23%. Yn yr un cyfnod, mae nifer y gwartheg a laddwyd er mwyn rheoli TB mewn gwartheg hefyd wedi gostwng o 9,364 i 6,275, sef gostyngiad o 33%. Er fy mod yn croesawu'r gostyngiad hwn, rwy'n cydnabod bod yn rhaid inni beidio â llaesu dwylo, a bod mwy i'w wneud o hyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Last December, we received formal notification of the European Commission's acceptance of the UK bovine TB eradication plan for 2014. The acceptance of the annual bovine TB eradication plan is an important part of our programme as it underpins all activities that we undertake. It means that Wales will receive a share of the provisional €31 million awarded to the UK to help it accelerate the eradication of the disease.

We continue to build our programme year-on-year in accordance with European Commission requirements. Our programme is based on the key principles of infectious disease control, namely keeping infection out of clean farms, rapid early identification of new breakdowns and prompt removal of infected cattle. We also seek to limit the spread of disease through strict biosecurity practices and movement controls. Since 2012, cattle herds in Wales have been tested at least annually and pre-movement testing rules have applied to all herds. Exemptions to pre-movement testing have been reviewed in the last six months. From 30 September this year, cattle moving within sole occupancy authorities will no longer have an automatic exemption from pre-movement testing for bovine TB. This will reduce the risk of bovine TB being spread by cattle movements.

I have also tightened up on cross-compliance penalties for late bovine TB tests, beginning with routine surveillance notified to farmers from 1 January 2014. The majority of farmers already respect this requirement and this policy will encourage all to make sure that bovine TB tests are on time. Cattle compensation arrangements are also subject to review, to ensure that they are in line with our eradication strategy. On 28 January, I published a consultation on bovine TB compensation, which sets out proposals to introduce a table valuation system. I believe that a table-based system would have a number of distinct advantages. Importantly, it would allow for the speedier removal of diseased animals from farms and, therefore, reduce the risk of further disease spread. The consultation closes on 22 April.

We recognise the importance of trading cattle in our industry, but animal movements constitute a risk to disease spread. My officials have been working closely with the livestock industry and the regional TB eradication and delivery boards to develop risk-based trading proposals for Wales. The purpose is to provide information to farmers at the point of sale in order for them to evaluate the bovine TB risk of cattle they are considering buying. We intend to launch a pilot scheme later this year for the bovine TB history of the vendor to be provided at markets. This is a voluntary scheme, which relies on sellers providing accurate information and the co-operation of livestock auctioneers.

Fis Rhagfyr diwethaf, cawsom hysbysiad ffurfiol fod y Comisiwn Ewropeaidd yn derbyn cynllun y DU ar gyfer dileu TB mewn gwartheg yn 2014. Mae derbyn y cynllun blynyddol ar gyfer dileu TB mewn gwartheg yn rhan bwysig o'n rhaglen gan ei fod yn sail i'n holl weithgareddau. Mae'n golygu y bydd Cymru'n derbyn cyfran o'r €31 miliwn a ddyfarnwyd dros dro i'r DU i helpu i gyflymu'r broses o ddileu'r clefyd.

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein rhaglen o flwyddyn i flwyddyn yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Mae ein rhaglen yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli clefydau heintus, sef cadw haint allan o ffermydd glân, nodi achosion newydd yn gyflym a chynnar, a chael gwared yn brydlon ar wartheg wedi'u heintio. Rydym hefyd yn ceisio cyfyngu ar ledaeniad clefydau drwy arferion bioddogelwch llym a rheoli symudiadau. Ers 2012, mae buchesi yng Nghymru wedi cael eu profi o leiaf unwaith y flwyddyn a dilynwyd rheolau ar gyfer cynnal profion ar bob buches cyn ei symud. Mae eithriadau i'r profion cyn symud wedi cael eu hadolygu yn ystod y chwe mis diwethaf. O 30 Medi eleni, ni fydd gwartheg sy'n symud o fewn awdurdodau meddiannaeth unigol mwyach yn cael eithriad awtomatig rhag profion ar gyfer TB gwartheg cyn eu symud. Bydd hyn yn lleihau'r perygl o ledaenu TB mewn gwartheg wrth symud gwartheg.

Rwyf hefyd wedi tynhau ar gosbau trawsgydymffurfio ar gyfer profion TB gwartheg hwyr, gan ddechrau trwy hysbysu ffermwyr ynglŷn â phroffion cadw golwg rheolaidd o 1 Ionawr 2014. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr eisoes yn parchu'r gofyniad hwn a bydd y polisi hwn yn annog pawb i wneud yn siŵr y cynhelir y profion TB gwartheg ar amser. Mae trefniadau iawndal gwartheg hefyd yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n strategaeth ddileu. Ar 28 Ionawr, cyhoeddais ymgynghoriad ar iawndal TB gwartheg, sy'n nodi cynigion i gyflwyno system tabl prisio. Rwy'n credu y byddai gan system seiliedig ar dabl nifer o fanteision amlwg. Yn bwysig, byddai'n caniatáu ar gyfer cael gwared yn gyflymach ar anifeiliaid wedi'u heintio o ffermydd ac, felly, yn lleihau'r perygl o ledaenu clefydau ymellach. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 22 Ebrill.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd masnachu gwartheg yn ein diwydiant, ond mae symudiadau anifeiliaid yn peri risg y gellid lledaenu clefydau. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant da byw a'r byrddau rhanbarthol dileu TB i ddatblygu cynigion masnachu yn seiliedig ar risg ar gyfer Cymru. Y diben yw rhoi gwybodaeth i ffermwyr yn y man gwerthu er mwyn iddynt werthuso'r risg y gallai fod TB gan y gwartheg y maent yn ystyried eu prynu. Rydym yn bwriadu lansio cynllun peilot yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddarparu hanes y gwerthwr, o ran TB gwartheg, mewn marchnadoedd. Cynllun gwirfoddol yw hwn, sy'n dibynnu ar wybodaeth gywir gan werthwyr ac ar gydweithrediad arwerthwyr da byw.

The disease picture in Wales is not uniform and it is important to take account of local and regional factors as we continue to build our programme. Last April, the Welsh Government appointed a specialist to study the disease patterns on a regional basis. This will enable us to target additional eradication measures in future and make best use of all resources. In line with this proposal last October, we launched a new initiative called Cymorth TB. The aim of this work is to provide farmers with additional support in dealing with a bovine TB breakdown and remaining bovine TB free thereafter. I believe that the private vet has much to contribute to bovine TB eradication, and as a first step, we are funding private vets to visit clients who have recently had a bovine TB breakdown. The objective is to help the keeper through the breakdown and to clear it more quickly. We intend to learn from both of these initiatives and to consider how they can be rolled out across the rest of Wales.

We are steadily ramping up our actions to tackle sources of bovine TB. Another element of our programme is aimed at the reservoir of infection found in wildlife. In the intensive action area in north Pembrokeshire, over 1,350 badgers were successfully trapped and vaccinated in 2013. In excess of 1,400 badgers were vaccinated the previous year. A full report on the second year of the vaccination project will be published before the Easter recess. Participation in the project is voluntary and I am grateful for the cooperation and assistance shown by land owners. I am also pleased to note that this co-operation and assistance is growing year by year.

In addition to this, we have developed a badger vaccination grant providing farmers, landowners and organisations across Wales with the opportunity to vaccinate badgers against bovine TB. The application window closes later this month. Successful applicants will receive up to 50% of the eligible costs of badger vaccination for five years and vaccination is expected to start this summer. We stand ready to embrace new technologies as they become available and we will work in partnership with farmers, the veterinary profession, the agriculture industry and rural communities. I recognise the potential benefits of cattle vaccination as part of the bovine TB eradication programme. I am pleased that progress is being made towards the establishment of vaccination field trials in the United Kingdom.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:35.*

## **Alun Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

This June, Wales will host the world Mycobacterium bovis conference. Here, we will be able to learn from other countries that have already made great progress towards eradicating bovine TB. We will also share our own eradication programme with all those who share our vision. I believe that we are making significant progress towards bovine TB control and eradication. There are some real challenges and hurdles to overcome, and we must continue with our comprehensive approach, which is aimed at dealing with all sources of infection, to achieve our long-term goal of a bovine-TB-free Wales.

Nid yw'r darlun yng Nghymru yn unfurff, ac mae'n bwysig ystyried ffactorau lleol a rhanbarthol wrth inni barhau i ddatblygu ein rhaglen. Fis Ebrill diwethaf, penododd Llywodraeth Cymru arbenigwr i astudio patrymau'r defyd ar sail ranbarthol. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu mesurau dileu ychwanegol yn y dyfodol ac i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau. Yn unol â'r cynnig hwn fis Hydref diwethaf, lanswyd menter newydd o'r enw Cymorth TB. Nod y gwaith hwn yw rhoi cefnogaeth ychwanegol i ffermwyr ymdrin ag achosion o TB mewn gwartheg a chadw'u gwartheg yn rhydd rhag TB ar ôl hynny. Rwy'n credu bod gan y milfeddyg preifat lawer i'w gyfrannu at ddileu TB mewn gwartheg, ac fel cam cyntaf, rydym yn ariannu milfeddygon preifat i ymweld â chleientiaid sydd wedi cael achos o TB gwartheg yn ddiweddar. Y nod yw helpu'r ceidwad drwy'r achos a'i glirio'n gyflymach. Rydym yn bwriadu dysgu o'r ddwy fenter hyn ac ystyried sut y gellir eu cyflwyno ar draws gweddill Cymru.

Rydym yn cynyddu'n raddol ein camau gweithredu i fynd i'r afael â ffynonellau TB mewn gwartheg. Mae elfen arall o'n rhaglen wedi'i hanelu at y gronfa o haint a geir mewn bywyd gwylt. Yn yr ardal triniaeth ddwys yng ngogledd Sir Benfro, cafodd dros 1,350 o foch daear eu dal a'u brechu yn llwyddiannus yn 2013. Cafodd mwy na 1,400 o foch daear eu brechu y flwyddyn flaenorol. Bydd adroddiad llawn ar ail flwyddyn y prosiect brechu yn cael ei gyhoeddi cyn toriad y Pasg. Mae tîrffeddiannwyr yn cymryd rhan yn y prosiect yn wirfoddol ac rwy'n ddiolchgar iddynt am eu cydweithrediad a'u cymorth. Rwyf hefyd yn falch o nodi bod y cydweithrediad a'r cymorth yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi datblygu grant brechu moch daear sy'n rhoi cyfle i ffermwyr, tîrffeddiannwyr a sefydliadau ar draws Cymru frechu moch daear yn erbyn TB gwartheg. Mae'r cyfnod ymgeisio yn cau yn ddiweddarach y mis hwn. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn hyd at 50% o gostau cymwys brechu moch daear am bum mlynedd a disgwylir i'r brechu ddechrau yn yr haf. Rydym yn barod i groesawu technolegau newydd wrth iddynt ddod ar gael a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â ffermwyr, y proffesiwn milfeddygol, y diwydiant amaethyddiaeth a chymunedau gwledig. Rwy'n cydnabod manteision posibl brechu gwartheg fel rhan o'r rhaglen i ddileu TB gwartheg. Rwy'n falch bod camau yn cael eu cymryd tuag at sefydlu treialon maes ar gyfer brechu yn y Deyrnas Unedig.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:35.*

Ym mis Mehefin eleni, bydd Cymru'n cynnal cynhadledd Mycobacterium bovis y byd. Yma, byddwn yn gallu dysgu gan wledydd eraill sydd eisoes wedi cymryd camau breision tuag at ddileu TB mewn gwartheg. Byddwn hefyd yn rhannu ein rhaglen ddileu ein hunain gyda phawb sy'n rhannu ein gwledigaeth. Credaf ein bod yn symud ymlaen yn dda tuag at reoli a dileu TB mewn gwartheg. Mae rhai heriau a rhwystrau go iawn i'w goresgyn, a rhaid inni barhau â'n dull cynhwysfawr, sy'n ceisio ymdrin â holl ffynonellau'r haint, er mwyn cyflawni ein nod hirdymor o sicrhau bod Cymru'n rhydd rhag TB gwartheg.

I thank the Minister for his statement this afternoon.

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad brynhawn heddiw.

I attended a meeting last night at Welshpool livestock market—I was invited to do so by the Farmers Union of Wales. Welsh Government officials were also present, to discuss the various issues around bovine TB, and how the Welsh Government's TB eradication programme is being implemented. I hope that it has been relayed back to the Minister, from his officials, that there was a significant amount of anger and frustration emanating from the room that still not enough is being done to tackle the reservoir of infection in the wild, and that the Welsh Government still does not have a grip on the situation. There was a strong feeling that farmers are still experiencing many of the burdens and the costs that bovine TB bring, yet the Government was not prepared, or was reluctant, to take responsibility for its share of the eradication plan.

Bûm mewn cyfarfod neithiwr ym marchnad da byw y Trallwng—cefais wahoddiad i wneud hynny gan Undeb Amaethwyr Cymru. Roedd swyddogion o Lywodraeth Cymru hefyd yn bresennol, i drafod yr amrywiol faterion yn ymwneud â TB mewn gwartheg, a sut y mae rhaglen dileu TB Llywodraeth Cymru yn cael ei gweithredu. Rwy'n gobeithio fod ei swyddogion wedi cyfleu i'r Gweinidog bod llawer iawn o ddieter a rhwystredigaeth yn deillio o'r ystafell nad oes digon yn cael ei wneud o hyd i fynd i'r afael â'r gronfa o haint yn y gwyllt, a bod y Llywodraeth Cymru yn dal heb gael gafael ar y sefyllfa. Cafwyd teimlad cryf bod ffermwyr yn dal i brofi llawer o'r beichiau a'r costau a ddaw yn sgil TB gwartheg, ond nad yw'r Llywodraeth yn barod i fod yn gyfrifol am ei chyfran o'r cynllun dileu, neu ei bod yn anfodlon gwneud hynny.

I welcome the reductions that you have set out today. However, last year, we still saw 900 new herd infections, and over 6,000 cattle slaughtered, which, of course, has an emotional and financial price for farming families. The farmers at the meeting last night were unanimous in their belief that the Welsh Government is not tackling the infection properly and correctly. Farmers feel that they are working longer and harder for less. I have to say that I did feel sympathy for the Government officials who were there last night, who had to defend a policy that is not working.

Rwy'n croesawu'r gostyngiadau yr ydych wedi'u nodi heddiw. Fodd bynnag, y llynedd, gwelwom 900 o heintiau mewn buchesi newydd, a thros 6,000 o wartheg wedi eu lladd, sydd, wrth gwrs, yn dod â phris emosiynol ac ariannol i deuluoedd ffermio. Roedd y ffermwyr yn y cyfarfod neithiwr yn unfrydol yn eu cred nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r haint yn briodol ac yn gywir. Mae ffermwyr yn teimlo eu bod yn gweithio'n hirach ac yn galetach am lai. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn cydymdeimlo â swyddogion y Llywodraeth a oedd yno neithiwr, yn gorfod amddiffyn polisi nad yw'n gweithio.

In terms of the programme, it would be useful to have a fuller and clearer understanding of the costs, compared with benefit outcomes. I would be grateful if the Minister could provide me with some more detail of the budgetary costs of the eradication programme to date, and estimated costs for the next two years. Of course, if he does not have that today, I would be happy for him to write to me on those points.

O ran y rhaglen, byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth lawnach a chliriach o'r costau, o'i gymharu â buddion. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi ychydig mwy o fanylion i mi ynglŷn â chostau cyllidebol y rhaglen ddileu hyd yn hyn, a'r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Wrth gwrs, os nad ydynt wrth law ganddo heddiw, byddwn yn fodlon iddo ysgrifennu ataf am y pwyntiau hynny.

In terms of the vaccination programme, while I appreciate that a report will be published before Easter, it would be useful to have some further details on how the programme went last year. Is the Minister prepared, perhaps, to flesh out some more details on that? In relation to vaccines, there are, of course, legislative and technical issues that need to be ironed out with the European Commission on the wider use of the vaccine in the future. Can the Minister provide any further update on that?

O ran y rhaglen frechu, er fy mod yn sylweddoli y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn y Pasg, byddai'n ddefnyddiol cael rhai manylion ychwanegol ynglŷn â sut aeth y rhaglen y llynedd. A yw'r Gweinidog yn fodlon, efallai, i roi cnawd ar esgyrn y manylion am hynny? O safbwynt brechlynnau, mae angen datrys rhai materion deddfwriaethol a thechnegol, wrth gwrs, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd o ran y defnydd ehangach o'r brechlyn yn y dyfodol. A all y Gweinidog roi unrhyw wybodaeth ychwanegol am hynny?

Furthermore, the UK Government proceeded with two pilot culls, and, despite what the media has said about their effectiveness, we still await the official reports of those cull programmes. Will the Minister give a commitment to examine those reports, when they are published, to see whether there are lessons that can be learned, which could be put into practice here in Wales?

Ar ben hynny, aeth Llywodraeth y DU yn ei blaen gyda dwy raglen beilot ar gyfer difa, ac, er gwaethaf yr hyn y mae'r cyfryngau wedi'i ddweud am eu heffeithiolrwydd, rydym yn dal i aros am adroddiadau swyddogol y rhaglenni difa hynny. A wnaiff y Gweinidog roi ymrwymiad i archwilio'r adroddiadau hynny, pan gânt eu cyhoeddi, i weld a oes gwersi y gellir eu dysgu a'u rhoi ar waith yma yng Nghymru?



Finally, in terms of the compensation consultation, I want to ensure that the Minister gives full regard to the significant financial challenges that Welsh farmers are facing with regard to their bottom lines. The Minister seemed to be fixed on the system before the consultation was launched. However, I would ask him to listen to, and act on, the consultation responses if they tell him that this is not the best option for the Welsh cattle industry.

Yn olaf, o ran yr ymgynghoriad ynglŷn â iawndal, rwy'n awyddus i sicrhau bod y Gweinidog yn rhoi ystyriaeth lawn i'r heriau ariannol sylweddol y mae ffermwyr Cymru yn eu hwynebu o ran eu helw net. Roedd y Gweinidog yn ymddangos yn gadarn ynglŷn â'r system cyn i'r ymgynghoriad gael ei lansio. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn iddo wrando ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gweithredu arnynt, os ydynt yn dweud wrtho nad dyma'r opsiwn gorau ar gyfer y diwydiant gwartheg yng Nghymru.

15:39

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I should start by welcoming the new Conservative spokesperson to his role this afternoon. I do not know how long he will be here, but we wish him the best of luck; he might be taking a different role from another farmer later in this Assembly. Certainly, that might well be the case. [Interruption.] I do not know, but I certainly welcome—even if his leader will not allow me to do so—him to his new role in this place today.

He describes the Welsh Government's policy as a policy that is not working. I will suggest to him that, if he wants to see a policy that is not working, he should go across the border to England. You will see in Wales that the number of cattle slaughtered in the last year is down 33%; the equivalent statistic for the rest of GB is 14%—less than half. In terms of the number of herds being affected by bovine TB, we have seen reductions of 23%; the equivalent number in England is 6%. I will say to the Member for Montgomeryshire, the Conservative spokesman: if you really want to see a policy that is not working, look at what DEFRA has been doing this year, last year and the year before. The numbers speak for themselves. I would suggest that he says to his constituents that Powys has seen a 29% decline in animals slaughtered as a consequence of bovine TB. That is twice the average for across the border. We, in Wales, are getting a grip on this disease. We are progressing policies that are demonstrably having an effect, at twice the rate that we are seeing across the border—unless the Conservative Party wants to challenge DEFRA's statistics; I doubt that it will. We are also seeing a policy that is beginning to demonstrate that we are getting a grip on this disease. I know that many people are impatient and I share their impatience. That is understandable. However, what I will say to people is that this is not a time to change policy. It is a time to ensure that this policy is delivered and continues to be delivered, because it is a policy that is working.

Dylwn ddechrau drwy groesawu llefarydd newydd y Ceidwadwyr i'w rôl y prynhawn yma. Nid wyf yn gwybod pa mor hir y bydd yma, ond rydym yn dymuno pob lwc iddo; gallai fod yn cymryd rôl wahanol i ffermwr arall yn ddiweddarach yn y Cynulliad hwn. Yn sicr, gallai hynny fod yn wir. [Torri ar draws.] Nid wyf yn gwybod, ond rwy'n sicr yn ei groesawu—hyd yn oed os na fydd ei arweinydd yn caniatáu imi wneud hynny—i'w rôl newydd yn y lle hwn heddiw.

Mae'n disgrifio polisi Llywodraeth Cymru fel polisi nad yw'n gweithio. Byddaf yn awgrymu iddo y dylai fynd ar draws y ffin i Loegr, os yw'n dymuno gweld polisi nad yw'n gweithio. Byddwch yn gweld yng Nghymru fod nifer y gwartheg a laddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i lawr 33%; yr ystadegyn cyfatebol ar gyfer gweddill Prydain yw 14%—llai na hanner. O ran nifer y buchesi sy'n cael eu heffeithio gan TB gwartheg, rydym wedi gweld gostyngiadau o 23%, y nifer cyfatebol yn Lloegr yw 6%. Byddaf yn dweud wrth yr Aelod dros Sir Drefaldwyn, llefarydd y Ceidwadwyr: os ydych wir eisiau gweld polisi nad yw'n gweithio, edrychwch ar yr hyn y mae DEFRA wedi bod yn ei wneud eleni, y llynedd a'r flwyddyn cynt. Mae'r rhifau yn siarad drostynt eu hunain. Byddwn yn awgrymu ei fod yn dweud wrth ei etholwyr bod Powys wedi gweld gostyngiad o 29% yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd o ganlyniad i TB gwartheg. Dyna ddwywaith y cyfartaledd ar draws y ffin. Rydym ni, yng Nghymru, yn mynd i'r afael â'r clefyd hwn. Rydym yn datblygu polisiâu sy'n amlwg yn cael effaith, ar ddwywaith y gyfradd a welwn ar draws y ffin—oni bai bod y Blaid Geidwadol am herio ystadegau DEFRA; rwy'n amau y bydd am wneud hynny. Rydym hefyd yn gweld polisi sy'n dechrau dangos ein bod yn mynd i'r afael â'r clefyd hwn. Gwn fod llawer o bobl yn ddiamynedd ac rwy'n rhannu eu diffyg amynedd. Mae hynny'n ddealladwy. Fodd bynnag, yr hyn a ddywedaf wrth bobl yw nad dyma'r amser i newid polisi. Mae'n amser i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gyflwyno ac yn parhau i gael ei gyflwyno, gan ei fod yn bolisi sy'n gweithio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The answers to questions that have been asked on the costs of the project are, of course, covered in the budget that has been provided to Members. I would suggest that, if he wishes to understand how we are budgeting for this year and next year, he takes a look at the budget. He asks how the project is working in Pembrokeshire. There has been continuing increasing co-operation and working together throughout the community in north Pembrokeshire. That is being seen in the effectiveness of that vaccination project. Finally, he asked me if I will speak to DEFRA about its reports on the culling policy in England. Of course, I will take note of what is being done in England and, of course, I speak to DEFRA Ministers on a regular basis about how we take different approaches to the eradication of bovine TB. However, I will say this to the Conservative spokesman: those same Ministers have been very coy in what they have said about their culling process. They have been very coy about not claiming any success whatsoever.

Mae'r atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â chostau'r prosiect, wrth gwrs, yn cael eu cwmpasu yn y gyllideb a ddarparwyd i'r Aelodau. Os yw'n dymuno deall sut yr ydym yn cyllidebu ar gyfer y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf, byddwn yn awgrymu y dylai fwrw golwg ar y gyllideb. Mae'n gofyn sut mae'r prosiect yn gweithio yn Sir Benfro. Bu cydweithio parhaus a chynyddol drwy'r gymuned yng ngogledd Sir Benfro. Gwelir hynny yn effeithiolrwydd y prosiect brechu hwnnw. Yn olaf, gofynnodd i mi a fyddaf yn siarad â DEFRA am ei hadroddiadau ar y polisi difa yn Lloegr. Wrth gwrs, byddaf yn cymryd sylw o'r hyn sy'n cael ei wneud yn Lloegr ac, wrth gwrs, rwy'n siarad â Gweinidogion DEFRA yn rheolaidd am y ffordd yr ydym yn cymryd gwahanol agweddau tuag at ddileu TB gwartheg. Fodd bynnag, byddaf yn dweud hyn wrth lefarydd y Ceidwadwyr: mae'r Gweinidogion hynny wedi bod yn ofalus iawn yn yr hyn y maent wedi'i ddweud am eu proses ddifa. Maent wedi bod yn ofalus iawn i beidio â hawlio unrhyw lwyddiant o gwbl.

15:43

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n cytuno bod gwersi i'w dysgu o'r profiadau yn Lloegr—rwy'n meddwl y byddwn yn falch iawn o weld y Llywodraeth yn dysgu rhai o'r gwersi hynny. Ond rwyf hefyd yn meddwl bod gwersi i'w dysgu o'r Iwerddon, lle mae moch daear yn cael eu difa a lle maent wedi gweld cwmp o bron i draean yn niferoedd yr achosion. Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni weld y darlun ehangach yn hytrach na dewis a dethol elfennau, fel sydd wedi nodweddu, efallai, yr holl drafodaeth hon yn y gorffennol.

Er hyn, nid yw'r cwmp cenedlaethol—sydd i'w groesawu, wrth gwrs—yn cuddio'r ffaith bod cynnydd sylweddol yn dal i ddigwydd mewn achosion newydd mewn rhai ardaloedd. [Torri ar draws.] Rydych yn gofyn ym mhle. Roedd bwrdd rhanbarthol TB gogledd Cymru yn cyfarfod neithiwr. Nododd y bwrdd y cynnydd sylweddol iawn yn ardal Trefeglwys a Chaersws ers yr hydref. Roedd dros 140 o anifeiliaid wedi'u difa ac roedd llawer mwy o reactors i'w gweld mewn buchesi a oedd heb gyswllt â gwartheg eraill a llawer mwy o achosion inconclusive. Dyna gasgliadau'r bwrdd, nid fy rhai i. Roedd y bwrdd hefyd yn nodi bod straen o TB yn yr ardal honno'n wahanol i'r straen sy'n gysylltiedig â breakdowns eraill o TB yng Nghymru. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad i ni o'r sefyllfa yn yr ardal honno ac, felly, eich ymateb chi i'r datblygiad penodol hwn o gwmpas y straen newydd a sut mae hynny'n effeithio ar unrhyw strategaethau gwyddonol pan yr ydych yn edrych ar ffyrdd o daclo'r clefyd hwn.

Rydych yn cyfeirio at lawer o bethau yn eich datganiad. Ceisaf fod yn gryno. Rydych chi'n sôn am yr eithriadau sy'n dod i ben o ran symud anifeiliaid o fewn yr SOAs. Mewn rhai achosion, nid yw anifeiliaid yn symud yn bell iawn, wrth gwrs—maent yn croesi'r ffordd, neu, hyd yn oed, yn agor giât. Gofynnaf i chi edrych i weld a oes modd i rai o'r sefyllfaedd hynny gael eu delio â hwy mewn modd sydd ychydig yn fwy cymesur â'r risg, mewn gwirionedd.

Thank you, Minister, for your statement. I agree that there are lessons to be learned from experiences in England—I think that I would be very pleased to see the Government learning some of those lessons. However, I also think that there are lessons to be learned from Ireland, where badgers are culled and where they have seen a fall of nearly a third in the number of cases. Therefore, I believe that we must look at the wider picture rather than pick and choose elements, as has characterised this whole debate in the past perhaps.

Despite this, the fall that we have seen nationally—which is to be welcomed, of course—does not hide the fact that there are significant increases in new cases in some areas. [Interruption.] You ask where that is. The north Wales regional TB board met last night. The board noted a very significant increase in the Trefeglwys and Caersws area since the autumn. More than 140 animals were slaughtered and many more reactors were seen in herds that had not come into contact with other cattle as well as many more inconclusive cases. Those were the board's conclusions, not mine. The board also noted a strain of TB in that area that was different to the strain linked to other TB breakdowns in Wales. Therefore, I would be grateful if you could update us on the situation in that area and, therefore, your reaction to this specific development of a new strain and how it affects any scientific strategies when you give consideration to ways of tackling this disease.

You referred to many things in your statement. I will try to be brief. You mention the exemptions that come to an end in terms of animal movements within the SOAs. In some cases, animals are not moving over great distances, of course—they are crossing the road or even going through a gate. I would ask you to look to see whether some of those situations could be dealt with in a way that is a little more commensurate with the risk involved, in all honesty.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cyfeirioch at y 'table valuation'. Rwy'n ofni bod negeseuon anghyson yn dod o'r Llywodraeth erbyn hyn. Dim ond pythefnos yn ôl, roeddech chi yn y fan hon yn dweud wrth y Cynulliad hwn, mewn ymateb i adroddiad Kevin Roberts, pa mor bwysig ydoedd i weithio ar faterion 'genetics', ac yn y blaen, a gwella ansawdd stoc y fuches genedlaethol er mwyn cryfhau cydnherthedd y diwydiant, ac, o fewn awr a hanner, roeddech chi'n cyhoeddi ymgynghoriad ar symud i 'table valuations'. Byddai hyn yn golygu symud oddi wrth sefyllfa lle mae ansawdd stoc yn cael ei gydnabod yn iawn, i ddull 'crude' iawn, mewn gwirionedd, o fesur gwerth anifail.

Nid yw'n ymddangos imi y bydd y drefn arfaethedig yn gwneud dim byd ond gorbrisio anifeiliaid o ansawdd sâl a thanbrisio anifeiliaid o ansawdd da. Dyna enghraifft, yn fy marn i, o anghysondeb. Liciwn glywed sut yr ydych yn meddwl bod hynny'n gydnaws â'r diwydiant rydych chi am ei weld. Mae hefyd yn ymddangos o'r ymgynghoriad hwnnw, gyda llaw, nad yw'n debygol y bydd modd apelio penderfyniad. Efallai y gallwch fy nghywiro, ond byddwn i'n licio clywed a fydd rhyw fecanwaith i apelio penderfyniad ar werth anifail petai'r gyfundrefn honno'n cael ei chyflwyno.

Rydych chi'n sôn yn eich datganiad am gynllun peilot newydd i ddatgan hanes TB wrth fynd ag anifail i'r farchnad. Liciwn i ofyn beth y byddai hynny'n ei gyflawni. Naill ai mae'r fferm yn lân ac wedi cael prawf clir, neu nad ydyw. Yn sydyn iawn, rydych chi'n creu rhyw fath o gategori o ffermydd sydd wedi cael TB yn y gorffennol, ac mi fydd hynny'n sicr yn pardduo'r anifeiliaid a'r ffermwyr a fydd yn awyddus i werthu eu stoc, er eu bod yn lân erbyn hyn. Felly, onid ydych chi, mewn gwirionedd, yn ei gwneud yn anoddach i'r rheini i werthu anifeiliaid ac felly'n gwneud adferiad unrhyw fusnes sydd wedi dioddef o TB lawer yn anoddach? Yn fy marn i, mae hynny'n rhywbeth i'w wrthwynebu mewn gwirionedd, ond byddwn i'n falch clywed mwy o'r rhesymeg ynglŷn â gwerth cynllun o'r fath.

Rydych chi'n cydnabod eto yn eich datganiad rôl y 'vet' preifat wrth daclo TB, ond eto rydych chi'n peryglu, yn fy marn i, y rôl werthfawr honno drwy symud i greu tendrau mawr ar gyfer gwasanaethau profion TB ar draws Cymru—un tendr i'r gogledd ac un i'r de. Mae 40% o incwm nifer o 'practices' milfeddygol yn dibynnu ar y gwaith hwn. O gollir cytundebau hynny, nid yn unig bydd impact economaidd, o bosib, gyda swyddi'n cael eu colli, ond fe fyddwch chi'n tansilio'r berthynas honno sy'n datblygu dros amser rhwng y 'vet'—y milfeddyg lleol—a'r ffermwyr unigol. Hefyd, mae perygl y byddwch chi'n colli elfen o'r 'passive surveillance' sy'n digwydd wrth i'r milfeddygon hyn ymweld â ffermydd. Fe all hynny ddod â chost lawer mwy yn yr hirdymor o ran lles anifeiliaid, taclo clefydau ac afiechydon, ac, yn gyffredinol, o ran cydnherthedd y diwydiant.

You mentioned the table valuation. I fear that there are mixed messages coming from the Government now. Only a fortnight ago, you were here telling this Assembly, in response to the Kevin Roberts report, how important it was to work on issues of genetics, and so on, and to improve the quality of the stock of the national herd in order to strengthen the resilience of the industry, and, within an hour and half, you were announcing a consultation on moving to table valuations. That would take you away from a situation where the quality of the stock is properly recognised to a very crude mechanism of actually measuring the value of livestock.

It does not appear to me that the proposed system will do anything but overvalue animals of a low quality and overvalue high-quality stock. That is an example, in my opinion, of inconsistency. I would like to hear how you think that is in keeping with the kind of industry that you want to see. It also appears from that consultation, by the way, that it is unlikely that there will be an appeals process following decisions. Maybe you could correct me, but I would like to hear if there will be an appeals mechanism for decisions taken on the value of livestock if that regime is introduced.

You mention in your statement a new pilot scheme to state the cattle's TB history when taking it to market. I would like to ask what that would actually achieve. Either the farm is clean and has been given a clear test or it has not. All of a sudden, you are creating a category of farms that have experienced TB in the past, and that would certainly blacken the reputation of the animals and the farmers who wish to sell their stock, although they are now clear. So, are you not in truth making it more difficult for those people to sell their livestock and making the recovery of any business that has suffered TB far more difficult? In my opinion, that is something that should be opposed, but I would like to hear more of the rationale behind such a proposal.

You recognise again in your statement the role of the private vet in tackling TB, but again you put that valuable role at risk, in my opinion, by moving to large-scale tenders for TB testing services across Wales—one in north Wales and one for south Wales. Forty per cent of the income of many veterinary practices is dependent on this work. In losing those contracts, not only will there be an economic impact, possibly, in terms of job losses, but you will also undermine the relationship that develops over time between the vet—the local veterinarian—and the individual farmers. Also, there is risk that you will lose that element of passive surveillance that happens as these vets visit farms regularly. That of course could have a far greater long-term cost in terms of animal welfare, tackling diseases and ill health, and, in general, the resilience of the industry.

Yn olaf, rwy'n meddwl ei fod yn arwyddocaol nad ydych chi wedi cyhoeddi unrhyw ganlyniadau penodol ar gyfer yr ardal gweithredu ddwys yn y fan hon heddiw. Fe fyddai wedi gwneud synnwyr, yn fy marn i, i ni allu gweld y canlyniadau hynny, ochr yn ochr â'r ystadegau cenedlaethol rydych chi'n cyfeirio atynt. Efallai y gallwch awgrymu i ni, gan nad ydw i'n disgwyl i chi roi unrhyw ystadegau, os ydych chi'n hapus gyda'r cynnydd a welwyd yn y gwaith yn yr ardaloedd hynny a'r impact mae'n ei gael ar nifer yr achosion o TB. A wnewch chi ymrwymo i fwy o dryloywder pan mae'n dod at roi diweddariadau inni ar yr ystadegau yn yr ardal gweithredu ddwys, efallai drwy roi adroddiadau cyson bob tri neu chwe mis?

Finally, I think that it is significant that you have not announced any specific results for the intensive action area here today. It would have made sense, in my opinion, for us to be able to see those results alongside the national statistics that you refer to. Perhaps you can give us some suggestion, as I am not expecting you to provide any statistics, whether you are happy with the progress that has been made in terms of the work in those intensive action areas and the impact that it is having on the number of cases of TB. Will you commit to more transparency when it comes to giving us updates on the statistics in the intensive action area, perhaps by providing regular updates every three months or six months?

15:49

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is certainly not my intention to publish reports on a quarterly basis. I am not sure whether, fundamentally, that would lead to a greater understanding. I will say that for the Dyfed area, which is where the statistics are collected from, the decline in the animals slaughtered for TB control over the last year was 33%—it was the same as the national average. The number of new herd incidents was 28% decline, which is above the national average. All of these statistics are published information. They were published last week on the DEFRA website and I would expect a spokesperson as well equipped as you to have taken the time to look at those numbers and to understand them.

You invited me to look across the Irish sea; that is something that we do on a regular basis. This is not an administration that simply looks inwards; we do talk to other administrations. That is why we have invited a global conference to Wales in June and why we will be speaking to people, not simply our Celtic cousins, although, of course, we do enjoy very good and healthy conversations with those administrations, but people from across the world, to understand what sorts of processes, policy directions or policy tools are in place in all sorts of different Governments and circumstances, to understand where we are in terms of the knowledge available to us, and how that knowledge can be turned into policy tools that will have the impact of bearing down on this disease.

In your question, you referred to some particular areas where increases have been seen in bovine TB. We understand that there is significant regional variation in the spread and the nature of bovine TB, and that is why we have appointed specialists to look at the regional understanding, as I referred to in my oral statement this afternoon, to ensure that we address the disease, perhaps in different ways in Gwynedd to the ways employed in Dyfed, Glamorgan or Gwent. Therefore, we understand that and that is something that we have been addressing for some time now. I hope that we will be able to expand on that as our understanding of the disease continues to grow.

Yn sicr, nid wyf yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau bob chwarter. Nid wyf yn siŵr a fyddai hynny, yn y bôn, yn arwain at well dealltwriaeth. Byddaf yn dweud ar gyfer ardal Dyfed, ac oddi yno y mae'r ystadegau'n cael eu casglu, bod y gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB dros y flwyddyn ddiwethaf yn 33%—roedd yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd nifer yr achosion mewn buchesi newydd wedi gostwng 28%, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae pob un o'r ystadegau hyn yn wybodaeth wedi ei chyhoeddi. Cawsant eu cyhoeddi'r wythnos diwethaf ar wefan DEFRA a byddwn yn disgwyl i lefarydd gyda'ch adnoddau chi fod wedi cymryd yr amser i edrych ar y niferoedd hynny a'u deall.

Rydych yn fy ngwahodd i edrych ar draws môr Iwerddon; mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei wneud yn rheolaidd. Nid yw hon yn weinyddiaeth sy'n edrych i mewn yn unig, rydym yn siarad â gweinyddiaethau eraill. Dyna pam yr ydym wedi gwahodd cynhadledd fyd-eang i Gymru ym mis Mehefin a pam y byddwn yn siarad â phobl, nid dim ond ein cefndryd Celtaidd, er ein bod, wrth gwrs, yn mwynhau sgyrsiau da iawn ac iach gyda'r gweinyddiaethau hynny, ond pobl o bob rhan o'r byd, er mwyn deall pa fath o brosesau, cyfeiriadau polisi neu arfau polisi sydd ar waith ym mhob math o wahanol Lywodraethau ac amgylchiadau, er mwyn deall ymhle'r ydym ni o ran y wybodaeth sydd ar gael inni, a sut y gellir troi'r wybodaeth honno'n arfau polisi a fydd yn cael yr effaith o gael gwared ar y clefyd hwn.

Yn eich cwestiwn, roeddech yn cyfeirio at rai ardaloedd penodol lle y gwelwyd cynnydd mewn TB gwartheg. Rydym yn deall bod amrywiad rhanbarthol sylweddol mewn lledaeniad a natur TB gwartheg, a dyna pam yr ydym wedi penodi arbenigwyr i edrych ar y ddealltwriaeth ranbarthol, fel y cyfeiriais ato yn fy natganiad llafar y prynhawn yma, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r clefyd, efallai mewn gwahanol ffyrdd yng Ngwynedd o'i gymharu ag yn Nyfed, Morgannwg neu Gwent. Felly, rydym yn deall hynny ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn rhoi sylw iddo ers peth amser bellach. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu ymhelaethu ar hynny wrth inni barhau i ddod i ddeall y clefyd yn well.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

You referred to areas in north Wales that have seen significant increases; that, of course, is not the case. No part of Wales has seen a significant increase. The part of Wales that has seen an increase in the animals slaughtered was the old county of Gwynedd, which saw an increase from 73 animals to 84 animals, so nine additional animals were slaughtered in that area in that year. Therefore, I would not say that we were seeing a significant increase in any part of Wales. All other areas, without exception, have shown significant declines. The smallest decline was 23% and the largest decline was 48%, so we are seeing significant declines, but we are not seeing significant increases in any part of Wales on the basis of the statistics that we have available to us.

You asked a number of questions on risk. There is no contradiction between a tabular approach to compensation and the work that we were discussing in terms of upland resilience two weeks ago. May I say that there are 51 different categories on those tables? It is not so much a crude instrument as a means of providing a very clear means of reacting quickly to ensure that we are able to provide compensation to farmers at a rate that is fair, both to the farming community, but also to the taxpayer, and to ensure that we are delivering compensation, but also delivering the removal of diseased animals in a way that bears down on the disease. In terms of risk-based trading, this is something that has been practised in other areas and other administrations, and it is something that we are looking at. We are proposing a pilot scheme. If it has the impact on the market that the Member suggested that it might well do, clearly, that is not something that we would progress. However, I would say that there is no evidence to sustain or to support the concerns that he has outlined today.

Finally, on the issue of private vets, they will and do provide an essential and important element of our overall control and management policy and strategy. He has made the point on a few occasions about the nature of the contracts. I would say to him that we are putting in place framework contracts that will enable us to deliver a cost-effective solution for the taxpayer to resolving these sorts of issues, but that does not mean that the service will simply be delivered by one, two or half a dozen major practices. They will be delivered locally by local vets who are familiar with the local territory, the local community and the local industry. That is how we are setting up these contracts. The reason why they are done in a framework manner as suggested is simply to ensure that we are providing best value for the taxpayer. I am sure that that is something that you would join me in wishing to see.

Fe wnaethoch gyfeirio at ardaloedd yn y gogledd sydd wedi gweld cynnydd sylweddol; nid yw hynny, wrth gwrs, yn wir. Nid oes unrhyw ran o Gymru wedi gweld cynnydd sylweddol. Y rhan o Gymru sydd wedi gweld cynnydd yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd oedd yr hen sir Gwynedd, a welodd gynnydd o 73 o anifeiliaid i 84 o anifeiliaid, felly cafodd naw anifail ychwanegol eu difa yn yr ardal honno yn y flwyddyn honno. Felly, ni fyddwn yn dweud ein bod yn gweld cynnydd sylweddol mewn unrhyw ran o Gymru. Mae pob ardal arall, yn ddiethriad, wedi dangos gostyngiad sylweddol. Y gostyngiad lleiaf oedd 23% a'r gostyngiad mwyaf oedd 48%, felly rydym yn gweld gostyngiad sylweddol, ond nid ydym yn gweld cynnydd sylweddol mewn unrhyw ran o Gymru ar sail yr ystadegau sydd ar gael i ni.

Rydych yn gofyn nifer o gwestiynau ynglŷn â risg. Nid yw dull o gyfrifo iawndal trwy ddefnyddio tabl yn mynd yn groes i'r gwaith yr oeddem yn ei drafod o ran gwydnwch yr ucheldiroedd bythefnos yn ôl. A gaf fi ddweud bod 51 categori gwahanol ar y tablau hynny? Nid offeryn ansoffistigedig mohono. Mae'n fodd o ddarparu dull clir iawn o ymateb yn gyflym i sicrhau ein bod yn gallu darparu iawndal i ffermwyr ar gyfradd sy'n deg, i'r gymuned ffermio, ond hefyd i'r trethdalwr, ac i sicrhau ein bod yn darparu iawndal, ond hefyd ein bod yn cael gwared ar anifeiliaid sydd â'r clefyd mewn ffordd sy'n gwasgu ar y clefyd. O ran masnachu seiliedig ar risg, mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei wneud mewn ardaloedd eraill a gweinyddiaethau eraill, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn edrych arno. Rydym yn cynnig cynllun peilot. Os yw'n cael yr effaith ar y farchnad yr oedd yr Aelod yn awgrymu y gallai ei chael, nid yw hynny'n rhywbeth y byddem yn ei ddatblygu. Fodd bynnag, byddwn yn dweud nad oes unrhyw dystiolaeth i gynnal nac i gefnogi'r pryderon y mae wedi sôn amdanynt heddiw.

Yn olaf, o ran milfeddygon preifat, maent a byddant yn darparu elfen hanfodol a phwysig o'n strategaeth a'n polisi cyffredinol ar gyfer rheolaeth. Mae wedi gwneud y pwynt ar ambell i achlysur ynglŷn â natur y contractau. Byddwn yn dweud wrtho ein bod yn rhoi contractau fframwaith ar waith a fydd yn ein galluogi i ddarparu ateb cost effeithiol i drethdalwyr i ddatrys y mathau hyn o faterion, ond nid yw hynny'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan un, dau neu hanner dwsin o bractisiau mawr. Byddant yn cael eu darparu yn lleol gan filfeddygon lleol sy'n gyfarwydd â'r diriogaeth leol, y gymuned leol a'r diwydiant lleol. Dyna sut yr ydym yn sefydlu'r contractau hyn. Y rheswm dros wneud hynny mewn ffordd fframwaith fel yr awgrymwyd, yn syml, yw er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwerth gorau i'r trethdalwr. Rwy'n siŵr bod hynny'n rhywbeth y byddech chi, fel minnau, yn dymuno ei weld.

I welcome your statement today, Minister, particularly the increase in the vaccination scheme that is demonstrated and the decrease in the incidence of bovine TB. It has been described as ineffective and crippling expensive and, according to Professor Rosie Woodroffe, it is very likely to have increased the risk of TB in cattle. The badger culls in Somerset and Gloucestershire have been a disaster from start to finish. That is not a political statement and that is not a statement that we have made up; that is the statement of a professor following the disastrous cull in Somerset and Gloucester. I would like to put that on the record. I would also like to contrast that with the Welsh Labour Government continuing to use an evidence-led strategy for eradicating the scourge that is bovine TB. I do not want to repeat everything that has already been said, but I do think that vigilance through testing regimes, strict standards of livestock movement, and reporting and recording, offer the sensible, scientific and sustainable way forward. That is exactly what you, Minister, are doing here in Wales.

I recognise, as has been said already, that farmers do need information and support. You mentioned earlier this year that you had six pilot projects that were ongoing. I would like you to tell us when you will be making an announcement about the success of those pilot projects to this Chamber. I also recognise, Minister, that the one place that farmers may need support now is Montgomeryshire, as has already been mentioned here today. There is a suspected spike in TB breakdowns in that area, to the west of Newtown, and it is extremely worrying. I ask, Minister, whether you would be able to make a statement about that TB breakdown later in the year, and perhaps look at the reasons for it. I do understand, as has already been mentioned, that a Farmers Union of Wales special meeting was held last night in Welshpool to discuss that particular situation.

That is, really, all that I want to say, but it is worth noting and repeating that while Powys has this situation on the ground at the moment, it has, as you have just said earlier, a 29% reduction in the cattle slaughter with the systems and procedures that you have adopted in Wales.

Rwy'n croesawu eich datganiad heddiw, Weinidog, yn enwedig y cynnydd a welir yn y cynllun brechu a'r gostyngiad yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel rhywbeth aneffeithiol a niweidiol o ddrud ac, yn ôl yr Athro Rosie Woodroffe, mae'n debygol iawn o fod wedi yn cynyddu'r risg o TB mewn gwartheg. Mae'r rhaglen i ddifa moch daear yng Ngwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw wedi bod yn drychineb o'r dechrau i'r diwedd. Nid datganiad gwleidyddol mo hynny, ac nid yw'n ddatganiad yr ydym wedi'i ddychmygu ein hunain; dyna ddatganiad athro yn dilyn y difa trychinebus yng Ngwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw. Hoffwn ddatgan hynny yn gyhoeddus. Hoffwn hefyd gyferbynnu hynny ag agwedd Llywodraeth Lafur Cymru, sy'n parhau i ddefnyddio strategaeth a arweinir gan dystiolaeth ar gyfer dileu melltith TB gwartheg. Nid wyf am ailadrodd popeth sydd eisoes wedi cael ei ddweud, ond rwy'n credu bod gwyliadwriaeth trwy gyfundrefnau profi, safonau llym o ran symud da byw, ac adrodd a chofnodi, yn cynnig ffordd ymlaen synhwyrol, wyddonol a chynaliadwy. Dyna'r union beth yr ydych chi, Weinidog, yn ei wneud yma yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod, fel y dywedwyd eisoes, bod angen gwybodaeth a chefnogaeth ar ffermwyr. Roeddech yn sôn yn gynharach eleni bod gennych chwe phrosiect peilot sy'n mynd rhagddynt. Hoffwn ichi ddweud wrthym pryd y byddwch yn gwneud cyhoeddiad am lwyddiant y prosiectau peilot hynny i'r Siambr hon. Rwyf hefyd yn cydnabod, Weinidog, mai'r un lle y gallai fod angen cymorth ar ffermwyr yn awr yw Sir Drefaldwyn, fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll yma heddiw. Ceir amheuaeth bod cynnydd sydyn mewn achosion o TB yn yr ardal honno, i'r gorllewin o'r Drenewydd, ac mae'n destun pryder mawr. Rwy'n gofyn, Weinidog, a fydddech yn gallu gwneud datganiad am yr achos hwnnw o TB yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac efallai edrych ar y rhesymau drosto. Rwy'n deall, fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll, y cynhaliwyd cyfarfod arbennig gan Undeb Amaethwyr Cymru neithiwr yn y Trallwng i drafod y sefyllfa benodol honno.

Dyna'r cyfan y mae arnaf eisiau ei ddweud, mewn gwirionedd, ond mae'n werth nodi ac ailadrodd bod y systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru wedi arwain at ladd 29% yn llai o wartheg, fel yr ydych newydd ei ddweud yn gynharach, er bod y sefyllfa hon yn bodoli ar lawr gwlad ym Mhowys ar hyn o bryd.



**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Joyce. In terms of where we are on the vaccination scheme, as I say, I will be providing Members with a full report on this before the Easter recess. In terms of cost and ease of delivery, which I think that we have seen, I would like to pay tribute not only to the landowners and farmers who have co-operated and provided assistance in the delivery of the scheme, but also to the Welsh Government officials who have delivered it on the ground. I think that there is an extraordinary comparison to be made between the chaotic approach that has been taken in England and the thoughtful way in which we have delivered the policy in Wales, and obviously, of course, a policy that is far more cost-effective in Wales and a policy that, at the end of the day, is being more successful. If you want to see how not to deliver agriculture policy, go to England; if you want to see how to deliver an agriculture policy that underpins the industry in the future, come to Wales. That is where you are seeing a 33% decline in the animals slaughtered. It is not happening across the border. We are absolutely clear on that. That is a result of the testing regime that we have implemented in Wales, the biosecurity regime that we have implemented in Wales, and the comprehensive approach to dealing with the reservoir of infection in wildlife.

I have answered a question on local conditions. We are aware that providing statistics on a regional or national basis might hide individual areas where there are difficulties, and where those areas are identified we will take action to address the genesis of the disease in those particular places.

Diolch yn fawr iawn, Joyce. O ran y sefyllfa gyda'r cynllun brechu, fel y dywedais, byddaf yn rhoi adroddiad llawn i'r Aelodau ar hyn cyn toriad y Pasg. O ran cost a rhwyddineb cyflwyno, yr ydym wedi ei weld rwy'n credu, hoffwn dalu teyrnged, nid yn unig i'r tîrfeddianwyr a'r ffermwyr sydd wedi cydweithredu a darparu cymorth wrth gyflawni'r cynllun, ond hefyd i swyddogion llywodraeth Cymru sydd wedi'i ddarparu ar lawr gwlad. Rwy'n meddwl y gellid gwneud cymhariaeth eithriadol rhwng y dull anhrefnus sydd wedi ei ddilyn yn Lloegr a'r ffordd feddylgar yr ydym wedi cyflwyno'r polisi yng Nghymru, ac yn amlwg, wrth gwrs, polisi sydd yn llawer mwy cost effeithiol yng Nghymru a pholisi sydd, yn y pen draw, yn fwy llwyddiannus. Os ydych am weld sut i beidio â chyflwyno polisi amaethyddiaeth, ewch i Loegr; os ydych am weld sut i gyflwyno polisi amaethyddol sy'n sail i'r diwydiant yn y dyfodol, dewch i Gymru. Dyna lle'r ydych yn gweld gostyngiad o 33% yn yr anifeiliaid a laddwyd. Nid yw'n digwydd ar draws y ffin. Rydym yn gwbl gllir ynghylch hynny. Mae hynny'n ganlyniad i'r gyfundrefn brofi yr ydym wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru, y drefn bioddiogelwch yr ydym wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru, a'r dull cynhwysfawr o ddelio â'r gronfa o haint mewn bywyd gwyllt.

Rwyf wedi ateb cwestiwn ar amgylchiadau lleol. Rydym yn ymwybodol y gellid cuddio ardaloedd unigol lle y ceir anawsterau trwy ddarparu ystadegau ar sail ranbarthol neu genedlaethol, a lle mae'r ardaloedd hynny'n cael eu nodi byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â tharddiad y clefyd yn y mannau penodol hynny.

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for the statement today.

As others have mentioned, despite the progress that has been made, it is important to remember that this continues to be very much a plague on our agriculture industry. Many farmers who approach me on the issue still feel disempowered by the strategy that the Welsh Government has chosen to adopt. The occurrences of the disease within that belt of northern Powys, in Trefeglwys, Caersws, and up in the north Wales region and the Ceiriog valley also, are of real concern. Minister, I would invite you to consider returning to Trefeglwys, which was the site of a farm visit that you undertook last spring in relation to the weather conditions, to meet farming representatives of both unions in that area, to actually hear their concerns at first hand. I think that that would be extremely useful to show you in your listening mode.

Fel y mae eraill wedi sôn, er gwaethaf yr hyn sydd wedi cael i gyflawni, mae'n bwysig cofio bod hwn yn parhau i fod yn bla ar ein diwydiant amaethyddol. Mae llawer o ffermwyr sy'n siarad â mi am y mater yn dal i deimlo'n ddi-rym oherwydd y strategaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi dewis ei mabwysiadu. Mae achosion o'r clefyd yn y darn hwnnw o ogledd Powys, yn Nhrefeglwys, Caersws, ac i fyny yn rhanbarth gogledd Cymru a dyffryn Ceiriog hefyd, yn peri pryder gwirioneddol. Weinidog, byddwn yn eich gwahodd i ystyried dychwelyd i Drefeglwys, lle yr aethoch ar ymweliad fferm y gwanwyn diwethaf ynghylch y tywydd, i gwrdd â chynrychiolwyr ffermio'r ddau undeb yn yr ardal honno a chlywed eu pryderon yn uniongyrchol. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn i'ch dangos chi yn gwrando.

Moving on to the issue of cattle movements, it remains absolutely clear that, as you said, proper tracking of bovine movements is a particularly relevant weapon in preventing the further spread of bovine TB. As such, I am pleased to see that the sole occupancy authority's movements are being addressed in line with the commission's recommendations. I think it is important that this is done, as Llyr Gruffydd has emphasised, in a proportionate manner, so that you do not have idiocies arising where you are crossing a road or a level crossing, incurring major difficulties for the management of those farms. Last week, Minister, you highlighted the fact that the Welsh Government is presently working both with DEFRA and with the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency to understand more fully what impact such changes will have here in Wales. I would be grateful if you could update us on any discussions you have had with regard to this matter, and when they are expected to conclude.

Naturally, a matter of great concern to farmers is the decision, as has already been outlined by colleagues across the Chamber, to reopen the tabular valuation agenda, which had previously been ruled out in this Chamber. This is of enormous concern to farmers the length and breadth of Wales. The Welsh Liberal Democrats remain against this change as we feel that it will result in a system that will not suitably reflect the real value of cattle across this country. This is particularly the case with pedigree cattle, which can only really be judged on an individual, case-by-case basis. Given that the consultation outlines an illustrative reduction of almost £4 million a year to farmers should the Welsh Government choose to impose the system, as it seems minded to do, Minister, would you outline what assessment has been made of the impact of such a loss on farmers, who are already suffering from a number of other decisions, some of them emanating from this Chamber?

Finally, in relation to the CAP, I was glad to see that the rural development plan consultation was launched late yesterday. While I am sure that we can get into the details of that in tomorrow's debate, I was hoping that you would be in a position to flesh out some of the limited comments that it makes with respect to animal health. Finally, I would urge you, Minister, to redouble your efforts to understand the critical role of the individual veterinary practice, and the local link between vets and farmers that has already been stressed by colleagues here. It is absolutely essential, and there would be major difficulties that would arise in terms of the testing regimes were you to have groups of people unfamiliar with the topography and the individual farms, the stock and the farmers who make their livings in those areas.

Gan fynd ymlaen at fater symud gwartheg, mae'n parhau i fod yn gwbl glir, fel y dywedaso, bod olrhain symudiadau gwartheg yn briodol yn arf arbennig o berthnasol o ran atal TB gwartheg rhag lledaenu ymhellach. Fel y cyfryw, rwy'n falch o weld bod symudiadau o fewn awdurdod meddiannaeth unigol yn cael sylw yn unol ag argymhellion y comisiwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig gwneud hyn mewn modd cymesur, fel y mae Llyr Gruffydd wedi pwysleisio, fel nad oes ymfydrwydd yn codi ble rydych yn croesi ffordd neu groesfan rheilffordd, gan achosi anawsterau mawr ar gyfer rheoli'r ffermydd hynny. Yr wythnos diwethaf, Weinidog, fe wnaethoch dynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda DEFRA a chyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol i ddeall yn well beth fydd effaith newidiadau o'r fath yma yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda golwg ar y mater hwn, a phryd y disgwylir iddynt ddod i ben.

Yn naturiol, mater o bryder mawr i ffermwyr yw'r penderfyniad, fel sydd eisoes wedi cael ei amlinellu gan gydweithwyr ar draws y Siambr, i ailagor agenda'r tabl prisio, sy'n rhywbeth a gafodd ei diystyru yn y Siambr hon yn y gorffennol. Mae hyn yn destun pryder enfawr i ffermwyr ar hyd a lled Cymru. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i fod yn erbyn y newid hwn gan ein bod yn teimlo y bydd yn arwain at system na fydd yn adlewyrchu'n addas wir werth gwartheg ar draws y wlad hon. Mae hyn yn arbennig o wir gyda gwartheg pedigri, na ellir ond eu barnu mewn gwirionedd yn unigol, fesul achos. O ystyried bod yr ymgynghoriad yn amlinellu gostyngiad enghreifftiol o bron i £4 miliwn y flwyddyn i ffermwyr pe byddai Llywodraeth Cymru yn dewis sefydlu'r system hon, fel y mae'n ymddangos ei bod yn bwriadu ei wneud, Weinidog, a fydddech yn amlinellu pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith colled o'r fath ar ffermwyr, sydd eisoes yn dioddef yn sgil nifer o benderfyniadau eraill, rhai ohonynt yn deillio o'r Siambr hon?

Yn olaf, o ran y Polisi Amaethyddol Cyffredin, rwy'n falch o weld bod yr ymgynghoriad ynglŷn â'r cynllun datblygu gwledig wedi ei lansio yn hwyr ddoe. Rwy'n siŵr y gallwn drafod manylion hynny yn y ddadl yfory, ond roeddwn yn gobeithio y bydddech mewn sefyllfa i roi cnawd ar esgyrn rhai o'r sylwadau cyfyngedig y mae'n eu gwneud o ran iechyd anifeiliaid. Yn olaf, byddwn yn pwysu arnoch, Weinidog, i ddyblu eich ymdrechion i ddeall rôl hanfodol y practis milfeddygol unigol, a'r cysylltiad lleol rhwng milfeddygon a ffermwyr sydd eisoes wedi cael ei bwysleisio gan gydweithwyr yma. Mae'n gwbl hanfodol, a byddai anawsterau mawr yn codi o ran y cyfundrefnau profi pe byddai gennych grwpiau o bobl anghyfarwydd â'r topograffi a'r ffermydd unigol, y stoc a'r ffermwyr sy'n gwneud eu bywoliaeth yn yr ardaloedd hynny.

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think we would be testing the patience of the Deputy Presiding Officer and the Chamber to destruction if we were to start discussing the 98 page consultation document I issued yesterday on the new rural development programme. I would suggest to the Liberal Democrat spokesperson that perhaps he take some time to read through it, and then we can have a debate on that at another time. In terms of where we are going now, I do not intend to significantly revisit or change any direction or policy at present. We are seeing a policy being delivered that is delivering success in controlling the disease. I understand that opposition spokespeople have to spend time looking through every document for bad news or difficulties; that is part of the role of opposition, and I accept that, but I would invite even the Liberals, on some occasions, to congratulate farmers and cattle keepers across Wales who have helped deliver this decline in bovine TB. It is something that has not been delivered solely by Government, but by the community as a whole working together—not making the point that William Powell made about disempowerment, but understanding the importance of testing and of having a testing regime that works, understanding the importance of biosecurity, understanding how that can have an impact on the disease, and then recognising, while being in no way complacent, and not believing that this battle is a battle that is won, that we are seeing a significant decline in the incidence of bovine TB in the cattle population of this country, and that that decline is taking place from Clwyd down to Pembrokeshire, from north Wales to south Wales, east to west. That decline is taking place because of the policy tools that we have in place, and because of the way they are being delivered by cattle keepers, day in, day out, across the whole of Wales. I hope that Members on all sides of the Chamber will join me in working with the agricultural community to ensure that this decline, while we welcome it today, is something that we put in place as a means of controlling and then eradicating this disease in future.

Rwy'n meddwl y byddem yn profi amynedd y Dirprwy Lywydd a'r Siambr i'r eithaf pe baem yn dechrau trafod y ddogfen ymgynghori 98 tudalen a gyhoeddais ddoe ar y rhaglen datblygu gwledig newydd. Byddwn yn awgrymu i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ei fod efallai yn cymryd peth amser i ddarllen drwyddo, ac yna gallwn gael dadl ar hynny rywbryd eto. O ran ble'r ydym yn mynd yn awr, nid wyf yn bwriadu ailystyried yn sylweddol na newid unrhyw gyfeiriad neu bolisi ar hyn o bryd. Rydym yn gweld polisi ar waith sy'n cyflawni llwyddiant wrth reoli'r clefyd. Rwy'n deall bod yn rhaid i lefarwyr y gwrthbleidiau dreulio amser yn chwilio trwy bob dogfen am newyddion drwg neu anawsterau; mae hynny'n rhan o swyddogaeth y gwrthbleidiau, a derbynaf hynny, ond byddwn yn gwahodd hyd yn oed y Rhyddfrydwyr, ar rai achlysuron, i longyfarch ffermwyr a cheidwaid gwartheg ledled Cymru sydd wedi helpu i gyflawni'r gostyngiad hwn mewn TB gwartheg. Nid y Llywodraeth yn unig sydd wedi llwyddo i wneud hyn, ond y gymuned gyfan yn gweithio gyda'i gilydd—gan beidio â gwneud y pwynt a wnaeth William Powell am ddadrymuso, ond deall pwysigrwydd profi a chael trefn brofi sy'n gweithio, deall pwysigrwydd bioddiogelwch, deall sut y gall hynny gael effaith ar y clefyd, ac yna cydnabod, heb fod yn hunanfodlon o gwbl, a pheidio â chredu bod y frwydr hon yn frwydr sydd wedi cael ei hennill, ein bod yn gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o TB gwartheg ym mhoblogaeth gwartheg y wlad hon, a bod y gostyngiad yn digwydd o Glwyd i lawr i Sir Benfro, o'r gogledd i'r de, o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae'r gostyngiad hwnnw'n digwydd oherwydd yr arfau polisi sydd gennym ar waith, ac oherwydd y ffordd y maent yn cael eu cyflwyno gan geidwaid gwartheg, ddydd ar ôl dydd, ar draws Cymru gyfan. Rwy'n gobeithio y bydd Aelodau ar bob ochr i'r Siambr yn ymuno â mi i weithio gyda'r gymuned amaethyddol i sicrhau bod y dirywiad hwn, er ein bod yn ei groesawu heddiw, yn rhywbeth yr ydym yn ei sefydlu fel ffordd o reoli ac yna o ddileu'r clefyd hwn yn y dyfodol.

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I assure the Minister that I am always keen to make time for full and proper scrutiny, and, with that in mind, I will call three more Members, but just a question each, please.

Rwy'n sicrhau'r Gweinidog fy mod bob amser yn awyddus i sicrhau amser ar gyfer craffu llawn a phriodol, a chyda hynny mewn golwg, byddaf yn galw tri Aelod arall, ond dim ond cwestiwn yr un, os gwelwch yn dda.

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I had not planned to speak at all in this debate, because we do not have many cattle in Cardiff Central, but we do have lots of people interested in the UK Government's policy of culling as opposed to the vaccination policy. I would like to congratulate you, Minister, on the very significant reduction in the numbers of cattle being slaughtered as a result of the vaccination policy. My question is: to what extent is the fact that this is a voluntary scheme—the vaccination of badgers—influenced by mood music among local leaders in particular communities determining whether farmers in a particular area do or do not pick up on the vaccination scheme?

Nid oeddwn wedi bwriadu siarad o gwbl yn y ddadl hon, oherwydd nad oes gennym lawer o wartheg yng Nghanol Caerdydd, ond mae gennym lawer o bobl sydd â diddordeb ym mholisi Llywodraeth y DU i ddifa yn hytrach na brechu. Hoffwn eich llongyfarch, Weinidog, ar y gostyngiad sylweddol iawn yn nifer y gwartheg sy'n cael eu ladd o ganlyniad i'r polisi brechu. Fy nghwestiwn yw: i ba raddau y mae'r teimlad ymhlith arweinwyr lleol mewn cymunedau penodol yn dylanwadu ar y ffaith bod hwn yn gynllun gwirfoddol—brechu moch daear—er mwyn penderfynu a yw ffermwyr mewn ardal benodol yn manteisio ar y cynllun brechu neu beidio?

16:06

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The vaccination programme in place in north Pembrokeshire is one that has the support of a vast majority of farmers and landowners in the area and is being delivered with their help, co-operation and support. We will be making a full report on this before the Easter recess, but I will say that the decline in the incidence of the disease that we are seeing is the result of a number of different policy tools working together. We are seeing a decline in nearly every part of the country. That is the result of farmers, cattle keepers, vets and people working together to ensure that that happens. We need to ensure that we continue to support that work and continue to put in place the appropriate control mechanisms and frameworks in all parts of Wales that bear down on the disease and will help, eventually, to eradicate it.

Mae'r rhaglen frechu sydd ar waith yng ngogledd Sir Benfro yn un sy'n cael ei chefnogi gan y mwyafrif helaeth o ffermwyr a thirfeddianwyr yn yr ardal ac yn cael ei darparu gyda'u cymorth, eu cydweithrediad a'u cefnogaeth nhw. Byddwn yn cyflwyno adroddiad llawn ar hyn cyn toriad y Pasg, ond byddaf yn dweud bod y gostyngiad yn nifer yr achosion o'r clefyd a welwn yn ganlyniad i nifer o wahanol arfau polisi yn gweithio gyda'i gilydd. Rydym yn gweld gostyngiad ym mhob rhan o'r wlad, bron. Mae hynny'n ganlyniad i'r ffaith bod ffermwyr, ceidwaid gwartheg, milfeddygon a phobl yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae angen inni sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi'r gwaith hwnnw ac yn parhau i sefydlu mecanweithiau a fframweithiau rheolaeth priodol ym mhob rhan o Gymru sy'n gwasgu ar y clefyd ac a fydd yn helpu, yn y pen draw, i'w ddileu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:07

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we may well disagree with the direction that you have taken in sorting this problem out, but one thing that we are all united about is getting on top of it and eradicating it. There is no disagreement on that tune. I will put two points to you, if I may. First, would you confirm—I think I know the answer—that any change in the valuation process, that is, moving to tabular valuations, would be subject to a vote in this Chamber? As I recall, there was a similar vote in the second Assembly; I think that was the case. I would be grateful if you could confirm that.

Weinidog, efallai y byddwn yn anghytuno â'r cyfeiriad yr ydych wedi'i ddilyn i ddatrys y broblem hon, ond un peth yr ydym i gyd yn unedig yn ei gylch yw rheoli'r clefyd a'i ddileu. Nid oes unrhyw anghytundeb ynglŷn â hynny. Byddaf yn gwneud dau bwynt, os caf. Yn gyntaf, a fyddech yn cadarnhau—rwy'n credu fy mod yn gwybod beth fydd yr ateb—y byddai unrhyw newid yn y broses brisio, hynny yw, symud i dabl prasio, yn destun pleidlais yn y Siambur hon? Fel y cofiaf, cafwyd pleidlais debyg yn yr ail Gynulliad, credaf fod hynny'n wir. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, it is important that you do reflect on the capacity of veterinary practices to deal with the testing regime. I would not underestimate the importance of local knowledge when you are going on farms, understanding the handling systems, understanding the area you are working in, and, in particular, the capacity of practices to deliver a robust testing regime that meets your new guidelines for penalties, should people not commit to the tests. If you do go to a larger and centrally controlled type of contracting for this service, there is a real danger that many people will fall foul of the penalties that you have put in place through no fault of their own.

Yn ail, mae'n bwysig eich bod yn myfyrio ar allu practisiau milfeddygol i ymdrin â'r drefn brofi. Ni fyddwn yn tanbriso pwysigrwydd gwybodaeth leol pan fyddwch yn mynd ar ffermydd, er mwyn deall y systemau trin, deall yr ardal yr ydych yn gweithio ynddi, ac, yn benodol, gallu'r practisiau i gyflwyno cyfundrefn brofi gadarn sy'n bodloni eich canllawiau newydd ar gyfer cosbau, os nad yw pobl yn ymrwymo i'r profion. Os byddwch yn symud i drefniadau contractio mwy, a reolir yn ganolog, ar gyfer y gwasanaeth hwn, mae perygl gwirioneddol y bydd llawer o bobl yn tramgwyddo'r rheolau yr ydych wedi'u rhoi ar waith heb fod unrhyw fai arnynt.

16:08

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of your first question, the answer is 'yes'. We would seek the support of Members in introducing a tabular valuation system. We believe that that is the best way of continuing to bear down on the disease. Clearly, individual people will have their own views on these matters, but it is important that we bear down on the disease and move quickly to ensure that we can remove infected animals from farms and reduce the capacity for further infections.

O ran eich cwestiwn cyntaf, yr ateb yw 'byddwn'. Byddem yn ceisio cefnogaeth yr Aelodau cyn cyflwyno system tabl prasio. Rydym yn credu mai dyna'r ffordd orau o barhau i wasgu ar y clefyd. Yn amlwg, bydd gan unigolion eu barn eu hunain ar y materion hyn, ond mae'n bwysig ein bod yn gwasgu ar y clefyd ac yn symud yn gyflym i sicrhau y gallwn gael gwared ar anifeiliaid heintiedig o ffermydd a lleihau'r posibilrwydd y bydd rhagor o anifeiliaid yn cael eu heintio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the Member's additional question, it is my intention to ensure that we have a holistic and comprehensive approach to bovine TB eradication that enables us to work together as a community to ensure that we address all the issues that he has described. I hope that, in making the statement this afternoon, we have gone some way towards achieving that level of transparency. If there are individual questions that the Member would like to take up with me, I would be more than happy to do that via correspondence.

O ran cwestiwn ychwanegol yr Aelod, fy mwriad yw sicrhau bod gennym ddull cyfannol a chynhwysfawr o ddileu TB gwartheg, dull sy'n ein galluogi i weithio gyda'n gilydd fel cymuned i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r holl faterion y mae wedi'u disgrifio. Rwy'n gobeithio ein bod, wrth wneud y datganiad hwn brynhawn heddiw, ein bod wedi mynd rywfaint o'r ffordd tuag at gyrraedd y lefel honno o dryloywder. Os oes cwestiynau unigol y byddai'r Aelod yn hoffi eu trafod gyda mi, byddwn yn fwy na pharod i wneud hynny drwy ohebiaeth.

16:09 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister has made great play in the statement today and in his consultation document of the concept of fairness, but the regulatory impact assessment that has been published as part of that consultation states, in paragraph 23, that a comparison of the data on compensation that was actually paid to Welsh farmers who had lost cattle to TB to what would have been paid under a tabular system, shows an 18% decrease in payments for non-pedigree stock and a 41% decrease in payments for pedigree stock, costing the Welsh farming industry a notional £4 million. If that is the case, how can he pretend that the system he is proposing to introduce is fair?

Mae'r Gweinidog wedi rhoi pwyslais mawr yn y datganiad heddiw ac yn ei ddogfen ymgynghori ar y cysyniad o degwch, ond mae'r asesiad effaith rheoleiddiol sydd wedi cael ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad yn nodi, ym mharagraff 23, y gwelir, trwy gymharu'r data ar iawndal a dalwyd i ffermwyr Cymru a oedd wedi colli gwartheg i TB, a'r hyn a fyddai wedi cael ei dalu o dan system tabl, yn dangos gostyngiad o 18% yn y taliadau ar gyfer y stoc heb bedigri a gostyngiad o 41% yn y taliadau ar gyfer y stoc pedigri, sy'n costio £4 miliwn tybiannol i'r diwydiant ffermio yng Nghymru. Os yw hynny'n wir, sut y gall esgus bod y system y mae'n bwriadu ei chyflwyno yn deg?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:10 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Member takes a very strong interest in these matters. May I say this? We are introducing a system that will be fair to farmers and fair to the taxpayer. That means that we deliver a system that delivers fair compensation for the animals that are slaughtered as a consequence of having bovine TB, but does so in a way that does not also ensure that the taxpayer is asked to bear an additional burden. I would have expected the Liberal Democrats, who are very good at lecturing this Chamber on deficit reduction and the wider issues of public spending, to also care about the funds and resources made available by the taxpayer.

Rwy'n gwybod bod gan yr Aelod ddiddordeb cryf iawn yn y materion hyn. A gaf fi ddweud hyn? Rydym yn cyflwyno system a fydd yn deg i ffermwyr ac yn deg i'r trethdalwr. Mae hynny'n golygu ein bod yn darparu system sy'n darparu iawndal teg ar gyfer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd o ganlyniad i gael TB gwartheg, ond yn gwneud hynny mewn ffordd nad yw'n sicrhau bod y trethdalwr hefyd yn gorfod dioddef baich ychwanegol. Byddwn wedi disgwyl i'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n dda iawn am ddarlithio i'r Siambr hon ar leihau'r diffyg a materion ehangach gwariant cyhoeddus, bryderu hefyd am ofalu am yr arian a'r adnoddau a ddarperir gan y trethdalwr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Setliad yr Heddlu 2014-15

Cynnig NDM5426 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2014-2015 (Setliad Terfynol—Comisiynwyr Heddlu a Throeseddu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2014.

## The Police Settlement 2014-15

Motion NDM5426 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, under Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 2) 2014-15 (Final Settlement—Police and Crime Commissioners), which was laid in the Table Office on 5 February 2014.

16:11 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
I move the motion.

Cynigiad y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to present to the Assembly for its approval details of the Welsh Government's contribution to police funding for 2014-15 for the four commissioners in Wales. The overall funding picture is determined by the Home Office, which will provide police grant and top-up support so that no Welsh police force receives a reduction in core funding of more than 4.8% in 2014-15 compared with this year.

Total support for the police service in Wales for 2014-15 amounts to £376 million. Our contribution to this amount through revenue support grant is £140 million. This is the funding that you are being asked to approve today.

The Home Office has continued formula damping to ensure that every police force across England and Wales receives the same percentage reduction. To meet this target, the Home Office provides a top-up grant totalling £13 million for Dyfed-Powys and North Wales. Without this grant, the cash reductions for these forces would be even greater.

This settlement is undoubtedly another challenging one for the police service, which has faced successive reckless and ill-thought-out funding cuts from the UK Government since 2010-11. Our Welsh police forces have been dealt a 20% funding cut in real terms over this period. Consequently, in Wales, we have lost over 1,000 police officers and staff over the last three years.

Our local authorities are also feeling the full force of Westminster cuts to the Welsh block grant in setting budgets for 2014-15. The unprecedented financial challenges mean that now more than ever public services must strive to identify opportunities to work together and build collaborative efforts around shared outcomes.

The UK Labour Party two years ago asked Lord Stevens to lead an independent commission into the future of policing. His report offers a comprehensive alternative to the Tory cuts, which are based on chipping away at the front line rather than a holistic view that will deliver sustainable savings. Our Labour colleagues in Westminster are now consulting widely on the recommendations, opening a genuine dialogue with local communities.

One of Labour's greatest achievements—neighbourhood policing—risks being progressively undermined by the Tories' return to an outmoded model of reactive policing. Despite constant assertions that crime is falling, the UK Government's own statistics watchdog has ruled that we can no longer have confidence in its data. However, we have seen recorded crime fall in Wales, thanks to Labour's prior investment and our continued focus on community safety. However, we are now starting to see worrying signs that a generation of progress in some areas is being reversed.

Rwy'n falch o gyflwyno manylion cyfraniad Llywodraeth Cymru at gyllid yr heddlu ar gyfer 2014-15 ar gyfer y pedwar comisiynydd yng Nghymru, i'r Cynulliad eu cymeradwyo. Mae'r darlun ariannu cyffredinol yn cael ei bennu gan y Swyddfa Gartref, a bydd yn darparu grant yr heddlu a chymorth ychwanegol fel nad oes unrhyw heddlu yng Nghymru yn derbyn gostyngiad yn y cyllid craidd o fwy na 4.8% yn 2014-15 o'i gymharu ag eleni.

Mae cyfanswm y cymorth i'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru ar gyfer 2014-15 yn dod i £376 miliwn. Ein cyfraniad ni at y swm hwn drwy grant cynnal referniw yw £140 miliwn. Dyna'r cyllid y gofynnir i chi ei gymeradwyo heddiw.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau â fformiwla dampio i sicrhau bod pob heddlu ar draws Cymru a Lloegr yn derbyn yr un gostyngiad canrannol. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyfanswm o £13 miliwn o grant atodol ar gyfer Dyfed-Powys a Gogledd Cymru. Heb y grant hwn, byddai'r gostyngiadau arian parod ar gyfer yr heddluoedd hyn yn fwy fyth.

Mae'r setliad hwn yn ddi-os yn un heriol arall i'r gwasanaeth heddlu, sydd wedi wynebu toriadau cyllid di-hid, wedi'u cynllunio'n wael, flwyddyn ar ôl blwyddyn gan Lywodraeth y DU ers 2010-11. Mae ein heddluoedd yng Nghymru wedi cael toriad cyllid o 20% mewn termau real dros y cyfnod hwn. O ganlyniad, yng Nghymru, rydym wedi colli dros 1,000 o swyddogion yr heddlu a staff dros y tair blynedd diwethaf.

Mae ein hawdurdodau lleol hefyd yn teimlo grym llawn toriadau San Steffan i grant bloc Cymru wrth osod cyllidebau ar gyfer 2014-15. Mae'r heriau ariannol na welwyd eu tebyg o'r blaen yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus, yn awr yn fwy nag erioed, ymdrechu i ddarganfod cyfleoedd i gydweithio a meithrin ymdrechion cydweithredol tuag at ganlyniadau sy'n gyffredin iddynt.

Ddwy flynedd yn ôl gofynnodd Plaid Lafur y DU i'r Arglwydd Stevens arwain comisiwn annibynnol i edrych ar ddyfodol plismona. Mae ei adroddiad yn cynnig dewis amgen cynhwysfawr yn lle toriadau'r Torïaid, sy'n seiliedig ar naddu'n ddyfal yn y rheng flaen yn hytrach na mabwysiadu agwedd gyfannol a fydd yn cyflawni arbedion cynaliadwy. Mae ein cydweithwyr Llafur yn San Steffan bellach yn ymgynghori'n eang ar yr argymhellion, gan agor deialog go iawn gyda chymunedau lleol.

Mae un o lwyddiannau mwyaf y blaid Llafur—plismona yn y gymdogaeth—mewn perygl o gael ei danseilio'n raddol wrth i'r Torïaid ddychwelyd at fodel hen ffasiwn o blismona adweithiol. Er gwaethaf honiadau cyson bod trosedd yn gostwng, mae corff ystadegau Llywodraeth y DU ei hun wedi dyfarnu na allwn bellach fod yn hyderus yn y data. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad mewn trosedd a gofnodwyd yng Nghymru, diolch i fuddsoddiad blaenorol Llafur ac i'n pwyslais parhaus ar ddiogelwch cymunedol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder ein bod yn awr yn dechrau gweld arwyddion bod cenhedlaeth o ddatblygiad mewn rhai meysydd yn cael ei wrthdroi.



While the UK Government seems unapologetic about undermining progress on public safety, the Welsh Labour Government has maintained its solid commitment to building communities where people are safer and feel safer. We continue to invest in programmes to improve the safety of our communities and protect vulnerable individuals. In particular, despite the reductions to the Welsh budget, our investment in the recruitment of 500 community support officers has been protected. This has been achieved ahead of schedule, due in no small part to the determination of our police forces to make the best use of the resources available to them. I hope that Members will join me in recognising this achievement, which means that our PCSOs are delivering benefits to communities across Wales much sooner than planned. The individual case studies on the Welsh Government website illustrate the broad range of work that our CSOs are involved in, from holding advice surgeries to working with homeless shelters, to raising awareness about rogue traders with the elderly and building relationships with children and young people in our schools. This is in addition to providing a highly visible deterrent for crime, and supporting police officers in their day-to-day work.

I meet regularly with the four Welsh commissioners, and they told me that delays from the UK Government in publishing funding allocations makes setting difficult budgets even more challenging. We frequently hear Eric Pickles preaching localism, yet pleas for clarity and transparency over regional funding are repeatedly ignored in Whitehall.

In addition, the four commissioners told me that the Home Office has top-sliced the police grant to create a new innovation fund without consultation. However, I am pleased that innovative successful bids from the forces will improve policing in Wales at a time of contracting budgets.

The wider public service has a lot to learn from the police forces in Wales. There is an excellent track record of collaboration between forces and other agencies. Since I have been in this post, I have encouraged other public service leaders in Wales to look to the lessons they can learn from the public services approach.

Today's motion is to agree the local government finance report for police and crime commissioners, which has been laid before the Assembly. If approved, this will allow the commissioners to set their budgets by the end of February, a deadline that is set out in statute. I therefore ask Assembly Members to support this motion today.

Er ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth y DU yn teimlo y dylai ymddiheuro am danseilio datblygiad ar ddiogelwch y cyhoedd, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cynnal ei hymrwymiad cadarn i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni i wella diogelwch ein cymunedau ac amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed. Yn benodol, er gwaethaf y gostyngiadau i gyllideb Cymru, mae ein buddsoddiad yn y broses o recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol wedi cael ei diogelu. Cyflawnwyd hyn yn gynt na'r disgwyl, o ganlyniad i raddau helaeth i benderfyniad ein heddluoedd i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n ymuno â mi i gydnabod y llwyddiant hwn, sy'n golygu bod swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu'n darparu manteision i gymunedau ledled Cymru yn gynt o lawer na'r hyn a gynlluniwyd. Mae'r astudiaethau achos unigol ar wefan Llywodraeth Cymru yn dangos amrywiaeth eang y gwaith y mae ein swyddogion cymorth cymunedol yn ymwneud ag ef, o gynnal cymorthfeydd cyngor i weithio gyda llochesi i'r digartref, i godi ymwybyddiaeth am fasnachwyr twyllodrus gyda'r henoed a meithrin perthynas gyda phlant a phobl ifanc yn ein hysgolion. Ac maent hefyd yn amlwg iawn, sy'n rhwystro trosedd, ac yn cefnogi swyddogion yr heddlu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â phedwar comisiynydd Cymru, ac maent yn dweud wrthyf bod oedi gan Lywodraeth y DU wrth gyhoeddi'r dyraniadau cyllid yn cyflwyno mwy fyth o her, a hwythau'n ceisio pennu cyllidebau anodd. Rydym yn aml yn clywed Eric Pickles yn pregethu am leoliaeth, ac eto mae pleon am eglurder a thryloywder ynghylch cyllid rhanbarthol yn cael eu hanwybyddu dro ar ôl tro yn Whitehall.

Yn ogystal, mae'r pedwar comisiynydd yn dweud wrthyf bod y Swyddfa Gartref wedi brigdorri grant yr heddlu i greu cronfa arloesi newydd heb ymgynghori. Fodd bynnag, rwy'n falch y bydd ceisiadau llwyddiannus arloesol gan yr heddluoedd yn gwella plismona yng Nghymru yn ystod cyfnod pan fo cyllidebau'n lleihau.

Mae gan y gwasanaeth cyhoeddus ehangach lawer i'w ddysgu gan yr heddluoedd yng Nghymru. Ceir hanes ardderchog o gydweithio rhwng heddluoedd ac asiantaethau eraill. Ers imi fod yn y swydd hon, rwyf wedi annog arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru i edrych ar y gwersi y gallant eu dysgu oddi wrth agwedd y gwasanaethau cyhoeddus.

Cynnig heddiw yw cytuno ar yr adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throsteddu, sydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad. Os caiff ei gymeradwyo, bydd hwn yn caniatáu i'r comisiynwyr bennu eu cyllidebau erbyn diwedd mis Chwefror, terfyn amser sydd wedi'i nodi mewn statud. Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

Police budgets are a three-way process with contributions from Home Office, Welsh Government and police precepts paid by council tax payers. It is understood that Home Office and Welsh Government grants have been reduced by 4.76% or £3.8 million. I therefore commend the generally positive way in which Wales's police and crime commissioners and panels have determined their 2014-15 police precepts.

This will deliver increases in the amount council tax payers pay towards police services, up 2% in north Wales, 2.1% in Dyfed-Powys, 2.66% in Gwent and 5% in south Wales, equating, even in south Wales with the biggest percentage, to a 75p monthly increase for a band D household.

In this context, we must remember the two committee inquiries during the second Assembly into the police merger then proposed, and in which I took part. They found not only that a merger of Welsh police forces would have generated deficits of between £78 million and £120 million by 2012, but that there would also have to be an equalisation of police precepts, meaning higher increases in south Wales and lower increases elsewhere. During evidence to this Assembly's Communities, Equality and Local Government Committee's inquiry into community safety in Wales, the Association of Chief Police Officers Cymru said that the funding differences are still there.

We should also be reminded that when the Assembly's Social Justice and Regeneration Committee reviewed the structure of policing in 2005, we also found that criminal activity does not recognise national or regional boundaries, and that cross-border partnerships must reflect operational reality.

Labour and Plaid Cymru have said that UK police reforms and budget restrictions would mean higher crime, but police-recorded crime fell by 5% in Wales in the year to last September, with north Wales recording the biggest fall anywhere in England and Wales at 12%, followed by Dyfed-Powys at 10% and south Wales at 2%. Gwent's figures were static. Given concern about the accuracy of these figures, as the Minister indicates, the UK Statistics Authority removed the national statistics designation or gold standard for all crime data recorded by the police. However, the crime survey of England and Wales, which measures crime by asking people whether they have experienced crime in the last year, found that overall crime fell by 10% across England and Wales in the year to September 2013, the lowest crime level since the survey began in 1981.

Mae cyllidebau'r heddlu yn broses tair ffordd gyda chyfraniadau gan y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a phraeseptau'r heddlu a delir gan bobl sy'n talu'r dreth gyngor. Deallir bod grantiau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru wedi cael eu gostwng 4.76% neu £3.8 miliwn. Felly, rwy'n canmol y ffordd gyffredinol gadarnhaol y mae comisiynwyr heddlu a throseddau a phaneli Cymru wedi penderfynu ar eu praeseptau heddlu ar gyfer 2014-15.

Golyga hyn y bydd yn rhaid i dalwyr y dreth gyngor dalu mwy tuag at wasanaethau heddlu, i fyny 2% yng ngogledd Cymru, 2.1% yn ardal Dyfed-Powys, 2.66% yng Ngwent a 5% yn ne Cymru, sy'n cyfateb, hyd yn oed yn ne Cymru sydd â'r ganran fwyaf, i gynnydd misol o 75c ar gyfer cartref band D.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid i ni gofio'r ddau ymchwiliad pwyllgor y cymerais ran ynddynt yn ystod yr ail Gynulliad, i'r cynnig a oedd gerbron i uno'r heddluoedd. Canfuwyd y byddai uno heddluoedd Cymru wedi cynhyrchu diffygion o rhwng £78 miliwn a £120 miliwn erbyn 2012, ond y byddai'n rhaid hefyd sicrhau praeseptau'r heddlu mwy cydradd, a fyddai'n golygu cynnydd uwch yn ne Cymru a chynnydd is mewn mannau eraill. Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad hwn, i'w ymchwiliad i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru bod y gwahaniaethau mewn cyllid yn dal i fodoli.

Dylem hefyd gael ein hatgoffa ein bod wedi gweld hefyd, pan adolygodd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad strwythur plismona yn 2005, nad yw gweithgarwch troseddol yn cydnabod ffiniau cenedlaethol neu ranbarthol, a bod yn rhaid i bartneriaethau traws-ffiniol adlewyrchu realiti gweithredol.

Mae Llafur a Phlaid Cymru wedi dweud y byddai cyfyngiadau ar gyllidebau a diwygiadau i'r heddlu ledled y DU yn golygu cynnydd mewn trosedd, ond gwelwyd gostyngiad o 5% yn nifer troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at fis Medi diwethaf, gyda gogledd Cymru yn cofnodi'r gostyngiad mwyaf unrhyw le yng Nghymru a Lloegr sef 12%. Dilynwyd hyn gan Heddlu Dyfed-Powys ar 10% a de Cymru ar 2%. Mae ffigurau Gwent wedi aros yr un fath. O ystyried pryder am gywirdeb y ffigurau hyn, fel y mae'r Gweinidog yn nodi, diddymodd Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig y dynodiad ystadegau cenedlaethol neu safon aur ar gyfer yr holl ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Fodd bynnag, yn ôl arolwg troseddau Cymru a Lloegr, sy'n mesur trosedd trwy ofyn i bobl a ydynt wedi cael profiad o drosedd yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd trosedd yn gyffredinol wedi gostwng 10% ar draws Cymru a Lloegr yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2013, y lefel isaf ers dechrau'r arolwg ym 1981.

The UK Government has made clear that recorded crime statistics must be robust. Further, the UK Parliament's Public Administration Select Committee has asked every police and crime commissioner to detail any targets that they set for their force, and what impact they think this has on police recording crime practices. In his response, the north Wales commissioner states that North Wales Police employs a crime registrar whose role it is to monitor and audit recorded crime figures; that the registrar maintains an audit plan, which is used to ensure that North Wales Police follows a consistent and accurate process for recording crime; that information from the audit plan is shared directly with his office; and that his police and crime plan does not set any numerical targets for the North Wales Police force to achieve.

The innovation being delivered by our police forces is encouraging. For example, Gwent Police has fully opened or extended the opening hours of a number of police stations that were previously closed to the public or had had limited opening hours. Dyfed-Powys Police is planning 30 new police officer posts and north Wales has co-located Flint's policing teams into a further Flintshire Connects centre at the council offices in Flint, while retaining existing front-office services at Mold and Deeside police stations.

The UK Government, as the Minister indicates, is also encouraging innovative policing with a £20 million fund, and every force in Wales has successfully bid for a share of this. Given all of the above, it is regrettable that South Wales's Labour police and crime commissioner has instead focused politically on the UK Government's Labour legacy funding cuts. Labour planned cuts of around 12%, and Labour's March 2010—[Interruption.]—UK budget had included police funding reductions—

Mae Llywodraeth y DU wedi'i gwneud yn glir bod yn rhaid i ystadegau ar gyfer troseddau a gofnodwyd fod yn gadarn. Ymhellach, mae Pwyllgor Dethol Senedd y DU ar Weinyddiaeth Gyhoeddus wedi gofyn i bob comisiynydd heddlu a throseddu roi manylion unrhyw dargedau y maent yn eu gosod ar gyfer eu heddlu, a pha effaith y mae hyn yn ei chael yn eu barn nhw ar arferion yr heddlu o ran cofnodi troseddau. Yn ei ymateb, mae comisiynydd gogledd Cymru yn nodi bod Heddlu Gogledd Cymru'n cyflogi cofrestrydd troseddau sy'n monitro ac yn archwilio ffigurau'r troseddau a gofnodwyd; bod y cofrestrydd yn cynnal cynllun archwilio, a ddefnyddir i sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn proses gyson a chywir ar gyfer cofnodi troseddau; bod gwybodaeth o'r cynllun archwilio yn cael ei rhannu'n uniongyrchol gyda'i swyddfa; ac nad yw ei gynllun heddlu a throseddu'n gosod unrhyw dargedau ar ffurf rhifau i Heddlu Gogledd Cymru eu cyflawni.

Mae'r arloesi ymhlith ein heddluoedd yn galonogol. Er enghraifft, mae Heddlu Gwent wedi agor neu ymestyn oriau agor nifer o orsafoedd heddlu nad oeddent ar gael yn flaenorol i'r cyhoedd neu lle'r oedd eu horiau agor yn gyfyngedig. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu cyflogi 30 o swyddogion yr heddlu newydd ac mae gogledd Cymru wedi symud timau plismona Sir y Fflint i ganolfan Flintshire Connects arall yn swyddfeydd y cyngor yn y Fflint, gan gadw gwasanaethau blaen swyddfa presennol yng ngorsafoedd heddlu'r Wyddgrug a Glannau Dyfrdwy.

Mae Llywodraeth y DU, fel y mae'r Gweinidog yn nodi, hefyd yn annog plismona arloesol gyda chronfa o £20 miliwn, ac mae pob heddlu yng Nghymru wedi gwneud cais llwyddiannus am gyfran o hwn. O ystyried yr uchod i gyd, mae'n anffodus bod comisiynydd heddlu a throseddu Llafur De Cymru yn hytrach wedi canolbwyntio'n wleidyddol ar doriadau cyllid etifeddiaeth Llafur Llywodraeth y DU. Roedd Llafur wedi cynllunio toriadau o tua 12%, ac roedd cyllideb y blaid Lafur ym mis Mawrth 2010—[Torri ar draws.]—ar gyfer y DU wedi cynnwys gostyngiadau i gyllid yr heddlu—

16:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order—

Trefn—

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:21 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continued]—of £545 million—

[Parhad]—o £545 miliwn—

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Mark, please. I remind Members that they must listen to all sides that are being discussed and debated. This very subject was introduced to this debate principally by the Minister. Mark Isherwood.

Trefn. Mark, os gwelwch yn dda. Rwy'n atgoffa'r Aelodau bod yn rhaid iddynt wrando ar bob ochr sy'n cael ei drafod a'i ddadlau. Cyflwynwyd yr union bwnc hwn i'r dadl yn bennaf gan y Gweinidog. Mark Isherwood.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Alistair Darling's March 2010 budget will show that it included police funding reductions of £545 million by 2014. However, Labour has also supported savings proposed by Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and the Police Arbitration Tribunal, which essentially matched the UK Government's own plans to make savings from police budgets over this UK Parliament. Under Labour, our police were bogged down in paperwork. This UK Government has cut red tape and given police just one simple target: to cut crime.

Bydd cyllideb Alistair Darling ym mis Mawrth 2010 yn dangos ei fod yn cynnwys gostyngiadau i gyllid yr heddlu o £545 miliwn erbyn 2014. Fodd bynnag, mae Llafur hefyd wedi cefnogi arbedion arfaethedig gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a Thribiwnlys Cyflafareddu'r Heddlu, a oedd yn y bôn yn darparu arbedion cyfatebol i gynlluniau Llywodraeth y DU ei hun i arbed arian o gyllidebau'r heddlu yn ystod y Senedd y DU hon. O dan y blaid Lafur, roedd ein heddlu at eu clustiau mewn gwaith papur. Mae Llywodraeth hon y DU wedi torri biwrocratiaeth ac wedi rhoi un targed syml i'r heddlu: lleihau trosedd.

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r datganiad hwn yn dod yn erbyn cefndir o ffigurau trosedd sy'n gostwng yn Lloegr ac yng Nghymru, fel y nododd Mark Isherwood. Rwy'n ddiolchgar am y datganiad, ac rwy'n siŵr y byddwch chi, Weinidog, yn barod i ymuno â mi i longyfarch Heddlu Gogledd Cymru—y comisiynydd, y prif swyddogion a'r staff—ar lwyddo i sicrhau y cwmp mwyaf yn nifer y troseddau o holl awdurdodau heddlu Lloegr a Chymru. Mae hynny'n tystiolaethu nid yn unig i effeithiolrwydd yr heddlu ond i gymeriad glanged pobl dda gogledd Cymru, wrth gwrs.

This statement comes against a background of crime figures that are falling in England and Wales, as Mark Isherwood noted. I am grateful for the statement, and I am sure that you, Minister, will join me in congratulating North Wales Police—the commissioner, the chief officers and the staff—on managing to secure the greatest fall in the number of crimes recorded of all police authorities in England and Wales. That is evidence not only of the effectiveness of the police but of the good character of the people of north Wales, of course.

Mae rhai cwestiynau'n deillio o'r datganiad. A all y Llywodraeth awgrymu sut y gall y Cynulliad graffu ar ganlyniadau'r arian hwn y mae'r Llywodraeth yn ei fuddsoddi yn yr heddlu yn well nag y mae'n gwneud hynny ar hyn o bryd? Rwy'n deall nad yw'r heddlu wedi ei ddatganoli, ond, gan fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi arian yn yr heddlu, a ddylem fod yn gallu craffu ar berfformiad yr heddlu mewn gwahanol rannau o Gymru mewn ffordd fwy effeithiol? Cefais gyfarfod â chomisiynydd yr heddlu yn y gogledd ddoe, a chyfeiriodd at y cyfarfodydd y mae'n eu cynnal gyda'r panel trosedd yn y gogledd. Fodd bynnag, er gwaethaf pa mor effeithiol y gall hynny fod o'i safbwynt ef, sut y gellir sicrhau bod y cyhoedd yn cael rhagor o wybodaeth a chraffu ar yr hyn sy'n digwydd yn enw'r cyhoedd a chyda'i arian? Dyna'r her i'r Llywodraeth hon ac i ni fel Aelodau.

There are some questions that emerge from the statement. Can the Government give us some suggestion as to how the Assembly can scrutinise the outcomes of the expenditure that the Government is investing in the police more effectively than it currently does? I understand that policing is not devolved, but, as the Welsh Government invests public money in our police forces, should we not be able to scrutinise the performance of the police in various parts of Wales in a more effective way? I had a meeting with the police commissioner in north Wales yesterday, and he made reference to the meetings that he has with the police and crime panel in north Wales. However, no matter how effective that may be from his point of view, how can we provide greater information for the public and scrutinise what happens in its name and with its money? That is the challenge both for the Government here and for us as Members.

Hoffwn wybod hefyd pa ddeilliannau sydd ynghlwm wrth yr arian hwn y mae'r Llywodraeth yn ei fuddsoddi yn yr awdurdodau heddlu yng Nghymru. Yn olaf, mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y ffaith bod y Llywodraeth wedi buddsoddi wrth gyflogi rhai cannoedd o 'PCSOs' yn y gwahanol awdurdodau heddlu. Mae hi wedi canmol canlyniadau'r adroddiadau y mae'n eu derbyn. Felly, am gost o tua £50 million, a oes ymdrech i fesur effaith ac effeithiolrwydd y swyddogion hyn o ran gwaith yr heddlu? A yw'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Gweinidog? A ydych yn gosod meincnodau i awdurdodau i wneud yn sâf bod yr arian ychwanegol a'r swyddi hyn yn cael effaith fendithiol ar y gwasanaeth i'r cyhoedd?

I would also like to hear from the Minister what outcomes are related to this funding that the Government is investing in the police authorities in Wales. Finally, the Minister makes reference to the fact that the Government has invested in employing hundreds of additional PCSOs in the various police authority areas. She has praised the outcomes of the reports that she has received. Therefore, at a cost of some £50 million, has there been any effort to assess the effectiveness and efficiency of these officers in terms of police work? Are the outcomes and results reported to the Minister? Are there proper benchmarks in place for the authorities to ensure that the additional funding and these additional posts are having a real beneficial impact on the service to the public?

**Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf hefyd yn falch i gael cyfrannu at y ddatl heddiw. Yn Llanelli ac mewn cymunedau ledled Cymru, mae presenoldeb yr heddlu, nid yn unig fel gwasanaeth argyfwng ond fel adnodd diogelwch cymunedol, yn cael ei deimlo, unai trwy Ymgyrch Tarian, sy'n mynd i'r afael â chamdriniaeth sylweddau anwedol, neu trwy ddarparu rhaglenni cyswllt ysgolion. Mae rôl yr heddlu yn canolbwyntio ar y gymuned yn ogystal â darparu gwasanaeth argyfwng angenrheidiol.

I am also pleased to contribute to the debate today. In Llanelli and in communities across Wales, the presence of the police, not only as an emergency service but also as a community safety resource, is felt, either through Operation Tarian, which tackles substance misuse, or through providing school liaison programmes. The role of the police is focused on the community as well as on providing the necessary emergency services.

Dywed Llywodraeth Lafur Cymru bod y setliad yn heriol. Bydd angen gwneud dewisiadau caled. Rydym yn gwybod bod y toriadau o 20% gan glymblaid San Steffan yn rhy bell ac yn rhy gyflym, gyda Chymru'n derbyn toriad mwy nag eraill. Er enghraifft, gellid colli 118 o swyddi o ran proses Rhoi'r Cyhoedd yn Gyntaf Heddlu Dyfed-Powys, yn dilyn toriad mewn cyllid gan y Llywodraeth yn ganolog. Mae angen i'r comisynydd heddlu a throsedd Christopher Salmon ymgynghori'n briodol a sicrhau nad yw unrhyw golled mewn swyddi yn effeithio ar ddiogelwch cymunedol.

The Welsh Labour Government says that the settlement is challenging. Tough choices will have to be made. We know that the 20% cuts by the Westminster coalition go too far and too fast, with Wales having deeper cuts than others. For example, 118 jobs could be lost in terms of the Putting the Public First process in Dyfed-Powys Police, following cuts to budgets by central Government. There is a need for the police and crime commissioner Christopher Salmon to consult appropriately and to ensure that no job losses affect community safety.

Cyfeiriais at effeithiau'r toriadau ar yr heddlu yn fy nabl fer gyntaf yn y Siambr. Hefyd, roedd yr adolygiad cyfredol, y pryd hynny, gan Tom Winsor, a gomisiynydd gan y Swyddfa Gartref, yn nodi pryderon dros gydraddoldeb pensiynau a phrawf ffitrwydd teg.

I referred to the effects on the police of the cuts in my first short debate in the Chamber. Also, the review by Tom Winsor, commissioned by the Home Office at that time, noted concerns about pension equality and a fair fitness test.

Y pwynt penodol ar waith Llywodraeth Cymru yr hoffwn ei godi yw cyllido'r 500 ychwanegol o 'PCSOs' yng Nghymru. Roedd yn adduned etholiad a gyrhaeddwyd mis Hydref diwethaf. Roeddwn yn falch cael bod yn y digwyddiad yn y Senedd a drefnwyd i nodi hynny, ac i gyfarfod â rhai ohonynt o Ddyfed-Powys, sy'n cynnwys Llanelli a sir Gâr. Bûm yn eu llongyfarch am fod yn rhan o wasanaeth cryf o 500 dros Gymru. Mae eu presenoldeb mewn trefi fel Llanelli wedi cyfrannu tuag at ddiogelu'r cymunedau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, euthum allan ar batrôl gydag un ohonynt yn ward Tyisha yn Llanelli. Gwelais fy hun y rhyngweithio rhwng y swyddogion newydd a'r gymuned o gwmpas ardal Station Road.

The specific point on the work of the Welsh Government that I would like to raise is on the funding of 500 additional PCSOs in Wales. It was an election pledge that was achieved last October. I was very proud to have attended the event in the Senedd to mark that, and to meet some of the PCSOs from Dyfed-Powys, which covers Llanelli and Carmarthenshire. I congratulated them on being part of a robust and strong service of 500 across Wales. Their presence in towns like Llanelli has contributed to community safety. During the past year, I went on patrol with one of them in the Tyisha ward in Llanelli. I saw for myself the interaction between these new officers and the community around Station Road.

Yn ddiweddar, mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi datgan cyllid newydd i Lanelli i ddatblygu ardal gwella busnes—BID—a fydd yn darparu cyfle pellach i fuddsoddi yng nghanol y dref. Bydd ymgynghoriad yn digwydd yn awr gyda busnesau lleol, fel y gall syniadau gael eu hawgrymu ar y cyd. Rwy'n ei weld yn beth da bod modelau BID eraill, fel y model yn Abertawe, wedi cyllido swyddog heddlu ychwanegol, ac i gyllid cyfatebol gael ei sicrhau. Efallai fod hwn yn rhywbeth a all y Gweinidog ei ystyried ar gyfer canol dref Llanelli, er mwyn ehangu gwlededd a phresenoldeb ymhellach.

Recently, the Minister for Housing and Regeneration announced new funding for Llanelli to develop a business improvement district—BID—that will provide a further opportunity to invest in the town centre. A consultation will now take place with local businesses, so that ideas can be jointly suggested. I see it as a positive thing that other BID models, such as the model in Swansea, have funded an additional police officer, and that that was match funded. Perhaps the Minister could consider that as something for the centre of Llanelli, in order to further enhance the visibility and presence of the police.

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that, as part of this debate on police settlements, we all acknowledge the pressure on budgets. Although, it is worth noting, as Mark Isherwood mentioned, that, despite many warnings to the contrary, as Alun Ffred said, there have been actual decreases in recorded crime. Certainly, I would also wish to place on record my congratulations to North Wales Police for being the most successful police force in that regard.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cydnabod y pwysau ar gyllidebau, fel rhan o'r ddatl hon ar setliadau heddlu. Er ei bod yn werth nodi, fel y soniodd Mark Isherwood, y bu gostyngiadau gwirioneddol yn nifer y troseddau a gofnodwyd, er gwaethaf sawl rhybudd i'r gwrthwyneb, fel y dywedodd Alun Ffred. Yn sicr, byddwn hefyd yn dymuno cofnodi fy llongyfarchiadau i Heddlu Gogledd Cymru am fod yr heddlu mwyaf llwyddiannus yn hynny o beth.

I do think, from my own experience of working alongside the police, there were instances where reform of the police service was required. There was a tendency in the past to place back-room functions on police officers when, clearly, that was not necessary. I think that it is only right that, as part of the overall settlement from the UK Government, priority is given to front-line policing.

Crime is at its lowest level according to the British crime survey, since that survey began in 1981, but I think that we have to be a bit careful with statistics. I recall occasions under the previous UK Government when the increased use of cautions and other sanctions meant that they were not, at times, regarded as recordable crimes.

The settlement also recognises the fact that a National Crime Agency has been established. I noted that the Minister referred to successive reckless and ill-thought-out funding settlements from the UK Government. I think that it is necessary to remind the Minister and Keith Davies, who stated that cuts were being made too far and too fast, that the actual cuts started under the 2009-10 Labour UK Government. The police profiling, as far as UK Labour in Westminster is concerned on the settlement, is exactly the same as that that has been undertaken by the UK coalition Government during the course of this current Westminster Parliament. Setting that to one side, I welcome the use of PCSOs by the Welsh Government, although, again, going back eight or nine years, I recall that the main reason that I became leader of Wrexham council was that the Labour group at that time opposed the use of police community support officers in Wrexham partly financed by the council. However, we all need to recognise that conversion is a good thing in all regards.

I do think that there are, using the terms of the previous debate, some concerns with regard to the sustainability of the settlement. I noted that the Minister referred to the £13 million given to North Wales Police and Dyfed-Powys. Those discussions have been ongoing for probably six or seven years, where there is a rebalancing of the police settlement at UK level away from rural forces to more urbanised forces. Those arrangements, in the main, are transitional and have been agreed ever since the term of office of the UK Labour Government, and I wonder whether the Minister is able to update us as to whether any indication is being given as to whether those transitional arrangements will be extended and, if so, for how long.

Rwyf yn meddwl, o'm profiad fy hun o weithio ochr yn ochr â'r heddlu, bod achosion lle'r oedd angen diwygio gwasanaeth yr heddlu. Roedd tueddiad yn y gorffennol i roi swyddogaethau ystafell gefn yn nwylo swyddogion yr heddlu pan nad oedd hynny, yn amlwg, yn angenrheidiol. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl briodol rhoi blaenoriaeth i blismona rheng flaen, fel rhan o'r setliad cyffredinol gan Lywodraeth y DU .

Mae trosedd ar ei lefel isaf yn ôl arolwg troseddu Prydain, ers dechrau'r arolwg hwnnw ym 1981, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni fod yn eithaf gofalus gydag ystadegau. Rwy'n cofio achlysuron o dan Lywodraeth flaenorol y DU pan oedd defnydd cynyddol o rybuddiadau a sancsiynau eraill yn golygu nad oeddent, ar adegau, yn cael eu hystyried yn droseddau cofnodadwy.

Mae'r setliad hefyd yn cydnabod y ffaith bod Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu. Nodais fod y Gweinidog wedi cyfeirio at setliadau cyllido di-hid, wedi'u cynllunio'n wael flwyddyn ar ôl blwyddyn gan Lywodraeth y DU. Rwy'n meddwl ei bod yn angenrheidiol atgoffa'r Gweinidog a Keith Davies, a ddywedodd bod toriadau'n cael eu gwneud yn rhy ddwfn ac yn rhy gyflym, bod y toriadau mewn gwirionedd wedi dechrau o dan Lywodraeth Lafur y DU yn 2009-10. Mae proffilio'r heddlu, o safbwynt Llafur y DU yn San Steffan ar y setliad, yn union yr un fath â'r hyn a wnaed gan Lywodraeth glymblaid y DU yn ystod y Senedd bresennol San Steffan. Gan roi hynny i un ochr, rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, er, unwaith eto, a mynd yn ôl wyth neu naw mlynedd, rwy'n cofio mai'r prif reswm y deuthum yn arweinydd cyngor Wrecsam oedd bod y grŵp Llafur ar y pryd yn gwrthwynebu'r defnydd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, wedi'u hariannu'n rhannol gan y cyngor, yn Wrecsam. Fodd bynnag, mae angen inni i gyd gydnabod bod trôedigaeth yn beth da ym mhob ystyr.

Rwy'n meddwl, gan ddefnyddio termau'r ddafl flaenorol, bod rhai pryderon o ran cynaliadwyedd y setliad. Nodais fod y Gweinidog yn cyfeirio at y £13 miliwn a roddir i Heddlu Gogledd Cymru a Dyfed-Powys. Mae'r trafodaethau hynny wedi bod ar waith yn ôl pob tebyg am chwech neu saith mlynedd, wrth i gydbwysedd setliadau'r heddlu ar lefel y DU gael ei symud i ffwrdd oddi wrth heddluoedd gwledig i heddluoedd mwy trefol. Mae'r trefniadau hynny, ar y cyfan, yn drosiannol ac wedi'u cytuno byth ers cyfnod Llywodraeth Lafur y DU. Tybed a yw'r Gweinidog yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch a roddir unrhyw arwydd a fydd y trefniadau trosiannol hynny'n cael eu hymestyn ac, os felly, am ba hyd?



*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I would like to thank Members for their interest and their very constructive remarks. I agree very much with Mark Isherwood that the police forces in Wales have made the best of their funding. I have to say that the 4.8% reduction that they have had is slightly more than they were expecting, due to an increase in the Home Office top-slice from the police grant, which I referred to when talking about their innovation bids. Funding for 2015-16 is not yet agreed, and that is what I was referring to in relation to Eric Pickles preaching about localism. I think that it is really important that they get that information as soon as possible. I know that police forces in Wales are planning for around a 3.2% reduction, but they really need that information to come forward to provide some clarity.

You talked about the innovation that the Welsh police forces are bringing forward, and I quite agree, and about their collaboration. Again, I referred to the fact that I think that a lot of the public services in Wales can learn a lot from them.

Alun Ffred Jones and Aled Roberts both referred to North Wales Police being the most successful in England and Wales in relation to the fall in crime and, as a fellow north Walian I would say that, yes, it is also down to the good people of north Wales. However, I do agree that that is something to be praised, as are all our police forces and police officers and staff.

In relation to monitoring, Alun Ffred raised the issue of scrutinising. The Assembly can scrutinise also, the Wales Audit Office can conduct VFM studies, and then committees can scrutinise that funding. However, I certainly monitor these issues. I meet regularly with the four police and crime commissioners and the four chief constables, and we discuss their plans for policing and my priorities for delivery. It is through these meetings that I can monitor officer numbers and station closures.

Keith Davies referred to the community support officers and our programme for government commitment for the additional 500 CSOs who were put in place by September of last year, less than halfway through this Government term. Like you, Keith Davies, I have been out on the beat and know that this is about perception as well. I think that people feel much more reassured when they see CSOs on the beat. However, I must stress again, and I have stressed to all four police forces in Wales, that they are additional numbers. We are not going to plug any holes in funding from the Home Office.

In conclusion, I think that this does represent an appropriate settlement for the police service, and I do understand that it has been delivered against a backdrop of contracting departmental budgets. I trust that the Welsh police forces will do everything that they can to limit the impact on front-line policing, and I am very much committed to working with them. Therefore, I commend this settlement to the Assembly.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu diddordeb a'u sylwadau adeiladol iawn. Cytunaf yn llwyr â Mark Isherwood fod yr heddluoedd yng Nghymru wedi gwneud y gorau o'u cyllid. Mae'n rhaid imi ddweud bod y gostyngiad o 4.8% y maent wedi'i gael ychydig yn fwy nag yr oeddent yn ei ddisgwyl, oherwydd bod y Swyddfa Gartref wedi brigdorri mwy oddi ar grant yr heddlu, fel y dywedais wrth sôn am eu cynigion arloesi. Nid yw'r cyllid ar gyfer 2015-16 wedi ei gytuno eto, ac at hynny'r oeddwn yn cyfeirio wrth ddweud bod Eric Pickles yn pregethu am leoliaeth. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig eu bod yn cael y wybodaeth honno cyn gynted ag y bo modd. Gwn fod heddluoedd yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer tua 3.2% o ostyngiad, ond mae wir angen y wybodaeth honno arnynt, i roi rhywfaint o eglurder.

Roeddech yn sôn am y modd y mae heddluoedd Cymru'n arloesi, ac rwy'n cytuno, ac am eu trefniadau cydweithredu. Unwaith eto, cyfeiriais at y ffaith fy mod yn meddwl y gall llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddysgu llawer oddi wrthynt.

Roedd Alun Ffred Jones ac Aled Roberts yn cyfeirio at y ffaith mai Heddlu Gogledd Cymru yw'r mwyaf llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr o ran gostwng lefelau trosedd ac, fel cyd-ogledwr byddwn yn dweud bod rhaid diolch i bobl dda gogledd Cymru am hynny hefyd. Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod hynny, fel ein holl heddluoedd a swyddogion yr heddlu a staff, yn rhywbeth i'w ganmol.

O ran monitro, soniodd Alun Ffred am graffu. Gall y Cynulliad graffu hefyd, gall Swyddfa Archwilio Cymru gynnal astudiaethau gwerth am arian, ac yna gall pwyllgorau graffu ar yr arian hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n sicr yn monitro'r materion hyn. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddau a'r pedwar prif gwnstabl, ac rydym yn trafod eu cynlluniau ar gyfer plismona a'm blaenoriaethau innau ar gyfer cyflawni. Drwy'r cyfarfodydd hyn, gallaf fonitro niferoedd swyddogion a gorsafoedd sy'n cael eu cau.

Cyfeiriodd Keith Davies at y swyddogion cymorth cymunedol a'n hymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu ar gyfer y 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol a roddwyd ar waith erbyn mis Medi y llynedd, lai na hanner ffordd drwy dymor y Llywodraeth hon. Fel chithau, Keith Davies, rwyf wedi bod allan ar y bîc ac yn gwybod bod canfyddiad yn bwysig hefyd. Rwy'n credu bod pobl yn teimlo'n llawer mwy tawel eu meddwl wrth weld swyddogion cymorth cymunedol ar y strydoedd. Fodd bynnag, rhaid imi bwysleisio eto, ac rwyf wedi pwysleisio i bob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru, mai niferoedd ychwanegol ydynt. Nid ydym yn mynd i lenwi unrhyw fylchau yn y cyllid gan y Swyddfa Gartref.

I gloi, rwy'n credu bod hwn yn setliad priodol ar gyfer y gwasanaeth heddlu, ac rwy'n deall ei fod wedi cael ei gyflwyno yn erbyn cefndir lle mae cyllidebau adrannol yn lleihau. Hyderaf y bydd heddluoedd Cymru'n gwneud popeth o fewn eu gallu i gyfyngu ar yr effaith ar blismona rheng flaen, ac rwyf yn bendant wedi ymrwymo i weithio gyda nhw. Felly, cymeradwyaf y setliad hwn i'r Cynulliad.

16:34

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## **Dyfodol Ein Gorffennol— Cyfeiriadau Newydd ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru**

## **The Future of Our Past—New Directions for the Historic Environment In Wales**

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 4 a 5 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies, and amendments 4 and 5 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5434 Lesley Griffiths

Motion NDM5434 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnydd Llywodraeth Cymru hyd yma o safbwynt ei Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol ynghyd â'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar 'dyfodol ein gorffennol'.

Notes the Welsh Government's progress to date on its Historic Environment Strategy and next steps following the consultation on 'the future of our past'.

16:35

## **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

In May last year, I launched my historic environment strategy following an extensive consultation with people and organisations interested and involved in 'The future of our past'. Our policies are informed by the passion, aspirations and concerns of the consultees, who told us clearly that the historic environment has the potential to boost our economy and to open new opportunities for learning and enjoyment, and that our heritage is at the heart of what makes Wales special. They also told us that it is fragile and finite and that we need to value and conserve it. On 14 January, I informed Members of the response to the consultation on proposals for a heritage Bill for Wales. Today I want to update the Assembly on the wider strategy both to sustain and to realise the potential of our historic environment.

Ym mis Mai y llynedd, lansiais fy strategaeth amgylchedd hanesyddol ar ôl ymgynghori'n helaeth gyda phobl a sefydliadau sydd â diddordeb ac sy'n cymryd rhan yn 'Dyfodol ein gorffennol'. Mae ein polisiau'n seiliedig ar angerdd, dyheadau a phryderon yr ymgynghorwyr; a ddywedodd yn glir wrthym fod gan yr amgylchedd hanesyddol y potensial i roi hwb i'n heconomi ac agor cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu a mwynhau, a bod ein treftadaeth wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud Cymru'n arbennig. Dywedasant wrthym hefyd ei bod yn fregus ac yn derfynedig a bod angen inni ei gwerthfawrogi a'i gwarchod. Ar 14 Ionawr, rhoddais wybod i Aelodau am yr ymateb i'r ymgynghoriad am y cynigion ar gyfer Bil treftadaeth i Gymru. Heddiw, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y strategaeth ehangach, er mwyn cynnal a gwireddu potensial ein hamgylchedd hanesyddol.

I agree with our consultees that Wales offers a richness and diversity that make it a pleasure and a privilege to live here. The 'Rough Guide' tells us that Wales is now officially one of the most beautiful countries in the world. What makes it so? It is our coast, our mountains, and our castles. While the heritage fabric itself is historically important and aesthetically pleasing, it is the stories in the stones and hillsides that lie at the heart of the appeal of Wales. We are the first country in Europe—perhaps in the world—to develop a whole-country interpretation framework to help tell those stories with authenticity and panache. The pan-Wales heritage interpretation plan and its subsidiary thematic plans have been developed with the visitor at the centre of their thinking. They are based on compelling storytelling and a highly imaginative and creative approach

Rwyf yn cytuno â'n hymgyngoreion bod Cymru'n cynnig cyfoeth ac amrywiaeth sy'n ei gwneud yn bleser ac yn fraint byw yma. Mae'r 'Rough Guide' yn dweud wrthym fod Cymru bellach yn swyddogol yn un o'r gwledydd prydferthaf yn y byd. Pam hynny? Oherwydd ein harfordir, ein mynyddoedd, a'n cestyll. Er bod y ffabrig treftadaeth ei hun yn hanesyddol bwysig ac yn ddeniadol, y straeon yn y cerrig a'r llethrau sydd wrth wraidd apêl Cymru. Ni yw'r wlad gyntaf yn Ewrop—efallai yn y byd—i ddatblygu fframwaith dehongli gwlad gyfan i helpu i adrodd y straeon hynny'n driw ac yn ddeniadol. Mae cynllun dehongli treftadaeth Cymru gyfan a'i is-gynlluniau thematig wedi eu datblygu gan ganolbwyntio ar yr ymwelydd. Maent yn seiliedig ar adrodd straeon grymus a'r defnydd o ddulliau creadigol llawn dychymyg—

16:37 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister take an intervention?

A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In one moment, Nick, if I may.

Mewn un eiliad, Nick, os caf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—using both traditional media, such as activities and panels, and new technologies and approaches, such as digital technologies, and artworks and installations.

[Parhau.]—gan ddefnyddio cyfryngau traddodiadol, megis gweithgareddau a phaneli, a thechnolegau a dulliau newydd, fel technolegau digidol, a gwaith celf a gosodiadau.

I give way to Nick Ramsay.

Ildiaf i Nick Ramsay.

16:37 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to John Griffiths for taking the intervention. You have just mentioned the importance of putting the visitor at the centre of the Welsh cultural experience, as you called it. I know that I have banged on about this in the past, but do you agree that the brown signage on our roads is, in many parts of Wales, really sub-standard—tatty, in fact? I would be grateful if you could liaise with the Minister responsible for that signage—the Minister for Economy, Science and Transport—to make sure that it is overhauled as quickly as possible.

Rwyf yn ddiolchgar i John Griffiths am dderbyn yr ymyriad. Rydych newydd sôn am bwysigrwydd canolbwyntio ar ymwelwyr wrth ddatblygu'r profiad diwylliannol Cymreig, fel y'i galwyd gennych. Rwyf yn gwybod fy mod wedi rhygnu ymlaen am hyn yn y gorffennol, ond a ydych chi'n cytuno bod yr arwyddion brown ar ein ffyrdd, mewn sawl rhan o Gymru, mewn gwirionedd yn is na'r safon—yn flêr, mewn gwirionedd? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am yr arwyddion hynny—Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth—i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu hailwampio cyn gynted ag y bo modd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:38 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that Nick Ramsay has raised these matters before, as indeed have other Members. I agree that we do need to make improvements with regard to that signage. I will be pleased to discuss those matters with the Minister for transport and others.

Gwn fod Nick Ramsay wedi codi'r materion hyn o'r blaen, ac Aelodau eraill hefyd yn wir. Rwyf yn cytuno bod angen inni wneud gwelliannau o ran yr arwyddion hynny. Byddaf yn falch o drafod y materion hynny gyda'r Gweinidog trafndiaeth ac eraill.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Facilities and activities for children are key to all of this engagement and interpretation of our heritage. Cadw's approach provides family activity trails at all sites where interpretation is renewed. The work that Cadw and its partners have delivered through the European Union-funded heritage tourism project has been connecting individual heritage sites with other heritage attractions and local communities and surrounding areas, making links with broader interpretative stories and themes, helping visitors to understand and care more about our past and to encourage visitors to stay longer and spend more money. Cultural and heritage tourism is a significant economic force, sustaining thousands of jobs across our country. However, we need to keep our product fresh and relevant, reinvesting in facilities and products that further improve the visitor experience. In strengthening the connection and engagement with our people, we need to take action to reach out to less economically advantaged communities. We need to maintain a balance between a vibrant tourism economy and accessibility for people on low incomes and affordable opportunities for Welsh people to learn more about their environment and to experience their heritage.

Government funding and income from the public also enables important conservation work at our sites. Since the skills summit in March 2012, I have, with education and skills Cabinet colleagues, been pursuing the next steps in implementing the recommendations. We are looking, with our partners, to set up this year a network of pilot conservation training sites, including at Cadw's Neath abbey. We are looking at apprenticeship opportunities in terms of traditional building skills, as well as training placements as part of capital works programmes funded through Cadw. In addition, there are many opportunities for young people to build their confidence and to develop transferrable skills through work experience and training placements as visitor guides and event support workers at our sites.

I am pleased that Cadw is developing its work with communities and arts organisations to enable its sites to be used for cultural events and for education and learning programmes. I have been encouraged during my time as Minister to see how artists are commissioned to produce artworks to help interpretation, with sculptures and animations at Caerphilly castle, for example, providing new ways to inform and, indeed, intrigue visitors. Along with others in the heritage sector, Cadw's events programme continues to be tailored to engage with hard-to-reach audiences, especially younger people and those in Communities First areas.

Mae cyfleusterau a gweithgareddau i blant yn allweddol i'r holl waith hwn o ymgysylltu â'n treftadaeth a'i dehongli. Mae dulliau Cadw yn darparu llwybrau gweithgareddau teuluol ym mhob safle lle mae gwasanaethau dehongli'n cael eu hadnewyddu. Mae'r gwaith y mae Cadw a'u partneriaid wedi'i wneud drwy'r prosiect twristiaeth treftadaeth a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd wedi bod yn cysylltu safleoedd treftadaeth unigol ag atyniadau treftadaeth eraill a chymunedau lleol a'r ardaloedd cyfagos, gan greu cysylltiadau â straeon a themâu deongliadol ehangach, a helpu ymwelwyr i ddeall ein gorffennol a meddwl mwy amdano, ac annog ymwelwyr i aros yn hirach a gwario mwy o arian. Mae twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth yn rym economaidd sylweddol, sy'n cynnal miloedd o swyddi ledled ein gwlad. Fodd bynnag, mae angen inni gadw ein cynnyrch yn ffres a pherthnasol, gan ail-fuddsoddi mewn cyfleusterau a chynhyrchion sy'n gwella profiad yr ymwelydd ymhellach. Wrth gryfhau'r cysylltiad a'r ymgysylltu â'n pobl ni, mae angen inni gymryd camau i estyn allan at gymunedau sydd dan anfantais economaidd. Mae angen inni gadw cydbwysedd rhwng economi twristiaeth fywiog a hygyrchedd i bobl ar incwm isel a chyfleoedd fforddiadwy i bobl Cymru i ddysgu mwy am eu hamgylchedd a chael profiad o'u treftadaeth.

Mae cyllid gan y llywodraeth ac incwm gan y cyhoedd hefyd yn galluogi gwaith cadwraeth pwysig i gael ei wneud ar ein safleoedd. Ers yr uwchgynhadledd sgiliau ym mis Mawrth 2012, rwyf fi, gyda chydweithwyr Cabinet ym maes addysg a sgiliau, wedi bod yn mynd ar drywydd y camau nesaf o ran rhoi'r argymhellion ar waith. Rydym, eleni, gyda'n partneriaid, yn bwriadu sefydlu rhwydwaith o safleoedd hyfforddiant cadwraeth arbrol, gan gynnwys un yn abaty Nedd sy'n cael ei redeg gan Cadw. Rydym yn edrych ar gyfleoedd prentisiaeth o ran sgiliau adeiladu traddodiadol, yn ogystal â lleoliadau hyfforddiant yn rhan o raglenni gwaith cyfalaf a ariennir drwy Cadw. Hefyd, ceir llawer o gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu hyder a datblygu sgiliau trosglwyddadwy drwy gyfrwng profiad gwaith a lleoliadau hyfforddi fel tywyswyr ymwelwyr a gweithwyr cymorth wrth gynnal digwyddiadau ar ein safleoedd.

Rwyf yn falch bod Cadw'n datblygu ei waith gyda chymunedau a sefydliadau celfyddydol er mwyn galluogi eu safleoedd i gael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau diwylliannol ac ar gyfer rhaglenni addysg a dysgu. Rwyf wedi cael fy nghalonogi yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog o weld sut y caiff artistiaid eu comisiynu i gynhyrchu gwaith celf i helpu dehongli; mae'r cerfluniau a'r animeiddiadau yng nghastell Caerffili, er enghraifft, yn darparu ffyrdd newydd o hysbysu ymwelwyr ac, yn wir, o enbyn eu diddordeb. Ynghyd ag eraill yn y sector treftadaeth, mae rhaglen ddigwyddiadau Cadw yn parhau i gael ei theilwra i ymgysylltu â chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd, yn enwedig pobl iau a phobl yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Education provision can take many forms and, from April 2013 to January 2014, there were almost 72,000 lifelong-learning visits to Cadw sites. Cadw is committed to widening access not just to sites, but to the wider historic environment. It is not just about focusing on site-based learning; it is also about downloadable material, taking resources out to the hard-to-reach audiences and delivering programmes that are appropriate to those audiences' needs and abilities. The lifelong learning plan is in its final stages of development. We have taken the time to take account of a number of key reports, including the forthcoming reports on changing cultures and the Curriculum Cymreig, and to thoroughly engage with partners in implementation.

Another important partnership that my officials have been fostering in collaboration with Action for Children is to bring forward a new scheme to make the historic environment more accessible to looked-after children and the families who care for them. Cadw's primary vehicle for engaging new audiences and helping to engage people in our activities and improve their life chances is its community archaeology framework, which I launched last July. This framework provides formal and informal learning opportunities to help everyone fulfil their potential, to reduce inequality of access and to improve economic and social wellbeing by providing steps to help get people back into employment.

We have a course of educational workshops for adult and young offenders in custody, with the chance to handle archaeological material and gain and develop recognisable transferrable skills and constructive behaviours. This offers something different; totally new experiences to help aid their route to rehabilitation. It has been well received, and Cadw is about to run the project again at Her Majesty's Parc prison. Another initiative, which is related, is the heritage graffiti project, helping young offenders learn valuable lessons from their heritage by introducing them to archaeological artefacts and explaining what they meant to the people who used them. During 2014, young offenders will be compiling and curating an exhibition of their work and I very much hope that we will be able to have an exhibition here at the Senedd for Members to see their work.

I know that members are concerned to make progress in safeguarding our religious heritage and I do wish to make progress, not least through practical guidance around the conversion of listed religious buildings for other uses. Places of worship, churches and chapels are facing unprecedented challenges, with small congregations attempting to look after buildings designed to accommodate hundreds and an accelerating rate of redundancy, all at a time of financial pressures. I said in January that we will be working with the sector to develop strategic plans. In the meantime, I have asked Cadw to develop an action plan for chapels and to work with partners across the sector to address the challenges facing our historic places of worship. The key elements in the approach will be to fill in gaps in our knowledge and to improve advice and support to help inform decisions on conservation, while strengthening the approach to engaging the public. This will complement the faith tourism strategy.

Gall fod sawl ffurf i ddarpariaeth addysg ac, o fis Ebrill 2013 i fis Ionawr 2014, bu bron i 72,000 o ymweliadau dysgu gydol oes â safleoedd Cadw. Mae Cadw wedi ymrwymo i ehangu mynediad nid yn unig i safleoedd, ond i'r amgylchedd hanesyddol ehangach. Nid dim ond mater o ganolbwytio ar ddysgu ar safleoedd yw hyn; mae hefyd yn ymwneud â deunydd y gellir ei lawrlwytho, gan fynd ag adnoddau i'r cynulleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd a darparu rhaglenni sy'n briodol i anghenion a galluoedd y cynulleidfaoedd hynny. Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun dysgu gydol oes bron wedi'i gwblhau. Rydym wedi treulio amser yn ystyried nifer o adroddiadau allweddol, gan gynnwys yr adroddiadau sydd i ddod ar newid diwylliannau a'r Cwricwlwm Cymreig, ac i ymgysylltu'n drylwyr gyda phartneriaid wrth weithredu.

Partneriaeth bwysig arall y mae fy swyddogion wedi bod yn ei maethu ar y cyd â Gweithredu dros Blant yw cyflwyno cynllun newydd i wneud yr amgylchedd hanesyddol yn fwy hygyrch i blant sy'n derbyn gofal a'r teuluoedd sy'n gofalu amdanynt. Prif gyfrwng Cadw ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a helpu i ennyn diddordeb pobl yn ein gweithgareddau a gwella eu cyfleoedd bywyd yw eu fframwaith archeoleg gymunedol a lansiwyd gennyf fis Gorffennaf diwethaf. Mae'r fframwaith hwn yn darparu cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol i helpu pawb i gyflawni eu potensial, i leihau anghydraddoldeb o ran mynediad ac i wella lles economaidd a chymdeithasol trwy ddarparu camau i helpu pobl ailgydio mewn cyflogaeth.

Mae gennym gwrs o weithdai addysgol ar gyfer oedolion a throeddwy'r ifanc yn y ddalfa, gyda'r cyfle i drin deunydd archeolegol ac ennill a datblygu sgiliau trosglwyddadwy ac ymddygiad adeiladol adnabyddadwy. Mae hyn yn cynnig rhywbeth gwahanol; profiadau cwbl newydd i helpu i gynorthwyo eu llwybr at adsefydlu. Mae wedi cael croeso da, ac mae Cadw ar fin cynnal y prosiect eto yng ngharchar y Parc Ei Mawrhydi. Menter arall gysylltiedig yw'r prosiect graffiti treftadaeth, sy'n helpu troeddwy'r ifanc i ddysgu gwersi gwerthfawr o'u treftadaeth drwy eu cyflwyno i arteffactau archeolegol ac esbonio beth yr oeddent yn ei olygu i'r bobl a oedd yn eu defnyddio. Yn ystod 2014, bydd troeddwy'r ifanc yn llunio ac yn curadu arddangosfa o'u gwaith ac rwyf yn gobeithio'n fawr y gallwn gael arddangosfa yma yn y Senedd i Aelodau gael gweld eu gwaith.

Gwn fod yr aelodau'n awyddus i wneud cynnydd o ran diogelu ein treftadaeth grefyddol ac rwyf finnau'n dymuno gwneud cynnydd, yn enwedig drwy ddarparu arweiniad ymarferol ynghylch addasu adeiladau crefyddol rheistredig ar gyfer defnydd arall. Mae manau addoli, eglwsi a chapeli'n wynebu heriau nas gwelwyd o'r blaen; mae cynulleidfaoedd bychain yn ceisio gofalu am adeiladau a gynlluniwyd i ddarparu ar gyfer cannoedd a mwy a mwy ohonynt yn mynd yn segur, a hyn i gyd mewn cyfnod o bwysau ariannol. Dywedais ym mis Ionawr y byddwn yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu cynlluniau strategol. Yn y cyfamser, rwyf wedi gofyn i Cadw ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer capeli a chydweithio â phartneriaid ar draws y sector i ymdrin â'r heriau sy'n wynebu ein manau addoli hanesyddol. Elfennau allweddol y dull hwn fydd llenwi bylchau yn ein gwybodaeth a gwella cyngor a chymorth i helpu i lywio penderfyniadau am gadwraeth, gan gryfhau dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr un pryd. Bydd hyn yn ategu'r strategaeth twristiaeth ffydd.

I want to reflect upon Cadw's latest acquisitions and what they say about heritage today. We conserve and manage 129 properties and have some of the greatest and most evocative sites in the world. Cadw's most recent acquisitions, Heritage Cottage in Cwmdare and Cae'r Gors in Rhosgadfan, are very different from the usual monuments. It is important that we can relate to the ordinary lives that people lived through those further acquisitions.

In conclusion, the benefits of the historic environment are strong: the beautiful sight of a historic landscape, an iconic castle or a much-loved locally important building; the pulling power of our heritage assets delivering economic benefits and support learning and job opportunities; and connection and engagement with all our communities. We should celebrate all of this and celebrate our special heritage, taking pride in our unique historic environment. Therefore, I have asked Cadw to work with the sector to develop a celebration of Welsh history for 2015, showcasing our heritage to Wales and the world.

Hoffwn fyfyrto ar gaffaeliadau diweddaraf Cadw a'r hyn y maent yn ei ddweud am dreftadaeth heddiw. Rydym yn cadw ac yn rheoli 129 eiddo sy'n cynnwys rhai o'r safleoedd gorau a mwyaf atgofus yn y byd. Mae caffaeliadau diweddaraf Cadw, y Bwthyn Treftadaeth yng Nghwmdâr a Chae'r Gors yn Rhosgadfan, yn wahanol iawn i'r henebion arferol. Mae'n bwysig bod y caffaeliadau ychwanegol hynny'n ein galluogi i uniaethu â'r bywydau cyffredin yr oedd pobl yn eu byw.

I gloi, mae manteision yr amgylchedd hanesyddol yn gryf: golygfa hardd tirwedd hanesyddol, castell eiconig neu adeilad sy'n annwyl i bobl ac yn bwysig yn lleol; poblogrwydd ein hasedau treftadaeth o ran sicrhau manteision economaidd a chynorthwyo cyfleoedd dysgu a gwaith; a chysylltiad ac ymgysylltiad â'n holl gymunedau. Dylem ddathlu hyn i gyd a dathlu ein treftadaeth arbennig, gan fod yn falch o'n hamgylchedd hanesyddol unigryw. Felly, rwyf wedi gofyn i Cadw gydweithio â'r sector i ddatblygu dathliad o hanes Cymru ar gyfer 2015, gan arddangos ein treftadaeth i Gymru a'r byd.

16:47

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the five amendments, and I call on Suzy Davies to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant, a galwaf ar Suzy Davies i gynniw gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen ag uno Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a CADW.*

*Welcomes the Welsh Government's decision not to proceed with the merger of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and CADW.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi tystiolaeth yn rheolaidd o effaith polisiau treftadaeth ar leihau tlodi yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to regularly publish evidence of the impact heritage policies have in reducing poverty in Wales.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith a wnaed i greu Cynghrair Treftadaeth i Gymru neu ymddiriedolaeth cadwraeth treftadaeth genedlaethol.*

*Calls on the Welsh Government to provide an update on work undertaken to develop a Welsh Heritage Alliance or national heritage preservation trust.*

16:47

## **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies.

Cynigaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies.

We will also be supporting the Liberal Democrat amendments but I look forward to hearing how those two amendments work together.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond rwyf yn edrych ymlaen at glywed sut y mae'r ddau welliant hynny'n gweithio gyda'i gilydd.



I thank the Minister for bringing forward this debate today. It is an important statement: there have been two heritage debates in just over a month, Minister. I think that you might be applying for the Leighton Andrews busiest frontbencher of the year award. [Laughter.] However, I welcome your update—particularly the announcements regarding the work at Neath Abbey and your proposals with regard to religious buildings. You have been kind enough to acknowledge in the past that the Assembly is united in its commitment to the historic environment and I will reflect carefully on your words today. The heritage Bill—perhaps slightly unusually for a big policy Bill—has the potential to pass through the Assembly relatively smoothly. It is on the recent consultation in connection with that that I would like to address my comments today.

Your commitment to the status quo for the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales for this Assembly term means that opposition parties are perhaps able to indulge our warm feelings towards Government policy development for a little longer. I hope that all Members will be able to reiterate their support for our first amendment. Our third amendment speaks to your repeated commitment to collaboration, Minister. Whatever its merits—and it has many—I am still less than comfortable with Cadw, as an executive arm of Government, having such dominance in strategy and delivery. Your proposals for the delivery of historic environment services at a regional and local level have been of interest to me, particularly in connection with what you have been talking about today. Your proposals introduce the idea of local authority collaboration—perhaps an understandable response to the question of the capacity of conservation officers. However, it was telling that not all of the consultees jumped at the inevitable way forward. Some predicted that the Williams report would have consequences and others were confident that existing networks, which include non-public-sector partners, would be sufficient. I would be interested, if you have time in your response, to hear about how the plans that you have discussed today will fit in with your ideas for a heritage alliance, which I will come to a little bit later in my remarks.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Mae'n ddatganiad pwysig: mae dwy ddatl am dreftadaeth wedi eu cynnal mewn ychydig dros fis, Weinidog. Rwyf yn meddwl y gallech fod yn gwneud cais am wobwr Leighton Andrews i aelod mainc flaen prysuraf y flwyddyn. [Chwerthin.] Fodd bynnag, croesawaf eich diweddariad—yn enwedig y cyhoeddiadau am y gwaith yn Abaty Nedd a'ch cynigion ar gyfer adeiladau crefyddol. Rydych wedi bod mor garedig â chydabod yn y gorffennol bod y Cynulliad yn unedig yn ei ymrwymiad i'r amgylchedd hanesyddol, a byddaf yn ystyried eich geiriau yn ofalus heddiw. Mae gan y Bil treftadaeth—ac efallai fod hyn ychydig yn anarferol i Fil polisi mawr—y potensial i basio drwy'r Cynulliad yn gymharol ddidrafferth. Bydd fy sylwadau heddiw'n canolbwyntio ar yr ymgynghoriad diweddar ynglŷn ag ef.

Mae eich ymrwymiad i'r status quo ar gyfer Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru am gyfnod y Cynulliad hwn yn golygu efallai y gall y gwrthbleidiau fwynhau ein teimladau cynnes tuag at ddatblygiad polisi'r Llywodraeth am ychydig yn hwy. Rwyf yn gobeithio y bydd yr holl Aelodau'n gallu ailadrodd eu cefnogaeth i'n gwelliant cyntaf. Mae ein trydydd gwelliant yn ymwneud â'ch ymrwymiad dro ar ôl tro i gydweithio, Weinidog. Beth bynnag ei rinweddau—ac mae ganddo lawer—rwyf yn dal i fod braidd yn anesmwyth bod gan Cadw, un o ganghennau gweithredol y Llywodraeth, oruchafiaeth o'r fath ym maes strategaeth a chyflenwi. Mae eich cynigion ar gyfer cyflenwi gwasanaethau amgylchedd hanesyddol ar lefel ranbarthol a lleol wedi bod o ddiddordeb imi, yn enwedig mewn cysylltiad â'r hyn yr ydych wedi bod yn sôn amdano heddiw. Mae eich cynigion yn cyflwyno syniad cydweithio rhwng awdurdodau lleol—ymateb dealladwy, efallai, i'r cwestiwn ynghylch niferoedd swyddogion cadwraeth. Fodd bynnag, roedd yn drawiadol na wnaeth pob un o'r ymgynghoreion neidio ar y ffordd anochel ymlaen. Rhagwelodd rhai y byddai canlyniadau i adroddiad Williams ac roedd eraill yn ffyddiog y byddai'r rhwydweithiau presennol, sy'n cynnwys partneriaid nad ydynt yn y sector cyhoeddus, yn ddigonol. Byddai gennyf ddiddordeb, os oes gennych amser yn eich ymateb, mewn cael clywed sut y bydd y cynlluniau yr ydych wedi'u trafod heddiw'n cydfynd â'ch syniadau ar gyfer cynghrair treftadaeth; dof at honno ychydig yn nes ymlaen yn fy sylwadau.

One suggestion was particularly illuminating: that the archaeological trusts should be absorbed into local government because, as long as local authorities have to turn to third parties for advice, they will be unlikely to perceive such services as core activities. I think that that observation raises a tricky question about the balance of power, which arises across many public services at a local level. Public funding is often through local authorities, which are understandably tempted to see how they can retain money by delivering a service themselves, or by assuming the lead in any partnership delivery. When you are talking about the plans that you have at Neath Abbey, for example, I would be very interested to know how local authorities would fit in there. That, in turn, gives rise to third sector complaints, particularly from small operators, that they do not want to rock the boat in case they upset the council and their funding gets withdrawn. The consultation certainly examined how an alliance of heritage organisations might work in Wales, but it seems to have been done in isolation from local authorities. The public sector and the third and private sectors are seen as separate rather than all three making up an alliance. This will not overcome the worry that, once they become a funding route, local authorities assume too much power over other partners.

At this stage, my own view is that further consideration might be given, Minister, to the trust or network of trusts being made up of public, private and third-sector partners, taking expertise from all those sectors, which I think is particularly important in light of what you said today, and financed from all those sectors. I can see from information that has come out today that you are keen to understand the health composition activity support structures and financing of the sector, and that you tasked the WCVA to contact various archaeological groups and civic groups across Wales, asking them to complete the online community heritage survey this year. I hope that you will encourage a tourism voice in that survey, too, as you referred to the critical connection with heritage in your remarks today.

We tabled amendment 2 because tackling poverty is a big money demand for your department—a core priority, we heard the Minister for local government call it earlier this afternoon. It is a pervasive policy with outcomes required across all portfolios, and I agree that Government should reach out to disadvantaged communities, including through the heritage and education ideas that you have talked about today. It would help both Government and this Assembly if all portfolios published evidence of how they contribute to poverty reduction, so that we can better understand the annual statement on tackling poverty when it is brought before the Assembly.

Roedd un awgrym yn arbennig o ddadlennol: y dyldid amsugno ymddiriedolaethau archeolegol i mewn i lywodraeth leol oherwydd, cyhyd â bod rhaid i awdurdodau lleol droi at drydydd partion am gyngor, byddant yn annhebygol o ystyried bod gwasanaethau o'r fath yn weithgareddau craidd. Credaf fod y sylw'n codi cwestiwn anodd ynglŷn â chydbwysedd pŵer, sy'n codi ar draws llawer o wasanaethau cyhoeddus ar lefel leol. Daw cyllid cyhoeddus yn aml drwy awdurdodau lleol, sy'n cael eu temtio'n ddealladwy i weld sut y gallant gadw arian drwy ddarparu gwasanaeth eu hunain, neu drwy arwain unrhyw waith cyflenwi mewn partneriaeth. Pan siaradwch am y cynlluniau sydd gennych yn Abaty Nedd, er enghraifft, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn cael gwybod beth yn union fyddai rhan awdurdodau lleol yno. Mae hynny, yn ei dro, yn arwain at gwynion o'r trydydd sector, yn enwedig gan weithredwyr bach, nad ydynt yn dymuno cynhyrfu'r dyfroedd rhag ofn iddynt dramgwyddo'r cyngor a cholli eu cyllid. Roedd yr ymgynghoriad yn sicr yn archwilio sut y gallai cynghrair o sefydliadau treftadaeth weithio yng Nghymru, ond mae'n ymddangos bod hynny wedi ei wneud heb gynnwys awdurdodau lleol. Ystyrir bod y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat ar wahân, yn hytrach na bod y tri ohonynt yn creu cynghrair. Ni fydd hyn yn goresgyn y pryder y bydd gan awdurdodau lleol, ar ôl dod yn llwybr ariannu, ormod o bŵer dros bartneriaid eraill.

Ar hyn o bryd, fy marn i yw y gellid rhoi ystyriaeth bellach, Weinidog, i ffurfio'r ymddiriedolaeth neu'r rhwydwaith o ymddiriedolaethau o bartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gymryd arbenigedd o bob un o'r tri sector—rwyf yn meddwl bod hynny'n arbennig o bwysig yng ngoleuni'r hyn a ddywedasocho heddiw—a bod pob un o'r sectorau hynny'n ei hariannu. Gallaf weld o'r wybodaeth sydd wedi'i rhyddhau heddiw eich bod yn awyddus i ddeall strwythurau cymorth gweithgarwch cyfansoddiad iechyd a chyllid y sector, a'ch bod wedi rhoi'r dasg i CGGC i gysylltu â gwahanol grwpiau archeolegol a grwpiau dinesig ledled Cymru, gan ofyn iddynt gwblhau'r arolwg treftadaeth gymunedol ar-lein eleni. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn annog llais i dwristiaeth yn yr arolwg hwnnw, hefyd, gan ichi gyfeirio at y cysylltiad hanfodol â threftadaeth yn eich sylwadau heddiw.

Cyflwynwyd gwelliant 2 gennym oherwydd mae dileu tlodi'n alw mawr ar arian ar gyfer eich adran—yn gynharach y prynhawn yma, clywsom y Gweinidog llywodraeth leol yn ei galw'n flaenoriaeth graidd. Mae'n bolisi treiddiol sy'n mynnu canlyniadau ar draws pob portffolio, ac rwyf yn cytuno y dylai'r Llywodraeth estyn allan i gymunedau difreintiedig, gan gynnwys drwy gyfrwng y syniadau treftadaeth ac addysg yr ydych wedi sôn amdanynt heddiw. Byddai o gymorth i'r Llywodraeth ac i'r Cynulliad hwn pe byddai'r holl bortffolios yn cyhoeddi tystiolaeth o sut y maent yn cyfrannu at leihau tlodi, er mwyn inni gael gwell dealltwriaeth o'r datganiad blynyddol ar drechu tlodi pan gaiff ei ddwyn gerbron y Cynulliad.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Eluned Parrott to move amendments 4 and 5, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gofyniad statudol bod awdurdodau lleol yn llunio rhestr leol o adeiladau sy'n cael eu hystyried yn asedau hanesyddol yn eu hardaloedd drwy unrhyw Fil Treftadaeth yn y dyfodol, ac i ddarparu canllawiau a pholisiau enghreifftiol ar gyfer eu cynlluniau datblygu lleol i ategu hyn.*

Gwelliant 5—Aled Roberts

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu categori ar gyfer adeiladau rhestredig sy'n dangos agweddau pwysig ar hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu filwrol lleol.*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to introduce a statutory requirement for local authorities to develop a local list of buildings which are considered historic assets for their areas via any future Heritage Bill, and to provide guidance and model local development plan policies to support this.*

Amendment 5—Aled Roberts

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to produce a category for listing buildings which illustrate important aspects of local social, economic, cultural or military history.*

16:52

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 4 and 5, tabled in the name of Aled Roberts.

I, too, would like to put on record our support for the motion today, and for all the amendments tabled. I would like to thank the Welsh Government for bringing the debate. We share many of the sentiments expressed in terms of the value of Wales's historic environment, not only for understanding our history and culture, but also the huge economic benefits that our outstanding historic and cultural facilities bring to Wales. Successive studies by tourism organisations in Cardiff have shown that 80% of visitors to the capital visit a heritage attraction while they are here. Put very simply, in those blunt economic terms, it is a key selling point that simply cannot be replicated, and one of which we are, of course, hugely proud.

However, the responsibility is really to ensure that those treasures that are of local significance get the protection that they need alongside those that are of national importance as well—those that are well-known and well-loved by local communities as well as the ones that are more widely recognised.

Cynigiad welliannau 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Hoffwn innau hefyd gofnodi ein cefnogaeth i'r cynnig heddiw, ac i'r holl welliannau a gyflwynwyd. Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am gyflwyno'r ddadl. Rydym yn rhannu llawer o'r teimladau a fynegwyd am werth amgylchedd hanesyddol Cymru, nid yn unig o ran deall ein hanes a'n diwylliant, ond hefyd o ran y manteision economaidd enfawr y mae ein cyfleusterau hanesyddol a diwylliannol eithriadol yn eu creu i Gymru. Mae astudiaethau yn dilyn ei gilydd gan sefydliadau twristiaeth yng Nghaerdydd wedi dangos bod 80% o ymwelwyr â'r brifddinas yn ymweld ag atyniad treftadaeth tra eu bod yma. Yn syml iawn, yn y termau economaidd plaen hynny, mae'n bwynt gwerthu allweddol heb ei debyg, ac yn un yr ydym, wrth gwrs, yn falch iawn ohono.

Fodd bynnag, y cyfrifoldeb mewn gwirionedd yw sicrhau bod y trysorau hynny sydd o arwyddocâd lleol yn cael eu hamddiffyn yn briodol ochr yn ochr â'r rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol hefyd—y rhai sy'n adnabyddus ac yn annwyl i gymunedau lleol yn ogystal â'r rhai sy'n cael cydnabyddiaeth fwy eang.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In the last debate on the historic environment, I spoke about some of the forgotten sites of Wales, and the importance of ensuring that they get the care and recognition that they deserve. All the sites that I spoke of, though, were nationally scheduled monuments, and I believe that we must also act to protect those sites that are of historical or cultural significance to local communities, but are not nationally listed. We believe that the Welsh Government should make local listing statutory, as voluntary local listing simply has not worked, and has not been implemented in a consistent way across Wales. Powers to list local structures date back to the Welsh Office circular 61/96, but without conducting a freedom of information request, it is nigh-on impossible to find out if all the local authorities in Wales are using those powers at all. One local authority that we contacted had implemented them initially, but had not updated its local list since 1997. It was waiting originally for the pre-devolution Heritage Reform Bill, and now apparently it is waiting for the Welsh Government's heritage Bill, which we hope will put local lists on a statutory footing. In the meantime, 17 years have passed, and who knows what may have been lost in that kind of time. Do our communities know that these powers are available to help them recognise and protect the assets that are important to them? I fear that they are not necessarily as well-known as they might be.

Of course, expert advice and guidance can help communities to understand the history of their area, but it is essential that decisions regarding a local list are locally made. It is really impossible for someone not from the locality to express whether an asset has a local value or not to warrant its local listing. There are existing community groups—for example, historic societies and community councils—that could be supported to consider the assets in their local areas and work with experts to provide a good basis for this.

There are some great examples in the heritage portfolio of collaborative working—for example, the co-creation of heritage walks between academic experts and local communities, which we have seen working so well between local people in Ebbw Vale and the experts at Cardiff University, the University of South Wales and the BBC, to create the discovering Ebbw Vale trails in advance of the Eisteddfod there. There is also ongoing partnership work between communities in Caerau an Ely with Cardiff University and the Caerau heritage project. Those kinds of partnerships present us with an effective model for how local communities and experts can work together to better understand our historical environment and show us that there is real potential for a community-led approach to local listing, and that it is not only achievable but that it would also be hugely valuable to Wales and its communities.

If local listing is to be something a bit better than just a paper exercise, we really must give it some teeth. It is also incredibly important that local listing should carry some of the protections afforded by a national listing regime, or local communities that are trying to protect important local structures will naturally wonder what the point was of going through a listing regime.

Yn y ddadl ddiwethaf ar yr amgylchedd hanesyddol, siaradais am rai o safleoedd anghofiedig Cymru, ac am bwysigrwydd sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r gydnabyddiaeth y maent yn eu haeddu. Roedd yr holl safleoedd y siaradais amdanynt, fodd bynnag, yn henebion wedi'u rhestru'n genedlaethol, ac rwyf yn credu bod rhaid inni hefyd weithredu i warchod y safleoedd hynny sydd o bwys hanesyddol neu ddiwylliannol i gymunedau lleol, ond nad ydynt wedi'u rhestru'n genedlaethol. Rydym ni'n credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhestru lleol yn statudol, gan nad yw rhestru lleol gwirfoddol wedi gweithio, ac nid yw wedi'i weithredu'n gyson ledled Cymru. Mae pŵerau i restru adeileddau lleol yn dyddio'n ôl i gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, ond heb gynnal cais rhyddid gwybodaeth, mae bron yn amhosibl darganfod a yw'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio'r pŵerau hynny o gwbl. Roedd un awdurdod lleol y cysylltwyd ag ef wedi eu gweithredu i ddechrau, ond nid oeddent wedi diweddarau eu rhestr leol er 1997. I ddechrau, roeddent yn aros am y Bil Diwygio Treftadaeth cyn datganoli, ac nawr mae'n debyg eu bod yn aros am Fil treftadaeth Llywodraeth Cymru, yr ydym yn gobeithio y bydd yn rhoi sail statudol i restri lleol. Yn y cyfamser, mae 17 mlynedd wedi mynd heibio, a phwy a wŷr beth allai fod wedi'i gollu mewn cyfnod o'r fath. A yw ein cymunedau'n gwybod bod y pŵerau hyn ar gael i'w helpu i gydnabod a diogelu'r asedau sy'n bwysig iddynt? Mae arnaf ofn nad ydynt o reidrydd mor adnabyddus ag y gallent fod.

Wrth gwrs, gall cyngor ac arweiniad arbenigol helpu cymunedau i ddeall hanes eu hardal, ond mae'n hanfodol bod penderfyniadau am restr leol yn cael eu gwneud yn lleol. Mae'n wirioneddol amhosibl i rywun nad yw'n dod o'r ardal fynegi a oes gan ased werth lleol ai peidio i gyfiawnhau ei rhoi ar restr leol. Mae grwpiau cymunedol eisoes yn bodoli—er enghraifft, cymdeithasau hanesyddol a chynghorau cymuned—y gellid eu cynorthwyo i ystyried yr asedau yn eu hardaloedd lleol a gweithio gydag arbenigwyr i ddarparu sail gadarn i hyn.

Mae rhai enghreifftiau gwych yn y portffolio treftadaeth o weithio ar y cyd—er enghraifft, mae arbenigwyr academaidd a chymunedau lleol wedi cyd-greu teithiau cerdded treftadaeth; gweithiodd hynny'n arbennig o dda rhwng pobl leol yng Nglynebwy ac arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a'r BBC, i greu'r llwybrau darganfod Glynebwy cyn i'r Eisteddfod fynd yno. Ceir gwaith partneriaeth parhaus hefyd rhwng cymunedau yng Nghaerau a Threlái gyda Phrifysgol Caerdydd a'r prosiect treftadaeth Caerau. Mae'r mathau hynny o bartneriaethau'n rhoi model effeithiol inni ar gyfer sut y gall cymunedau ac arbenigwyr lleol weithio gyda'i gilydd i gael gwell dealltwriaeth o'n hamgylchedd hanesyddol ac yn dangos inni bod gwir botensial i ddefnyddio dulliau a arweinir gan gymunedau i lunio restri lleol, a bod hynny nid ym unig bosibl, ond y byddai hefyd yn hynod werthfawr i Gymru a'i chymunedau.

Os yw rhestru lleol am fod yn rhywbeth ychydig yn well na dim ond ymarfer ar bapur, mae'n rhaid inni roi rhywfaint o ddannedd iddo. Mae hefyd yn hynod bwysig bod rhestru lleol yn cynnwys rhai o'r mesurau gwarchod a ddarperir gan gyfundrefn restru genedlaethol, neu bydd cymunedau lleol sy'n ceisio diogelu strwythurau lleol pwysig yn naturiol yn gofyn tybed beth oedd pwynt mynd drwy drefn rhestru.

There is an example of this in the Vale of Glamorgan, in my region. It publishes a very comprehensive list of county treasures, but while it is an extremely interesting and useful document, its value would certainly be greater if the buildings it lists that are outside of the national listed status are afforded some form of protection. One example is the Cog area of Sully, where there is a collection of farm buildings dating from the seventeenth to the nineteenth century, all of which are county treasures, but only some of which are listed. The county's own draft LDP designates the land surrounding the unlisted Nicells farm as a potential development site for housing. It was a working farm for 350 years, a unique historical environment in the Vale and highly valued by local people, yet even the county treasure status cannot protect it.

Ceir enghraifft o hyn ym Mro Morgannwg, yn fy rhanbarth i. Mae'n cyhoeddi rhestr gynhwysfawr iawn o drysorau'r sir, ond er bod honno'n ddogfen hynod ddiddorol a defnyddiol, byddai'n sicr yn fwy gwerthfawr pe byddai'r adeiladau y mae'n eu rhestru nad oes ganddynt statws rhestredig cenedlaethol yn cael eu diogelu mewn rhyw ffordd. Ceir un enghraifft yn ardal Cog yn Sili, lle y mae casgliad o adeiladau fferm sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a phob un ohonynt yn drysorau'r sir, ond dim ond rhai ohonynt sydd wedi eu rhestru. Mae CDLI drafft y sir ei hun yn dynodi bod y tir o amgylch fferm Nicells, nad yw wedi ei rhestru, yn safle datblygu posibl ar gyfer tai. Roedd yn fferm weithredol am 350 o flynyddoedd, mae'n amgylchedd hanesyddol unigryw yn y Fro a werthfawrogir yn fawr gan bobl leol, ac eto ni all hyd yn oed y statws trysor y sir ei diogelu.

16:57

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I warmly welcome the action plan for chapels. According to an answer given last year by the Minister's predecessor, there are currently 3,153 listings in Wales relating to places of worship. The vast majority are churches and chapels but occasionally other structures, such as gates and religious statues, have also been listed. Of those, 214 are grade I, 525 are grade II\* and 2,440 are listed as grade II. I do not believe that it is possible to protect all those buildings, and it may not even be desirable to do so. One grade II listed chapel in my constituency caught fire last year and had to be demolished. It is almost as if any chapel built in the nineteenth century, if you apply for listing, will get it.

In recent decades, we have seen a gradual and continual decline in the tradition of visiting the local chapel. It was only in the late nineteenth and the first decade of the twentieth century that we saw these larger, ornate, non-conformist chapel buildings being built on a regular basis to cater for the ever growing demand of congregations and local communities. Many of us recall, myself included, our local chapels being packed. They were once the beating heart of communities, but for the last 50 years they have been in fairly substantial decline. The question is: what has become of these extraordinary buildings that still dominate local towns and villages throughout Wales?

These days, the upkeep of these remarkable buildings has fallen onto the shoulders of the remaining members of the congregation. As one deacon said to me, 'We inherited this chapel from our parents, but our children do not want to inherit it from us'. Wales's ecclesiastical heritage plays a fine and significant part in the nation's built cultural heritage. Many who do not attend chapel in Wales attach a huge significance to the architectural merit and status they carry within the local community. Many of them are major local landmarks.

Yn gyntaf, rwyf yn croesawu'n fawr y cynllun gweithredu ar gyfer capeli. Yn ôl ateb a roddwyd y llynedd gan ragflaenydd y Gweinidog, mae 3,153 o adeiladau rhestredig Cymru ar hyn o bryd yn ymwneud â mannau addoli. Eglwysi a chapeli yw'r mwyafrif helaeth, ond o bryd i'w gilydd mae adeileddau eraill, megis giatiau a cherfluniau crefyddol, hefyd wedi'u rhestru. O'r rheini, mae 214 yn radd I, 525 yn radd II\* a 2,440 wedi'u rhestru fel gradd II. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl amddiffyn yr holl adeiladau hynny, ac efallai na fyddai hyd yn oed yn beth da i wneud hynny. Aeth un capel rhestredig gradd II yn fy etholaeth i ar dân y llynedd a bu'n rhaid ei ddimychwel. Mae bron fel bod unrhyw gapel a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cael ei restru, os gwneir cais am hynny.

Yn ystod y degawdau diweddar, rydym wedi gweld dirywiad graddol a pharhaus yn y traddodiad o ymweld â'r capel lleol. Dim ond ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif, y gwelwyd adeiladau'r capeli anghydfurfiol mawr, addunedig hyn yn rheolaidd i ddarparu ar gyfer galw cynyddol cynulleidfaoedd a chymunedau lleol. Mae llawer ohonom, gan fy nghynnwys i, yn cofio ein capeli lleol dan eu sang. Hwyl oedd curiad calon cymunedau ar un adeg, ond am yr 50 mlynedd diwethaf maent wedi bod yn dirywio'n dra sylweddol. Y cwestiwn yw: beth sydd wedi digwydd i'r adeiladau eithriadol hyn sy'n dal i ddominyddu trefi a phentrefi lleol ledled Cymru?

Y dyddiau hyn, mae'r gwaith o gynnal a chadw'r adeiladau rhyfeddol hyn wedi disgyn ar ysgwyddau yr aelodau hynny o'r gynulleidfa sydd ar ôl. Fel y dywedodd un diacon wrthyf, 'Etifeddu'r capel hwn gan ein rhieni wnaethom ni, ond nid oes ar ein plant eisiau ei etifeddu gennym ni'. Mae treftadaeth eglwysig Cymru'n chwarae rhan wych ac arwyddocaol yn nhreftadaeth ddiwylliannol adeiledig y genedl. Mae llawer nad ydynt yn mynychu capel yng Nghymru'n rhoi arwyddocâd mawr i'w teilyngdod a'u statws pensaernïol yn y gymuned leol. Mae llawer ohonynt yn dirnodau lleol pwysig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have looked around Wales and it is obvious, in this day and age, that it now has far in excess of the number of chapels it needs for its current religious needs. What we have seen in response to that excess is the closure of many, in an attempt to save money as well as save these magnificent buildings. In Swansea, we have former chapels being sympathetically adapted or converted for a number of different uses, ranging from flats, houses, businesses, restaurants, offices, community centres and, in some cases, even converted into places of worship for other religions.

One notable example of a former Swansea chapel that has been sympathetically adapted is Bethesda, also known as the chapel of Christmas Evans, which now houses the NSPCC's Swansea offices.

When the congregation becomes too small to support a chapel, it inevitably becomes redundant. Regrettably, these redundant unused chapel buildings fall into severe decline over the years, which leads either to the destruction of the building or, when they have listed status under Cadw, they remain in a state of decline and present themselves as an upsetting eyesore in local communities.

In my opinion, what is preferable is for chapels to remain as places of worship or, failing this, to be converted into facilities that are available for local communities to use. Keeping these historical buildings in some familiar shape or form is better than the alternative of losing them altogether. In the past, Welsh chapels could rely on community and congregational donations to fund maintenance and running costs, but that is no longer an option. We are now seeing some great financial assistance and support given to chapels in need, thanks to Government-sponsored schemes, such as the listed places of worship scheme and the community facilities and activities programme, along with help from organisations and public bodies ranging from Cadw to the Big Lottery. This level of demand for financial assistance along with stringent eligibility criteria has meant that not all chapels have been successful in their applications. In my own constituency, three or four chapels have just fallen down.

It is also worth accepting that with public finances facing a challenging time, support provided by the Welsh Government and by public organisations is going to be limited fairly substantially. I represent a constituency with very many chapel buildings, but two of these are of great architectural merit and one is of great historical merit. I know that I will upset a number of people when I say this, including probably my own family, but New Siloh, which is a huge chapel building in Landore, is likely to close in the next 18 months. Tabernacle in Morriston is iconic and was once described by George Thomas as the cathedral of Welsh nonconformity, but it may have 10 or 20 years left. The third is Mynyddbach Chapel, the chapel of Daniel James of Calon Lân fame. These have to be the key buildings that we have to look after. They will close and become derelict unless a strategy to save them is created.

Rwyf wedi edrych o gwmpas Cymru ac mae'n amlwg, yn yr oes sydd ohoni, bod ganddi erbyn hyn lawer mwy o gapeli na'r nifer sydd ei angen ar gyfer ei hanghenion crefyddol presennol. Yr hyn yr ydym wedi'i weld mewn ymateb i'r gormodedd hwnnw yw cau llawer ohonynt, mewn ymgais i arbed arian yn ogystal ag achub yr adeiladau godidog hyn. Yn Abertawe, mae rhai hen gapeli wedi eu haddasu neu eu trawsnewid yn ddymunol ar gyfer nifer o ddefnyddiau gwahanol, yn amrywio o fflatiau, tai, busnesau, bwytai, swyddfeydd, canolfannau cymunedol ac, mewn rhai achosion, maent hyd yn oed wedi cael eu trawsnewid yn fannau addoli ar gyfer crefyddau eraill.

Un enghraifft nodedig o hen gapel yn Abertawe sydd wedi ei addasu'n ddymunol yw Bethesda, a elwir hefyd yn gapel Christmas Evans, sydd bellach yn gartref i swyddfeydd yr NSPCC yn Abertawe.

Pan fydd y gynulleidfa'n mynd yn rhy fychan i gynnal capel, mae'n anochel y bydd yn mynd yn segur. Yn anffodus, mae'r adeiladau capel segur hyn yn dirywio'n ddifrifol dros y blynyddoedd, sy'n arwain naill ai at ddirywio'r adeilad neu, pan fydd ganddo statws rhestredig o dan Cadw, maent yn parhau i ddirywio ac yn mynd yn gas eu gweld mewn cymunedau lleol.

Yn fy marn i, mae'n well cadw capeli fel manau addoli neu, os nad yw hyn yn bosibl, eu troi'n gyfleusterau sydd ar gael i gymunedau lleol eu defnyddio. Mae cadw'r adeiladau hanesyddol hyn ar ryw ffurf gyfarwydd yn well na'r dewis arall o'u colli'n gyfan gwbl. Yn y gorffennol, gallai capeli Cymru ddibynnu ar roddion gan eu cynulleidfaoedd a'u cymunedau i dalu costau cynnal a chadw a'u rhedeg, ond nid yw hynny'n ddewis erbyn hyn. Heddiw, caiff llawer o gymorth a chefnogaeth ariannol eu rhoi i gapeli mewn angen, diolch i gynlluniau a noddur gan y Llywodraeth, megis y cynllun manau addoli rhestredig a'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, ynghyd â chymorth gan sefydliadau a chyrrff cyhoeddus yn amrywio o Cadw i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae lefel y galw am gymorth ariannol, ynghyd â meini prawf cymhwyster llym, wedi golygu nad yw ceisiadau pob capel wedi bod yn llwyddiannus. Yn fy etholaeth i fy hun, mae tri neu bedwar capel newydd ddymchwel.

Mae hefyd yn werth derbyn, gan fod cyllid cyhoeddus yn wynebu cyfnod heriol, y bydd cyfyngu helaeth ar y gymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a chan sefydliadau cyhoeddus. Rwyf yn cynrychioli etholaeth â llawer iawn o adeiladau capel, ond mae dau o'r rhain o werth pensaernïol pwysig ac un o werth hanesyddol pwysig. Rwyf yn gwybod y byddaf yn gwneud nifer o bobl yn anhapus wrth ddweud hyn, gan gynnwys yn ôl pob tebyg fy nheulu fy hun, ond mae Seilo Newydd, sef adeilad capel enfawr yng Nglandŵr, yn debygol o gau yn ystod y 18 mis nesaf. Mae Tabernacl, Treforys yn eiconig ac fe'i disgrifiwyd unwaith gan George Thomas fel eglwys gadeiriol anghydfurfaeth Cymru, ond mae ganddo efallai 10 neu 20 mlynedd ar ôl. Y trydydd yw Capel Mynyddbach, capel Daniel James sy'n enwog am ysgrifennu geiriau Calon Lân. Mae'n rhaid inni ofalu am yr adeiladau allweddol hyn. Byddant yn cau ac yn mynd yn ddefilïon oni bai ein bod yn creu strategaeth i'w hachub.



If we can save the castles of our Norman invaders, surely we can save the chapels that played such a major part in the history of the Welsh people. There are three political parties in this room today that owe a huge debt to the Welsh chapels of the nineteenth and early twentieth centuries.

Os gallwn ni achub cestyll ein goresgynwyr Normanaidd, siawns na allwn ni achub y capeli a oedd yn rhan mor bwysig o hanes y Cymry. Mae tair plaid wleidyddol yn yr ystafell hon heddiw a chanddynt ddyled enfawr i gapeli Cymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

17:02

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Plaid Cymru will be supporting all of the amendments put forward today by the Conservatives and the Liberal Democrats.

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd heddiw gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I think that amendment 1 is a recognition of what happens when the Welsh Government does want to work in an inclusive way—something that we have not seen today, interestingly—taking on board the views not only of opposition parties, such as my own, but also the staff who have often spoken through us, as well as outside bodies. We should pay tribute to the Minister for the way in which he has conducted this consultation and for deciding in favour of what was—I understand—the overwhelming weight of opinion in relation to the royal commission.

Rwyf yn credu bod gwelliant 1 yn gydnabyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd pan fydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio mewn ffordd gynhwysol—rhywbeth nad ydym wedi'i weld heddiw, yn ddiddorol—gan ystyried barn, nid yn unig y gwrthbleidiau, fel fy mhlaid i, ond hefyd y staff sydd yn aml wedi siarad drwom ni, yn ogystal â chyrrff allanol. Dylem dalu teyrnged i'r Gweinidog am y ffordd y mae wedi cynnal yr ymgynghoriad hwn ac am benderfynu o blaid yr hyn a oedd—rwyf ar ddeall—yn farn eithriadol gref o ran y comisiwn brenhinol.

Amendments 2 and 3 amount to further scrutiny of Welsh Government work and Plaid Cymru would always welcome that in this Chamber.

Byddai gwelliannau 2 a 3 yn golygu craffu ymhellach ar waith Llywodraeth Cymru a byddai Plaid Cymru bob amser yn croesawu hynny yn y Siambr hon.

With amendments 4 and 5, it is a shame that this Assembly has not had the opportunity until now to vote on the idea of adopting the ideas with regard to more power over local listing and that which has economic and historical importance. If this had happened two or three years ago, we might not have had to encounter the problems that we had in Port Talbot with the demolition of Custom House and the Royal Buildings, which are now gone. I think that it will change the feeling of the town for ever. I was looking at some pictures on Twitter recently of my home town, Merthyr Tydfil, and the landscape there. It is interesting for people looking back to see how landscapes have changed, but also to see what is still there and to take pride in the fact that there are many important buildings still there. What is sad in the case of Port Talbot is that we potentially will not recognise some of those areas because such important buildings are being demolished as we speak.

Gyda gwelliannau 4 a 5, mae'n drueni nad yw'r Cynulliad hwn wedi cael cyfle hyd yn hyn i bleidleisio ar y syniad o fabwysiadu'r syniadau o ran mwy o rym dros restru lleol a rhestru'r hyn sydd o bwysigrwydd economaidd a hanesyddol. Pe byddai hyn wedi digwydd ddwy neu dair blynedd yn ôl, efallai na fyddem wedi gorfod wynebu'r problemau a gawsom ym Mhort Talbot gyda dymchwel Custom House a'r Adeiladau Brenhinol, sydd wedi mynd erbyn hyn. Rwyf yn credu y bydd hynny'n newid teimlad y dref am byth. Roeddwn yn edrych ar luniau ar Twitter yn ddiweddar o fy nhref enedigol, Merthyr Tudful, a'r dirwedd yno. Mae'n ddiddorol i bobl edrych yn ôl i weld sut y mae tirweddau wedi newid, ond hefyd i weld beth sy'n dal i fod yno ac i ymfalchio yn y ffaith fod llawer o adeiladau pwysig yn dal i fod yno. Yr hyn sy'n drist yn achos Port Talbot yw'r posibilrwydd na allwn adnabod rhai o'r ardaloedd hynny gan fod adeiladau pwysig o'r fath yn cael eu dymchwel ar y funud hon.

Instead of trying to find abstract issues such as those things to argue over, we could have used an amendment like this to argue the real reason why we wanted the buildings to be saved—that they were much locally cherished, they were historically important and they are vital for teaching our young people about the industrial era in Wales. My worry is that many of these buildings will vanish for ever and we will not be able to tell our stories to future generations. However, the noise that we did create led to a series of conversations and we were able to get over—I hope—an argument that the historic environment is not just about castles and battles, but however important they are; it is about how people value their local landmarks.

Yn hytrach na cheisio dod o hyd i faterion haniaethol megis y pethau hynny i ddadlau ynglŷn â hwy, gallem fod wedi defnyddio gwelliant fel hwn i ddadlau'r gwir reswm pam yr oeddem am i'r adeiladau gael eu hachub—eu bod yn annwyl i bobl leol, eu bod yn hanesyddol bwysig a'u bod yn hanfodol i addysgu ein pobl ifanc am y cyfnod diwydiannol yng Nghymru. Fy mhryder yw y bydd llawer o'r adeiladau hyn yn diflannu am byth ac na fyddwn yn gallu adrodd ein straeon wrth genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, arweiniodd y swm a wnaethom at gyfres o sgysriau ac fe wnaethom lwyddo—rwyf yn gobeithio—i gyfleu'r ddadl nad dim ond mater o gestyll a brwydrau yw'r amgylchedd hanesyddol, er mor bwysig ydynt; mae'n fater o sut y mae pobl yn gwerthfawrogi eu tirnodau lleol.

I will take this opportunity to warn again of my very real fear that cuts to heritage will lead to a loss of understanding and interpretation of our past. I note that the merger of the royal commission with Cadw will not take place for the time being, but staff in the sector tell me that it is proving far too tempting for managers looking to make reductions to glance across their payrolls and settle on who costs the most. The problem with this is that if you remove those with the richest understanding, they will no longer be able to pass it on to the people who replace them. Make another round of cuts on those replacements in a few years' time, and the ability to properly mentor is reduced once more, and so on, until the expertise is lost to our heritage sector forever. Minister, I really hope that that is not going to happen in this case.

The fact remains that for all of the wonderful advances that technology brings in archiving, for example, you still need humans at the wheel to ensure that the real future for our past is one in which the young people of tomorrow understand and appreciate the full richness of their heritage.

17:06

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to speak in this debate. I want to use the opportunity to highlight some of the historic buildings and areas in my constituency of Cardiff North, but first of all I would like to congratulate the Minister on his strategy. I particularly support the importance that he has placed on accessibility and tackling poverty. I think that this is a very good way forward.

In the Welsh Government consultation document, 'The future of our past', it says that there are 523 conservation areas in Wales, one of which is Rhiwbina garden village in my constituency of Cardiff North. It began in the 1890s as part of the garden village movement in response to the industrial revolution, with the aim of providing better conditions for the working class, and having the principles of co-operative ownership. Now, all of the homes in Rhiwbina garden village are sold off privately, and the Rhiwbina garden village is designated as a conservation area. It is very important that we do all that we can to preserve unique areas like Rhiwbina garden village.

We need to recognise, and the Minister has done so, the importance of third sector bodies in promoting the historic environment. I would like to pay tribute to Rhiwbina Civic Society. I have been in attendance at the unveiling of two blue plaques that they have put up in the village, recognising the unique heritage of this particular area. The first one was for Iorwerth Peate, the founder-director of the national folk museum. Interestingly, that blue plaque went up on the front wall of the house of Sue Essex, the former Assembly Member and Minister. Perhaps a plaque should have been put up for her as well. The second plaque was for Edgar Chappell, teacher, town planner, district councillor, author and alderman. These have been put up by the efforts of the Rhiwbina Civic Society. I think it is really important that we continue to recognise how much voluntary effort is put into such achievements.

Achubaf ar y cyfle hwn i'ch rhybuddio eto am fy ngwir ofn y bydd toriadau i dreftadaeth yn arwain at golli dealltwriaeth a dehongliad o'n gorffennol. Nodaf na fydd uno'r comisiwn brenhinol â Cadw yn digwydd am y tro, ond mae staff yn y sector yn dweud wrthyf ei bod yn llawer gormod o demtasiwn i reolwyr sy'n bwriadu gwneud gostyngiadau i edrych ar eu cyflogresi a setlo ar bwy bynnag sy'n costio fwyaf. Y broblem yw os cewch wared ar y rhai sydd â'r ddealltwriaeth gyfoethocaf, ni fyddant bellach yn gallu ei phasio ymlaen i'r bobl sy'n dod yn eu lle. Gwnewch gylch arall o doriadau ar yr aelodau staff newydd hynny ymhen ychydig flynyddoedd, ac mae'r gallu i fentora'n briodol yn cael ei leihau unwaith eto, ac yn y blaen, hyd nes y caiff yr arbenigedd ei golli o'n sector treftadaeth am byth. Weinidog, rwyf yn wirioneddol yn gobeithio na fydd hynny'n digwydd yn yr achos hwn.

Mae'n dal i fod yn ffaith, er holl ddatblygiadau gwych technoleg ym maes archifo, er enghraifft, bod angen pobl wrth y llyw i sicrhau bod gwir ddyfodol ein gorffennol yn un lle mae pobl ifanc yfory'n deall ac yn gwerthfawrogi holl gyfoeth eu treftadaeth.

Rwyf yn falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon. Hoffwn achub ar y cyfle i dynnu sylw at rai o'r adeiladau a'r ardaloedd hanesyddol yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, ond yn gyntaf oll hoffwn longyfarch y Gweinidog ar ei strategaeth. Cefnogaf yn arbennig y pwysigrwydd y mae wedi'i roi i hygyrchedd a threchu tlodi. Rwyf yn credu bod hon yn ffordd dda iawn ymlaen.

Yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Dyfodol ein gorffennol', mae'n dweud bod 523 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru, ac un ohonynt yw pentref gardd Rhiwbeina yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd. Dechreuodd yn y 1890au yn rhan o'r mudiad pentrefi gardd mewn ymateb i'r chwyldro diwydiannol, gyda'r nod o ddarparu gwell amodau i'r dosbarth gweithiol, ac yn seiliedig ar egwyddorion perchnogaeth gydweithredol. Heddiw, mae pob un o'r cartrefi ym mhentref gardd Rhiwbeina wedi'u gwerthu'n breifat, ac mae pentref gardd Rhiwbeina wedi ei ddynodi'n ardal gadwraeth. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud popeth a allwn i warchod ardaloedd unigryw fel pentref gardd Rhiwbeina.

Mae angen inni gydnabod, ac mae'r Gweinidog wedi gwneud hynny, pa mor bwysig yw cyrff y trydydd sector o ran hybu'r amgylchedd hanesyddol. Hoffwn dalu teyrnged i Gymdeithas Ddinesig Rhiwbeina. Rwyf wedi bod yn bresennol wrth i ddau blac glas gael eu dadorchuddio yn y pentref i gydnabod treftadaeth unigryw'r ardal benodol hon. Roedd y cyntaf ar gyfer Iorwerth Peate, sylfaenydd-gyfarwyddwr yr amgueddfa werin genedlaethol. Yn ddiddorol, gosodwyd y plac glas hwnnw ar wal flaen tŷ Sue Essex, y cyn Aelod Cynulliad a Gweinidog. Efallai y dylid bod wedi gosod plac ar ei chyfer hithau hefyd. Roedd yr ail blac ar gyfer Edgar Chappell, athro, cynllunydd tref, cyngorydd dosbarth, awdur a henadur. Cafodd y rhain eu gosod diolch i ymdrechion Cymdeithas Ddinesig Rhiwbeina. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i gydnabod cymaint o ymdrech wirfoddol a roddir i gyflawniadau o'r fath.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I hope that the next plaque might be for a woman—for the writer Kate Roberts, perhaps, because she also lived in Rhiwbina. Another eminent writer for television and screen was Andrew Davies, who also lived in Rhiwbina. So, maybe some time in the future there might be a blue plaque up there for him. These sorts of efforts add so much to the interest and attractiveness of areas to visitors, as we have talked about tourism, but also to the people who live there and the pride that they can take in their area.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:09.*

## **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of the local list, it is very important for local people to be able to recognise the unique points in their areas. Last time, or perhaps a year or so ago when we debated this issue, I mentioned the Cow and Snuffers pub in Llandaff north. It was very sad when this very historic pub closed, because this is where Disraeli used to meet his woman friend from Tongwynlais. [Laughter.] So, it had a particular purpose. However, this has now been refurbished as flats, but the name 'Cow and Snuffers' is still engraved in the plaster on the wall and the development of the flats is called Disraeli House. So, I think that it is good that this development has kept the elements of interest. For the local population, it was tremendously important. There was a huge campaign to keep it as a pub and to try to keep all of these local elements. We have already had a discussion about how important the castles and ancient heritage are, but this sort of heritage is also very important.

I just want to say very quickly that there are some very important buildings that are at risk in Cardiff North. In the grounds of Whitchurch Hospital, there are four octagonal shelters that are at risk. We have a list of all the historic buildings in Cardiff that are at risk. There is also the chapel in Whitchurch Hospital, which is suffering, they say, from ongoing decline.

Finally, in Cardiff North, we are very pleased that the banks and structure of Llanishen reservoir have been listed by Cadw as a historic structure, linked to the reservoirs that stretch up into the Brecon Beacons. We hope eventually to see them restored to their previous glory with the reservoir filled now that Celsa steelworks has taken over from Western Power Distribution.

Rwyf yn gobeithio y gallai'r plac nesaf fod ar gyfer menyw —yr awdures Kate Roberts, efallai, oherwydd bu hithau hefyd yn byw yn Rhiwbina. Awdur enwog arall ar gyfer teledu a'r sgrin oedd Andrew Davies; bu yntau'n byw yn Rhiwbina. Felly, rywbryd yn y dyfodol, efallai y bydd plac glas yno ar ei gyfer ef. Mae'r mathau hyn o ymdrechion yn ychwanegu cymaint at ddiddordeb ac atyniad ardaloedd i ymwelwyr, gan ein bod wedi sôn am dwristiaeth, ond hefyd i'r bobl sy'n byw yno a'r balchder y gallant ei deimlo tuag at eu hardal.

*The Presiding Officer took the Chair at 17:09.*

O ran y rhestr leol, mae'n bwysig iawn bod pobl leol yn gallu adnabod y pethau unigryw am eu hardaloedd. Y tro diwethaf, neu efallai flwyddyn neu ddwy yn ôl pan fuom ni'n trafod y mater hwn, soniais am dafarn y Cow and Snuffers yng ngogledd Llandaf. Roedd yn drist iawn pan gaewyd y dafarn hanesyddol iawn hon, gan mai dyma lle'r arferai Disraeli gwrdd â'i gyfeilles o Dongwynlais. [Chwerthin.] Felly, roedd diben penodol i'r dafarn. Fodd bynnag, mae hi bellach wedi ei hadnewyddu yn fflatiau, ond mae'r enw 'Cow and Snuffers' yn dal wedi'i ysgythru yn y plastr ar y wal ac enw datblygiad y fflatiau yw Tŷ Disraeli. Felly, credaf ei fod yn beth da bod y datblygiad hwn wedi cadw'r elfennau o ddiddordeb. I'r boblogaeth leol, roedd yn aruthrol o bwysig. Bu ymgyrch enfawr i'w chadw fel tafarn ac i geisio cadw pob un o'r elfennau lleol hyn. Rydym eisoes wedi cael trafodaeth am ba mor bwysig yw'r cestyll a'r dreftadaeth hynafol, ond mae'r math hwn o dreftadaeth hefyd yn bwysig iawn.

Hoffwn ddweud yn gyflym iawn fod rhai adeiladau pwysig iawn sydd mewn perygl yng Ngogledd Caerdydd. Ar dir Ysbyty'r Eglwys Newydd, mae pedair lloches wythonglog sydd mewn perygl. Mae gennym restr o'r holl adeiladau hanesyddol yng Nghaerdydd sydd mewn perygl. Ceir hefyd y capel yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, sydd yn dioddef, yn ôl pob sôn, dirywiad parhaus.

Yn olaf, yng Ngogledd Caerdydd, rydym yn falch iawn bod ochrau ac adeiledd cronfa ddŵr Llanisien wedi eu rhestru gan Cadw fel adeiledd hanesyddol, yn gysylltiedig â'r cronfeydd sy'n ymestyn i fyny i Fannau Brycheiniog. Ein gobaith yn y pen draw yw eu gweld wedi'u hadfer i'w gogoniant blaenorol gyda'r gronfa'n llawn nawr bod gwaith dur Celsa wedi cymryd yr awenau oddi wrth Western Power Distribution.

I also welcome the work that has been done and I welcome the report. Much has been said, and I would just like to focus on, I suppose, almost the sub-level of historic monuments, which is what really concerns me. I would also like to tie that in a little bit with the whole cwricwlwm Cymreig debate because the teaching of history and the teaching of people and the education system actually fit very much within that whole understanding and valuing of heritage. I would hope that, in the Bill you bring forward and the way you focus on what will actually achieve real change, you will focus on a lot of heritage that is totally dependent on volunteers and that does not form part of any real strategy. The buildings may be listed or whatever, but, were it not for the volunteers, they would become defunct and fall into disrepair. I will give you three examples within the Pontypridd constituency that fall exactly into that category.

Take Nantgarw Chinaworks Museum as an example. It is run by volunteers, it was resurrected by volunteers and it is maintained by volunteers, who have had to work their way through a complicated lease process, which they have now gone through. There has been very little support from almost any direction. If that trust fails, that is probably the end of that historic area and an end to any possibility of development of the kilns and the site for educational purposes. Take Taff's Well thermal springs for example. They are the only thermal springs this side of Bath. They are virtually inaccessible and virtually unrecognised as the sort of community and civic monument they actually are. People are desperately trying to form a trust in order to do something to try to get money from somewhere and so on, but, again, it is not really part of any cohesive plan.

Take the Hetty winding gear as an example—just down from Trehafod. There, volunteers have got the funding and restored an 1875 steam engine. It is the only one of its type. It has excellent educational benefits and purposes for students, particularly for students of engineering. It is totally inaccessible at the moment. Volunteers have struggled to pull together a lease, which they have now got. Hopefully, they will now move forward in terms of seeking funding. However, in each of those cases, if the trusts fall apart or collapse for any reason, those monuments effectively fall out of the system.

I think that what is fundamentally important in anything that you do, Minister, with regard to how you consider this, is not only that we have to get these to be properly part of a strategic plan, but that part of what we do in terms of funding has got to be to actually support those volunteers. We know that we do not have the funding to have institutional ownership and management of them in the way that we would perhaps like. The volunteers do an incredible job, but with very little support, and much of our heritage is actually at risk if we do not give them some sort of support and take them out of the limbo that they work in at the moment.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud ac yn croesawu'r adroddiad. Mae llawer wedi cael ei ddweud, a hoffwn ganolbwyntio, am wn i, ar yr hyn sydd bron yn is-lefel henebion hanesyddol, sef yr hyn sy'n peri pryder gwirioneddol i mi. Hoffwn hefyd gysylltu hynny i raddau â'r holl ddadl am y Cwricwlwm Cymreig oherwydd mae addysgu hanes ac addysgu pobl a'r system addysg mewn gwirionedd yn cyd-fynd yn fawr iawn â'r ddirnadaeth a'r gwerthfawrogiad o dreftadaeth. Byddwn yn gobeithio, yn y Bil yr ydych yn ei gyflwyno a'r ffordd yr ydych yn canolbwyntio ar yr hyn a fydd mewn gwirionedd yn cyflawni newid gwirioneddol, y byddwch yn canolbwyntio ar lawer o dreftadaeth sy'n gwbl ddbynnol ar wirfoddolwyr ac nad yw'n ffurfio rhan o unrhyw wir strategaeth. Efallai fod yr adeiladau'n rhedredig neu beth bynnag, ond, oni bai am y gwirfoddolwyr, byddent yn segur ac yn adfeilio. Rhof dair enghraifft ichi o fewn etholaeth Pontypridd sy'n disgyn yn union i'r categori hwnnw.

Ystyriwch Amgueddfa Crochendy Nantgarw er enghraifft. Mae'n cael ei chynnal gan wirfoddolwyr, cafodd ei hatgyfodi gan wirfoddolwyr ac mae'n cael ei chynnal a'i chadw gan wirfoddolwyr, sydd wedi gorfod gweithio drwy broses prydles gymhleth, ac wedi dod drwyddi erbyn hyn. Ychydig iawn o gefnogaeth a gafwyd o unrhyw gyfeiriad bron. Os bydd yr ymddiriedolaeth honno'n methu, mae'n debyg mai dyna fydd diwedd yr ardal hanesyddol honno a diwedd unrhyw bosibilrwydd o ddatblygu'r odynau a'r safle at ddibenion addysgol. Ystyriwch ffynhonnau thermol Ffynnon Taf, er enghraifft. Dyma'r unig ffynhonnau thermol yr ochr hon i Gaerfaddon. Mae bron yn amhosibl mynd atynt, a phrin yw'r gydnabyddiaeth ohonynt fel y math o heneb gymunedol a dinesig yr ydynt mewn gwirionedd. Mae pobl yn daer yn ceisio ffurfio ymddiriedolaeth er mwyn gwneud rhywbeth i geisio cael arian o rywle ac yn y blaen, ond, unwaith eto, nid yw'n wir yn rhan o unrhyw gynllun cydlynol.

Ystyriwch offer weindio Hetty er enghraifft—ychydig i lawr o Drehafof. Yno, mae gwirfoddolwyr wedi cael cyllid ac wedi adfer injan stêm o 1875. Dyma'r unig un o'i math. Mae ganddi fanteision a dibenion addysgol rhagorol i fyfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr peirianeg. Mae'n hollol anhygyrch ar hyn o bryd. Mae gwirfoddolwyr wedi cael trafferth i dynnu prydles at ei gilydd, ac maent bellach wedi'i chael. Y gobaith yw y byddant bellach yn symud ymlaen o ran ceisio cyllid. Fodd bynnag, ym mhob un o'r achosion hynny, os yw'r ymddiriedolaethau'n disgyn ar wahân neu'n methu am unrhyw reswm, bydd yr henebion hynny i bob pwrpas yn peidio â bod yn rhan o'r system.

Rwyf yn meddwl mai'r hyn sy'n hanfodol bwysig mewn unrhyw beth a wneuch, Weinidog, o ran sut yr ydych yn ystyried hyn, yw nid yn unig bod rhaid i'r rhain fod yn rhan briodol o gynllun strategol, ond bod yn rhaid i ran o'r hyn a wnawn o ran cyllid fod yn cefnogi'r gwirfoddolwyr hynny mewn gwirionedd. Rydym yn gwybod nad oes gennym y cyllid i gael perchnogaeth a rheolaeth sefydliadol drostynt fel y byddem efallai'n ei hoffi. Mae'r gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith anhygoel, ond gydag ychydig iawn o gefnogaeth, ac mae llawer o'n treftadaeth mewn perygl gwirioneddol os nad ydym yn rhoi rhyw fath o gymorth iddynt ac yn eu symud o'r limbo y maent yn gweithio ynddo ar hyn o bryd.

One final plea for something I would like out of any legislation that comes forward is this: we have a lot of legislation that is about protecting and preserving much of our heritage. However, there is nothing there that creates a legal obligation on the owners and those responsible to maintain it. Consequently, we have a system that allows for the gradual deterioration of much of our heritage, et cetera, to such an extent that the thing falls down and then the listing proves to have been worthless.

Gwnaf un ple olaf am rywbeth yr hoffwn ei weld yn deillio o unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir: mae gennym llawer o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu a chadw llawer o'n treftadaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol ar y perchnogion a'r rhai sy'n gyfrifol am ei gynnal a'i gadw. O ganlyniad, mae gennym system sy'n caniatáu i lawer o'n treftadaeth, ac ati, ddirywio'n raddol i'r fath raddau nes bod y peth yn disgyn i lawr sy'n golygu bod y gwaith o'i restru wedi bod yn ddiwerth.

What we need is a legal obligation and a mechanism that actually requires the owners of these buildings to maintain them or to pass ownership over to the public in some way. I know that it is not an easy thing to do, but it is vital, otherwise we have a whole host of monuments, historic and valuable buildings that will gradually disappear off the map. We have to prevent that decline and loss and address the fact that the legislative process that we have and the protections that we have allow their destruction through inaction, Minister.

Yr hyn sydd ei angen arnom yw ymrwymiad cyfreithiol a mecanwaith sydd wir yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion yr adeiladau hyn eu cynnal a'u cadw neu drosglwyddo perchnogaeth i'r cyhoedd mewn rhyw ffordd. Gwn nad yw hynny'n beth hawdd ei wneud, ond mae'n hanfodol, neu bydd gennym lu o henebion, adeiladau hanesyddol a gwerthfawr a fydd yn diflannu'n raddol oddi ar y map. Mae'n rhaid inni atal y dirywiad a'r golled hon ac unioni'r ffaith fod y broses ddeddfwriaethol sydd gennym a'r amddiffyniadau sydd gennym yn caniatáu eu dinistrio drwy ddiffyg gweithredu, Weinidog.

17:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:16 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I begin by thanking Members very much for their welcome of our heritage policies, and their passion and examples of the riches and treasures that we have here in Wales. There have been many important points raised that we will reflect upon in considering the way forward in terms of our policy and strategy, and, indeed, the heritage Bill.

Dechreuaf drwy ddiolch yn fawr iawn i'r Aelodau am eu croeso i'n polisiau treftadaeth, ac am eu brwdfrydedd a'u hengahreiffiau o'r cyfoeth a'r trysorau sydd gennym yma yng Nghymru. Mae llawer o bwyntiau pwysig wedi'u codi y byddwn yn rhoi sylw iddynt wrth ystyried y ffordd ymlaen o ran ein polisi a'n strategaeth, ac, yn wir, y Bil treftadaeth.

Turning to the amendments, we support amendment 1, in line with my previous decision and statement on these matters. I also support amendment 2. We will regularly publish evidence of the impact of heritage policies in reducing poverty in Wales through the First Minister's regular programme for government updates. I am considering what further evaluation might be developed.

I droi at y gwelliannau, rydym yn cefnogi gwelliant 1, yn unol â'm penderfyniad blaenorol a'm datganiad am y materion hyn. Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 2. Byddwn yn cyhoeddi tystiolaeth yn rheolaidd o effaith polisiau treftadaeth o ran lleihau tlodi yng Nghymru drwy raglen reolaidd y Prif Weinidog ar gyfer diweddariadau'r llywodraeth. Rwyf yn ystyried pa werthusiad pellach y gellid ei ddatblygu.

In supporting amendment 3, I have recently received the report commissioned from Hyder Consulting on options appraisals on the establishment of a membership-based Welsh heritage network, and a Welsh heritage trust. I plan to publish it shortly.

Wrth gefnogi gwelliant 3, yn ddiweddar cefais yr adroddiad a gomisiynwyd gan Hyder Consulting am werthusiadau'r opsiynau i sefydlu rhwydwaith treftadaeth yn seiliedig ar aelodaeth i Gymru, ac ymddiriedolaeth treftadaeth i Gymru. Rwyf yn bwriadu ei gyhoeddi cyn bo hir.

I very much appreciate the importance of significant local buildings and the communal value and sense of place that they bring to local communities, but I oppose amendments 4 and 5. Our consultations with stakeholders confirm that there is an appetite in local communities for these matters, but we have to take into account the financial constraints that we face and the difficulties that they cause for local planning authorities. We are looking at new ways of encouraging collaboration between local planning authorities, third sector organisations and communities in addressing these matters. Of course, existing listing criteria already take account of these categories of architectural interest and historic interest at a national level.

Our historic environment is clearly a great asset, enjoyed by both the people of Wales and visitors. Our unique character and texture are evident all around us and our heritage plays a significant role in the promotion of Wales as a destination. It is one of the top reasons to visit cited in Visit Wales's research, with more than 2 million people visiting Cadw sites each year and about the same number visiting National Trust heritage sites. We are ambitious for our Welsh heritage, including our world heritage sites. Engaging people in the historic environment is vital to securing a vibrant future for it. We want people to be inspired by and care for our historic environment. Creative activity is a great way to switch people on to history, and I hope that many will be inspired to participate and celebrate our amazing heritage in the inaugural festival of Welsh history next year, including, I am sure, many Assembly Members.

Rwyf yn sicr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd adeiladau lleol arwyddocaol a'r gwerth cymunedol a'r ymdeimlad o le y maent yn eu rhoi i gymunedau lleol, ond rwyf yn gwrthwynebu gwelliannau 4 a 5. Mae ein hymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid yn cadarnhau bod awydd yn y cymunedau lleol am y materion hyn, ond mae'n rhaid inni ystyried y cyfyngiadau ariannol yr ydym yn eu hwynebu a'r anawsterau y maent yn eu hachosi i awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o annog cydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol, sefydliadau'r trydydd sector, a chymunedau, wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Wrth gwrs, mae'r meini prawf rhestru presennol eisoes yn ystyried y categorïau hyn o ddiddordeb pensaernïol a diddordeb hanesyddol ar lefel genedlaethol.

Mae ein hamgylchedd hanesyddol yn amlwg yn gaffaeliad mawr sy'n cael ei fwynhau gan bobl Cymru a chan ymwelwyr. Mae ein cymeriad a'n gwead unigryw'n amlwg o'n cwmpas ym mhobman ac mae ein treftadaeth yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo Cymru fel cyrchfan. Mae'n un o'r prif resymau i ymweld a nodwyd yn ymchwil Croeso Cymru; mae dros 2 filiwn o bobl yn ymweld â safleoedd Cadw bob blwyddyn a thua'r un nifer yn ymweld â safleoedd treftadaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Rydym yn uchelgeisiol dros dreftadaeth Cymru, gan gynnwys ein safleoedd treftadaeth y byd. Mae ymgysylltu pobl â'r amgylchedd hanesyddol yn hanfodol i sicrhau dyfodol ffyniannus ar ei gyfer. Rydym am i bobl gael eu hysbrydoli gan ein hamgylchedd hanesyddol a gofalu amdano. Mae gweithgaredd creadigol yn fodd gwych o ddenu sylw pobl at hanes, ac rwyf yn gobeithio y caiff llawer eu hysbrydoli i gymryd rhan a dathlu ein treftadaeth anhygoel yn yr ŵyl hanes Cymru gyntaf y flwyddyn nesaf, gan gynnwys, rwyf yn siŵr, llawer o Aelodau'r Cynulliad.

17:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed in accordance with the same Standing Order.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â'r un Rheol Sefydlog.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 3 is agreed in accordance with the Standing Order.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â'r Rheol Sefydlog.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



17:19

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? There are objections. Therefore, I defer any further voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau. Felly, gohiriaf unrhyw bleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## **Cynnig i Gytuno ar Femorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol**

Cynnig NDM5436 Lesley Griffiths

## **Motion to Agree the Welsh Government Memorandum on the Legislative Consent Process**

Motion NDM5436 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Memorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Ionawr 2014.

Notes the Welsh Government's Memorandum on the Legislative Consent Process, which was laid before the National Assembly for Wales on 7 January 2014.

17:20

## **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

We laid the memorandum on the legislative consent process in response to a recommendation by the Constitutional and Legislative Affairs Committee in its inquiry into powers granted to Welsh Ministers by UK laws. I would like to put on record my thanks to the committee for its work in considering and scrutinising the process for UK legislation that makes provision within the Assembly's competence. Our focus, naturally, tends to be on the legislation that we take forward in the Assembly. Our Bills deal with our legislative priorities and they, of course, receive thorough scrutiny by the Assembly. However, our constitutional set-up means that there will be times when it makes sense for UK parliamentary Bills to make provision for Wales as well as England, even though the Assembly would have the power to make those provisions itself.

Cyflwynwyd y memorandwm ar y broses cydsyniad deddfwriaethol mewn ymateb i argymhellid gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn eu hymchwiliad i bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan gyfreithiau'r DU. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r pwyllgor am eu gwaith wrth ystyried, a chraffu ar, y broses ar gyfer deddfwriaeth y DU sy'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae ein pwyslais, yn naturiol, yn tueddu i fod ar y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chyflwyno yn y Cynulliad. Mae ein Biliau'n ymdrin â'n blaenoriaethau deddfwriaethol ac maent, wrth gwrs, yn destun craffu trylwyr gan y Cynulliad. Fodd bynnag, mae ein trefniadaeth gyfansoddiadol yn golygu y ceir adegau pan ei bod yn gwneud synnwyr i Filiau seneddol y DU ddarparu ar gyfer Cymru yn ogystal â Lloegr, er y byddai gan y Cynulliad y pŵer i wneud y darpariaethau hynny ei hun.

Legislative consent is an important principle in the working of our devolution settlement. UK Bills should not make provisions for Wales in devolved areas without this Assembly giving its consent through the legislative consent memorandum process. The same goes for any UK Bill that modifies the Assembly's competence by making amendments to Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. This principle is recognised by the UK Government and set out in devolution guidance notes 9 and 17. It is also reflected in the Assembly's Standing Orders, which place requirements on us, when we lay LCMs, to ensure that the Assembly is given adequate opportunity to scrutinise before giving consent.

Mae cydsyniad deddfwriaethol yn egwyddor bwysig yng ngweithrediad ein setliad datganoli. Ni ddylai Mesurau'r DU wneud darpariaethau ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig heb i'r Cynulliad hwn roi ei ganiatâd drwy'r broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r un peth yn wir am unrhyw Fil yn y DU sy'n addasu cymhwysedd y Cynulliad drwy wneud gwelliannau i Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r egwyddor hon yn cael ei chydabod gan Lywodraeth y DU a'i nodi yn nodiadau cyfarwyddyd datganoli 9 ac 17. Mae hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad, sy'n mynnu ein bod, wrth gyflwyno cynigion cydsyniad deddfwriaethol, yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle digonol i graffu cyn rhoi cydsyniad.

Our memorandum sets out the Welsh Government's approach to the process, based on our experience of operating that convention since 2007. Taking on board recommendations made by the Constitutional and Legislative Affairs Committee in its report, and with the co-operation of the Assembly's Business Committee, we have developed the process that we have today. Communication with the UK Government is key to making the process work effectively, and we need early information about its legislative plans to make the process work effectively. With early warning about UK Bills, we can make well-informed decisions about whether provision should be made in a UK Bill or in our own Assembly Bills and, of course, make sure that the provisions work for Wales.

We communicate as much as possible with Business Committee and with Members to explain the constraints that we are working under and why, in some cases, we need to bring forward LCMs with little time, or sometimes no time, for scrutiny. We are as open as we can be, but there are some things that we can do nothing about, so, if there are late amendments to a Bill at a UK level, we cannot lay an LCM until the amendments have been laid, and we have no control over the timing of the parliamentary process or the date of laying amendments to Bills. Overall, the process that we now have in place works well. We normally try to ensure at least four to six weeks for committee scrutiny prior to Assembly debate and we work hard to lay LCMs quickly so that this amount of time can be allowed.

Our memorandum says that 51 LCMs have been laid. A further four have now been laid, so the total is up to 55, and the Assembly has withheld its consent on four occasions. In two cases, the response to the decisions of the Assembly by the UK Government has meant that the UK Government revised or removed provisions so there was no impact on devolved matters, but, in other cases, the UK Government refused to take on board the Assembly's views; there was a difference of opinion on whether an LCM was required. Of course, this disagreement over competence is something that is more likely to arise under our conferred-powers model of devolution, as Members will know. I strongly support a move to a reserved-powers model, which would give us greater clarity. It is notable, of course, that Scotland has not had the same issues that we have had in relation to LCMs. We look forward, of course, to the Silk report that the commission will produce under Part 2 of its process. I look forward to hearing the thoughts of Members during this debate.

Mae ein memorandwm yn nodi dulliau Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r broses, yn seiliedig ar ein profiad o weithredu'r drefn honno er 2007. Gan dderbyn yr argymhellion a wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad, a gyda chydweithrediad Pwyllgor Busnes y Cynulliad, rydym wedi datblygu'r broses sydd gennym heddiw. Mae cyfathrebu gyda Llywodraeth y DU yn allweddol i sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol, ac mae angen gwybodaeth gynnar am ei chynlluniau deddfwriaethol er mwyn gwneud i'r broses weithio'n effeithiol. Gyda rhybudd cynnar am Filiau'r DU, gallwn wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa un a ddylid darparu mewn Bil y DU neu yn ein Biliau ein hunain yn y Cynulliad ac, wrth gwrs, gwneud yn siŵr bod y darpariaethau'n gweithio i Gymru.

Rydym yn cyfathrebu cymaint ag y bo modd gyda'r Pwyllgor Busnes a gydag Aelodau i egluro'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar ein gwaith a pham, mewn rhai achosion, mae angen inni gyflwyno cynigion cydsyniad deddfwriaethol heb lawer o amser, neu weithiau heb ddim amser ar gyfer craffu. Rydym mor agored ag y gallwn fod, ond mae rhai pethau na allwn wneud dim amdanynt, felly, os bydd newidiadau hwyr i Fil ar lefel y DU, ni allwn osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol nes bod y gwelliannau wedi eu gosod, ac nid oes gennym unrhyw reolaeth dros amseriad y broses seneddol, na dyddiad gosod gwelliannau i Filiau. At ei gilydd, mae'r broses sydd gennym ar waith ar hun o bryd yn gweithio'n dda. Fel arfer, rydym yn ceisio sicrhau bod pwyllgor yn cael o leiaf bedair i chwe wythnos i graffu cyn cael dadl yn y Cynulliad ac rydym yn gweithio'n galed i osod cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn gyflym fel y gellir caniatáu'r cyfnod hwn.

Mae ein memorandwm yn dweud fod 51 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cael eu gosod. Mae pedwar arall wedi eu gosod erbyn hyn, felly mae'r cyfanswm wedi cyrraedd 55, ac mae'r Cynulliad wedi atal ei gydsyniad ar bedwar achlysur. Mewn dau achos, golygodd ymateb Llywodraeth y DU i benderfyniadau'r Cynulliad fod Llywodraeth y DU wedi diwygio neu ddileu darpariaethau fel nad oeddent yn effeithio ar faterion datganoledig, ond, mewn achosion eraill, gwrthododd Llywodraeth y DU gyd-fynd â barn y Cynulliad; roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Wrth gwrs, mae'r anghytuno hwn dros gymhwysedd yn rhywbeth sy'n fwy tebygol o godi o dan ein model datganoli rhoi pwerau, fel y gŵyr yr Aelodau. Rwyf yn cefnogi'n gryf symud at fodel cadw pwerau, a fyddai'n rhoi mwy o eglurder inni. Mae'n werth nodi, wrth gwrs, nad yw'r Alban wedi wynebu'r un problemau â ni o ran cynigion cydsyniad deddfwriaethol. Rydym yn edrych ymlaen, wrth gwrs, at yr adroddiad Silk y bydd y comisiwn yn ei gynhyrchu o dan Ran 2 ei broses. Edrychaf ymlaen at glywed safbwyntiau Aelodau yn ystod y ddadl hon.

17:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I thank the First Minister for introducing the debate and welcome the debate today. I think that it is very important that we have a clear statement and a debate on this very important principle and practice. As the First Minister said, the debate stems from a recommendation in the committee's 2012 report, which looked at the powers granted to Welsh Ministers in UK laws. We are very grateful to the First Minister for sharing a draft of the memorandum with the committee during the course of our follow-up inquiry last year.

The memorandum identifies some important principles, and it is of considerable benefit to have them highlighted clearly in this document. I commend the memorandum to all Members. I also thought that the First Minister's speech was very useful in setting it in a fuller context. In particular, the memorandum states the presumption that the National Assembly should legislate for Wales on devolved matters. Having secured our own primary legislative powers, this is an important point and is redoubled, and it really must lie at the heart of the devolution settlement. We heard from the First Minister that this has been at the heart of the Scottish settlement. Now, I think that we are clearly emphasising the place and the role that it has in the Welsh settlement.

It is, of course, practicable and appropriate for the UK Government to legislate within the competence of the National Assembly in certain circumstances. Nevertheless, as we said in our follow-up inquiry report last year, we will monitor closely the Welsh Government's use of UK Bills to deliver its policy objectives. We will also challenge the Welsh Government on its approach when we consider that it is necessary to do so. For example, in our report last year we said that we were unconvinced by the Welsh Government's approach to the use of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill to deliver its policy objectives in relation to the control of dogs, particularly having previously consulted on a draft Bill.

I note that, in the Government's response to our report, the Government takes a very different attitude, but I will just say this: I think that it is helpful when the Government does state its reasons and justifies them so fully. I do not think that it mitigates what we put in our report, but I do think that to have that dialogue on the record is very helpful, particularly on those occasions when we are at some difference on what is best practice.

The memorandum before us identifies four occasions in which the Assembly has withheld its consent. Two of those occurrences led to the UK proposals being amended—that is obviously the best outcome as far as we are concerned—and there were two instances where the UK Government felt unable to amend its proposals in response to the Assembly's objections. These related to the Enterprise and Regulatory Reform Bill, abolishing the Agricultural Wages Board, and the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill, relating specifically to a Schedule 7 exception.

Diolch, Lywydd. Diolchaf i'r Prif Weinidog am gyflwyno'r ddadl ac rwyf yn croesawu'r ddadl heddiw. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael datganiad clir a dadl am yr egwyddor a'r arfer pwysig iawn hyn. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae'r ddadl yn deillio o argymhelliad yn adroddiad 2012 y pwyllgor, a oedd yn edrych ar y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn neddfau'r DU. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Prif Weinidog am rannu drafft o'r memorandwm gyda'r pwyllgor yn ystod ein hymchwiliad dilynol y llynedd.

Mae'r memorandwm yn nodi rhai egwyddorion pwysig, ac mae o fudd sylweddol eu bod wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon. Rwyf yn cymeradwyo'r memorandwm i'r holl Aelodau. Roeddwn hefyd yn meddwl bod araith y Prif Weinidog yn ddefnyddiol iawn o ran ei roi mewn cyddestun llawnach. Yn benodol, mae'r memorandwm yn nodi'r rhagdybiaeth y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu dros Gymru ar faterion datganoledig. Ar ôl sicrhau ein pwerau deddfu sylfaenol ein hunain, mae hwn yn bwyt pwysig ac yn cael ei ailadrodd, ac mae'n rhaid iddo'n sicr fod wrth wraidd y setliad datganoli. Clywsom gan y Prif Weinidog fod hyn wedi bod wrth wraidd setliad yr Alban. Nawr, rwyf yn credu ein bod yn pwysleisio'n glir ei le a'i swyddogaeth yn setliad Cymru.

Wrth gwrs, mae'n ymarferol ac yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol o dan amgylchiadau penodol. Serch hynny, fel y dywedasom yn adroddiad ein hymchwiliad dilynol y llynedd, byddwn yn monitro'n agos sut y mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio Biliau'r DU i gyflawni ei hamcanion polisi. Byddwn hefyd yn herio dulliau Llywodraeth Cymru pan fyddwn yn ystyried bod angen gwneud hynny. Er enghraifft, yn ein hadroddiad y llynedd dywedasom nad oeddem wedi'n hargyhoeddi gan ddulliau Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona i gyflawni ei hamcanion polisi o ran rheoli cŵn, yn enwedig ar ôl ymgynghori'n flaenorol ar Fil drafft.

Sylwaf fod gan y Llywodraeth agwedd wahanol iawn wrth ymateb i'n hadroddiad, ond rwyf am ddweud hyn: rwyf yn meddwl ei bod yn ddefnyddiol pan fo'r Llywodraeth yn datgan ei rhesymau ac yn eu cyfiawnhau mor llawn. Nid wyf yn credu bod hynny'n lliniaru'r hyn a roesom yn ein hadroddiad, ond rwyf yn credu bod cofnodi'r drafodaeth honno'n ddefnyddiol iawn, yn enwedig ar yr adegau hynny pan fyddwn yn anghytuno am yr hyn sy'n cynrychioli arfer gorau.

Mae'r memorandwm sydd ger ein bron yn nodi pedwar achlysur pryd mae'r Cynulliad wedi atal ei gydsyniad. Arweiniodd dau o'r digwyddiadau hynny at ddiwygio cynigion y DU—yn amlwg, dyna'r canlyniad gorau o'n safbwynt ni—ac roedd dau achos lle'r oedd Llywodraeth y DU yn teimlo na allai ddiwygio ei chynigion mewn ymateb i wrthwynebiadau'r Cynulliad. Roedd y rhain yn ymwneud â'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, a'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona, yn ymwneud yn benodol ag eithriad yn Atodlen 7.

It is not surprising that differing interpretations of the Assembly's legislative competence have been involved in both cases. My own personal view would echo that of the First Minister, in that this does highlight the relative lack of clarity that we do struggle with under our settlement, which is in contrast to Scotland and Northern Ireland. However, I do think that it is fair, as the memorandum emphasises, and as the committee heard, to stress that, broadly, there is good co-operation between the Welsh Government and the UK Government on most matters.

That brings me to the wider point that the First Minister has referred to in his recent statement on the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill. I agree with the First Minister that any amendment to the content of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 should be fully discussed and agreed with the Welsh Government and the Assembly because of its significance to our future devolution settlement. Any change to the wording of the devolution settlement in Wales, of whatever nature, should receive the endorsement of the UK Parliament and the National Assembly to give it full constitutional legitimacy. That is clearly the gold standard. In my view, such an approach would also be in keeping with the spirit of devolution guidance note 17 on modifying the competence of the National Assembly.

I do see, Presiding Officer, that I have now run out of time. I will just close by endorsing the final sentence of the memorandum, and the Welsh Government's commitment not only to fully observing the process outlined in the memorandum, but also ensuring that the Assembly has proper opportunities to give these matters the full and careful consideration that they deserve.

Nid yw'n syndod bod y naill achos a'r llall wedi cynnwys dehongliadau gwahanol o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Byddai fy marn bersonol fy hun yn adleisio un y Prif Weinidog, sef bod hyn yn tynnu sylw at y diffyg eglurder cymharol sydd gennym o dan ein setliad, sy'n wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, rwyf yn credu ei bod yn deg, fel y mae'r memorandwm yn ei bwysleisio, ac fel y clywodd y pwyllgor, i bwysleisio, yn gyffredinol, y ceir cydweithrediad da rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y rhan fwyaf o faterion.

Mae hynny'n dod â mi at y pwynt ehangach y mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio ato yn ei ddatganiad diweddar am y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma. Rwyf yn cytuno â'r Prif Weinidog y dylai unrhyw welliant i gynnwys Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gael ei drafod yn llawn a'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad oherwydd ei arwyddocâd i'n setliad datganoli yn y dyfodol. Dylai unrhyw newid i eiriad y setliad datganoli yng Nghymru, o ba bynnag natur, gael cymeradwyaeth Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfreithlondeb cyfansoddiadol llawn iddo. Yn amlwg, dyna'r safon aur. Yn fy marn i, byddai proses o'r fath hefyd yn cyd-fynd ag ysbryd nodyn cyfarwyddyd datganoli 17 ar addasu cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Rwyf yn gweld, Lywydd, bod fy amser bellach wedi dod i ben. Rwyf am gloi drwy gymeradwyo brawddeg olaf y memorandwm, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru nid yn unig i arsylwi'r broses a amlinellir yn y memorandwm yn llawn, ond hefyd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfleoedd priodol i roi'r ystyriaeth lawn a gofalus, y maent yn ei haeddu, i'r materion hyn.

17:29

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ategu'r hyn y mae Cadeirydd y pwyllgor yr wyf yn gwasanaethu arno wedi'i ddweud, yn enwedig ynghylch unrhyw newid sydd yn yr arfaeth ar gyfer Atodlen 7 a'r ffordd y bydd y broses ddatganoli yn digwydd yn dilyn Silk a Bil drafft Cymru.

Mae'r cynnig heddiw yn amserol iawn. Mae'n cyd-daro, fel mae'n digwydd, â chwestiwn sy'n cael ei drafod yn y Goruchel Lys ar hyn o bryd ynglŷn â'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru), sydd wedi cael cymeradwyaeth y lle hwn ac a ddeilliodd yn uniongyrchol o'r broses rydym yn ei thrafod heddiw. Trafodwyd cynnig cydsyniad deddfwriaethol gan y Cynulliad ynglŷn â diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn Lloegr a Chymru. Roedd y Cynulliad o'r farn nad oedd yn briodol bod hyn yn cael ei wneud yn San Steffan, ac felly penderfynodd y Cynulliad i beidio â chefnogi'r LCM arbennig hwnnw. Roedd perffaith ryddid i San Steffan fwrw ymlaen gyda'r diddymu, wrth gwrs, ac felly roedd rhaid ffurfio Bil ar wahân i Gymru, sydd, erbyn hyn, fel y dywedais, yn y llys yn cael ei benderfynu.

I endorse what the Chair of the committee that I serve upon has said, particularly in terms of any changes in the pipeline to Schedule 7 and the way in which the devolution process will happen following Silk and the draft Wales Bill.

Today's motion is very timely. It actually relates to a question that is currently being discussed in the Supreme Court regarding the Agricultural Sector (Wales) Bill, which was approved in this place and emerged directly from the process that we are discussing today. The Assembly did consider an LCM on the abolition of the Agricultural Wages Board in England and Wales. The Assembly was of the opinion that it was not appropriate that this was being done in Westminster, and therefore the Assembly decided not to support that particular LCM. Westminster was of course free to proceed with the abolition and therefore a Bill for Wales needed to be drawn up, which is currently being decided upon in the court, as I said.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Felly, mae'r penderfyniad rydym yn ei wneud heddiw—er bod hon efallai yn ddafl braidd yn ddeddfwriaethol a chyfansoddiadol—yn ymwneud yn uniongyrchol â bywydau bob dydd pobl yng Nghymru. Un o'r pethau nad yw pobl wedi sylweddoli'n llwyr ers sefydlu'r Cynulliad yw hyn: er y gall y Cynulliad, yn enwedig ers y refferendwm, ddeddfu mewn 20 maes, nid yw hynny'n stopio San Steffan rhag deddfu yn y meysydd hynny ychwaith. Felly, gall dau gorff, neu ddwy Senedd, ddeddfu yn y meysydd hynny o hyd.

Rhoddaf enghraifft arall i chi: cyfeiriodd David Melding at Ddeddf yn ymwneud â rheoli cŵn. Roedd nifer ohonom yn y Cynulliad yn awyddus i fwrw ymlaen gyda deddfwriaeth Gymreig yn ymwneud â rheoli cŵn, ond penderfyniad y Llywodraeth oedd dewis llwybr San Steffan a chael cynnig cydsyniad deddfwriaethol i fwrw ymlaen gyda hynny. Mae perffaith ryddid i'r Llywodraeth wneud hynny, ond yng nghyd-destun marwolaeth heddiw ym Mhontyberem, o bosibl oherwydd ymosodiad gan gi, gwelir bod deddfu fan hyn yn bwysig i fywydau bob dydd pobl. Mae'r broses rydym yn ei dewis i ddeddfu yn bwysig, felly, i fywydau bob dydd pobl.

Rwyf am sôn am ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllgor a'r hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i amlinellu heddiw. Rwy'n croesawu'r memorandwm hwn ac rwy'n meddwl ei fod yn gosod allan y confensiwn sy'n bodoli ar hyn o bryd—confensiwn a oedd arfer cael ei alw'n gonfensiwn Sewel. Mae'n gosod allan yn glir iawn ym mha gyd-destun y bydd disgwyl inni gydsynio â deddfu yn San Steffan ac ym mha ffordd y bydd y Llywodraeth yn penderfynu deddfu yn y maes hwnnw. Rwy'n meddwl bod hyn yn bwysig oherwydd ein bod ni'n adeiladu cyfansoddiad a llyfr statud fan hyn, fesul tipyn. Mae'n bwysig, felly, bod gennym rywbeth ar gof a chadw sy'n gosod allan dealltwriaeth y Llywodraeth o'r broses hon mewn ymateb i waith gan y pwyllgor. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n meddwl bod yr hyn sy'n cael ei amlinellu gan y broses hon yn bwysig iawn wrth inni fwrw ymlaen gyda Bil newydd Cymru.

That is because the memorandum from the Welsh Government, though welcome, also underlines the limitations that exist in our constitutional settlement and are part of a wider challenge as we move, as I think we should, to a reserved powers model of devolution from Westminster. That is something that, of course, does not mitigate—or certainly does not get away with—the need for a legislative consent process, but it does remove some of the ragged edges that we see at the moment in the way that we have refused some LCMs in this place, accepted others and have seen others in the process leading to cases in the Supreme Court. Whatever happens going forward, the new devolved model for Wales should be based on a reserved powers model for the Assembly and should ensure that it is not in any way so huge and unwieldy as compared to that of our fellow compatriots in Scotland and Northern Ireland.

Therefore, the decision that we are making today—although this debate is perhaps a slightly legislative and constitutional debate—relates directly to the everyday lives of the people of Wales. One of the things that people have not quite realised since the inception of this Assembly is this: although the Assembly, particularly since the referendum, can legislate in 20 fields, that does not stop Westminster from legislating in those areas either. Therefore, two bodies, or two Parliaments, can still legislate in those areas.

I will give you another example: David Melding referred to legislation related to the control of dogs. Many of us in the Assembly were eager to proceed with Welsh legislation on the control of dogs, but the Government's decision was to choose the Westminster route and to have an LCM to move forward with that. The Government is perfectly entitled to do that, but in the context of the death reported today in Pontyberem, which possibly related to an attack by a dog, legislating here is shown to be important to the everyday lives of the people of Wales. The process that we choose is therefore important to the everyday lives of the people of Wales.

I want to mention the Government's response to the committee's report and what the First Minister has outlined today. I welcome the memorandum and I think that it does set out the convention that currently exists—a convention that used to be called the Sewel convention. It sets out very clearly the context in which we should consent to Westminster legislation and in what ways the Government decides to legislate in that area. I think that this is important because we are building a constitution and a statute book here, bit by bit. It is therefore important that we have something on the record that sets out the Government's understanding of this process in response to the committee's work. In that context, I think that what is outlined by this process is very important as we proceed with the new Wales Bill.

Mae hynny oherwydd bod y memorandwm gan Lywodraeth Cymru, er bod croeso iddo, hefyd yn tanlinellu'r cyfyngiadau sy'n bodoli yn ein setliad cyfansoddiadol ac sy'n rhan o her ehangach wrth inni symud, fel y credaf y dylem, at fodel cadw pwerau o ddatganoli oddi wrth San Steffan. Mae hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, nad yw'n lliniaru—neu'n sicr nad yw'n dileu—yr angen am broses cydsyniad deddfwriaethol, ond mae'n cael gwared ar rai o'r ymylon carpiog a welwn ar hyn o bryd yn y ffordd yr ydym wedi gwrthod rhai cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn y lle hwn, wedi derbyn eraill ac wedi gweld eraill yn y broses sy'n arwain at achosion yn y Goruchaf Lys. Beth bynnag fydd yn digwydd wrth fynd ymlaen, dylai'r model datganoledig newydd i Gymru fod yn seiliedig ar fodel cadw pwerau gyfer y Cynulliad a dylai sicrhau nad yw mor enfawr ac anhylaw mewn unrhyw ffordd o'i gymharu â rhai o'n cydwladwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Eluned Parrott [Bywgraffiad Biography](#)

I would also like to thank the Welsh Government for publishing the memorandum and for bringing forward this debate today in response to the Constitutional and Legislative Affairs Committee's request for it to do so. I think that it is important that we keep sight of our processes, particularly what impact they have on our ability to deliver the will of this Assembly to benefit the people of Wales. It is helpful to have the Government's understanding and explanation of how the Sewel convention works as it is applied to our context.

I do not want to repeat what has already been said, but I want to talk about when we have problems and what those issues might be. We are all aware that it is a major concern for Members when significant issues are raised via this particular method because of the potential for the proper scrutiny of such issues to be curtailed. Under normal circumstances, there is time for some scrutiny through our committee structures, but there are occasions where that has not been the case. The potential for curtailing scrutiny can happen for many reasons, perhaps due to the difference between the term times of the Assembly and Westminster but, more obviously, when legislation in Westminster is amended at a late stage and, therefore, a LCM is brought forward very late, as was the case recently with regard to the LCM on smoking in cars when children are present.

This is not just about the Assembly's processes. It is also about how Westminster uses its processes and it is right that that is a discussion between the two legislatures. I discussed this particular issue with Tom Brake, the Deputy Leader of the House of Commons, this afternoon when he was visiting the Assembly. It is clear that while there is a will from both Governments to ensure that the process works as smoothly as possible, I, too, look forward to any recommendations from part 2 of the Silk commission as to how this could be improved and how those discussions between the two legislatures could be taken forward. There is a temptation to suggest that this is a problem of the conferred powers model that we have in Wales. There are lots of problems with the conferred powers model, but I would not have thought that this is the biggest of them. It affects Scotland too, of course, but, as Simon Thomas rightly stated, this is a consequence of Westminster retaining powers while also conferring them or devolving them more fully to Scotland, as has been said. Under that system, there will always be a need for a debate between the two legislatures and there will always be a need for mechanisms. I thank the Welsh Government for setting out its understanding of how it will work in the future and I hope that it will continue to update us as to how that process is working in practice over a period of time.

Hoffwn hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am gyhoeddi'r memorandwm ac am gyflwyno'r ddaid hon heddiw mewn ymateb i gais y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol iddi wneud hynny. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn cadw golwg ar ein prosesau, yn enwedig ar eu heffaith ar ein gallu i gyflawni ewyllys y Cynulliad hwn er budd pobl Cymru. Mae'n ddefnyddiol bod y Llywodraeth yn deall ac yn egluro sut y mae confensiwn Sewel yn gweithio fel y'i defnyddir yn ein cyd-destun ni.

Nid wyf am ailadrodd yr hyn sydd eisoes wedi'i ddweud, ond rwyf yn dymuno siarad am bryd y gallem wynebu problemau a beth allai'r materion hynny fod. Rydym i gyd yn ymwybodol ei fod yn destun pryder mawr i Aelodau pan gaiff materion o bwys eu codi drwy gyfrwng y dull penodol hwn oherwydd y gallai gwtogi ar graffu priodol ar faterion o'r fath. O dan amgylchiadau arferol, mae amser ar gael i wneud rhywfaint o graffu drwy ein strwythurau pwyllgor, ond cafwyd rhai achlysuron pan na fu hynny'n wir. Gall y potensial i gwtogi ar graffu ddigwydd am nifer o resymau, efallai oherwydd y gwahaniaeth rhwng amseroedd tymor y Cynulliad a San Steffan, ond, yn fwy amlwg, pan gaiff deddfwriaeth yn San Steffan ei diwygio'n hwyr ac, felly, y cyflwynir cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn hwyr iawn, fel a ddigwyddodd yn ddiweddar o ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar ysmegu mewn ceir pan fo plant yn bresennol.

Nid dim ond mater o brosesau'r Cynulliad yw hyn. Mae hefyd yn ymwneud â sut y mae San Steffan yn defnyddio ei brosesau ac mae'n iawn bod hynny'n drafodaeth rhwng y ddwy ddeddfwrfa. Trafodais y mater penodol hwn gyda Tom Brake, Dirprwy Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, y prynhawn yma pan oedd yn ymweld â'r Cynulliad. Mae'n amlwg, er bod y naill Lywodraeth a'r llall yn dymuno sicrhau bod y broses yn gweithio mor llyfn ag y bo modd, fy mod i, hefyd, yn edrych ymlaen at unrhyw argymhellion o ran 2 comisiwn Silk ynghylch sut y gellid gwella hyn a sut y gellid bwrw ymlaen â'r trafodaethau hynny rhwng y ddwy ddeddfwrfa. Mae'n demtasiwn i awgrymu bod hyn yn un o broblemau'r model pwerau a roddir sydd gennym yng Nghymru. Mae llawer o broblemau gyda'r model pwerau a roddir, ond ni fyddwn wedi meddwl mai hon yw'r fwyaf ohonynt. Mae'n effeithio ar yr Alban hefyd, wrth gwrs, ond, fel y dywedodd Simon Thomas yn gywir, mae hyn o ganlyniad i San Steffan yn cadw pwerau tra ei fod yn eu rhoi neu'n datganoli'n llawnach i'r Alban ar yr un pryd, fel y dywedwyd. O dan y system honno, bydd bob amser angen dadl rhwng y ddwy ddeddfwrfa a bydd bob amser angen mecanweithiau. Diolchaf i Lywodraeth Cymru am nodi ei dealltwriaeth o sut y bydd yn gweithio yn y dyfodol, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch sut y mae'r broses honno'n gweithio yn ymarferol dros gyfnod.

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddaid.



**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r ddadl hon. O ran rhai o'r pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud, rwyf wedi gwrandao ar yr hyn a ddywedodd David Melding ac Eluned Parrot, a gwnaeth Simon Thomas sawl pwynt y bydd yn gorfod cael eu hystyried yn y dyfodol. Yn gyntaf, mae yna adegau lle mae'n iawn neu'n ymarferol inni ganiatáu cynnig cydsyniad deddfwriaethol er mwyn i Weinidogion gael y pwerau y byddai'r Cynulliad eisiau rhoi i Weinidogion yn y man hwn yn y dyfodol. Er enghraifft, o ran ysmegu mewn ceir os bydd plant yn bresennol, y dewis oedd sicrhau bod Gweinidogion yn cael y grym i wneud hynny drwy Ddeddf gan San Steffan neu aros i wneud hynny yn y Cynulliad. Nid oedd llawer o bwyt gwneud hynny, felly roedd y Cynulliad yn gytûn ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Mae eironi pan fydd y sefyllfa'n codi—ac mae hyn wedi digwydd—o Weinidog yn cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cynulliad ac yna'n gwahodd y Cynulliad i bleidleisio yn erbyn y cynnig hwnnw. Mae hynny'n dangos beth yw'r broblem gyda'r setliad datganoli presennol sydd gennym ac mae'n dangos pa mor bwysig ydyw i sicrhau bod y setliad nesaf yn llawer mwy cadarn a chilir na'r un sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni weithio o fewn y setliad sydd gennym ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio fod y memorandwm yn rhoi mwy o fanylion i'r Aelodau ynglŷn â barn y Llywodraeth am y broses ar hyn o bryd ac yn sicrhau y bydd y broses yn cael ei chryfhau, pan fydd angen gwneud hynny, yn y dyfodol.

I thank everyone who has taken part in this debate. In terms of some of the points that have been made, I listened to what David Melding and Eluned Parrott said, and Simon Thomas made several points that will need to be considered in the future. First, there are cases where it is right or practical for us to allow an LCM so that Ministers have powers that the Assembly would want to give to Ministers in this place in the future. For example, in terms of smoking in cars when children are present, the choice was to ensure that Ministers had the power to do that through a Westminster Act or wait to do that in the Assembly. There was no point doing that, therefore the Assembly was agreed on the way forward.

There is irony when a situation arises—and this has happened—of a Minister introducing an LCM to the Assembly and then inviting the Assembly to vote against that motion. That shows what the problem is in terms of the current devolution settlement that we have and it shows how important it is to ensure that the next settlement is a much more robust and clear one than the one that exists at present. However, we have to work within the current settlement that we have. I hope that the memorandum gives more details to Members about the Government's opinion on the process at present and ensures that the process is strengthened, when necessary, in the future.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff y cynnig ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Business Committee agreed that voting will take place after the last item of business. I propose to move straight to the vote, unless anybody wishes for the bell to be rung, I will proceed directly to voting time.

**Cyfnod Pleidleisio**

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5434.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5434.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

Cynnig NDM5434 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y pleidleisio'n digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cynigiau symud yn syth at y bleidlais, oni bai bod unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu, rwyf am symud yn syth at y cyfnod pleidleisio.

**Voting Time**

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5434.](#)

*Amendment not agreed: For 24, Against 26, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5434.

*Amendment not agreed: For 24, Against 26, Abstain 0.*

Motion NDM5434 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnydd Llywodraeth Cymru hyd yma o safbwynt ei Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol ynghyd â'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar 'dyfodol ein gorffennol'.

Notes the Welsh Government's progress to date on its Historic Environment Strategy and next steps following the consultation on 'the future of our past'.

Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen ag uno Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a CADW.

Welcomes the Welsh Government's decision not to proceed with the merger of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and CADW.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi tystiolaeth yn rheolaidd o effaith polisiâu treftadaeth ar leihau tlodi yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to regularly publish evidence of the impact heritage policies have in reducing poverty in Wales.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith a wnaed i greu Cynghrair Treftadaeth i Gymru neu ymddiriedolaeth cadwraeth treftadaeth genedlaethol.

Calls on the Welsh Government to provide an update on work undertaken to develop a Welsh Heritage Alliance or national heritage preservation trust.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5434 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5434 as amended.

*Derbyniwyd NDM5434 fel y'i diwygiwyd: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5434 as amended agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

17:40

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

That brings today's business to a close.

Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:40.*

*The meeting ended at 17:40.*